



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 19EG MEHEFIN, 2025

(NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB A BWRIEDIR CAEL TORIAD I GINIO AM 12.30YP – 1.30YP)

Lleoliad

Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 11 Mehefin 2025)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Beca Brown
Iwan Huws
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Huw Rowlands
Rhys Tudur

Jina Gwyrfai
Dawn Lynne Jones
Olaf Cai Larsen
John Pughe
Dyfrig Siencyn
Sian Williams

Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Beth Lawton
John Pughe Roberts

Gwilym Jones
Dewi Owen
Richard Glyn Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

AELODAU CYFETHLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

[sedd wag]	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
{sedd wag}	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd
Gweno Glyn Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor
Sharon Roberts	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon

Heb Bleidlais:

Elise Poulter	NEU
Gwilym Jones	NASUWT

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025-2026.

2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025-2026.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

6 - 28

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2025 fel rhai cywir.

7. GRŴP TASG A GORFFEN POLISI IAITH ADDYSG DRAFFT

29 - 44

Cyflwyno argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen o ran geiriad y polisi drafft.

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

45 - 120

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Addysg.

Bwriedir cael toriad i ginio am 12.30yp – 1.30yp

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ECONOMI

121 - 166

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Economi.

10. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET CYLLID

167 - 201

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Cyllid.

11. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL A'R GYMRAEG

202 - 262

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adrannau Gwasanaethau

Corfforaethol a Chyfreithiol.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 10/04/25

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gwynfor Owen a Sian Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Elise Poulter (NEU) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 - Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant) a Steffan Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ieuencid).

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 - Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 - Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Rhys Meredydd Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd), Iwan Gwilym Evans (Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol Uwchradd), Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd) a'r Cynghorwyr:- Anne Lloyd Jones, Elfed Williams (Aelodau Pwyllgor Iaith).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Gwilym Iwan Huws; Gwilym Jones (NASUWT).

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:-

- Aelod newydd ar y pwyllgor - Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).
- Aelodau o'r Pwyllgor Iaith a wahoddwyd fel sylwedyddion ar gyfer eitem 7.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gwilym Iwan Huws a Gwilym Jones (NASUWT).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 5

- Datganodd y Cynghorydd Dawn Lynne Jones fuddiant personol am ei bod yn ymwneud â Chlwb Pobl Ifanc Porthi Dre.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Eitem 6

- Datganodd y Cynghorydd Gwynfor Owen fuddiant personol oherwydd ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Hafod Lon.
- Datganodd y Cynghorydd Dawn Lynne Jones fuddiant personol oherwydd bod ganddi wyrion sy'n mynychu Ysgol Pendalar, ac oherwydd natur ei swydd yn cefnogi pobl ifanc gyda CDU.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

- Datganodd Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) fuddiant personol oherwydd bod ganddi nai yn mynychu ysgol prif lif yng Ngwynedd sy'n derbyn darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd y swyddog o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Eitem 7

- Datganodd Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor) fuddiant personol oherwydd bod ganddi berthynas agos â chydawdur y polisi drafft.
- Datganodd Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) fuddiant personol oherwydd ei bod yn gynghorydd addysg i Esgobaeth Wrecsam.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2025 fel rhai cywir.

5. GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Addysg yr adroddiad gan nodi bod y Gwasanaeth Ieuencid wedi bod ar daith sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r ddarpariaeth wedi'i hailfodelu'n sylweddol yn 2018. Eglurwyd bod argyfwng COVID wedi cael effaith sylweddol ar anghenion pobl ifanc ac wedi cael dylanwad amlwg ar y gwasanaeth, fel pob gwasanaeth arall. Mynegwyd balchder bod y gwasanaeth yn derbyn y sylw priodol gan y Pwyllgor yma. Pwysleisiwyd rôl allweddol y Gwasanaeth Ieuencid yng ngwaith cefnogi pobl ifanc Gwynedd.

Mynegwyd barn nad ydynt yn manteisio digon ar y gwaith mae'r gwasanaeth ieuencid yn ei wneud, nac ar yr effaith a'r ardrawiad cadarnhaol y gall gwaith ieuencid ei gael ar fywydau pobl ifanc. Cyfeiriwyd at Gynhadledd Gwaith Ieuencid Cymru yng Nghaerdydd, lle roedd gan Wasanaeth Ieuencid Gwynedd bresenoldeb amlwg, a chafwyd cyfle i rannu arferion da. Nodwyd bod nosweithiau gwobrwyo wedi'u cynnal gan y gwasanaeth ym Mangor i gydnabod llwyddiannau pobl ifanc ar draws y sir.

Mynegwyd bod pobl ifanc Gwynedd yn arbennig, er gwaethaf y bai a roddir arnynt yn aml. Pwysleisiwyd nad yw'r heriau a wynebier gan rai pobl ifanc yn adlewyrchiad o fethiant, ond yn dangos yr angen am gymorth, ac mai dyma'r flaenoriaeth i'r Adran Addysg.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd clywed lleisiau pobl ifanc ac eglurwyd bod y Gwasanaeth Ieuencid yn ymgynghori'n helaeth â nhw. Nodwyd bod sefydlu Fforwm Ieuencid Gwynedd yn gam cadarnhaol, gyda swyddog penodol yn arwain ar y gwaith i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn rhan o waith ehangach y Cyngor.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 i'r adroddiad 'Canfyddiadau Holiadur Pobl Ifanc 2025'. Nodwyd bod 25% o bobl ifanc yn anghyfarwydd â'r gwasanaeth, gan amlygu'r angen am fwy o waith codi ymwybyddiaeth. Amlygwyd bod y prif resymau dros gymryd rhan yn y gwasanaethau ieuencid yn cynnwys cael mwynhau a threulio amser gyda ffrindiau. Nodwyd bod dim ond 17% yn nodi diffyg diddordeb fel rheswm dros beidio cymryd rhan, sy'n awgrymu awydd clir gan bobl ifanc i ymgysylltu.

Eglurwyd bod 75% o'r bobl ifanc a holwyd yn teimlo bod gan y gwasanaeth rôl bwysig yn y gymuned, a chyfran debyg yn gweld rôl i'r gwasanaeth mewn ysgolion. Nodwyd nad yw'n glir a ddylai'r gwasanaeth fod yn gymunedol yn unig neu hefyd yn rhan o'r ddarpariaeth ysgolion, ond bod y data'n dangos awydd i'w gael yn y ddau le.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Holwyd sut y gellid sicrhau bod y Gwasanaeth Ieuencid yn weladwy yn y gymuned yn ogystal ag yn yr ysgol, gan ofyn sut y gellid estyn allan yn fwy effeithiol at bobl ifanc yn y gymuned er mwyn sicrhau bod lleisiau pawb yn cael eu clywed. Mynegwyd pryder mai canran gymharol fach o bobl ifanc oedd wedi ymateb i'r holiadur, gan godi'r cwestiwn ynghylch sut y gellid cyrraedd y gweddill. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod dymuniad i weld cyfran uwch o bobl ifanc yn ymateb i'r holiadur, er mwyn adlewyrchu barn gynrychioliadol ar draws y sir.
- Bod y gwaith penodol sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran ymgysylltu â phobl ifanc, gan gynnwys drwy'r Fforwm Ieuenctid, yn debygol o arwain at adroddiad llawer mwy cynhwysfawr ac dibynadwy o fewn y flwyddyn nesaf.
- Bod y gwasanaeth yn gweithredu ar draws cymunedau Gwynedd, ond bod heriau penodol yn wynebu'r sir oherwydd ei daearyddiaeth eang.
- Bod recriwtio staff yn parhau i fod yn her, ac y gall hyn waethgu'r sefyllfa mewn ardaloedd mwy gwasgaredig lle mae'n anoddach sicrhau darpariaeth gyson.
- Bod angen gwneud popeth o fewn gallu'r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r her, er ei bod yn un gymhleth.

Holodd yr aelod ymhellach ynghylch sut y gellid sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws y sir gyfan, gan gyfeirio'n benodol at Dde Meirionnydd fel ardal sy'n wynebu trafferthion gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a recriwtio. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod aelod o staff newydd wedi'i recriwtio yn Nhywyn ac yn dechrau'r wythnos ganlynol, gyda'r gobaith y byddai hyn yn mynd i'r afael ag anghenion lleol yn yr ardal honno.
- Bod chynlluniau i sefydlu clwb ieuenctid yn yr orsaf drenau i ddarparu ar gyfer pobl ifanc yn gadael yr ysgol.
- Bod y Fforwm Ieuenctid yn weithredol bellach ym Meirionnydd, Dwyfor ac Arfon, ac y gwneir gwaith i sicrhau adborth gan gynrychiolaeth mor eang â phosib o bobl ifanc. Mynegwyd y gobaith y bydd y gwaith hwn yn datblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.
- Bod y fforwm yn canolbwyntio ar y gwasanaeth ieuenctid yn unig, ond yn edrych ar y darlun ehangach drwy gynnwys adborth gan ysgolion, y trydydd sector, a lleisiau'r bobl ifanc eu hunain, yn enwedig y rhai na fyddent fel arfer yn mynegi barn drwy sianeli ffurfiol.

Cwestiynwyd yr angen i ail-fodelu'r gwasanaeth ieuenctid yn 2018, gan godi amryw o gwestiynau am y rôl bresennol sydd gan tua 70 o weithwyr yn y gwasanaeth. Mewn ymateb, nodwyd y canlynol ynghylch strwythur y gweithlu:

- Bod gweithwyr llawn-amser yn gweithredu rhwng ysgolion a'r gymuned, gyda ffocws ar waith wedi'i dargedu (phresenoldeb isel neu anawsterau ymddygiadol) yn ysgolion a llesiant a cymdeithasu yn y gymuned.
- Bod staff y prosiect 16–25 yn cefnogi pobl ifanc drwy waith un-i-un, gan ddarparu cefnogaeth un-i-un i bobl ifanc sydd bellaf o'r farchnad lafur ac sydd angen datblygu sgiliau bywyd, cymdeithasu a gwytnwch.
- Bod gweithwyr rhan-amser, sydd yn gweithio rhwng tair a chwe awr yr wythnos, yn cefnogi darpariaeth clybiau ieuenctid cymunedol drwy gynghorau cymuned a thref ac yn cefnogi'r gweithwyr llawn-amser.
- Bod y niferoedd o weithwyr a nodwyd yn cyfeirio at unigolion gwahanol, heb ddyblygu.
- Bod targed o dri gweithiwr rhan-amser ar gyfartaledd ym mhob clwb.

- Bod rhai gweithwyr hefyd yn ymwneud â Chlwb Cyfeillgar Derwen dan drefniadau cyllido ar wahân, ond i gyd yn cael eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd.

Holwyd ynglŷn â'r naw ardal lle ariennir y ddarpariaeth gan gynghorau cymuned, gyda'r mwyafrif ohonynt yn Arfon. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd cymunedau ym Meirionnydd a Dwyfor wedi cymryd mantais o'r dull hwn i'r un graddau, ond bod trafodaethau ar y gweill er mwyn annog mwy o gynghorau cymuned i gymryd rhan. Ymhelaethwyd bod hyn yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Eglurwyd mai un o'r heriau mwyaf yw recriwtio staff lleol, gan fod sawl cyngor tref wedi mynegi diddordeb yn y gorffennol ond heb lwyddo i sicrhau gweithlu.

Cwestiynwyd y ffordd orau o gysylltu â phobl ifanc â phroblemau ymddygiadol, yn enwedig mewn lleoliadau lle nad oes mannau penodol ar gyfer darpariaeth ieuenctid. Mewn ymateb, nodwyd bod gwaith yn digwydd i bontio rhwng ysgol a chymuned, ac er y gall rhai pobl ifanc benderfynu peidio ymgysylltu â chlwb ffurfiol, ceisir eu cyrraedd drwy'r cynllun 'Roaming' sydd yn ymgeisio creu hybiau cymunedol mewn cymaint o ardaloedd a phosib.

Pwysleisiwyd bod cydweithio agos yn digwydd gyda'r heddlu, gyda chyfarfodydd misol i adnabod a mynd i'r afael â phroblemau gwrthgymdeithasol. Eglurwyd bod dulliau wedi'u haddasu'n lleol yn unol ag anghenion cymunedau, fel y dangoswyd eisoes yng Nghricieth.

Mynegwyd pryder ynghylch dull presennol y gwasanaeth o fesur ymgysylltiad, gan ei fod yn cyfrif nifer y digwyddiadau cyswllt yn hytrach na nifer yr unigolion sy'n ymgysylltu. Mewn ymateb, eglurwyd bod gwaith ar y gweill i wella systemau data'r Cyngor er mwyn adnabod nifer y bobl ifanc unigol sy'n elwa o'r gwasanaeth yn fanwl. Nodwyd y byddai'n bosib rhannu'r data unigol erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyfeiriwyd at neges glir gan bobl ifanc, sef yr angen am fannau diogel i ymgynnull, cymdeithasu ac ymlacio heb orfodaeth i ennill cymwysterau. Mewn ymateb, nodwyd bod cymwysterau'n parhau ar gael i'r rheini sy'n dymuno, ond bod y ffocws bellach ar gymdeithasu a llesiant, gan gynnwys gweithgareddau megis tripiâu drwy brosiect Taith, gan gynnwys cynllun i ymweld â Croatia.

Mewn ymateb i gwestiwn am ddyfodol y strategaeth dair blynedd ar ôl i'r grant ddod i ben, eglurwyd bod y gwasanaeth yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaeth ehangach a fyddai'n para tu hwnt i'r cyfnod cyllido presennol. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl cynllun hirdymor gyda mewnbwn gan bartneriaid gan gynnwys pobl ifanc, ieuchyd, addysg a'r trydydd sector. Mynegwyd gobaith y byddai'r dull hwn yn cynnal y ddarpariaeth yn y tymor hir, a bod gwaith yn parhau i gryfhau'r elfen statudol er mwyn sicrhau ei barhad yn y dyfodol.

Cwestiynwyd ynghylch a fyddai'r swyddog ieuenctid yn Nhywyn yn gweithredu hefyd yng Nghorris. Mewn ymateb, nodwyd byddai swyddog Tywyn neu Dolgellau yn ymweld â Chorris. Eglurwyd mai rhan o ddyletswydd y swyddogion yw gweithio o fewn y dalgylchoedd ac ymestyn eu darpariaeth i'r

cymunedau hynny. Mewn ymateb i hyn, mynegwyd y gobaith y byddai clwb ieuenctid newydd yn cael ei sefydlu yn y pentref gan fod galw lleol cryf.

Cyfeiriwyd at sefyllfa'r Ffermwyr Ifanc, gan nodi bod cyfraniad cyllidol parhaol y Cyngor wedi dod i ben rai blynyddoedd yn ôl, a bod y mudiad wedi wynebu trafferthion ers hynny. Tynnwyd sylw at y nifer o weithgareddau a sgiliau y mae'r bobl ifanc yn eu meithrin drwy'r Ffermwyr Ifanc, megis gweithgareddau eisteddfod, cadeirio pwyllgorau a gŵyl chwaraeon. Mynegwyd pryder nad oes unrhyw strwythur wedi'i roi yn ei le i gymryd lle'r gefnogaeth a gollwyd, a galwyd am ailystyried darpariaeth swyddog ym Meirionnydd i gefnogi gweithgarwch ieuenctid ehangach.

Mewn ymateb, eglurwyd bod cydweithio'n parhau gyda'r Ffermwyr Ifanc, ac y rhoddwyd cyllid iddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gefnogi prosiectau. Nodwyd hefyd bod y fforwm 'Llais Ni' yn cynnwys sefydliadau fel y Ffermwyr Ifanc fel rhan o'r broses adborth ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid a gwasanaethau ehangach. Mynegwyd bod y berthynas yn gadarnhaol, a bod pwysigrwydd sefydliadau cymunedol, megis y Ffermwyr Ifanc, yn cael ei gydnabod yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am y gwaith a gyflawnwyd yn Llanrug dros y degawdau, gan dalu teyrnged i Donna Taylor am ei chyfraniad eithriadol dros 30 mlynedd. Eglurwyd bod ei gwaith wedi bod yn amhrisiadwy i genhedlaeth o blant a phobl ifanc yn y gymuned. Croesawyd yr olynydd newydd, ac mynegwyd dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

Tynnwyd sylw at y profiadau cadarnhaol i bobl ifanc wrth fynychu clwb ieuenctid Llanrug yn rheolaidd, a'r effaith gadarnhaol a welwyd mewn cardiau diolch gan blant a fynychodd noson ffarwelio. Amlygwyd pwysigrwydd darparu mannau diogel a chefnogol i bobl ifanc mewn cyfnod cymhleth a llawn heriau cymdeithasol.

Codwyd cwestiwn ynghylch faint o hyfforddiant a chefnogaeth y mae staff y gwasanaeth ieuenctid yn ei dderbyn i feithrin parch iach rhwng bechgyn a merched. Mewn ymateb, nodwyd bod gweithdai ar berthnasoeidd iach eisoes yn cael eu cynnal mewn ysgolion, ac y darperir hyfforddiant pellach ar y pwnc hwn i'r holl staff, gan ymateb i faterion penodol a godwyd mewn rhaglen deledu ddiweddar.

Mynegwyd pryder ynghylch anghyfartaledd yn y ddarpariaeth rhwng ardaloedd Gwynedd, gan nodi bod wyth clwb cymunedol yn Arfon ond dim ond un ym Meirionnydd ac un yn Nwyfor. Amlygwyd bod mwyafrif amser y staff sy'n cael eu talu gan y Cyngor yn canolbwyntio ar Arfon, a mynegwyd barn fod hyn yn annheg. Cydnabuwyd ei bod yn haws i gynghorau tref mawr gyfrannu at glybiau ieuenctid, o'u cymharu â chynghorau cymuned llai sydd â llai o adnoddau.

Cymharwyd sefyllfa'r ddarpariaeth gyda fformiwla Barnett a'r ddadl genedlaethol am ariannu ar sail poblogaeth yn hytrach na lefel amddifadedd. Mynegwyd siom nad yw Cyngor Gwynedd yn gwneud digon i fynd i'r afael ag

anghydraddoldebau o fewn y sir ei hun, a galwyd am fwy o fuddsoddiad mewn darpariaeth i ardaloedd megis Meirionnydd. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y ddarpariaeth bresennol mewn ardaloedd arfordirol, a soniwyd yn benodol am Aberdaron fel enghraifft o le y gellid dysgu gwersi gan ei lwyddiant. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod y ddarpariaeth statudol yn gyson ledled y sir, gyda phob ysgol yn cael cefnogaeth gan weithiwr cymunedol rhan-amser sy'n gweithio tair noson yr wythnos yn y gymuned.
- Bod cefnogaeth cyngorau tref a chymuned yn hanfodol er mwyn gallu cynnal darpariaeth sefydlog mewn ardaloedd eraill, ac y byddai hyn yn flaenoriaeth i'w ddatblygu yn sgil y cyfarfod hwn.
- Bod nifer o brosiectau yn y trydydd sector yn derbyn cefnogaeth ariannol, gan gynnwys 'Forest Schools' yn ardal Corris a'r sinema yn Nhywyn, sy'n dystiolaeth bod gwaith yn mynd rhagddo i ymateb i anghenion lleol.
- Nid drwy'r Cyngor yn unig y mae'r ddarpariaeth yn digwydd, ond drwy gydweithio â sefydliadau preifat a'r trydydd sector sy'n weithgar yn y gymuned.

Amlygwyd enghraifft gadarnhaol gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen sy'n ariannu tri chlwb ieuenctid yn Rhiwlas, Deiniolen a Bethel, gan ddangos ei bod yn bosib i gyngorau cymunedol gefnogi gwasanaethau ieuenctid yn ymarferol.

Tynnwyd sylw at gyfraniad cyngorau cymunedol at gynnal caeau chwarae, a chodwyd cwestiwn ynghylch faint o waith cydweithredol trawsadrannol sy'n digwydd yn y meysydd hyn, megis lles a chynnal a chadw. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod y prosiect 'Haf o Hwyl' wedi defnyddio caeau chwarae yn ystod gwyliau'r haf.
- Bod llawer o'r ddarpariaeth dros yr haf yn digwydd yn yr awyr agored.
- Bod grantiau cymunedol wedi arwain at welliannau sylweddol mewn caeau chwarae, gan gynnwys offer newydd ac adnoddau i'w defnyddio gan blant y tu allan i oriau ysgol.
- Bod hyn wedi ei alluogi drwy Grant Ysgolion Cymunedol, ac y byddai gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda'r ysgolion i weld sut y gellid ymestyn y buddion hyn.
- Bod Fforwm Chwarae, sy'n cael ei gefnogi ar y cyd gan yr Adran Addysg ac adran arall, yn gwneud gwaith i ddarparu a gwella caeau chwarae a darpariaethau chwarae ledled y sir.

Mynegwyd bodlonrwydd bod y clwb ieuenctid wedi esblygu, a bod modd cyrraedd plant mewn carfanau gwahanol, gan ganmol y ffaith bod blaenoriaeth newydd wedi'i rhoi i faterion ieuchyd meddwl a llesiant. Nodwyd fod hyn yn adlewyrchu'r ymatebion gan bobl ifanc, gan ddangos newid yn eu hanghenion. Cydnabuwyd nad cyfrifoldeb y gwasanaeth ieuenctid yn unig yw darparu gwasanaethau ieuchyd meddwl, ond yn aml mae'r dyletswyddau'n disgyn arnynt.

Cwestiynwyd pa fath o ddarpariaeth iechyd meddwl fydd y gwasanaeth yn ei gynnig wrth symud ymlaen. Mewn ymateb, nodwyd:

- Gwasanaeth ataliol yw'r gwasanaeth ieuencid ac mai yn gynnar ar daith person ifanc y mae'n gweithredu yn fwyaf effeithiol.
- Bod gwaith agos yn digwydd gydag ysgolion, lle mae pobl ifanc wedi cael eu nodi â phroblemau iechyd meddwl lefel isel.
- Ymhlith y gweithgareddau a gynigir mai gweithdai llesiant, sesiynau 'Friends for Resilience', sesiynau yn ymwneud ag gorbryder a straen arholiadau, pontio ysgol a gwaith pontio cymunedol.
- Bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r grŵp oedran hŷn, gan nodi bod y gwasanaeth ieuencid yn rhan o fforwm 'Social Prescribing' yng Ngwynedd.
- Bod adborth wedi dod gan feddygon cyffredinol fod llawer o bobl ifanc yn cyflwyno gyda phroblemau iechyd meddwl, ond nad ydynt yn gymhleth digon i'w cyfeirio at CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc). O ganlyniad, mae'r gwasanaeth ieuencid yn darparu gweithgareddau llesiant megis cymdeithasu a gwirfoddoli.
- Bod gwaith ataliol da yn cael ei wneud, a bod angen ei ehangu yn y dyfodol ar gyfer pob grŵp oedran.

Mynegwyd pryder ynglŷn â darpariaeth clwb ieuencid symudol, gan nodi bod darpariaeth dros dro yn gweithio'n dda, ond pan gaiff ei dynnu'n ôl, nid oes manau diogel yn parhau ar gyfer pobl ifanc. Cyfeiriwyd at bentref Trefor, nodwyd y cynhaliwyd parti Nadolig llwyddiannus, ond erbyn Ionawr ac ymlaen nid oedd dim yn digwydd. Gofynnwyd pam nad oedd rhagor o gyfleoedd yn Llithfaen, Llangwnnadl, Tudweiliog, ac awgrymwyd fod angen dull i barhau gyda gwaith da a ddechreuwyd dros dro. Ymhellach, holwyd pam nad oedd ond un swyddog cymorth ar gyfer Dwyfor.

Mewn ymateb, nodwyd fod un aelod staff llawn amser a thri chydweithiwr rhan-amser yn gweithio yn y dalgylch. Eglurwyd mai gweithio o fewn clystyrau ysgolion yw'r sail ar gyfer y map darpariaeth, a'i fod wedi'i ddylunio yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Er nad yw'n berffaith, nodwyd mai hwn oedd y model gorau i ddarparu rhyw fath o wasanaeth ar draws cymaint o ardaloedd â phosib.

Cadarnhawyd bod clwb ieuencid statig yn gweithredu fel arfer rhwng Medi ac Ebrill, gan ddarparu hanner blwyddyn o wasanaeth yn yr ardal berthnasol. Nodwyd bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer mis Medi i ddod, gyda'r gobaith o adfer darpariaeth i bentrefi penodol.

Ategwyd sylw blaenorol drwy nodi bod arfer da i'w weld mewn ardaloedd fel Aberdaron a Llanddeiniolen, a bod modd dysgu oddi wrthynt er mwyn gwella darpariaeth mewn ardaloedd eraill.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am waith y Rheolwr Gwasanaeth Ieuencid a'r tîm, gan nodi bod y gwaith yn amlwg ac yn gadarnhaol mewn sawl rhan o'r sir, gan gynnwys Caernarfon. Cyfeiriwyd at glwb Porthi Dre, sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac yn darparu lle diogel i bobl ifanc y dref. Eglurwyd bod dros 40 o

bobl ifanc yn mynychu ar nos Fercher, a bod prydau poeth am ddim yn atyniad allweddol.

Galwyd am fwy o rannu adnoddau, a mynegwyd y farn fod modd gwneud defnydd gwell o'r hyn sydd gan ysgolion, gwasanaethau oedolion a'r gymuned yn ehangach. Pwysleisiwyd yr angen i feddwl yn greadigol, ac i beidio dibynnu ar y gwasanaeth ieuenctid yn unig i ddatrys problemau. Pwysleisiwyd nad cyfrifoldeb y Cyngor na'r gwasanaeth ieuenctid yn unig yw darparu gwasanaeth i bobl ifanc.

Mynegwyd pryder am blant sy'n dilyn amserlenni amgen, a'r angen i'w cynnal o fewn y system addysg ac i gydweithio â chymunedau i godi ymwybyddiaeth o'r heriau. Nodwyd bod y cydweithio â'r heddlu yn gam cadarnhaol, yn ogystal â'r hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â phroblemau cymunedol. Tanlinellwyd y pwysigrwydd o edrych y tu allan i'r bocs wrth chwilio am atebion.

Mynegwyd pryder ynghylch anhawster i recriwtio staff, er bod awydd a cyllid ar gael. Gofynnwyd am gyngor ar sut i ddenu gwirfoddolwyr neu staff cyflogedig i ymuno â'r ddarpariaeth ieuenctid. Cyfeiriwyd hefyd at y potensial i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis y Ffermwyr Ifanc a'r Urdd. Awgrymwyd y dylid gwneud defnydd o ganolfannau hamdden y sir, gan nodi'r adnoddau ardderchog sydd ar gael ynddynt.

Mewn ymateb, eglurwyd fod rhywfaint o gydweithio eisoes â chanolfannau Byw'n Iach, er enghraifft, clwb yn Abermaw a phrosiect ar y cyd â swyddog cymunedol o dan yr Urdd, gan gynnwys chwe grŵp cymunedol.

I gloi, tynnodd yr Aelod Cabinet Addysg sylw at rôl allweddol cyngorau tref a chymuned, gan nodi mai'r hyn sy'n aml yn digwydd mewn ardaloedd trefol llwyddiannus yw bod un pentref neu dref yn dechrau, ac wedyn mae'r ardaloedd cyfagos yn dilyn. Mynegwyd y gobaith y bydd mwy o waith hyrwyddo yn digwydd yn Meirionnydd a Dwyfor. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd cydweithio rhwng gwahanol sectorau, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector a grwpiau fel y Ffermwyr Ifanc a'r Urdd.

Canmolwyd aelodau staff y gwasanaeth ieuenctid, gan nodi eu gwaith rhagorol ledled y sir. Ailadroddwyd bod gwaith ataliol y gwasanaeth ieuenctid yn hanfodol, yn enwedig yng ngoleuni'r heriau dwys sy'n wynebu pobl ifanc heddiw. Nodwyd fod angen parhau i weithio tuag at greu mannau diogel, statig yn fwy cyson, drwy gydweithio â chynghorau lleol. Tynnwyd sylw at waith eisoes yn mynd rhagddo yn hyn o beth, a mynegwyd y gobaith y bydd rhagor o weithredu yn y dyfodol, yn enwedig ym Meirionnydd a Dwyfor.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Argymhell i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg:**
 - **Bod angen sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws y Sir.**
 - **Adnabod ffyrdd o ymgysylltu'n ehangach gyda phobl ifanc ac yn arbennig grwpiau penodol o bobl ifanc.**

- **Bod angen ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned gyda'r bwriad i gynyddu'r nifer o glybiau cymunedol.**
 - **Bod angen parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r ddarpariaeth orau, er enghraifft yr Urdd, Ffermwyr Ifanc.**
- 3. Gofyn i'r Rheolwr Gwasanaeth Ieuencid rannu data am nifer yr unigolion unigryw sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth, ac arfer da o ran clybiau cymunedol, gydag aelodau'r pwyllgor.**

6. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN Y PRIF LIF AC YSGOLION ARBENNIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg wrth nodi ei fod wedi'i lunio yn dilyn cais gan y Pwyllgor Addysg ac Economi i dderbyn diweddariad ar faterion sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn ysgolion prif lif ac ysgolion arbennig. Eglurwyd bod yr adroddiad yn amlinellu'r anawsterau sy'n wynebu ysgolion yng Ngwynedd o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaeth, yr hinsawdd ariannol bresennol ac effaith toriadau.

Mynegwyd bod y sefyllfa'n anodd, ond bod cyfleoedd i'r adran wella, ac awydd glir i wneud y gorau dros blant a phobl ifanc y sir. Pwysleisiwyd bod y maes hwn yn peri pryder i rai o'r aelodau ac yn faes dyrys sy'n haeddu sylw.

Tynnwyd sylw at effaith flynyddoedd o lymder ac arbedion ariannol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau effeithiol, gan bwysleisio bod yr effaith honno'n cyrraedd pob cornel o'r gymuned. Mynegwyd parodrwydd i wrando, trafod ac ystyried beth y gellid ei wneud yn wahanol yn y dyfodol er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn well.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Holwyd pwy sydd yn gyfrifol am bennu'r meini prawf mynediad i ysgolion arbennig. Mewn ymateb, eglurwyd mai cyfrifoldeb yr awdurdod ydy sicrhau lleoliad plentyn mewn ysgol arbennig, gan nodi bod disgrifiadau o'r anghenion a ddisgwyilir mewn ysgolion arbennig wedi'u diffinio, a bod ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y rhain. Pwysleisiwyd bod y penderfyniad terfynol bob amser gyda'r awdurdod.

Holwyd ymhellach pa ganllawiau a meini prawf a ddefnyddiwyd wrth bennu'r disgwyliadau hyn. Mewn ymateb, eglurwyd bod y meini prawf yn gysylltiedig â'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar y plentyn. Nodwyd bod y Ddeddf ADY yn pwysleisio'r angen i ystyried addysg brif lif yn gyntaf, cyn troi at ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig os nad yw anghenion y plentyn yn cael eu diwallu yn y brif lif. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch adolygu'r meini prawf, nodwyd:

- Bod adolygiadau wedi'u cynnal yn 2017 ac eto yn 2020.
- Bod gwaith yn parhau ar ddogfen sy'n crynhoi'r meini prawf mewn ffordd symlach, gyda bwriad i'w rannu gyda'r ysgolion arbennig yn fuan.

- Bod categorïau anghenion ar ffurf ‘bandiau’ wedi’u sefydlu, o fand un (anghenion mwyaf dwys) i fand pedwar, a bod yr asesiadau’n digwydd yn unol â’r bandiau hyn.
- Bod y drafodaeth bellach yn canolbwyntio ar egluro’r meini prawf i rieni ac ysgolion a diffinio’r dystiolaeth sy’n cael ei defnyddio i asesu’r bandiau.

Holwyd pwy sydd yn ymwneud â llunio’r meini prawf. Mewn ymateb, nodwyd bod y panel yn cynnwys gwasanaethau ADY yr awdurdod, seicolegwyr addysgol, athrawon arbenigol o dimau amrywiol a phenaethiaid yr ysgolion arbennig. Cadarnhawyd nad yw unrhyw asiantaeth allanol ar hyn o bryd yn rhan o’r broses, ond bod trafodaethau’n digwydd gyda’r bwrdd rhanbarthol, a bod y gobaith y byddai penaethiaid ysgolion prif lif yn rhan o’r panel wrth symud ymlaen. Nodwyd nad oedd y bwrdd iechyd yn aelod o’r panel cymedroli, ond bod trafodaethau gyda’r bwrdd iechyd wedi dechrau gan ei fod yn arfer a welir mewn siroedd eraill.

Cyfeiriwyd at gynnydd yn y galw am leoedd mewn ysgolion arbennig a’r angen am adnoddau ychwanegol yn y prif lif, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion corfforol, gan fod plant ag anghenion dwys yn gorfod aros yn y prif lif oherwydd diffyg capasiti mewn ysgolion arbennig. Holwyd pwy sydd yn gyfrifol am ddarparu offer arbenigol i gefnogi yr pobl yma. Mewn ymateb, eglurwyd:

- Os ydy’r offer yn ymwneud ag anghenion corfforol meddygol, byddai’n deillio o asesiad gan therapydd galwedigaethol neu ffisiotherapydd ac yn cael ei ddarparu gan y bwrdd iechyd.
- Os ydy’r offer yn gysylltiedig ag anghenion addysgol, megis ar gyfer nam ar y golwg, byddai’r awdurdod yn darparu’r adnoddau hynny.
- Nodwyd bod darpariaeth ar gyfer blynyddoedd cynnar yn peri mwy o her, gan nad yw’r lleoliadau’n statudol. Ymhelaethwyd bod trafodaeth yn cael ei cynnal gyda’r Bwrdd Iechyd ynglŷn a hyn.

Holwyd a oedd gan yr adran unrhyw ystadegau am blant a phobl ifanc gyda Chynllun Datblygu Unigol (CDU) a oedd wedi dadgofrestru o addysg ers Covid. Mewn ymateb, nodwyd bod gan yr adran gofnod o’r plant hynny a’u bod yn derbyn cefnogaeth drwy grant addysg gartref. Cadarnhawyd bod athrawon yn cael eu cyflogi i gadw cysylltiad gyda’r teuluoedd a chydlynu adolygiadau o’r CDU. Gofynnwyd aelod am gael ystadegau penodol a chadarnhawyd y byddai’r wybodaeth honno’n cael ei rannu.

Mynegwyd pryder am lefel ariannu ysgolion arbennig Gwynedd o’i gymharu â gweddill Cymru, gan ofyn beth oedd yn cael ei wneud i fynd i’r afael â’r sefyllfa. Nodwyd ymhellach nad oedd plant â’r un lefel o anghenion ag a welwyd yn flaenorol yn cael eu derbyn bellach i ysgolion arbennig, a bod y diffyg darpariaeth ar gyfer y plant hynny yn y prif lif yn peri pryder. Cwestiynwyd beth sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael â sefyllfa’r plant hyn sydd ag anghenion dwys ond nad ydynt yn bodloni’r meini prawf mynediad i ysgolion arbennig. Mewn ymateb, eglurwyd:

- Nad oedd Gwynedd ymhlith yr awdurdodau sy'n ariannu lleiaf, yn ôl adroddiad Estyn 2023–24, ac nad oedd unrhyw doriadau wedi'u gweithredu yn y sector arbennig.
- Bod pwysau cynyddol ar y gwasanaeth o ganlyniad i'r niferoedd uwch o blant ag anghenion dwys yn cael eu cyfeirio at ysgolion arbennig.
- Bod plant gyda ADY yn derbyn cefnogaeth dda mewn ysgolion prif lif a bod nifer yn llwyddo'n llawn drwy'r ddarpariaeth honno.
- Bod y ddarpariaeth yn parhau i ddatblygu, gyda phwyslais ar gynhwysiant, ond bod angen dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng cynhwysiant a chwrdd ag anghenion penodol plant.
- Bod gwaith mapio'n cael ei gynnal ar hyn o bryd i asesu anghenion dysgwyr ar draws y grwpiau oedran, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, er mwyn cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer y dyfodol.
- Bod newidiadau yn y cyllido ôl-16 yn golygu y bydd angen ystyried y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 16–19 oed, gan gynnwys opsiynau y tu allan i'r ysgol megis colegau.
- Bod y gwasanaeth hefyd yn adolygu proffil y canolfannau lle mae plant yn treulio rhan o'r wythnos, er mwyn sicrhau eu bod yn dal i ddiwallu'r galw newidiol.
- Bod y newid mwyaf yn y proffil anghenion yw anghenion o ran iaith, cyfathrebu a therapi, yn enwedig ymhlith dysgwyr ifanc sydd â CDU.
- Bod data'n dangos brig yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion arbennig yn ystod diwedd cyfnod cynradd a dechrau'r cyfnod uwchradd, gyda'r niferoedd yn sefydlogi wedi hynny.

Mynegwyd barn bod llwyddiant yn bodoli yn y brif lif, ond bod achosion o fethiant hefyd yn amlwg ac yn peri pryder. Cyfeiriwyd at y newid yn y fformiwla gyllido CDU yn ysgolion prif lif, gan holi sut y gellid sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario'n briodol ar anghenion dysgu ychwanegol. Mynegwyd pryder y gallai'r cyllid gael ei ddefnyddio ar gyfer meysydd eraill, megis gwella canlyniadau academiaidd, gan arwain at ddiffyg darpariaeth i ddisgyblion ag ADY. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod gan ysgolion ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu'r hyn a nodir mewn CDU.
- Bod swyddogion ADY yn monitro'r defnydd o gyllid fel rhan o'r broses fonitro.
- Y byddai dogfen ganllaw yn cael ei rhannu erbyn y Pasg gyda'r ysgolion, yn nodi'r disgwyliadau o ran defnydd priodol o'r cyllid, a'r hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol.
- Y byddai'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y broses sicrhau ansawdd mewn ysgolion.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am unedau ADY yn ysgolion Ddolgellau yn y gorffennol, ac awgrymwyd y dylid ystyried a ellid ailsefydlu canolfannau lloeren mewn ysgolion brif lif. Holwyd ymhellach a oedd Llywodraeth Cymru'n cael ei lobio ynghylch diffyg seicolegwyr addysgol Cymraeg eu hiaith. Mewn ymateb, eglurwyd:

- Bod y gwaith mapio'n cynnwys ystyriaeth o grwpiau bach o ddysgwyr mewn ysgolion prif lif uwchradd, sydd angen cwricwlwm gwahanol ond nad ydynt yn addas ar gyfer ysgol arbennig.
- Bod Prifysgol Bangor wedi derbyn arwydd o fuddsoddiad ar gyfer tri lle hyfforddi ym mis Medi 2027, ond bod angen o leiaf chwech i gynnal y cwrs yn gynaliadwy.
- Bod trafodaethau'n parhau gyda'r Llywodraeth ar lefel swyddogol a gwleidyddol.

Tynnwyd sylw at y newid mewn natur anghenion disgyblion, gan gynnwys problemau ymddygiad a chyfathrebu, a holwyd a oedd digon o gefnogaeth ar gyfer staff sy'n gweithio gyda'r dysgwyr hyn. Codwyd pryderon ynghylch anhawster ysgolion i recriwtio cynorthwyr, a gofynnwyd a oedd pecyn hyfforddi ar gael i wneud y swydd yn fwy deniadol. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod y ddarpariaeth orau pan fo'r tîm yn modelu dulliau gweithio mewn ysgolion.
- Bod y galw wedi cynyddu ond nad yw adnoddau wedi cynyddu'n gymesur, gan roi straen ar hyblygrwydd staff mewn ysgolion.
- Bod nifer y CDU wedi cynyddu yn ogystal â chymhlethdod anghenion, gan olygu bod cydweithio trawstîm bellach yn hanfodol.
- Bod ysgolion yn wynebu her i gynnal y ddarpariaeth gyda'r un lefel o gyllid, gan greu tensiynau sydd angen eu datrys.
- Bod y newid i fformiwla gyllido wedi galluogi ysgolion i gynllunio'n well drwy gael sicrwydd o'r potiau am flwyddyn gyfan. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at gontractau hwy ar gyfer cynorthwyr a llai o gylchdroi staff.

Holwyd am y rhesymeg y tu ôl i'r newid i'r fformiwla gyllido, gan nodi bod rhai ysgolion penodol wedi colli cyllid, heb dystiolaeth glir o eraill yn ennill cyllid yn ei le. Mewn ymateb, eglurwyd:

- Bod y trefniant blaenorol yn seiliedig ar geisiadau i banel, oedd yn ansefydlog ac yn annheg yn rhai ardaloedd.
- Bod y fformiwla newydd yn fwy deg gan ei bod yn seiliedig ar gymhlethdod anghenion yn hytrach na niferoedd yn unig.
- Bod rhwyd diogelwch wedi'i sefydlu fel na fyddai unrhyw ysgol yn colli mwy na 50% o'i gyllid yn y flwyddyn gyntaf.
- Bod grant Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i bontio'r bwlch yn y flwyddyn gyntaf, gyda'r gobaith o'i adnewyddu.
- Bod y fformiwla wedi'i chynllunio ar sail draws sector - cynradd ac uwchradd, gan gywiro anghydbwysedd hanesyddol.
- Bod trafodaethau wedi digwydd ar lefel unigol gyda rhai ysgolion a oedd wedi gweld gostyngiad, a'u bod wedi derbyn esboniad teg.

Holwyd a ydy'r cyllid yn dilyn y disgybl pe bai'n trosglwyddo ysgol neu'n cael ei wahardd. Mewn ymateb, eglurwyd bod eithriadau i'r fformiwla'n cael eu hystyried ar sail achos wrth achos, a bod trosglwyddiadau yn arwain at ail-ddosbarthu'r cyllid fel bo'n briodol.

Awgrymwyd y dylid ailystyried darparu darpariaeth yn Ysgol Bro Idris, gan ystyried y costau teithio uchel i Ysgol Hafod Lon. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwaith proffilio a mapio yn cynnwys ystyriaeth o'r posibilrwydd hwnnw, ond bod angen sicrhau arbenigedd addas ac amgylchedd priodol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynhwysiant mewn ysgolion prif lif lle bo'n bosibl, ond bod angen sicrhau cefnogaeth briodol i staff a dysgwyr. Mewn ymateb, cytunwyd bod llawer o bwysau ar gydlynw'r broses CDU a bod gwaith yn digwydd i leddfu'r baich gweinyddol, gan gynnwys cydweithio ym mandiau dalgylch a darparu hyfforddiant ADY yn y prif lif i ysgolion cynradd ac uwchradd o fis Ebrill ymlaen. Amlygwyd pwysigrwydd ehangiad y cwricwlwm er mwyn osgoi gwaharddiad anfwriadol o ddysgwyr ag ADY. Nodwyd bod grantiau ar gael ar gyfer cydlynwyr ADY, i gefnogi, rhyddhau amser ac ariannu hyfforddiant.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg:**
 - **Ystyried edrych os oes angen diwygio aelodaeth grŵp canllawiau ar gyfer mynediad i ysgolion arbennig.**
 - **Edrych ar ffyrdd o adnabod, gwella darpariaeth a hwyluso pethau i grŵp penodol o blant sydd yn y prif lif, gydag anghenion dwys ond sydd ddim yn cyrraedd y trothwy ar gyfer derbyn cefnogaeth.**
 - **Edrych ar ffyrdd i barhau i warchod y gyllideb i ysgolion arbennig a monitro bod arian yn cael ei wario yn briodol ac yn dilyn y canllawiau.**
 - **Annog ymarferwyr i fanteisio ar hyfforddiant, ac edrych os yw'n bosib sicrhau bod pobl yn gwario'r pres a dderbynnir am hyfforddiant ar hyfforddiant yn unig.**
 - **Ymchwilio i'r posibilrwydd o roi darpariaeth lloeren mewn rhai ysgolion.**
 - **Gohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am ddiffyg arian ac adnoddau sydd ar gael ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion.**

7. POLISI IAITH ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg wrth bwysleisio mai polisi drafft yw'r ddogfen a bod hyn yn nodi dechrau'r daith o'i datblygu. Nodwyd bod y polisi presennol wedi bod yn ei le ers 1984, ac mai tystiolaeth o'i lwyddiant yw'r ffaith ei fod wedi goroesi am gyfnod mor hir. Eglurwyd bod y ddogfen newydd yn cynrychioli esblygiad y polisi presennol, gan adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol i greu polisi sy'n addas ar gyfer anghenion Gwynedd heddiw. Nodwyd ei fod yn amser erbyn hyn i adolygu'r polisi a chynnig newidiadau, gyda'r bwriad o gryfhau sefyllfa'r Gymraeg ymhellach.

Mynegwyd barn fod y model newydd yn mynd i gryfhau'r Gymraeg a'i wneud yn fwy amlwg o fewn ein hysgolion. Nodwyd bod hynny hefyd yn gosod her i'r

ysgolion ond bod y adran addysg yn barod i gefnogi'r ysgolion i wireddu'r uchelgais hwn. Eglurwyd nad oedd unrhyw fwriad i ddibrisio pwysigrwydd y Saesneg, ond yn hytrach i sicrhau bod gan y disgyblion sgiliau cadarn yn y ddwy iaith, a'u bod yn gadael yr ysgol yn gwbl ddwyieithog. Tynnwyd sylw at y ffaith mai dyna sydd ei angen i'r dyfodol: unigolion sy'n gallu byw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mynegwyd y farn mai'r polisi iaith drafft yw'r ddogfen bwysicaf i ddyfodol y Gymraeg yng Ngwynedd, gan ddisgrifio'r effaith y gallai'r polisi hwn ei chael fel un ddigynsail ar blant y sir a'r gymuned ehangach. Canmolwyd y polisi am ei eglurder a'i fod yn gryno, gan nodi fod y fersiwn flaenorol yn rhy hir ac agored i gamddechongli. Mynegwyd pryderon, fodd bynnag, ynghylch nifer o elfennau:

1. Diffyg uchelgais mesuradwy yn y polisi, heb dargedau pendant ar gyfer cynnydd canrannol yn y ddarpariaeth Gymraeg dros amser.
2. Dibyniaeth ormodol ar Gategori 3 Llywodraeth Cymru, gan nodi bod mwyafrif ysgolion Gwynedd eisoes yn darparu dros 70% o'u darpariaeth addysg drwy'r Gymraeg, ac felly y dylid anelu'n uwch.
3. Diffyg eglurder yng ngeiriad y polisi, gyda thermau megis "Mae pob disgybl yn cael ei addysgu a'i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2" a "Cymraeg fydd prif gyfrwng addysg y disgyblion" yn rhy agored i ddechongliad. Awgrymwyd geiriad cryfach megis "Cymraeg fydd cyfrwng addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol y disgyblion hyd at ddiwedd Blwyddyn 2" a "Cymraeg fydd cyfrwng addysg y disgyblion".

Pwysleisiwyd bod angen egluro sut mae'r Saesneg yn cael ei ddysgu'n drawsgwricwlaidd a phwy sy'n penderfynu hynny, gan fynegi pryder y gallai hyn danseilio'r defnydd cyson o'r Gymraeg. Mynegwyd y dylai'r polisi egluro'n benodol pwy sy'n penderfynu ar gynnwys y ddarpariaeth honno. Nodwyd hefyd nad yw'r polisi yn nodi'n glir sut y rhennir amser dysgu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mynegwyd siom nad oedd y polisi yn anelu am Gategori 3P Llywodraeth Cymru, gan fod sawl ysgol yn y sir eisoes yn cyrraedd gofynion y categori yma. Cwestiynwyd a yw'r ffaith bod y polisi ond yn anelu at Gategori 3 yn cyfleu neges ynghylch ysgolion sy'n cyrraedd y Gategori 3P, megis awgrymu eu bod yn niffygiol oherwydd eu defnydd ehangach o'r Gymraeg. Mewn ymateb, nodwyd:

- Derbyn y sylwadau ynglŷn â'r angen i dynhau rhywfaint ar y geiriad er mwyn sicrhau nad oes camddechongliad.
- Bod y polisi hwn yn sefydlu gwaelodlin, a bod disgwyl i'r ysgolion gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg dros gyfnod o amser.
- Bydd gan pob ysgol cynllun gwella penodol ar gyfer y Gymraeg, a byddai'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro dros amser gyda thargedau amlwg.
- Nad yw canrannau yn rhan o gategori 3 fel y cyfryw, ac nad yw'r polisi wedi'i seilio ar ganrannau o 60% neu 40%.

- Bod eithriadau'n cael eu cydnabod o fewn y polisi, megis anghenion dysgu ychwanegol a hwyrddyfodiaid, gyda darpariaeth addas yn cael ei gynllunio ar eu cyfer.
- Nad yw'r polisi yn cyfeirio at bynciau penodol fel gwaith trawsgwricwlaidd; yn hytrach, mae'r polisi yn nodi y dylai pob maes dysgu a phrofiad gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel prif iaith.
- Mai'r cyfeiriad at waith trawsgwricwlaidd yw bod disgyblion yn cael cyfleoedd o fewn y meysydd dysgu a phrofiad i ddatblygu eu cymhwysedd ieithyddol yn y Saesneg, gan olygu y bydd canran o'r dysgu trawsgwricwlaidd yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg.
- Nad oes modd eithrio un pwnc yn benodol i'w ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg.
- Bydd Saesneg fel pwnc yn cyfrif am tua 14-15% o amser dysgu, gyda'r defnydd ychwanegol o'r Saesneg yn cael ei gynnwys ar draws pob maes dysgu fel rhan o brofiadau trawsgwricwlaidd.
- Nad yw Categori 3P yn bodoli mwyach o dan y Mesur Iaith newydd sy'n mynd drwy'r Senedd, ac y bydd y categorïau yn y dyfodol yn cynnwys dim ond Categori 1, 2 a 3.
- 70% yw'r isafswm darpariaeth Gymraeg a bennir yn y polisi, nid yr uchafswm.
- Bod y polisi'n cyfeirio'n benodol at 70% cwricwlaidd, gyda disgwyl i'r gwaith allgyrsiol a'r profiadau trwy fframwaith Siarter Iaith Uwchradd, sydd yn rhan o'r mesur yma ac yn statudol, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ychwanegol.

Mynegwyd pryder bod y polisi yn parhau i gyfeirio'n benodol at ganllawiau Llywodraeth Cymru trwy gynnwys dolen i'r categorïau presennol. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y polisi drafft yn cynnwys dolen i fframwaith Llywodraeth Cymru a'r categorïau cyfredol, gan adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Ymhelaethwyd bod categori 3 wedi'i nodi gan ei fod yn bolisi blanced ar ran yr awdurdod, ac mai dim ond tri chategori fydd yn bodoli, felly categori 3 yw'r categori mwyaf addas.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y byddai dysgu trawsgwricwlaidd yn cael ei weithredu, gan bwysleisio'r perygl, os câi disgyblion ddewis pa elfennau fyddai'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Saesneg, y byddai hynny'n tanseilio'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwersi. Mewn ymateb, cadarnhawyd nad yw'n fwriad i ddisgyblion ddewis yn unigol pa bynciau a fyddai'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Ymhelaethwyd bod penaethiaid wedi bod yn rhan o'r ymgysylltu er mwyn iddynt gymryd perchnogaeth o'r polisi, fel y caiff ei weithredu'n fwy effeithiol. Cadarnhawyd y bydd pob ysgol yn cynllunio'n fanwl, a bydd defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael ei ymgorffori'n systematig yn seiliedig ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Ailadroddwyd bod y ddogfen yn ddrafft, ac mai pwrpas dod gerbron y pwyllgor oedd i dderbyn sylwadau cyn mynd ymlaen at ymgynghoriad cyhoeddus llawn dros yr haf. Pwysleisiwyd y byddai'r broses ymgynghori yn drylwyr iawn. Nodwyd bod swyddogion a'r Aelod Cabinet Addysg wedi bod yn rhagweithiol yn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r broses.

Pwysleisiwyd bod y polisi blaenorol, a sefydlwyd ym 1984, dal mewn grym hyd heddiw, ac felly roedd angen gweithredu polisi newydd cadarn fyddai'n dylanwadu dros y degawdau nesaf. Nodwyd nad yw'r polisi hwn yn gam yn ôl, ond yn fodd i agor drysau newydd i blant Gwynedd drwy roi mwy o gyfleoedd ieithyddol a phroffesiynol iddynt.

Croesawodd aelod y polisi drafft a mynegodd ei ddiolch i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet Addysg am gyflwyno'r polisi i'r pwyllgor. Canmolwyd y gwaith parhaus a'r cydweithio rhwng yr Adran Addysg, y swyddogion ac aelodau'r Cabinet i ddod â'r ddogfen i'r cam presennol.

Cyfeiriwyd at gryfderau'r polisi fel y'i cyflwynwyd, ond hefyd at rai sylwadau a ystyrid yn llai adeiladol gan rai gwleidyddion, gan nodi bod hyn yn tanlinellu diffyg dealltwriaeth o wir werth dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog. Pwysleisiwyd bod dwyieithrwydd a'r gallu i fod yn amlieithog yn rhan annatod o'r byd modern ac yn cynnig buddion unigryw i blant Gwynedd, nid yn unig o ran cyfleoedd gwaith ond hefyd o ran diwylliant, celfyddydau, cyfryngau a bywyd cymdeithasol.

Rhannwyd stori bersonol am y newid sylweddol a ddaeth yn sgil cael mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae'r profiad hwnnw bellach yn cael ei drosglwyddo i blant yr aelod drwy eu magwraeth a'u haddysg. Mynegwyd pryder nad yw pob plentyn yn y sir ar hyn o bryd yn cael mynediad cyfartal at y rhodd honno o ddwyieithrwydd. Cyfeiriwyd at brofiadau dysgwyr a oedd yn gresynu am golli'r cyfle i ddysgu Cymraeg yn ifanc. Pwysleisiwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob plentyn yn y sir, a bod angen cynnig y rhodd o ddwyieithrwydd yn gyflawn i bawb.

Croesawyd yr uchelgais a fynegwyd ar gyfer y tair ysgol drosiannol, ond tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd yr un uchelgais yn cael ei amlinellu'n glir ar gyfer yr ysgolion hynny sydd eisoes wedi'u categorïddio fel rhai Categori 3. Nodwyd bod llawer o'r ysgolion hynny eisoes yn gweithredu y tu hwnt i waelodlin y categori, a bod angen cynnwys fframwaith gadarn o fewn y polisi i sicrhau cynnydd mesuradwy dros gyfnod penodol o amser.

Pwysleisiwyd y ffaith fod iaith addysg yn dod yn fwyfwy pwysig wrth geisio cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol. Galwyd ar y Cyngor i barhau i arloesi ac i ddarparu llwybr clir a chadarn ar gyfer pob ysgol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant Gwynedd heddiw ac yn y dyfodol.

Croesawyd rhai elfennau o'r polisi drafft, yn enwedig y bwriad i symud ysgolion ymlaen ar hyd y continwum, er bod angen amserlen fwy pendant o bosib. Derbyniwyd bod y polisi wedi'i gyflwyno mewn ffordd fwy eglur a syml, ond bod rhai agweddau o'r geiriad angen ystyriaeth bellach.

Mynegwyd siom nad oedd unrhyw fwriad i gynnwys ysgolion yn y categori 3P, gan honni nad oedd sail eglur i'r penderfyniad yn y ddogfennaeth. Cyfeiriwyd at hanes cryf addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir ers yr 1980au, gan nodi bod hynny wedi gwanhau dros amser. Mynegwyd pryder bod rhai ysgolion mewn

ardaloedd Cymraeg eu hiaith bellach yn cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg, sy'n groes i bolisi Llywodraeth Cymru sy'n mynnu cynnal neu gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

Tynnwyd sylw at ddisgwyliad Llywodraeth Cymru i ysgolion categori 3 adlewyrchu cyd-destun ieithyddol ei ardal a gweithio at gynyddu darpariaeth Cymraeg dros amser, a mynegwyd barn nad yw'r polisi drafft yn cyflawni hyn, yn enwedig mewn ysgolion fel Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Brynrefail. Beirniadwyd diffyg uchelgais yn y sector uwchradd, gan godi pryder am ddirywiad posib. Galwyd ar Gyngor Gwynedd i amddiffyn y ddarpariaeth bresennol a dangos mwy o uchelgais, gan gyfeirio at fodel Catalonia. Codwyd pryderon hefyd am ddiffyg monitro cyson o'r polisi. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bydd pob ysgol yn cael ei chategoreiddio fel ysgol categori 3 yn unol â'r system genedlaethol; ni fyddai categori 3P yn bodoli bellach.
- Nid yw'r trothwy o 70% yn derfyn uchaf ond yn isafswm.
- Ni fydd unrhyw ysgol yn derbyn llai o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg na'r hyn a fu yn y gorffennol, nid oes perygl o ddirywiad.
- Bydd disgwyl i ysgolion gynyddu'r ddarpariaeth yn barhaus dros amser, gydag uchelgais glir i wella o'r isafswm 70% lle bo hynny'n bosib.
- Bod yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i gefnogi'r broses hon.
- Bod swyddogion newydd wedi'u penodi i'r Adran Addysg i gryfhau trefniadau monitro.
- Bydd y swyddogion hyn yn gyfrifol am fonitro gweithredu'r polisi a'r cynlluniau datblygu.
- Bydd y trefniadau monitro yn cynnwys cydweithio tynn rhwng ysgolion a'r awdurdod, yn ogystal â chyfrifoldeb i adrodd cynnydd i Lywodraeth Cymru.
- Bod y polisi'n cynnwys mesurau i sicrhau parhad ieithyddol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a'r uwchradd, gyda phlant pontio'n cael eu nodi a'u dilyn i sicrhau eu bod yn cadw at eu llwybr ieithyddol priodol.

Croesawyd y sicrwydd bod trefniadau monitro bellach ar waith. Mynegodd ei siom, fodd bynnag, nad oes ystyriaeth i adfer neu ddiffinio categori 3P. Galwyd am adfer darpariaeth 100% trwy'r Gymraeg mewn ysgolion lle mae hynny'n briodol, fel yr arferai fod yn y 1980au a'r 1990au.

Mynegodd aelod gefnogaeth i'r polisi drafft. Mynegwyd barn nid oedd angen diffinio categori 3P gan bod yr ysgolion dan sylw eisoes wedi symud ymlaen yn sylweddol, ac yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran darpariaeth iaith. Cwestiynwyd pa hyfforddiant fydd ar gael i aelodau staff i'w helpu i gyrraedd y lefel Gymraeg sydd ei hangen i addysgu pob maes o fewn y cwricwlwm. Cwestiynwyd ymhellach, pa gyllid fydd ar gael i gryfhau'r unedau trochi, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr, megis blwyddyn 8 neu 9, gan fod angen galluogi'r disgyblion hyn i allu dilyn cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac mae Gwynedd eisoes yn cydweithio gyda'r ganolfan hon.

- Bod y ganolfan yn cynnig cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer athrawon unigol mewn ysgolion penodol, gan gynnwys cyrsiau ar lefel mynediad ac uwch.
- Bod y cyrsiau'n cael eu teilwra i amserlenni athrawon ac yn gallu bod yn wyneb yn wyneb, yn rhannol rithiol neu'n hunan-astudio.
- Bod tiwtoriaid yn cael eu neilltuo i glystyrau o ysgolion, ac mae cyrsiau ar gael sy'n benodol i bynciau, e.e. mathemateg neu ffiseg.
- Bod cyrsiau sabothol ar gael gydag athrawes o ysgol drosiannol eisoes wedi cofrestru.
- O ran ariannu, mae'r cynllun trochi dan bwysau cynyddol. Derbynnir grant gan Lywodraeth Cymru gyda'r Awdurdod yn ychwanegu ato gyda chyllid cyfatebol.
- Bod rhwydwaith trochi cenedlaethol wedi'i sefydlu a rhoddir grantiau dros gylch tair blynedd. Mae'r flwyddyn bresennol yn ddechrau cylch newydd.
- Bod y cynlluniau a'r angen am gyllid ychwanegol wedi'u rhannu gyda Llywodraeth Cymru, ac maent yn ymwybodol o'r trefniadau a'r pwysau.

Holwyd a fyddai'r hyfforddiant ar gael yn fewnol, neu a fyddai'n rhaid i unigolion eu trefnu a'u talu amdanynt eu hunain, gan ystyried llwyth gwaith. Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr angen am ddarpariaeth benodol i athrawon mewn ysgolion sy'n symud o'r categori 3T. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod amrywiaeth eang iawn o gyrsiau ar gael.
- Bod yr holl gyrsiau am ddim.
- Nid oedd y llywodraeth yn ariannu amser digyswllt, ond er hyn, maent yn gweithio gydag ysgolion i deilwra'r cyrsiau o gwmpas amserlen athrawon.
- Bod ysgolion yn derbyn grantiau datblygu proffesiynol a all gael eu defnyddio i ryddhau staff er mwyn mynychu'r cyrsiau.

Cwestiynwyd a oedd bwriad i ymgynghori â'r Esgobaeth ynglŷn â newid yng nghategori Ysgol Ein Harglwyddes. Mynegwyd pryder am natur amrywiol y disgyblion yn yr ysgol honno ac fe ofynnwyd am sicrwydd y bydd asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei gynnal.

Mewn ymateb, eglurwyd bydd cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghori'n cael ei gynnal fel rhan o'r broses o ddatblygu'r polisi drafft. Nodwyd bydd y gwaith hwn yn cynnwys rhanddeiliaid yn Ysgol Ein Harglwyddes a bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu. Cadarnhawyd hefyd y bydd asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei gynnal i sicrhau y caiff anghenion pob disgybl eu diwallu.

Pryderwyd ynghylch eglurder y polisi drafft, gan nodi ei bod yn anodd i ysgolion ddeall beth yn union sy'n ddisgwyliedig. Mynegwyd barn bod y polisi'n rhy hawdd i'w gamddehongli. Galwyd am fersiwn wedi'i chryfhau drwy ei wneud yn fwy cryno, clir a chadarn, gan bwysleisio bod monitro rheolaidd gan lywodraethwyr a'r Adran Addysg yn hanfodol i'w lwyddiant. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod y polisi drafft yn gosod cyfeiriad cychwynnol.
- Bod y nod yn glir sef codi'r safonau iaith yn y system addysg, ac y bydd disgwyl i bob ysgol ddatblygu cynllun penodol i'w hamgylchiadau unigol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysg.

- Bydd disgwyl gweld enghreifftiau clir o ddysgu trawsgwricwlaidd ac y bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan swyddogion cefnogi ysgolion.

Holwyd ynglŷn a chyfraniad ac argymhellion penodol Meirion Prys Jones, fel arbenigwr iaith cenedlaethol, wrth greu'r polisi drafft. Mewn ymateb, nododd Meirion Prys Jones:

- Ei fod yn gydawdur y ddogfen, ynghyd â swyddogion addysg a gyda chytundeb penaethiaid uwchradd, a bod trafodaethau eang wedi cael eu cynnal dros gyfnod o ddau ddiwrnod.
- Bod y ddogfen yn arloesol ac nad oedd amheuaeth yn ei feddwl am hynny.
- Bod y ddogfen yn cyflwyno her, yn enwedig i benaethiaid ysgolion uwchradd, a bod trafodaethau manwl wedi eu cynnal gyda hwy ar ddau achlysur, gan gynnwys yr wythnos flaenorol.
- Bod y polisi yn ceisio symud ysgolion o addysg ddwyieithog (beth bynnag fo hynny'n ei olygu) i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r nod o sicrhau bod canran uwch o ddisgyblion yn dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed.
- Bod y nod hwn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar ysgolion categori 3, gan ystyried nad yw llawer o ddisgyblion ar hyn o bryd yn sefyll eu harholiadau nac yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn 14 oed.
- Bod rhanddeiliaid allanol hefyd wedi bod yn rhan o'r broses a'u bod wedi barnu bod y ddogfen yn ddigon eglur.
- Croesawyd trafodaeth bellach, gan bwysleisio bod angen i'r polisi fod yn glir, cadarn a chryno, ac mai hynny oedd wedi bod yn flaenoriaeth wrth ei lunio.

Pwysleisiodd aelod bwysigrwydd sicrhau bod pob plentyn yn gallu aros yn yr ardal ac yn eu cymuned drwy fod â'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol, yn enwedig wrth geisio am swyddi lleol sy'n gofyn am y Gymraeg. Galwyd am bolisi fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw yn y gymuned a bod disgyblion yn gadael ysgol yn gwbl ddwyieithog. Pwysleisiwyd yr angen am gamau cadarnhaol, gan wrthwynebu'n gryf unrhyw ymgais wleidyddol i danseilio'r iaith Gymraeg.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Addysg ei ddymuniad i roi cyfleoedd cyfartal i blant ac i gynnal y gwaith ieithyddol da sy'n cael ei wneud yn y sector cynradd wrth iddynt symud ymlaen i'r sector uwchradd. Mynegwyd pryder ynghylch y ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei thrafod mewn rhai cylchoedd gwleidyddol. Mynegwyd siom o glywed sylwadau gan Darren Millar AS, ac fe fynegwyd y gred bod y Gymraeg, fel iaith genedlaethol Cymru, bellach yn rhywbeth y dylai pawb ei chefnogi'n gadarn.

Mynegwyd siom o ran diffyg gweledigaeth gadarn y polisi drafft. Cyfeiriwyd at y gostyngiad yn y canran o blant sy'n siarad Cymraeg yn ôl y cyfrifiad diwethaf, ac at y ffaith nad yw 14% o blant Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg er gwaethaf blynyddoedd o bolisi. Awgrymwyd bod angen strategaeth llawer mwy cadarn ac uchelgeisiol.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch addysg cyn-ysgol, gan bwysleisio bod angen defnyddio geiriau megis "yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg" wrth gyfeirio at

ddarpariaeth cyn-ysgol er mwyn gosod sylfaen cadarn. Cwestiynwyd beth oedd “Cymraeg yw prif gyfrwng addysg” yn y cynradd yn wir olygu. Codwyd pryderon ynghylch defnyddio'r Saesneg ar draws y cwricwlwm heb ddiffiniad clir. Awgrymwyd y dylai'r Saesneg gael ei ddysgu fel pwnc ail iaith yn hytrach na chyfrwng dysgu trawsgwricwlaidd.

Cyfeiriwyd at ddiffiniad ysgolion categori 3, sef bod pob pwnc heblaw am Saesneg yn cael ei addysgu trwy'r Gymraeg. Gofynnwyd a oedd hynny'n cael ei wireddu ym mhob ysgol, ac awgrymwyd nad yw'r ffigwr 70% yn ddigonol o ystyried yr addysg Gymraeg sylfaenol a roddir i blant yn y cyfnod cynradd. Galwyd am dargedau cynyddol ac am fonitro rheolaidd i sicrhau cynnydd parhaus.

Pwysleisiwyd yr angen i weithredu'n bendant dros y Gymraeg mewn sir sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y wlad. Nodwyd bod angen drafftio polisi cryfach a mwy uchelgeisiol, un sy'n normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu bob dydd ym mywyd yr ysgol, yn y gymuned ac yn y cartref. Gofynnwyd i ail-ymgynghori ac ail-ddrafftio'r polisi er mwyn diogelu'r iaith yn genedlaethol ac yn lleol, wrth barchu'r angen i ddysgu'r Saesneg yn fanwl a safonol hefyd.

Mynegodd aelod bryder nad oedd y drafodaeth yn adlewyrchu agwedd gadarnhaol tuag at y polisi. Mynegwyd barn bod y polisi yn uchelgeisiol, cadarnhaol ac arloesol, tanlinellwyd y perygl y byddai negeseuon negyddol yn cyfrannu at ddirywiad yr iaith. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd at lunio'r polisi, a mynegwyd gobaith y bydd y broses ymgynghori yn cynnwys pawb, gan gynnwys y rhai sydd â safbwyntiau mwy cadarnhaol.

Nododd aelod bod angen i'r polisi adlewyrchu'r newidiadau demograffig sylweddol sydd wedi digwydd yn y sir dros yr hanner canrif ddiwethaf. Dymunwyd gweld y dolenni yn cael eu dileu o'r polisi ac y nodir yn glir beth yw'r ddarpariaeth y disgwylir i ysgolion Gwynedd ei gyflwyno. Dymunwyd hefyd eglurder pellach yn y polisi ynghylch cyflwyno'r Saesneg yn drawsgwricwlaidd. Pwysleisiwyd mai parhad y gymdeithas Gymraeg ei hiaith yw'r cwestiwn sylfaenol, a bod angen trafod y polisi yn yr ysbryd hwnnw.

Amlygodd aelod realiti'r sefyllfa o fewn y proffesiwn addysg ar hyn o bryd, gan nodi'r argyfwng recriwtio a chadw athrawon ledled Cymru. Pryderwyd ynghylch nifer isel yr ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyrsiau TAR (Tystysgrif Addysg i Raddedigion) a bod nifer sylweddol o athrawon yn gadael y proffesiwn. Mynegwyd barn byddai unrhyw athro yn croesawu'r cyfle i ddysgu Cymraeg yn rhugl, ond bod yn rhaid i'r sir alluogi hynny drwy ddarpariaeth briodol. Galwyd am amynedd a dealltwriaeth mai addysg o safon yw'r nod, ac y bydd y newid yn cymryd amser. Mewn ymateb i sawl pwynt blaenorol, nododd yr Aelod Cabinet Addysg:

- Bod anhawster cyffredinol recriwtio athrawon yn bodoli, gan bwysleisio bod y broses yn un hirdymor sy'n gofyn am ymrwymiad ac adnoddau.
- Nid yw'r polisi hwn yn ymgais gyflym i greu argraff, ond yn fenter ddifrifol sydd angen amser ac adnoddau i'w gweithredu'n briodol.

- Bydd rhai ysgolion yn gallu cyrraedd yr isafswm o 70% yn haws na'i gilydd, a dyna pam fod angen cymryd yr amser i fuddsoddi'n briodol.
- Bod y 70% a nodir yn y polisi yn isafswm, nid uchafswm.
- Bod angen eglurder pellach mewn rhai rhannau o'r geiriad, a bod hynny'n rhywbeth y byddai'r swyddogion yn barod i'w ystyried wrth fireinio'r drafft.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg ynglŷn a'r elfen drawsgwricwlaidd:

- Bod y Gymraeg, y Saesneg, rhifedd a chymhwysedd digidol i gyd yn cael eu haddysgu'n drawsgwricwlaidd ar draws pob maes dysgu a phrofiad ac nid fel pynciau unigol yn unig.
- Bod gwersi Saesneg ffurfiol, gan gynnwys gramadeg, yn dechrau ym Mwyddyn 3, gyda chyfle wedyn i ddefnyddio'r iaith honno'n drawsgwricwlaidd.

I gloi, nododd yr Aelod Cabinet fod y polisi drafft yn uchelgeisiol, ond derbyniodd fod angen gwneud newidiadau angenrheidiol. Pwysleisiodd mai dyna yw pwrpas y cyfarfod, sef creu fforwm agored ar gyfer trafodaeth. Eglurwyd bod ymgynghori eang gyda thrigolion Gwynedd yn hollbwysig, ac mai dyna'r rheswm dros y gwaith ymgysylltu helaeth sydd eisoes wedi'i wneud gydag ysgolion ledled y sir.

Nodwyd bod arbenigwyr allanol wedi'u cynnwys yn y broses er mwyn cryfhau'r ddogfen a sicrhau fod y Gymraeg yn parhau'n iaith fyw yng Ngwynedd, gan gyfrannu'n uniongyrchol at y nod cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ac ymlaen. Pwysleisiodd bwysigrwydd meithrin plant a phobl ifanc a fydd, ar ôl gadael y system addysg, yn gallu gweithio'n ddwyieithog. Cyfeiriwyd at y drafodaeth a gafwyd ynglŷn ag denu athrawon syn medru'r Gymraeg. Nodwyd er mwyn gyrraedd y nod hwn, mae'n rhaid cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes addysg.

Amlygwyd bod cefnogaeth wedi dod i law gan UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru), gan gadarnhau na fyddai'r polisi'n cael effaith andwyol ar y gweithlu. Yn ogystal, derbyniwyd cefnogaeth gan Gymdeithas yr Iaith, gan nodi bod hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, a'u bod yn ei groesawu, ac yn dymuno gweld siroedd eraill yn dilyn esiampl Gwynedd.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch a yw Gwynedd yn parhau i arwain ar flaen y gad, mynegwyd bod Gwynedd yn parhau i arwain ar y blaen. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith caled ac i'r Cynghorydd Beca Brown am ei chyfraniad ers y cychwyn cyntaf.

PENDERFYNWYD

1. **Nodi'r polisi drafft gan nodi'r sylwadau.**
2. **Croesawu bod y polisi drafft yn mynd i ymgynghoriad.**
3. **Bod y Pwyllgor yn gwneud cais i'r Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio grŵp tasg a gorffen, gyda'r brîff i edrych ar eiriad y Polisi Iaith Addysg Drafft gan ystyried os oes angen gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod 19 Mehefin 2025.**

4. **Pe bai'r cais i'r Fforwm Craffu yn llwyddiannus, bod yr Ymgynghorydd Craffu yn anfon e-bost at aelodau'r Pwyllgor yn rhoi cyfle iddynt roi eu henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 3:10 yp

Cadeirydd

Eitem 7

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
DYDDIAD	19 Mehefin 2025
EITEM	GRŴP TASG A GORFFEN POLISI IAITH ADDYSG DRAFFT
PWRPAS	Cyflwyno argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen o ran geiriad y polisi drafft
CADEIRYDD Y GRŴP TASG A GORFFEN	Cynghorydd Rhys Tudur
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft gerbron cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar [10 Ebrill 2025](#). Yn ystod y drafodaeth, awgrymodd y Cynghorydd Rhys Tudur addasiadau posib i eiriad y Polisi Drafft.

1.2 Penderfynodd y Pwyllgor:

1. Nodi'r polisi drafft gan nodi'r sylwadau.
2. Croesawu bod y polisi drafft yn mynd i ymgynghoriad.
3. Bod y Pwyllgor yn gwneud cais i'r Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio grŵp tasg a gorffen, gyda'r brîff i edrych ar eiriad y Polisi Iaith Addysg Drafft gan ystyried os oes angen gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod 19 Mehefin 2025.
4. Pe bai'r cais i'r Fforwm Craffu yn llwyddiannus, bod yr Ymgynghorydd Craffu yn anfon e-bost at aelodau'r Pwyllgor yn rhoi cyfle iddynt roi eu henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen.

1.3 Bu i'r Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu) gymeradwyo'r cais i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio'r Grŵp Tasg a Gorffen yn seiliedig ar y ddealltwriaeth mai un cyfarfod fyddai'n cael ei gynnal.

1.4 Anfonwyd e-bost at aelodau'r Pwyllgor yn eu gwahodd i roi eu henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen. Rhoddwyd y cyfle i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig sydd gyda phleidlais ar faterion addysg i roi eu henw ymlaen.

1.5 Bu i'r aelodau canlynol roi eu henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen - y Cynghorwyr Jina Gwyrfaï, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands a Rhys Tudur.

2. TRAFODAETHAU'R GRŴP TASG A GORFFEN

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen ar 2 Mehefin 2025. Rhannwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft ac awgrymiadau'r Cynghorwyr Rhys Tudur a Richard Glyn Roberts o ran geiriad y polisi gyda'r rhaglen.

2.2 Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

Iwan Evans, Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)
Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Debbie Anne Jones, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol
Siwan Llwyd Roberts, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd
Jennifer Rao, Swyddog Gweithredol Addysg.

2.3 Tywysodd Cadeirydd y grŵp tasg yr aelodau a'r swyddogion drwy'r awgrymiadau gan egluro'r rhesymeg tu ôl i'r addasiadau. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau wneud sylwadau a chynnig addasiadau pellach. Gwahoddwyd swyddogion i wneud sylwadau.

2.4 Nododd aelodau eu gwerthfawrogiad o'r cyfle i drafod geiriad y polisi drafft. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac am weithio'n agored gyda'r aelodau ar y mater yma. Nodwyd ei fod yn enghraifft dda o sut ddylai bethau weithio.

2.5 Mae nodiadau'r cyfarfod wedi eu cynnwys yn **Atodiad 1**.

2.6 Ynghlwm yn **Atodiad 2**, mae'r polisi drafft gydag argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen o ran addasiadau i eiriad y polisi drafft.

2.7 Mae'r Adran Addysg wedi darparu ymateb i argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor. Gweler yr ymateb yn **Atodiad 3**.

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen ac ymateb yr Adran Addysg i'r argymhellion.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

NODIADAU

CYFARFOD GRŴP TASG A GORFFEN - POLISI IAITH ADDYSG DRAFFT

2 Mehefin 2025

Cyfarfod Rhithiol

Presennol**Y Cynghorwyr:** Rhys Tudur (Cadeirydd), Jina Gwyrfai, Richard Glyn Roberts a Huw Rowlands**Swyddogion:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Iwan Evans (Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Siwan Llwyd Roberts (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Jennifer Rao (Swyddog Gweithredol Addysg).**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cyngorydd Rhys Tudur yn Gadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen.

2. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. CYNNAL GRŴP TASG A GORFFEN

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Craffu at y canllaw cynnal grŵp tasg a gorffen a oedd wedi ei gynnwys yn y rhaglen. Nododd yn unol â'r drefn byddai argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Mehefin 2025. Tynnodd sylw at yr angen i'r Grŵp Tasg wneud argymhellion a oedd yn bosib eu gweithredu.

4. POLISI IAITH ADDYSG DRAFFT

Trafodwyd y ffordd fwyaf effeithiol o gynnal y drafodaeth ar yr eitem. Gofynnodd y Cadeirydd am farn yr aelodau o ran ystyried y ddogfen yr oedd ef wedi cyd-gynhyrchu gyda'r Cyngorydd Richard Glyn Roberts a gyfeiriwyd ato yn ystod y drafodaeth ar y polisi drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Ebrill 2025. Nododd aelod ei fod yn fodlon gyda'r awgrymiadau yn y ddogfen a'i fod yn cytuno mewn egwyddor gyda nhw.

Awgrymodd yr Ymgynghorydd Craffu y dylid edrych ar eiriad y Polisi Iaith Addysg Drafft a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Ebrill 2025. Nododd y byddai'n bosib derbyn arweiniad gan y swyddogion a oedd yn bresennol o ran beth oedd yn bosib ei weithredu.

Nododd y Swyddog Monitro bod y ddogfen gyda'r addasiadau posib wedi eu rhannu gyda'r Grŵp Tasg, nid oedd gerbron y Pwyllgor fel cynnig. Eglurodd o ran y broses o ddod i benderfyniad, byddai'r Grŵp Tasg yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor a fyddai'n gwneud argymhelliad i'r Aelod Cabinet Addysg a'r Adran i'w symud ymlaen i'r Cabinet. Nododd bod y ddogfen gydag addasiadau posib yn tynnu geiriau allan yn ogystal ag ychwanegu i eiriad gwreiddiol y polisi drafft. Eglurodd gan fod y maes mor dechnegol â bod llawer o addasiadau y byddai'n anodd mynd i'r afael a datgymalu brawddegau a'u gwirio yn erbyn materion polisi,

canllawiau statudol a gofynion y maes a oedd gyda'i gymhlethdodau o ran y strwythur llywodraethu. Nododd bod angen dealltwriaeth lefel uwch o ran y cyfeiriad a dymuniad na'r drafftio geiriad yn unig gan ei fod yn fater a fyddai'n mynd o flaen y Cabinet. Ymhelaethodd nad oedd yn dilyn y byddai'n bosib mabwysiadu'r ddogfen gyda'r addasiadau yn ei ffurf bresennol a bod angen cloriannu yn erbyn y gofynion eraill.

Daeth yr aelodau i'r casgliad mai ystyried y ddogfen gyda'r addasiadau posib fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnal y drafodaeth gyda chyfle i'r Cadeirydd nodi'r rhesymeg tu ôl i'r addasiadau a chyfle i swyddogion wneud sylwadau.

Amlygodd y Swyddog Monitro os nad oedd gwrthwynebiad yn cael ei nodi gan swyddogion wrth ystyried yr argymhellion o ran geiriad y polisi drafft, nid oedd yn golygu derbyniad ohonynt gan fod angen adlewyrchu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nododd y Cadeirydd y rhesymeg tu ôl i'r addasiadau posib a rhoddwyd cyfle i aelodau a swyddogion wneud sylwadau:

1. Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023-33

- Bod y gair “Nod” wedi ei dynnu gan ei fod yn ddryslyd ag yn awgrymu mai prif nod y polisi sydd wedi ei gynnwys yn y bocs yn hytrach na nod y Strategaeth Iaith.

2. Polisi Iaith Addysg Diwygiedig Cyngor Gwynedd

- Bod angen nod clir i'r polisi o ran cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a rhoi arweiniad.
- Ni ddylai nod y polisi fod i adael y llywodraethwyr wybod beth sydd i fod i ddigwydd. Dylai rhoi arweiniad ar sut i gynnal a grymuso'r Gymraeg.
- Roedd y cyfeiriad at y categorïau categoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei dynnu gan fod y canllawiau yn cael eu disodli gan y Bil y Gymraeg ac Addysg a oedd wedi ei basio gan Senedd Cymru ac yn mynd i'r cam nesaf o dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Ei fod yn rheitiach i nodi beth mae'r ddarpariaeth i fod yn y polisi yn hytrach na bod y canllawiau sydd i'w disodli yn siarad dros y polisi.
- Newid y geiriad o ran amcanion - cydymffurfio gyda'r cyfarwyddyd yn y polisi yn hytrach na chyfeirio at y canllawiau.
- Bod “a'r Saesneg” wedi ei dynnu o'r pwynt bwled cyntaf ar dudalen 2 gan mai polisi iaith Gymraeg ydyw.
- Bod y cyfeiriad at hyfedr dwyieithog wedi ei dynnu o'r ail bwynt bwled ar dudalen 2 gan fod y polisi yn dod ac addysg ddwyieithog i ben a ni ddylid cyfeirio'n ôl at hyn. Gan y gall olygu bod y polisi yn creu gofyniad ar athrawon o bosib i forol bod y disgyblion yn hyfedr ddwyieithog ac efallai gael addysg gytbwys Cymraeg a Saesneg er nid hynny yw diffiniad o ysgol Gymraeg. Ddim eisiau creu polisi sydd yn creu hawl i addysg Saesneg pan mai ysgolion Cymraeg sydd i'w hannog.
- Trydydd pwynt bwled – bod “annog” yn eiriad go wan mewn polisi sydd yn ceisio gwneud yn siŵr bod disgyblion yn mynychu a gwneud defnydd o ganolfannau trochi. Er yn cydnabod nad yw'n drefn orfodol.

Nododd y Swyddog Monitro nad oedd y bil wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol felly nid oedd mewn grym fel Deddf. Eglurodd bod ysgolion yn gorfod cyhoeddi categori darpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan y canllawiau a oedd dal mewn grym ar hyn o bryd. Ymhelaethodd y byddai peidio cyfeirio at gategorïau yn creu gwagle tan fydd y darpariaethau eraill a fyddai'n creu cyfundrefn wahanol i'r gyfundrefn bresennol mewn lle.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y byddai Bil y Gymraeg ac Addysg yn dod i rym yn y flwyddyn i flwyddyn a hanner nesaf. Ymhelaethodd ni ddylid fod yn or-ddibynnol ar gyfeiriadaeth i categorïau o dan y canllawiau anstatudol presennol yn y polisi gan y byddai angen polisi newydd fyth.

Nododd y Pennaeth Addysg ei fod yn bwysig cydnabod rôl y corff llywodraethol. Pwysleisiodd bod gan lywodraethwyr gymaint o rôl i'w chwarae mewn sawl maes gan gynnwys y maes iaith. Nododd bod gan yr Awdurdod Addysg gyfrifoldeb o ran y categorïddio iaith gyda'r corff llywodraethu gyda'r cyfrifoldeb gyda chynraedd at y nod gyda chynllun. Ymhelaethodd bod angen dod â llywodraethwyr ac ysgolion ar y daith gan nodi disgwyliadau a ddim bod yn rhy llym o ran y geiriad. Nododd mai llywodraethwyr a oedd yn llywodraethu ysgolion a bod yr awdurdod hyd braich gyda phwerau gellir eu defnyddio os oes rhaid.

Mewn ymateb i'r rhesymeg yng nghyswllt yr addasiadau o dan yr amcanion, nododd y Swyddog Monitro bod rhaid i unrhyw bolisi gydnabod y drefn categorïddio. Eglurodd ei fod yn debygol y byddai'r bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn yr haf ond bod y darpariaethau yn ddarostyngedig i orchmynion statudol ddod i rym ac amserlen a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiodd bod gwahaniaeth rhwng dod i rym a dod yn weithredol. Nododd mai ei farn gyfreithiol ef oedd bod y polisi yn mynd i fodoli tan i'r gyfundrefn newydd ddod i mewn. Ymhelaethodd y byddai'r gyfundrefn newydd yn wahanol drefn ar gyfer y cydberthynas rhwng y llywodraethwyr a'r awdurdod ac nid oedd yn dilyn y byddai polisi cyfredol dan y ddeddf newydd yn gallu sefyll yn ddi-newid. Nododd bod hepgor cyfeiriad at categorïddio yn gwanhau'r polisi yn sylweddol gan ei fod yn golygu anwybyddu un o brif ddulliau o ddynodi categori iaith ysgol gan greu ansicrwydd.

Nododd y Cadeirydd mewn ymateb i'r sylwadau, nad oedd ganddo wrthwynebiad llwyr i gyfeirio at categori ond ei fod yn fwy ymarferol i nodi eu bod i gydymffurfio â diffiniad cyfredol Llywodraeth Cymru o ysgolion Cymraeg gan y bydd newid.

Nododd aelod mai un polisi sydd ei angen a fyddai ddim yn gorfod cael ei newid gyda'r opsiwn o bosib i gyfeirio at categorïau yn y polisi gyda phrofiso fod y diffiniad yn mynd i newid.

Darpariaeth addysg cyn-ysgol

Nododd aelod bod y ddarpariaeth addysg cyn-ysgol yn sylfaen i'r cyfan a dylid ystyried addasu'r frawddeg i nodi "Bydd holl leoliadau addysg cyn-ysgol yn darparu trwy'r Gymraeg yn unig."

Cynigodd eiriad ychwanegol y dylid ystyried ei ychwanegu o dan y pennawd. Ymhelaethodd er nad yw'r cyfnod yma yn statudol ei fod yn bwysig bod gan y plant y Gymraeg wrth fynd i'r cyfnod sylfaen.

Cynradd

- Yn cwestiynu os oes angen y tri pharagraff cyntaf o dan yr is-bennawd yma oherwydd ei fod yn ddryslyd o ran beth yw'r ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen hyd at flwyddyn 2 ac o hynny ymlaen.

- Bod y geiriad “ddwy iaith” wedi ei dynnu o’r ail baragraff rhag eu bod yn cael eu defnyddio gan y rhai sy’n wrthwynebus i fwriad y polisi.
- Y geiriad yn y trydydd paragraff wedi ei addasu i nodi “Cymraeg fydd cyfrwng addysg...” yn hytrach na “Cymraeg yw prif gyfrwng addysg...” oherwydd bod y cyfeiriad at brif gyfrwng yn gallu bod yn amwys ac yn agored i ddehongliad.
- Bod y geiriad “Mae pob disgybl yn cael ei addysgu a’i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2.” wedi ei ddiddymu o dan yr is-bennawd ‘Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Blwyddyn 2’ oherwydd yn dechnegol gellir cael rhywfaint o addysg yn Gymraeg a dim o’r gweddill. Credir bod y geiriad newydd posib o dan yr is-bennawd yn unol â nod y geiriad gwreiddiol.
- O ran yr is-bennawd ‘Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6’, yn cwestiynu os oes angen canran ar gyfer yr addysg Gymraeg yn y cynradd gan nad oes gofyniad i gael dim mwy na Saesneg fel pwnc. O ystyried y Siarter Iaith, onid drwy’r Gymraeg mae’r gweithgareddau allgyrsiol i’w cynnal.

Holodd y Cadeirydd am farn yr Adran Addysg ar y pwynt uchod. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg bod barn yr Adran i’w weld yn y polisi drafft. Ymhelaethodd bod yr Adran o’r farn ei fod yn bwysig roi’r ddwy ochr ond ei fod yn deall rhesymeg ei safbwynt.

- Ei fod yn bwysig nodi sut mae’r Saesneg yn cael ei gyflwyno fel nad yw’n dod yn arferiad llafar y dysgu yn drawsgricwlaidd. Y defnyddir y Saesneg mewn unedau gwaith penodol ac yn bwysicaf oll a bennir gan yr ysgol yn hytrach na’r disgyblion. Nodir hyn er mwyn cael gwell rheolaeth ar y ddarpariaeth ac i wneud yn siŵr mai yn y Gymraeg mae gweddill y dysgu.

Uwchradd

- Geiriad wedi ei addasu oherwydd bod Bil y Gymraeg ac Addysg yn dod i mewn felly defnyddio terminoleg lle does ddim angen newid.
- Dylai Gwynedd fod gyda darpariaeth fwy uchelgeisiol na’r hyn mae Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer ysgolion Cymraeg yn y bil. Bod y ganran yn cynyddu o 70% i 80% ond yn bersonol yn ffafrio popeth trwy’r Gymraeg heblaw’r pwnc Saesneg.
- Eto yn cwestiynu os ddylai gweithgareddau allgyrsiol gael eu cynnal yn Saesneg o gwbl.
- Er mwyn bod yn glir a ddiamwys, bod yr ail baragraff wedi ei addasu i nodi pryd y cyflwynir Saesneg – fel pwnc, tasgau ysgrifenedig mewn unedau gwaith penodol a bennir gan yr ysgol.

Nododd aelod yng nghyswllt gweithgareddau allgyrsiol mai’r unig weithgareddau trwy’r Saesneg yn yr Uwchradd fyddai theatr a bod Saesneg fel pwnc yn cwmpasu hynny.

Tynnodd y Cadeirydd sylw bod “disgwylir” yn cael ei ddefnyddio yn y ddogfen yn aml o ran yr hyn y disgwylir gan ysgolion. Nododd y dylid ystyried ei newid i “bydd” gan fod “disgwylir” yn eiriad gwan wrth nodi beth sydd i fod.

- Bod y trydydd paragraff wedi ei ddiddymu gan mai polisi am y Gymraeg ydyw ac y gallai’r rhai sy’n wrthwynebus ei ddefnyddio oherwydd ei fod yn nodi “...datblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith”.
- Bod y pedwerydd paragraff yn nodi “Bydd ysgolion yn darparu’n ieithyddol briodol ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd yn cyrraedd yr ysgolion fel hwyrdyfodiaid ym mlynnyddoedd 10 ac 11.” Yn derbyn nad oes addysg drochi ar gyfer disgyblion yn y blynyddoedd yma ond gall nodi hyn greu anhawster. Gall olygu cais am addysg Saesneg

er bod y disgybl yn medru'r Gymraeg ac yn gallu gwneud rhai agweddau ac fe ddylent wneud hynny.

- Bod man addasiad yn cael ei gynnig ar gyfer y paragraff olaf i nodi "Cymraeg fydd iaith cyfathrebu mewnol" yn hytrach na "y brif iaith" gan mai'r Gymraeg ddylai fo fod. O ran cyfathrebu gyda rhieni, cwestiynu os oes angen "yn Saesneg" o ystyried yn nodi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

3. Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgolion Prif Ffrwd ac Ysgolion Arbennig

- Bod yr addasiad wedi ei wneud er mwyn mynegi'n glir bod disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfle cyfartal i gael addysg Gymraeg yn unol â'r polisi. Bod yna ddim anfanteision a diffyg anogaeth a chefnogaeth i'r disgyblion yma i gael addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd i fod yn rhugl.
- Os oedd yr Adran yn meddwl bod angen ategu at y frawddeg a gynnigir roedd posib gwneud hynny.

4. Cynlluniau Cynnydd Y Gymraeg (Ysgolion Unigol)

- Credir bod angen i'r geiriad fod yn fwy cadarn er mwyn gosod y disgwyliadau ar ysgolion.
- Dylid gwireddu cynnydd ystyrion a mesuradwy dros amser.
- Ddim gwrthwynebiad bod ysgolion yn nodi blaenoriaethau ond bod angen adroddiadau monitro mesuradwy er mwyn dwyn i gyfiri yn effeithiol.
- Bod y frawddeg olaf wedi ei ddiddymu – ddim yn ddrwg o beth i nodi mai lleiafswm yw'r canrannau a gall ysgolion fod yn uchelgeisiol ond yr angen i dynnu "Ysgolion Categori 3" gan y byddai'n cael ei ddisodli.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau pellach.

Nododd aelod bod yr ymarferiad wedi bod yn ddiddorol. Ychwanegodd y dylid nodi wrth gyflwyno adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor bod yr aelodau'n diolch i'r swyddogion am eu gwaith ac am weithio'n agored gyda'r aelodau ar y mater yma a'i fod yn enghraifft dda o sut ddylai bethau weithio.

Ategodd aelod y sylwadau uchod. Holodd wrth ddiddymu'r frawddeg o ran darpariaeth ieithyddol briodol ar gyfer hwyrddyfodiaid ym mlynnyddoedd 10 ac 11, a ofynnir am ddarpariaeth trochi o flwyddyn 7 i 11. Nododd o ran cynllunio cynnydd yn y Gymraeg, nid oedd llawer o gig ar yr asgwrn. Holodd a fyddai hyfforddiant i lywodraethwyr.

Nododd aelod ei fod yn cytuno gyda'r rhan fwyaf o'r sylwadau a'r addasiadau ac yn edrych ymlaen at glywed barn swyddogion ar yr hyn sydd wedi ei awgrymu ac os oes unrhyw faen tramgwydd.

Nododd y Cadeirydd sylwadau ar gyfeiriad y Polisi –

- Dylid ystyried newid "disgwyli'r" i "bydd" trwy'r ddogfen;
- Cwestiynu os ddylai gweithgareddau allgyrsiol fod yn Saesneg o gwbl o ystyried y Siarter Iaith;
- Cyfeiriadau at ganllawiau categorieiddio ni ddylid cyfeirio at y canllawiau ond os oes yna gyndynrwydd i gyfeirio at Bil y Gymraeg ac Addysg, ystyried wedyn nodi'r ddwy derminoleg gan greu llai o drafferth wrth i'r bil ddod yn ddeddf;

- Cynlluniau Cynnydd – gosod yr hyn sy'n ddisgwyliedig sef adroddiad monitro yn adrodd cynnydd ac yn fesuradwy;
- Bod angen bod yn glir sut mae Saesneg yn cael ei gyflwyno os yw'r Adran yn mynnu ei fod yn cael ei ddysgu yn drawsgwricwlaidd. Angen bod yn glir ei fod yn cael ei bennu gan yr ysgol yn hytrach na rhiant/disgybl.

Nododd aelod ei fod yn holl bwysig nodi bydd pob plentyn yn cael addysg Gymraeg o dan y Ddeddf newydd felly bod angen cael gwared ar y categorïddio a bod pob plentyn yn cael y Gymraeg gan gynnwys yn y cyfnod cyn-ysgol. Mynegodd bryder yng nghyswllt gwersi Saesneg gan nodi y dylid cyflwyno'r Saesneg yn drawsgwricwlaidd ond os bydd rhaid. Nododd bod angen capio faint os am gynnydd a monitro cynnydd, wrth i ddisgybl gaffael y Saesneg dylai'r tasgau fynd yn fwy penodol a'r oriau yn lleihau. Ategodd y sylwadau am weithgareddau allgyrsiol.

Nododd y Swyddog Monitro ei fod yn gwerthfawrogi'r drafodaeth a oedd yn galluogi deall y rhesymeg, bwriad ac amcan tu ôl i'r addasiadau. Eglurodd bod angen cyfle i gnoi cil ar yr addasiadau oherwydd bod fframwaith statudol o gwmpas y materion yma. Amlygodd bod Adran 10 y ddeddf newydd yn nodi mai'r gweinidogion fyddai'n creu manylion y categorïau newydd mewn rheoliadau ac adeg yna bydd y ddealltwriaeth o'r canrannau ac amryw agweddau. Nododd y byddai'n fuddiol i'r Grŵp Tasg ystyried sut fyddai'r addasiadau yn eistedd o fewn fframwaith y cwricwlwm, y Gymraeg mewn Addysg a hefyd rhaniad mewn dyletswyddau rhwng llywodraethwyr a'r awdurdod lleol. Pwysleisiodd os nad oedd ef wedi ymateb i bob sylwad gan aelodau nid oedd yn golygu ei fod naill ai'n cytuno neu'n anghytuno a bod hyn yn wir o beth i'r swyddogion arall.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd nad oedd arweiniad ar fframwaith cwricwlaidd ar gael mewn un ddogfen, byddai canllaw o fudd i'r Grŵp Tasg ac i'r Pwyllgor Craffu. Nododd bod categorïau addysg Gymraeg yn rhoi isafswm gyda'r Bil y Gymraeg ac Addysg o dan Adran 10 yn nodi mai'r isafswm ar gyfer ysgol prif iaith Gymraeg yw 80%. Nododd nad oedd gymaint o anawsterau cyfreithiol i gryfhau'r ddarpariaeth mwy na 80%.

Nododd aelod nad yw'r addasiadau yn gryfach na'r hyn oedd yn digwydd mewn siroedd eraill yn barod. Pwysleisiodd ei fod yn bwysig peidio cyflwyno polisi sydd ddim mor gryf â'r polisi presennol a bod yr addasiadau yn sicrhau hynny.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro bod lefel o newid darpariaeth ieithyddol mewn ysgol yn golygu mynd dros y trothwy lle mae angen mynd trwy'r broses newid statudol, fel sydd wedi digwydd yng Ngheredigion yn ddiweddar wrth sefydlu ysgolion cyfrwng Gymraeg (Categori 3P).

Nododd y Cadeirydd ei ddealltwriaeth byddai'r broses newid statudol yn cael ei ddisodli. Ymhelaethodd bod y bil ei hun yn dod a gofynion i wneud cynlluniau cyflawni blynyddol ac i'r llywodraethwyr ymgynghori gyda thrawstoriad o bobl, disgyblion a rhieni ac ati ond bydd ysgolion yn gallu cynyddu darpariaeth cyfrwng Gymraeg heb angen mynd drwy drefn statudol mwyach.

Nododd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol derbyn arweiniad yng nghylch beth sydd yn ei wneud yn anghenraid i'r Saesneg gael ei ddysgu yn drawsgwricwlaidd.

Holodd yr Ymgynghorydd Craffu yng nghyswllt enwi ysgolion penodol yn yr addasiadau.

Nododd y Cadeirydd y dylid cyfeirio at yr ysgolion oherwydd ni fyddai'n bosib iddynt ddarparu'r ddarpariaeth a amlinellir yn y polisi yn syth. Nododd mai ei farn ef ar ddechrau'r ymgynghori ar y polisi oedd y dylid creu polisi neilltuol ar gyfer yr ysgolion sydd ddim yn gategori 3 ar hyn o bryd. Ymhelaethodd gan eu bod yn dechrau o le gwahanol fod angen targedau, strategaeth a pholisi gwahanol ar eu cyfer. Nododd os mai'r bwriad oedd creu un model polisi i'r holl ysgolion roedd angen cyfeirio at yr ysgolion a gallent addasu'r diffiniad i nodi eu bod yn ymgyrraedd at yr un ddarpariaeth a'r ysgolion eraill gyda nod o'i gyflawni o fewn amserlen benodol.

Cadarnhaodd yr aelodau bod angen enwi Ysgol Friars ac Ysgol Uwchradd Tywyn o dan yr Uwchradd yn yr un modd a enwir Ysgol Ein Harglwyddes o dan y Cynradd er mwyn bod yn glir eu bod yn cychwyn o le gwahanol.

Gofynnodd aelod a fyddai modd gwneud amodau cynllunio cynnydd gwahanol i'r ysgolion yma gyda gofynion is ond bod amserlen benodol i gynyddu'r ddarpariaeth. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg y bydd bob ysgol yn cychwyn o le gwahanol a bod hyd y daith i gyrraedd y nod yn mynd i gymryd mwy o amser i rai o'r ysgolion.

Nododd y Cadeirydd ei ddiolch i bawb am eu cyfraniad a'i fod yn croesawu'r cyfle i drafod geiriad y polisi drafft.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30yp a daeth i ben am 5.00yp

Argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen

Cyngor Gwynedd: Polisi Iaith Addysg Drafft

1. Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023 – 2033

Nod Mae'r polisi hwn yn gyson â Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd:

Rydym yn bwriadu creu strategaeth gynhwysol, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn nifer helaeth o wahanol gyd-destunau. Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'u bywydau, byddwn hefyd gobeithio yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith. Rydym am roi sylw penodol i ddefnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys rhoi sylw i'w defnydd o'r Gymraeg gyda thechnoleg, dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i'r byd gwaith, a cheisio cynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol.

2. Polisi Iaith Addysg Diwygiedig Cyngor Gwynedd

~~Prif nod y Mae'r Polisi hwn yw sicrhau bod yn rhoi arweiniad i ysgolion a Llywodraethwyr chyrff llywodraethu yn ymwybodol o'r ar y disgwyliadau mewn perthynas ag iaith addysg yng Ngwynedd, gan Gyngor Gwynedd i ysgolion gydymffurfio â'r disgwyliadau a nodir yn y drefn newydd o gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth ieithyddol. Disgwylir i ysgolion a chyrff llywodraethol fod yn gwbl ymwybodol o'r diffiniadau a geir yn y ddogfen honno wrth gynllunio'u darpariaeth addysgol.~~

~~<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-darpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>~~

~~Mae'r polisi hwn yn rhan o Nod y polisi yw cyfrannu'n helaeth at strategaeth ehangach gan Gyngor Gwynedd i gynnal y grymuso'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y sir.~~

Fel rhan o'r polisi hwn bydd ~~disgwyl i~~ penaethiaid a ~~L~~ llywodraethwyr ysgolion gynllunio'n fwriadus i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir.

Amcanion:

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethol yn sicrhau:

- bod eu hysgol yn darparu Addysg Cymraeg yn unol â'r cyfarwyddyd yn y polisi hwn ~~cydymffurfio â'r diffiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru o ysgol Categori 3~~ a bod y

wybodaeth berthnasol am gyfrwng yr addysgu yn yr ysgol yn cael ei gyfleu yn glir i rieni a darpar rieni'r ysgol.

- bod pob disgybl yn meddu ar sgiliau priodol yn y Gymraeg ~~a'r Saesneg~~ erbyn cyrraedd diwedd cyfnod o addysg statudol.
- ~~bod darpariaeth addas ar gael i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i bydd~~ ysgolion ~~yn bparhau~~ i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n derbyn addysg drochi ar ba bynnag gyfnod mae hynny'n digwydd.
- bod pob disgybl sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn ~~cael ei annog i fm~~ynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd.
- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith a Safonau Iaith lle bo hynny'n berthnasol, yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd **ac allgyrsiol**.

Darpariaeth addysg cyn-ysgol

Pwysigrwydd y cyfnod ffurfiannol hwn yw'r cyfle i gyflwyno'r iaith Gymraeg - geirfa a phatrymau iaith – yn naturiol anffurfiol, gan drochi trwy chwarae, pob plentyn o bob cefndir trwy'r sir.

Bydd holl leoliadau addysg cyn-ysgol yn darparu trwy'r ~~gyfrwng y~~ Gymraeg yn unig.

Canlyniad hyn fydd rhoi gafael cadarn ar y Gymraeg i blant, fydd o gymorth a sylfaen iddynt wrth ddechrau addysg statudol y Cyfnod Sylfaen.

Cynradd

Mae pob ysgol gynradd yng Ngwynedd (oddi eithr Ysgol Ein Harglwyddes, a fydd yn ymgynraedd at fod yn Ysgol Categori 3) yn disgyn i Ysgol Categori 3 ~~neu'n ymgynraedd at fod yn Ysgol Categori 3~~ yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion cynradd.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Nod y Polisi Iaith Addysg yn y sector cynradd yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ~~Gymraeg ddwy iaith~~ erbyn eu bod yn 11 oed, gan ddatblygu sgiliau ieithyddol disgyblion a darparu cyfleoedd **i'w defnyddio** mewn sefyllfaoedd real ac ystyrlon.

Cymraeg ~~fydd yw prif~~ gyfrwng addysg disgyblion a chyfathrebu mewnol ysgolion cynradd Gwynedd. Bydd cyfathrebu â rhieni a gofalmwr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg a Chymreig, a fydd yn

cefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Blwyddyn 2

Cymraeg fydd cyfrwng addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol y disgyblion hyd at ddiwedd Blwyddyn 2. Mae pob disgybl yn cael ei addysgu a'i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2. Bydd ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol.

Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6

Cymraeg fydd cyfrwng o leiaf 80% o addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol y disgyblion o flwyddyn 3 hyd ddiwedd blwyddyn 6. O flwyddyn 3 ymlaen, mewn cyd-destun o feithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd llawn, bydd o leiaf 80% o weithgareddau addysgol y disgybl (cwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc a phan gyflwynir Saesneg yn gyfrwng tasgau ysgrifenedig mewn unedau gwaith penodol a bennir gan yr ysgol er mwyn meithrin sgiliau yn y Saesneg yn chyfrwng dysgu tdrawsgwricwlaidd.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwyli'r Bydd ysgolion yn sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 2-6) sy'n hwyrddyfodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd.

Uwchradd

Cymraeg fydd cyfrwng o leiaf 80% o addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol y disgyblion yn ysgolion uwchradd Gwynedd (oddi eithr Ysgol Friars a Ysgol Uwchradd Tywyn a fydd yn ymgyrraedd at hyn). Mae pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgyrraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021_12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf

Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg fydd prif iaith yr addysg i'r holl ddisgyblion hyd at 16 oed, (yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o'r disgwyliadau statudol ar ysgolion Categori 3 Uwchradd), oddieithr yn achos y Saesneg fel pwnc a phan gyflwynir Saesneg yn

gyfrwng tasgau ysgrifenedig mewn unedau gwaith penodol a bennir gan yr ysgol er mwyn meithrin sgiliau yn y Saesneg yn drawsgricwlaidd.

~~Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Bydd Y Saesneg yn parhau i gael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu rhai elfennau trawsgricwlaidd.~~

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. ~~Disgwylir i Bydd~~ ysgolion yn sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 7-9) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd. ~~Bydd ysgolion yn darparu'n ieithyddol briodol ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd yn cyrraedd yr ysgolion fel hwyrddfyodiaid ym mlynnyddoedd 10 ac 11.~~

Cymraeg fydd ~~y brif~~ iaith ~~ar gyfer~~ cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

3. Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgolion Prif ffrwd ac Ysgolion Arbennig.

Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ~~ieithyddol i gael addysg Gymraeg~~ yn unol â'r Polisi hwn. ~~Mae rhaid rhoi sylw i Ddeddf ADY a Tribiwnlys Cymru (2018) wrth ddechongli'r polisi hwn. Lle mae Darpariaeth Dysgu Ychwanegol wedi ei nodi mewn Cynllun Datblygu mewn cyfrwng iaith penodol ar gyfer y cyfathrebu ac ymyrraeth, mae rhaid rhoi sylw i roi hynny mewn lle, a chyd fynd gyda chyngor arbenigol. Mae'n rhaid rhoi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb yn ogystal.~~

4. Cynlluniau Cynnydd Y Gymraeg (Ysgolion Unigol)

Dylai pob ysgol ymgynhyrchu i wireddu cynnydd ystyrlon a mesuradwy yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg tros amser a'u cyflwyno ~~Bydd disgwyl i bob ysgol a chorff Llywodraethol gyflwyno'u blaenoriaethau datblygu'r Gymraeg i Gynllun Cynnydd Y Gymraeg. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gytuno gyda Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn unol â Deilliannau'r CSGA.~~

~~Pwysleisir yn nogfennaeth y Llywodraeth mai lleiafswm yw'r canrannau a nodir yn y diffiniad o Ysgolion Categori 3.~~

Ymateb yr Adran Addysg i Argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen

Mae'r Adran Addysg yn gwerthfawrogi diddordeb aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn y polisi iaith addysg drafft a luniwyd gan yr Adran Addysg fel polisi enghreifftiol ar gyfer ysgolion.

Mae'r polisi drafft a luniwyd gan yr Adran yn ymgais i osod uchelgais Gwynedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc y Sir yn tyfu i fod yn ddefnyddwyr Cymraeg hyfedr ac yn datblygu medrau dwyieithog neu amlieithog o fewn ein Cyfundrefn Addysg. Mae'r polisi drafft yn ystyrlon o amrywiaeth ieithyddol Gwynedd, ac yn ymgais i dywys rhanddeiliaid gyda ni ar y daith i gynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn ysgolion Gwynedd.

Mae llunio polisi iaith yn broses gymhleth, ac mae yna gyd-destunau cyfreithiol sydd angen cymryd ystyriaeth allweddol ohonynt wrth ei lunio. Yn sgil hyn, bu i'r Adran Addysg gomisiynu Meirion Prys Jones fel ymgynghorydd ac arbenigwr ar gynllunio ieithyddol - sydd wedi chwarae rôl allweddol yn llunio'r drefn anstatudol bresennol o gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg - i gynorthwyo a chydweithio gyda'r Adran Addysg i ail-edrych ar y polisi iaith presennol, ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid, ac ar sail hynny, llunio'r polisi iaith addysg drafft.

O ran cyd-destun, mae'r polisi drafft yn ystyried ac yn cyfarch gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb (Llywodraeth Cymru; 2023) a Chanllaw gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, atebolrwydd a gwella (Llywodraeth Cymru; 2024).

Yn ogystal â chyfarch yr holl ofynion uchod, mae'r polisi drafft hefyd yn adlewyrchu barn rhan-ddeiliaid amrywiol a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu a gynhaliwyd, yn cynnwys:

- Ysgolion Cynradd
- Ysgolion Uwchradd
- Ysgolion Arbennig
- Dysgwyr
- Mudiadau Iaith
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Iaith
- Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd

Ar sail y gwaith manwl sydd wedi mynd rhagddo i lunio'r polisi drafft felly, mae'r Adran Addysg o'r farn fod cynigion y Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnig newidiadau arwyddocaol i gynnwys ac egwyddorion craidd polisi drafft yr Adran, ac yn sgil hynny, fod naws ac

elfennau o gynnwys dogfen bolisi'r Grŵp Tasg a Gorffen yn creu rhai heriau y mae'r Adran Addysg yn bryderus amdanynt.

Nid oes bwriad gan yr Adran Addysg i gyflwyno sylwadau ar fân newidiadau a gyflwynir yn nogfen bolisi'r Grŵp Tasg a Gorffen. Er hynny, mae'r Adran yn barod i roi ystyriaeth i'r rheiny o allu symud ymlaen gyda'r broses o ymgynghori a chyflwyno'r polisi drafft gerbron Cabinet maes o law.

O ran yr heriau, mae'r polisi drafft, fel y Polisi Iaith Addysg presennol, yn rhan o strategaeth ehangach gan y Cyngor i sicrhau bod plant a phobl ifanc hyd at 18 oed, yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn Y Gymraeg ac yn Saesneg, fel eu bod yn hyfedr ddwyieithog. Cyflawnir hynny drwy addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg fel pwnc, ac fel cyfrwng trawsgwricwlaidd i amrywiol raddau yn unol â'r hyn ddywed y polisi. Rhaid cydnabod fod angen sgiliau dwyieithog ar bobl, ac mae hynny wedi bod, ac yn parhau i fod yn rhan o weledigaeth yr Adran i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn Y Gymraeg ac yn Saesneg. Barn yr Adran yw bod angen nodi hynny'n glir a diamwys y bydd pob dysgwr yn hyfedr ddwyieithog yn y polisi drafft, er mwyn ennyn cefnogaeth eang rhan-ddeiliad i'r polisi, ac yn arbennig o ystyried bod gan rieni ddiddordeb yn sgiliau dwyieithog eu plant. Yn yr un modd, bydd plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol yn unol â gofynion cyffredinol y polisi.

O ystyried y cyd-destun cyfreithiol, mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 wedi ei basio gan Senedd Cymru ym mis Mai eleni, ac mae'n symud i'r cam nesaf o dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar hyn o bryd. Er hynny, mae cyfnod o sawl blwyddyn hyd nes y gwelwn y Bil a'r drefn statudol o gategoreiddio ysgolion yn dod yn weithredol. Yn y cyfamser, felly, mae gofyn i'r polisi iaith drafft adlewyrchu'r drefn gategoreiddio anstatudol sy'n weithredol ar hyn o bryd, gan drosglwyddo i'r drefn statudol pan ddaw i rym. Bydd gweithredu yn y modd yma'n gyfrwng i osgoi heriau cyfreithiol posibl wrth weithredu'r polisi, gan y byddai'r polisi yn adlewyrchu ac yn ategu gofynion Llywodraeth Cymru.

Cydnabyddir fod diffiniadau o'r drefn gategoreiddio yn amrywio rhwng y drefn anstatudol bresennol a'r hyn a nodir fel isafswm yn Bil y Gymraeg, a dros y blynyddoedd nesaf, bydd yr Adran Addysg angen braenaru'r tir a chydweithio gyda'r ysgolion i'w cefnogi i ymgynghori at y gofynion er mwyn hwyluso trosglwyddiad effeithiol o'r naill drefn i'r llall maes o law.

Mae Addysg Drochi wedi bod yn rhan greiddiol o weithrediad Polisi Iaith Addysg Gwynedd ers ei sefydlu. Nid oes gan y Cyngor hawl i orfodi dysgwyr sy'n hwyrddyfodiaid i fynychu Unedau Trochi Iaith, ac mae llwyddiant y Gyfundrefn Drochi i gefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg, ynghyd â llwyddiant ein hysgolion wrth annog a chyfeirio dysgwyr dros y degawdau yn brawf bod y drefn bresennol o annog a chyfeirio dysgwyr yn briodol. Dysgwyr blynyddoedd 2-9 sy'n cael eu cyfeirio i'r Gyfundrefn Drochi, ac ar gyfer dysgwyr sy'n cyrraedd ein hysgolion yn hwyrddyfodiad ym mlynnyddoedd 10-11, disgwylir i'r ysgolion ddarparu'n briodol ar eu cyfer, gyda'r Gyfundrefn Drochi yn darparu arweiniad a chefnogaeth i'r ysgolion yn ôl yr angen.

Mae defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a gweithrediad y Siarter Iaith yn gwbl allweddol, a thrwy gyfrwng y polisi drafft disgwylir mai Cymraeg fyddai cyfrwng mwyafrif o'r gweithgareddau allgyrsiol a gynhelir. Mae hyrwyddo'r Gymraeg wedi bod yn elfen greiddiol o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd ers ei sefydlu, ac o ran cynllunio ieithyddol rhyngwladol, dyma un o'r pethau sy'n cael ei bwysleisio'n gyfredol, sef fod yn rhaid cyplysu dysgu iaith â chyfleoedd go iawn i'w defnyddio. Heb hyn mae peryg i iaith beidio gwreiddio, ac ni fydd siaradwyr newydd yn awyddus i'w defnyddio, o er bod ganddynt y sgiliau ieithyddol i wneud hynny.

I gloi, ystyrir fod dogfen bolisi'r Grŵp Tasg a Gorffen yn cyflwyno rhai heriau ymarferol y mae'r Adran Addysg yn bryderus amdanynt. Er hynny, mae'r Adran yn barod i ystyried rhai mân addasiadau i'r polisi drafft wrth symud ymlaen i ymgynghori arno a'i gyflwyno gerbron Cabinet.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	19eg Mehefin 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad yr Adran Addysg
RHESWM DROS GRAFFU	Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol
AWDUR	Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg
AELOD CABINET	Cyng. Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau’r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet dros Addysg, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno adroddiad perfformiad yr Adran Addysg er sylw Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3. Cefndir / Cyd-destun

3.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarw ar beth sydd wedi’i gyflawni yn y maes rwy’n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu’r diweddaraf gyda’r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a mesurau perfformiad yr Adran.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2025, gan gydnabod ei bod yn parhau’n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o’r addewidion sy’n newydd yn y ddogfen ers Ebrill 2024. Er hynny, mae’r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

3.2.1 Perfformiad Addewidion Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae diweddariadau ar holl brosiectau Cynllun y Cyngor yr Adran Addysg i'w gweld yn Atodiad 1, fodd bynnag hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau canlynol:

3.2.2 Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Bydd polisi mynediad ysgolion Gwynedd yn newid o fis Medi 2025 gan fod disgwyl i blant sydd yn mynychu dosbarth Meithrin yn ysgolion Gwynedd fod wedi eu toiledu cyn cychwyn. Rydym yn parhau i rannu adnoddau gyda rhieni a rhannu gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r gwaith o ehangu darpariaeth gofal plant 2 oed i ardaloedd newydd yn weithredol, gyda 21 lleoliad gofal plant yn darparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r tîm o Athrawon Ymgynghorol a'r Swyddogion Gofal Plant yn cefnogi'r lleoliadau newydd drwy ymweliadau, cefnogaeth a grantiau cychwynnol i fuddsoddi mewn adnoddau pwrpasol i sicrhau codi safonau i gyfarch gofyn Dechrau'n Deg.

3.2.3 Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Braf yw cael datgan fod adeilad a champws newydd ar gyfer Ysgol Trefarthyr yng Nghricieth wedi agor ei drysau i ddysgwyr ddechrau mis Medi 2024. Mae hyn yn dilyn blynyddoedd o waith, a buddsoddiad o dros £8m er sicrhau amgylchedd dysgu ac adnoddau o'r radd flaenaf i hyd at 150 o ddysgwyr yr ardal. Yn ogystal, mae darpariaeth gofal plant ar y safle, ynghyd ag Uned ABC.

Mae bwriad hefyd i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ym Mangor. Mae adeilad hen Ysgol Glanadda wedi ei ddymchwel gogyfer â chychwyn y gwaith adeiladu ar gyfer ysgol newydd Ein Harglwyddes. Yn dilyn y dymchwel, mae'r gwaith datblygu ac adeiladu wedi cychwyn gyda'r ffrâm ar gyfer yr ysgol newydd eisoes yn ei le.

Mae bwriad hefyd i wneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Hiracl, ac mae'r rhan gyntaf o'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar safle maes parcio Byw'n Iach Bangor ym mis Mawrth 2025 er mwyn uwchraddio'r ardal a chreu gofodau parcio ar gyfer staff Ysgol Hiracl er mwyn i'r ysgol fod yn safle di-geir.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan ym Mangor, ac rydym wedi penodi pensaer ar gyfer y prosiect sydd yn gweithio efo'r Adran ac Ysgol Tryfan

er mwyn ceisio cyfarch y weledigaeth ar gyfer y buddsoddiad hwn. Mae Achos Strategol Amlinellol wedi ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024. Dyma'r cam cyntaf o achos fusnes 3 cham i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r Tîm Dylunio wedi cael eu penodi, ond nid oes cytundeb ar ddyluniad eto, gan fod gwaith pellach i'w wneud ar sawl agwedd.

3.2.4 Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Yn dilyn derbyn ymatebion i holiadur yn 2024 gan nifer sylweddol o rieni, dysgwyr, staff a phenaethiaid ysgolion mae'r heriau ariannol o anfon plant i'r ysgol wedi eu hamlygu'n glir. Yn ddyddiol mae teuluoedd yn wynebu costau gwisg ysgol, teithiau ysgol, a chostau cinio/egwyl (yn yr Uwchradd) ac mae canfyddiadau'r holiaduron yn adlewyrchu hyn.

Mae'r Ysgolion unigol wedi derbyn dadansoddiad manwl o'r canfyddiadau ac mae gweithgor wedi cyfarfod i sefydlu Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar. Bydd y Siarter yma yn cynnwys nifer o fesuryddion i ysgolion eu cyrraedd er mwyn cael eu hadnabod fel Ysgol 'Cost Gyfeillgar.'

Fel rhan o werthuso trefniadau ysgolion unigol bydd Awdit Ysgol Cost gyfeillgar yn cael ei ffurfio gan y gweithgor ac o gwblhau'r Awdit fe fydd yr ysgolion yn gallu adnabod camau gweithredu er mwyn iddynt gyrraedd gofynion y siarter.

3.2.5 Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Eifionydd a Bangor a bellach mae'r Uned Drochi Iaith newydd ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn wedi ei chwblhau ac wedi agor ei drysau i newydd ddyfodiaid yr ardal ers Ionawr 2025.

Yn sgil derbyn cadarnhad o lwyddiant yr Achos Fusnes ar gyfer ail wedd o arian cyfalaf gwerth £1.1m, byddwn yn buddsoddi yn y 3 safle addysg drochi cynradd a gaiff eu lleoli yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Mae'r gwaith adeiladu ym Mhwlheli eisoes wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith adeiladu yng Nghaernarfon a Dolgellau ar drac i'w gwblhau yn nhymor yr haf.

Mae grant refeniw Trochi Hwyr, Llywodraeth Cymru hefyd wedi ein galluogi i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi yn ein canolfannau. Mae'r cynllun gwahaniaethol hwn sy'n pontio'r Cynradd a'r Uwchradd wedi bod yn weithredol ymhob Uned Drochi o fis Ionawr 2025 ymlaen. I gyd-fynd â'r cynllun mae'r prosiect arloesol digidol Aberwla hefyd wedi ei

gwblhau. Dyma adnodd addysgol gwerthfawr i normaleiddio'r Gymraeg ar y platfform rhithiol.

3.2.6 Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd

Rwy'n hynod o falch ein bod wedi penodi Meirion Prys Jones fel ymgynghorydd llawrydd i gydweithio gyda'r Adran i ail-edrych ar y Polisi Iaith Addysg. Mae'r cyfarfodydd ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol wedi digwydd yn ystod tymor yr hydref 2024 ac rydym wedi cyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror 2025. Erbyn hyn, rydym hefyd wedi cyflwyno Polisi Iaith Addysg Drafft gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Ebrill 2025, gyda'r bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Cabinet.

4. Perfformiad yr Adran

Mae Gwasanaethau'r Adran yn perfformio'n dda a chadarnhaf fy mod yn fodlon gyda'u perfformiad presennol. Nid yw'r wybodaeth isod yn cyfeirio at bob Gwasanaeth yn yr Adran, gweler isod rhai o'r uchafbwyntiau. Am fanylion llawn ar berfformiad mesurau'r Adran, gweler Atodiad 2.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn falch o gadarnhau bod yr amser aros ar gyfer y Gwasanaeth Cwnsela wedi parhau i ostwng, er gwaethaf yr heriau y mae cynifer o bobl ifanc yn eu hwynebu'r dyddiau hyn, hynny o 51 diwrnod i 10 diwrnod. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o ddysgwyr Cynradd sydd yn cael eu cyfeirio, ac rydym yn ceisio ymateb i'r galw yma trwy addasu amser cwnsela ar gyfer y Cynradd. Mae posib y bydd hyn yn cael effaith ar yr amser aros yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi ymestyn y math o ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig. Rydym yn parhau i edrych ar gapasiti ein hysgolion arbennig a chanolfannau. At hyn, mae'r gwaith o addasu rhai dosbarthiadau yn Ysgol Pendalar er mwyn sicrhau bod capasiti digonol ar gyfer y dysgwyr rheiny sydd angen mynediad i ysgol arbennig yn Arfon wedi ei gwblhau.

Mae'r maes presenoldeb yn parhau i fod yn bryder i ni a'r lefelau heb ddychwelyd i'r hyn ydoedd cyn y pandemig. Mae canran presenoldeb yr Awdurdod ar gynnydd gyda chyfartaledd y flwyddyn academaidd i ddyddiad yn 91.1% (Cyfradd Cymru yn 91% ym Mawrth 2025). Mae tueddiad y tair blynedd diwethaf ar ei fyny ond rydym yn cydnabod fod gwaith yn parhau i godi presenoldeb i lefelau cyn y pandemig

Dros y misoedd diwethaf, mae gwaith wedi'i wneud gyda'r Uned Ddata Addysg i ddatblygu system byw sydd yn adnabod tueddiadau absenoldebau, adrodd ar bresenoldeb grwpiau penodol ac adnabod disgyblion sydd yn peri pryder er ein galluogi i ymyrryd yn gynt.

Rydym yn parhau gyda'r gwaith targedu gyda grwpiau penodol o ddisgyblion sydd yn profi yn llwyddiannus ac yn cyfrannu at y cynnydd mewn lefelau presenoldeb y Sir.

Mae annog newid mewn ymddygiad i bresenoldeb a chodi'r lefelau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth. Dros y misoedd nesaf bydd ymgyrch ar annog newid mewn ymddygiad i bresenoldeb ynghyd â pharhau ar waith targedu.

Maes arall sydd wedi derbyn sylw dros y flwyddyn ddiwethaf yw'r cynnydd mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol o ganlyniad i ymddygiadau heriol o fewn ein hysgolion. Yn dilyn arolwg manwl o'r Gwasanaeth Cynhwysiad mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r ddarpariaeth gan gynnwys symud ymlaen i ddatblygu Uned Cyfeirio Disgyblion, gweithio gydag ysgolion ar Strategaeth Cynhwysiad newydd ac ail fodlu'r ddarpariaeth ymestyn allan sef y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion. Mae'n bleser adrodd fod y gwaith yma ar drac i fod yn weithredol o Fedi 2025 ymlaen ac edrychaf ymlaen at adrodd ar y cynnydd yn fy adroddiad nesaf.

Arlwyo

Ers 1 Medi 2023, rwy'n hynod o falch fod pob dysgwr cynradd o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yng Ngwynedd yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim, a hynny flwyddyn o flaen yr amserlen genedlaethol.

Ym Mawrth 2025, ar gyfartaledd, cafodd 4,879 o brydau cinio ysgol am ddim eu darparu ar unrhyw ddiwrnod. Rwy'n hynod o falch o'r llwyddiant hwn, ac yn awyddus i'r Adran hyrwyddo'r cynnig ymhellach ymysg plant a theuluoedd er mwyn annog rhagor o deuluoedd i fanteisio ar y cynnig.

Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd wedi'i strwythuro mewn tair ffrwd allweddol - Gwaith Ieuenctid Cymunedol, Gwaith Cymorth Ieuenctid 11-16 oed, a Gwaith Cymorth Ieuenctid 16-25 oed, i ymateb yn effeithiol i anghenion pobl ifanc ledled y sir. Mae'r ddarpariaeth, sy'n cael ei chynnig yn gynnwys gwaith cymunedol gyda phartneriaid lleol, ynghyd â chefnogaeth mewn ysgolion Uwchradd a'r gymuned i hyrwyddo llesiant personol ac emosiynol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhoi cymorth i bobl ifanc sydd y tu allan i addysg, hyfforddiant neu waith gan gynnwys cyngor ar gyflogadwyedd, iechyd a materion tai. Mae prosiect 'Llais Ni' Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd yn fenter sydd wedi ei ddatblygu yn 2024-25 sy'n rhoi lleisiau a chyfle i bobl ifanc fynd i'r afael â'r themâu sy'n bwysig iddynt. Drwy weithgareddau creadigol, sesiynau trafod a gweithdai ymarferol, mae'r prosiect yn hyrwyddo llais, hyder a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc y Sir.

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, roedd 24,618 o gyfranogiadau gan bobl ifanc ar draws y prosiectau, gyda 1,125 o unigolion wedi cwblhau achrediau, a dros 200 wedi cwblhau Gwobrau Dug Caeredin. Mae'r ddarpariaeth gymunedol wedi esblygu dros y 12 mis diwethaf, lle yr ydym wedi dyrannu dros £60,000 o gyllid i sefydliadau trydydd sector i ddatblygu darpariaeth gymunedol, cyd-ariannu Gweithiwr Ieuenctid yr Urdd i weithio ar draws y Sir, cyd-weithio gyda 10 o gynghorau plwyf i ddarparu clybiau cymunedol ac arwain ar brosiectau mewn 48 o leoliadau ar draws Gwynedd. Mae'r ddarpariaeth 16-25 oed wedi

gweld cynnydd am yr angen am y Gwasanaeth, gyda dros 230 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth yn 2024-25, gyda 38 unigolyn wedi symud ymlaen i addysg gyda Grŵp Llandrillo Menai, 26 wedi ei gyfeirio at raglenni cyflogadwyedd a 12 wedi cychwyn swyddi newydd.

5. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Addysg, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau:

Atodiad 1: Adroddiad ar brosiectau Cynllun y Cyngor 2024-25

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran Addysg

Adran Addysg

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2 (2024-25)

Gwynedd Yfory: Rhoi’r cychwyn gorau posib mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc

Adran a Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr <u>AIL</u> flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad cryno ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma	Ydi’r garreg filltir wedi ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol?
<u>Adran Addysg:</u> Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	Trefniadau cydweithio gyda’n partneriaid iechyd wedi eu sefydlu (sef adolygu’r Bwrdd Dechrau’n Deg).	Rydym wedi adolygu a newid rhai o’n trefniadau llywodraethu e.e. maes gwaith iaith a Llefaredd drwy sefydlu Fforwm Gwynedd a Môn ar y cyd gydag Iechyd. Rydym angen trafod gyda’n cydweithwyr iechyd am yr angen i barhau gyda Bwrdd Rheoli Dechrau’n Deg neu symud i drefniant rheoli cytundeb yn unig. Rydym angen llunio Strategaeth Blynyddoedd Cynnar ar y cyd yn ystod 2025/26.	Rhannol - elfennau yn parhau yn 2025/26
	Rhoi ymyraethau’r strategaeth ar waith yn y meysydd canlynol: - Cefnogaeth i dadau - Cefnogaeth iechyd meddwl amenedigol - Cynllun Toiledu - Iaith a Lleferydd	Rydym yn cydweithio gyda chwmni ‘Sut mae Dad’ i gynnal sesiynau i dadau ar y cyd gyda’r Mudiad Meithrin. Mae’r staff wedi derbyn hyfforddiant ‘<i>Train the Trainer Fathers Perinatal and Infant Mental Health</i>’ ac rydym yn trefnu cwrs i fwy o staff Blynyddoedd Cynnar. Byddwn yn penodi Swyddog Cefnogi Teulu (Tadau) yn fuan yn 2025/26. Comisiynwyd darparwyr allanol i beilota ymyraethau yn y cyfnod amenedigol mewn nifer o leoliadau ar draws Wunedd, e.e. Prosiect Hwiangerddi - derbyniwyd adborth positif iawn a sawl un wedi rhoi adborth ei fod wedi cefnogi eu hiechyd meddwl a hefyd wedi creu perthynas gyda rhieni eraill. Buddsoddiad wedi digwydd mewn hyfforddiant ‘<i>Triple P Baby</i>’ a ‘<i>Nurture Links - Child in Mind</i>’ i staff Cyngor Gwynedd ac Iechyd.	Rhannol – elfennau yn parhau tan Haf 2025

		Bydd polisi mynediad ysgolion Gwynedd yn newid o fis Medi 2025 gan ddisgwyl i blant sydd yn mynychu dosbarth Meithrin yr ysgolion yng Ngwynedd wedi eu doiledu cyn cychwyn. Mae grŵp tasg drawsadrannol wedi'i ffurfio, sy'n cynnwys lechyd, sy'n gweithio ar raglen waith i gefnogi teuluoedd gyda'r newid polisi. Ffilmiwyd podlediad “Mam; Dad a Magu” gyda’r podledwraig Mari Elen gyda phanel o arbenigwyr o'r maes toiledu o dîm Pediatrig Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Buddsoddwyd i argraffu pecynnau ‘Siarad Gyda Fi’ i rannu gyda theuluoedd ar draws Gwynedd. Treialwyd sesiynau sensori a sesiynau galw mewn i rieni ddod i siarad am ddatblygiad iaith a lleferydd eu plant.	
	Ehangu darpariaeth gofal plant 2 oed i ardaloedd newydd.	Ers Medi 2024 mae’r cynllun yn weithredol ledled y sir, gan gynnwys, yn Abermaw, Y Bala, Bangor, Caernarfon, Porthmadog a Trawsfynydd, gyda 21 lleoliad gofal plant yn darparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog.	Ydi
Adran Addysg: Moderneiddio adeiladau a’r amgylchedd dysgu	Dalgylch Bangor: Hirael Cychwyn y gwaith adeiladu. Ein Harglwyddes Cychwyn y gwaith adeiladu.	Hirael Mae’r rhan gyntaf o’r gwaith adeiladu wedi dechrau ar safle maes parcio Byw’n Iach Bangor mis Mawrth 2025. Ein Harglwyddes Mae adeilad hen Ysgol Glanadda wedi ei ddymchwel gogyfer â chychwyn y gwaith adeiladu ar gyfer ysgol newydd Ein Harglwyddes. Yn dilyn y dymchwel, mae’r gwaith datblygu ac adeiladu wedi cychwyn gyda’r ffrâm ar gyfer yr ysgol newydd eisoes yn ei le.	Ydi Ydi

	Tryfan i. Llunio a chyflwyno achos fusnes ii. Cytuno ar ddyluniad iii. Penodi pensaer a chontractwr ar gyfer y gwaith adeiladu.	Mae Achos Strategol Amlinellol wedi ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024. Dyma'r cam cyntaf o achos fusnes 3 cham i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae penseiri wedi ei benodi i arwain ar y prosiect hwn.	Nac Ydi (Nid oes cytundeb ar ddyluniad, gan fod trafodaethau'n parhau)
	Dalgylch Cricieth Cwblhau'r gwaith adeiladu ac agor yr ysgol newydd Medi 2024.	Cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r ysgol yn ystod gwyliau'r haf 2024, a bu i ysgol newydd Treferthyr ar gyfer 150 o ddysgwyr agor ei drysau ddechrau Medi 2024. Fel rhan o'r ysgol newydd ceir darpariaeth blynnyddoedd cynnar, ynghyd ag Uned ABC.	Ydi
	Bontnewydd i. Cytuno ar y dyluniad ii. Cyflwyno'r achos fusnes iii. Adeiladu'r ysgol dros dro	Cymeradwywyd yr Achos Fusnes Amlinellol ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r gwaith o greu ysgol dros dro yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o fod yn weithredol erbyn mis Medi 2025.	Ydi
Adran Addysg: Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol	Cwblhau camau Blwyddyn 1 o ran dadansoddi data holiaduron.	Holiaduron wedi eu dadansoddi a'r canfyddiadau wedi cael eu rhannu gyda'r ysgolion ar ffurf inffograffeg.	Ydi
	Paratoi adroddiadau ar lefel ysgol unigol i adrodd ar y canfyddiadau i'r ysgolion.	Canfyddiadau'r holiaduron wedi eu rhannu gydag ysgolion unigol.	Ydi
	Llunio a gweithredu rhaglen waith i ymateb i'r canfyddiadau.	Rhaglen waith wedi eu llunio ac yn weithredol i ymateb i ganfyddiadau'r holiaduron.	Ydi
Adran Addysg (a PP YGC): Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y stryd	Casglu barn pobl ifanc ynglŷn â'r holl ddarpariaethau ieuenctid sydd ar gael.	Holiaduron wedi eu creu, dosbarthu a'u dadansoddi.	Ydi
	Mapio darpariaethau ieuenctid y sir gan yr holl bartneriaid gan adnabod unrhyw fylchau.	Gweithgor wedi ei sefydlu a darpariaethau wedi eu mapio. Bydd y bylchau yn derbyn sylw yn strategaeth newydd y Gwasanaeth Ieuenctid.	Ydi

	Llunio adroddiad yn crynhoi'r prif negeseuon o'r ymgysylltu a'r gwaith mapio.	Adroddiad wedi ei chwblhau.	Ydi
	Ystyried ym mha fodd gall y Gwasanaeth Ieuenctid a/neu bartneriaid eraill ymateb i brif negeseuon o'r ymgysylltu	Adroddiad wedi ei llunio ar gyfer y Pwyllgor Craffu 10/04/25 gyda chyfeiriad posib y Gwasanaeth i weithredu ar ganfyddiadau'r ymgysylltu. Yn dilyn hyn bydd strategaeth 3 blynedd (i'w lansio yn 2025/26) yn cael ei llunio er mwyn cyfarch canfyddiadau'r ymgysylltu.	Ydi
Adran Addysg: Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd	Cydweithio efo rhanddeiliaid addysg leol i gyd-gynhyrchu'r blaenoriaethau a llunio gweledigaeth gychwynnol.	Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran ynghyd â rhanddeiliaid wedi bod yn gweithio ar lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd i Wynedd.	Ydi
	Ymgysylltu anffurfiol ar y ddogfen ddrafft	Trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Penaethiaid mewn sesiynau anffurfiol yn ogystal ag yn y Grwpiau Strategol Penaethiaid ym mis Chwefror 2025 lle cafwyd trafodaeth ar gynnwys y Strategaeth ddrafft.	Ydi
	Cyflwyno'r Strategaeth Addysg gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Strategaeth ddrafft wedi ei pharatoi, gyda'r bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Pwyllgor Craffu.	Nac Ydi (Bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Pwyllgor Craffu)
	Cyflwyno'r Strategaeth Addysg derfynol gerbron Cabinet gyda'r Strategaeth yn dod yn weithredol	Strategaeth ddrafft wedi ei pharatoi, gyda'r bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Cabinet.	Nac Ydi (Bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Cabinet)
Adran Addysg: Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd. Tud. 54	Sefydlu Bwrdd Prosiect Cynllunio Rhaglen waith	Sefydlwyd y Bwrdd Prosiect ym Mawrth 2024.	Ydi
	Mapio gwasanaethau sydd ar gael, er mwyn adnabod cyfleoedd cyd weithio a chefnogaeth bellach	Sesiwn mapio wedi'i chynnal - Gwasanaeth ADYaCH/Plant a Theuluoedd/Gwasanaeth Ieuenctid/Gwasanaeth Cyfiawnder.	Ydi
	Mapio anghenion hyfforddiant Cynhwysiad	Anfonwyd holiadur i bob ysgol Gynradd ac Uwchradd.	Ydi

	Ymchwilio i ddarpariaethau mewn siroedd eraill	Ymweliadau wedi eu cynnal i'r Awdurdodau Lleol a darpariaethau canlynol: Conwy Sir Fynwy Sir Ddinbych Castell Nedd Wrecsam Ceredigion Powys	Ydi
	Cynllunio Opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth o Fedi '25	Cyflwynwyd yr opsiwn a ffefrir i'r Cabinet ar 08/04/25.	Ydi
	Cytuno ar opsiwn	Cyflwynwyd yr opsiwn a ffefrir i'r Cabinet ar 08/04/25.	Ydi

Gwynedd Gymraeg: Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad cryno ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma	Ydi’r garreg filltir wedi ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol?
Adran Addysg Moderneiddio ac ehangu’r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant	i. Parhau i ddatblygu Aberwla hefo arian Grant Refeniw Trochi Hwyr Llywodraeth Cymru ii. Treialu’r adnodd yn draws-sirol.	i. Mae’r Cynllun yn cynnwys lleoliadau a chymeriadau gwahanol cyfoes sy’n byw a gweithio yn Aberwla. Mae staff y Gyfundrefn Drochi wedi strwythuro deialogau’r eirfa a’r patrymau i sicrhau dilyniant a chynnydd yn y gwaith. Derbyniwyd £30,000 ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu’r Goedwig a’r Llyfrgell yn y pentref. Bellach mae’r gwaith wedi ei gwblhau a chwmni wedi ei chomisiynu i letya’r adnodd a’r hwb. ii. Ymestyn cyfnod peilota’r adnodd VR yn Wrecsam, Powys Dinbych a Cheredigion hyd ddiwedd Mawrth 2025 er mwyn treialu’r lleoliadau diweddaraf o fewn y pentref. Yn ogystal rydym yn ei dreialu hefo 5 ysgol gynradd ym Mangor sef Cae Top, Y Faenol, Hirael, Glancegin a’r Garnedd.	Ydi Ydi
	1. Grant Cyfalaf y Gymraeg 1: Uned Iaith Tywyn: i. Adeiladu’r Uned Iaith ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn. ii. Uned Iaith Tywyn yn agor i ddysgwyr Ionawr 2025.	i. Mae’r gwaith adeiladu yn Nhywyn wedi ei gwblhau. ii. Mae’r Uned Iaith yn Nhywyn wedi agor i ddysgwyr yn Ionawr 2025.	Ydi Ydi

	2. Grant Cyfalaf y Gymraeg 2: Unedau Iaith Cymerau, Maesincla a Dolgellau: i. Cytuno ar y dyluniad ii. Penodi pensaer a chontractwr iii. Cyflawni'r gwaith adeiladu	Mae'r Gwaith Moderneiddio o ran y 3 uned drochi Gynradd yn mynd rhagddo. Cymerau: Gwaith wedi gwblhau. Dolgellau: Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Tymor yr Haf. Maesincla: Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Tymor yr Haf.	Ydi Rhannol – gwaith adeiladu yn parhau. Rhannol – gwaith adeiladu yn parhau.
Adran Addysg Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisiau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg	1. Polisi Iaith: i. Llunio briff a phenodi ymgynghorydd. ii. Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid megis penaethiaid, llywodraethwyr, rheini, dysgwyr a mudiadau iii. Llunio dogfen ddrafft. iv. Yn dilyn yr ymgysylltu, cyflwyno'r Polisi Iaith drafft gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi v. Cyflwyno Polisi Iaith Addysg Drafft gerbron Cabinet.	i. Yn ystod Tymor yr Hydref 2024, comisiynwyd Meirion Prys Jones, Ymgynghorydd Iaith annibynnol i hwyluso proses ymgysylltu yng nghyd destun addasu'r polisi iaith enghreifftiol bresennol ar gyfer Ysgolion. ii. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ar draws y sir. iii. Mae dogfen ddrafft wedi'i llunio. iv. Cyflwynwyd Polisi Iaith drafft i'r Pwyllgor Craffu ar 10 Ebrill 2025 v. Polisi Iaith ddrafft wedi ei pharatoi, gyda'r bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Cabinet.	Ydi Ydi Ydi Ydi Nac Ydi (Bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Cabinet)

	2. Cyfundrefn Drochi: i. Llunio briff a chomisiynu Prifysgol Bangor i gydweithio ar Astudiaeth Effaith o'r Gyfundrefn Drochi. ii. Ymgysylltu â rhanddeiliaid. iii. Llunio adroddiad ar ganfyddiadau'r astudiaeth effaith. iv. Cyflwyno'r adroddiad i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn cynnwys argymhellion o'r prif ganfyddiadau a gwelliannau posib i'r dyfodol.	i. Comisiynwyd Tîm Ymchwil Prifysgol Bangor i werthuso'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd. ii. Roedd y broses ymgysylltu yn cynnwys arsylwadau o deithiau disgyblion drwy'r system drochi, grwpiau ffocws gydag athrawon, grwpiau ffocws gyda disgyblion sy'n dilyn y rhaglen drochi, Holiadur gyda rhieni/gwarcheidwaid a chraffu ar ddata meintiol. iii. Mae'r Brifysgol wedi llunio adroddiad drafft. iv. Byddwn yn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 16 Hydref 2025.	Ydi Ydi Ydi Nac Ydi (Bwriad o gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 16/10/25)
--	---	---	---

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Perfformiad yr Adran Addysg

56

Mesur

75.00%

% Gwyrdd

14.29%

% Amber

10.71%

% Coch

42

Nifer Gwyrdd

8

Nifer Amber

6

Nifer Coch



"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Mesuryddion Addysg

Arlwyo	Cefnogaeth Fusnes	Cefnogaeth Fusnes	Cludiant Addysg	Diogelu	Diogelu	Diogelu	Diogelu
% o blant a phobl ifanc sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol	% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth	Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd i dalu anfonebau	Nifer y cwynion am gludiant	% o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro yn y ddwy flynedd addysgol diwethaf	% o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu	% o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol	% o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol
1	1	2	1	1	1	2	2
100.00	100.00	42.00	12	100.00	97.90	99.65	99.70
Glanhau	Moderneiddio	Moderneiddio	Plant Mewn Gofal	Safonau Ysgol	Safonau Ysgol	Uned Ddata	Uned Ddata
% o ysgolion sydd yn fodlon gyda'r gwasanaeth	% o brosiectau Band B sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl	% o brosiectau cyfalaf eraill sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl	% o blant mewn gofal sy'n cyrraedd eu targedau addysgol	Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymer i ymateb i rwystrau sy'n cael eu cofnodi gan Ysgolion neu gan eraill am faterion gydag Ysgolion	% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth	% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth	Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod
1	1	1	1	1	1	1	1
79.00	75.00	70.00	95.00	5.00	100.00	100.00	1

Mesuryddion Y Gymraeg

Canolfannau Iaith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)

93.00

Canolfannau Iaith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)

79.00

Canolfannau Iaith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)

100.00

Canolfannau Iaith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)

78.00

Mesuryddion ADY

ABC % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth 1 100.00	ABC % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd 2 74.80	ADY Ansawdd a Gweinyddol % o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys 2 4.00	ADY Ansawdd a Gweinyddol % o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd a... 1 0.97	ADY Penodol Nifer o blant sydd angen mewnbwn uniongyrchol gan y gwasanaeth 1 154	ADY Penodol % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth 1 100.00	Corfforol Meddygol a Synhwyrdd % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth 1 100.00	Corfforol Meddygol a Synhwyrdd % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd 2 85.00
ADY Blynyddoedd Cynnar % yr achosion sy'n cyd fynd a'r amserlen statudol 1 100.00	ADY Blynyddoedd Cynnar % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd 1 92.00	ADY Blynyddoedd Cynnar % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth 1 100.00	Cyfathrebu a Rhyngweithio % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth 1 100.00	Cyfathrebu a Rhyngweithio % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd 1 87.00	Gweinyddol % o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos 1 100.00	Seicoleg % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth 1 100.00	Seicoleg % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd 2 72.00

Mesuryddion Cynhwysiad

Cwnsela

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

1

92.00

Cwnsela

Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth

2

10.00

Cynhwysiad

Nifer o ddyddiau gwaharddiadau penodol Cynradd

3

132.0

Cynhwysiad

Nifer o ddyddiau gwaharddiadau penodol Uwchradd

3

757.5

Cynhwysiad

Nifer o waharddiadau parhaol Cynradd

3

1

Cynhwysiad

Nifer o waharddiadau parhaol Uwchradd

3

10

Lles

Nifer o ddysgwyr Addysg Ddewisol Gartref

3

269

Lles

% presenoldeb disgyblion Cynradd

1

93.10

Lles

% presenoldeb disgyblion Uwchradd

3

88.80

SIY

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

1

100.00

SIY

% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd

1

82.60

Mesuryddion Gwasanaeth Ieuenctid

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o unigolion sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed

4,891

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o unigolion sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid

3,872

Gwasanaeth Ieuenctid

Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed

89

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o achrediadau mae'r bobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)

410

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth

96.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir

97.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.

97.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)

70.00

Gwasanaeth Ieuenctid


% o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol.

74.00

Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol




Rydym wedi bod yn casglu barn plant a phobl ifanc ar ginio ysgol bob hanner tymor. Derbyniwyd 17 o ymatebion unigol gyda thri yn nodi sgôr o 4 (blasus), ac 14 yn nodi sgôr o 5 (blasus iawn). Mae bwriad i ailedrych ar y drefn o gasglu barn plant a phobl ifanc ar ginio ysgol dros y cyfnod nesaf.

Cefnogaeth Fusnes

Pwrpas: Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd.

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Yn ystod y cyfnod diwethaf, dosbarthwyd 11 holiadur boddhad cwsmeriaid. O'r 8 holiadur a dderbyniwyd yn ôl, nododd yr 8 eu bod yn fodlon iawn â'r Gwasanaeth gyda nifer o'r Penaethiaid yn cadarnhau bod staff y Ganolfan yn gwneud gwaith gwych o gefnogi sy'n galonogol iawn.

Cefnogaeth Fusnes

Pwrpas: Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd.

Mesurydd: Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd i dalu anfonebau




Ar gyfer y cyfnod diwethaf, cymerodd 42 diwrnod, ar gyfartaledd, i dalu anfoneb. Mae nifer y dyddiau ar gyfartaledd yn is na'r cyfnod diwethaf, fodd bynnag mae dal lle i wella. Rydym yn cydweithio gyda'r Adran Gyllid i oresgyn unrhyw rwystrau ac i sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu'n amserol.

Cludiant Addysg

Pwrpas: Darparu cludiant addas i fynd a disgyblion i'r ysgol neu goleg

Mesurydd: Nifer y cwynion am gludiant




O'r 12 cwyn a gofnodwyd yn ystod y cyfnod yma, daethpwyd o hyd i ddatrysiad cadarnhaol i wyth ohonynt drwy gydweithio â Swyddogion yn drawsadrannol er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau cludiant addas i'r dysgwyr hynny.

Mae un gŵyn yn parhau i aros am ddatrysiad gan fod y cais gwreiddiol yn groes i'r polisi cludiant, a lluniwyd ymateb yn amlinellu hyn. Mae'r tri chŵyn sydd yn weddill yn cael eu prosesu ar hyn o bryd, eto wrth gydweithio â thimau o sawl Adran yn ogystal â gweithredwyr y cytundebau cludiant.

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.

Mesurydd: % o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu




Dwy ysgol sydd wedi derbyn ail ymweliad yn ystod y cylch ymweliadau diwethaf. Pwrpas yr ail ymweliad oedd sicrhau bod argymhellion wedi eu gweithredu, h.y. bod angen diweddarau manylion cyswllt ar y posteri diogelu a sicrhau fod y polisïau cyfredol wedi eu mabwysiadu. Mae holl bolisïau sy'n ymwneud â diogelu ar gael i ysgolion drwy'r fewnwyd addysg. Mae holl bosteri diogelu (sy'n cynnwys y trefniadau i'w dilyn os oes pryder am blentyn neu honiad yn erbyn aelod o staff), wedi'u diweddarau ac wedi'u rhannu gydag ysgolion yn ddiweddar ac ar gael ar y fewnwyd addysg.

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.

Mesurydd: % o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro yn y ddwy flynedd addysgol diwethaf




Mae pob ysgol wedi derbyn Ymweliad Monitro yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd yr amserlen ymweld yn cael ei chyflawni yn flynyddol o fis Ionawr 2025 ymlaen. Ers dechrau mis Ionawr 2025, mae 20 o ysgolion wedi derbyn ymweliad monitro.

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.

Mesurydd: % o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol




Mae 11 aelod staff o'r Adran angen diweddaru eu DBS. O'r rhain, mae chwech yn staff achlysurol, dau i ffwrdd oherwydd salwch neu gyfnod mamolaeth, un oherwydd gwaharddiad ac mae dau yn y broses o ddiweddaru eu gwiriad DBS.

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.

Mesurydd: % o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol




Mae dau aelod o staff (1 cymhorthydd dosbarth ac 1 athro) angen diweddaru eu DBS. Mae'r ddau unigolyn wedi cychwyn ar y broses.

Glanhau

Pwrpas: Darparu gwasanaeth glanhau a gofalu safonol i Ysgolion Gwynedd

Mesurydd: % o ysgolion sydd yn fodlon gyda'r gwasanaeth




Derbyniwyd 56 ymateb gan benaethiaid i'r holiadur, gyda sgôr cyfartalog o 7.9 / 10. Bu i 9 ysgol nodi sgôr o 5 neu lai, a hynny am resymau megis prinder staff yn sgil anawsterau recriwtio, ynghyd ag anghysonderau yn ansawdd y glanhau o ardal i ardal yn yr ysgol. Bu i 30 ysgol nodi sgôr o 9 / 10 neu fwy.

Moderneiddio

Pwrpas: Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

Mesurydd: % o brosiectau Band B sydd yn symud ymlaen yn unol a'r disgwyl




Mae'r prosiectau canlynol ar drac i'w cyflawni'n amserol: Ysgol Ein Harglwyddes a Chyflwr ac Addaswydd Gwedd 3 a 4. Mae Ysgol Hiracl wedi llithro yn sgil oedi gyda'r dyluniad. Derbyniwyd cymeradwyaeth i'r achos Amlinellol Strategol (Cam 1) ar gyfer Ysgol Tryfan ar 1 Ebrill 2025, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r penseiri ar hyn o bryd.

Moderneiddio

Pwrpas: Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

Mesurydd: % o brosiectau cyfalaf eraill sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl




Cwblhawyd Canolfannau Iaith Tywyn a Cymerau, gyda Chanolfan Iaith Maesincla a Dolgellau wedi eu cwblhau erbyn diwedd Tymor yr Haf. Mae'r dasg o gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Chwillog ac Ysgol Bro Lleu eisoes wedi'i cwblhau, a bydd dosbarth ychwanegol yn Ysgol Llanllechid wedi'i gyflawni erbyn Medi 2025. Mae materion cyfreithiol gyda'r Eglwys yng Nghymru ar safle Ysgol Y Faenol wedi eu datrys, ond mae trafodaethau'n parhau gyda rhan-ddeiliaid er mwyn datblygu maes parcio ar gyfer yr ysgol a Chanolfan Penrhosgarnedd. Mae'r gwaith o greu ysgol dros dro yn Bontnewydd yn mynd rhagddo, gyda'r bwriad o fod yn weithredol erbyn mis Medi 2025. O ran y Grant Ysgolion Bro, mae bwriad gwreiddiol y grant hwn o ddyrannu offer TGCh i ysgolion ar gyfer creu ystafelloedd hybrid wedi ei gwblhau, ond bod y gwaith o greu ystafelloedd hybrid wedi llithro gan ei fod ynghlwm ag amserlenni prosiectau eraill. O ran y Grant Cyfalaf ADY, mae 15 o brosiectau ar safleoedd ysgolion wedi eu cwblhau yn unol â'r amserlen, gyda chwe phrosiect pellach lle mae'r amserlen wedi llithro i Dymor yr Haf 2025 a hynny am amrywiol resymau, gan gynnwys methu penodi contractwr.



Plant Mewn Gofal

Pwrpas: Sicrhau fod CAP o ansawdd yn bodoli ar gyfer pob plentyn mewn gofal a'r targedau yn cael eu diwallu yn llwyddiannus

Mesurydd: % o blant mewn gofal sy'n cyrraedd eu targedau addysgol




Mae'r Cynlluniau Addysg Personol ar gyfer Plant mewn Gofal yn cael eu cwblhau'n amserol ac yn cynnwys targedau addysgol priodol. Mae rhai Cynlluniau Addysg Personol (CAPs) sydd angen eu gwella o ran targedau addysgol yn cael eu hadnabod mewn adolygiadau.

Safonau Ysgol

Pwrpas: Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd.

Mesurydd: Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymer i ymateb i rwystrau sy'n cael eu cofnodi gan Ysgolion neu gan eraill am faterion gydag Ysgolion




Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn gryf iawn ac yn adlewyrchiad o waith y nifer fechan iawn o swyddogion sydd yn y Tîm yma.

Safonau Ysgol

Pwrpas: Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd.

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Dyma'r tro olaf y byddwn ni'n adrodd ar berfformiad y tîm bychan Safonau Ysgolion yn y modd yma. Gyda GwE yn cael ei fewnoli a newidiadau sylweddol i'r Tîm, bydd gofyn i ni gael mesuryddion gwahanol wrth symud ymlaen. Unwaith yn rhagor, mae'r bodlonrwydd yn 100% gyda neb wedi nodi nad yw'r gefnogaeth yn ddigonol. Mae'r tîm o dan bwysau sylweddol oherwydd diffyg capasiti felly mae hyn yn galonogol iawn.

Uned Data

Pwrpas: Sicrhau cefnogaeth i'r Adran drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




O'r pedwar ymateb a dderbyniwyd, roedden nhw i gyd yn fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau fel rhan o'r ymatebion.

Uned Data

Pwrpas: Sicrhau cefnogaeth i'r Adran drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad

Mesurydd: Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod




Derbyniwyd un apêl ar ôl i gais trosglwyddo gael ei wrthod. Ni fu'r rhieni'n llwyddiannus yn yr apêl, sy'n golygu bod y Panel Annibynnol yn cytuno bod y Cyngor wedi dilyn y Ddeddfwriaeth a'r prosesau'n gywir.

Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)




Mae canlyniadau lefel 1 dysgwyr yn ein Canolfannau Trochi Cynradd yn amlygu llithriad o 7% y tymor hwn o ganlyniad i absenoldebau dysgwyr, er hynny, mae'r canlyniadau yn dda ac yn gyson dros dreigl amser.

Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)




Mae canlyniadau lefel 2 Canolfannau Trochi Iaith Cynradd yn dangos cynnydd o 7% yn y canlyniadau ar gyfer y tymor yma. Mae sawl ffactor wedi dylanwadu ar gynnydd y dysgwyr, gan gynnwys presenoldeb a nifer o ddysgwr ym mlwyddyn 2 yn ifanc iawn yn eu blwyddyn.

Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)




Mae canlyniadau lefel 1 dysgwyr yn ein Canolfannau Trochi Pontio Cynradd/Uwchradd unwaith eto yn rhagorol ac yn gyson dros dreigl amser.

Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg


Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)



Mae canlyniadau lefel 2 Canolfannau Trochi Iaith Pontio Cynradd Uwchradd y tymor hwn yn dangos gostyngiad bychan o 1% yn sgôr cyfartalog y garfan. Yn ogystal, llwyddodd 41 % o'r dysgwyr i gyflawni rhai o ofynion lefel 3 llafaredd.

Pwrpas: Paratoi plant ifanc ar gyfer byd addysg ac i fod yn ddysgwyr cyflawn ac annibynnol a cefnogi staff ysgolion a lleoliadau i ddarparu ar eu cyfer.


Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Derbyniwyd un ymateb gan ysgol lle nodwyd eu bod yn cael
"cefnogaeth dda iawn gan staff yr unedau, sy'n amserol, ac maent ar
gael unrhyw dro i roi cyngor.
Diolch yn fawr am y gwasanaeth."

Pwrpas: Paratoi plant ifanc ar gyfer byd addysg ac i fod yn ddysgwyr cyflawn ac annibynnol a cefnogi staff ysgolion a lleoliadau i ddarparu ar eu cyfer.

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd




Mae presenoldeb wedi cael effaith ar y ganran sy'n derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd. Rhwng Tachwedd 2024 a Mawrth 2025 mae lefelau'r salwch wedi bod yn uchel. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi nifer o'r teuluoedd ac yn gweithio gyda'r tîmau ABC i gefnogi'r teuluoedd hyn. Yn ogystal, mae'r plant o dan yr oedran statudol ar gyfer addysg ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Awdurdod orfodi presenoldeb. Fodd bynnag, rydym wedi sylwi bod y presenoldeb wedi gwella ychydig yn nhymor y gwanwyn 2025.

ADY Ansawdd & Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial.

Mesurydd: % o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys




Mae'r nifer wedi sefydlogi erbyn hyn, ac ni chafwyd apêl newydd yn ystod y cyfnod yma. Er hyn, rhaid cofio bod achosion yn gallu cael sawl cyfarfod rheoli sydd wedyn yn arwain at fwy o Gyfarwyddiadau gan y Barnwr, a dyma a welir gyda'r pedwar achos hwn gyda dau benodol yn para dros chwe mis.

ADY Ansawdd & Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial.

Mesurydd: % o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd ansawdd ADY/Ch)




Mae un ysgol bellach wedi gwella'n sylweddol ac, o ganlyniad, dim ond ymweliadau monitro arferol sydd eu hangen; er gwaethaf hyn, mae ysgol arall wedi'i huwchraddio, a byddwn yn cynnig pecyn cymorth llawn.

ADY Penodol

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd i gael mynediad i addysg.

Mesurydd: Nifer o blant sydd angen mewnbwn uniongyrchol gan y gwasanaeth




Mae 154 o ddisgyblion yn derbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol (ADP) y tymor o'i gymharu â 159 yn yr un cyfnod y llynedd. Gwelwyd cynnydd bach yn y niferoedd o ddisgyblion ers y tymor diwethaf (142). Gall y cynnydd fod yn sgil mwy o alw am gefnogaeth i ddisgyblion gydag anawsterau penodol yn ymwneud â gwaith rhif. Er mwyn ceisio ymateb i'r galw, mae'r athrawon arbenigol ADP yn gweithio ar becyn tebyg i 'Rydw i'n Gallu (llythrennedd)' ond yn seiliedig ar rif. Byddai hyn yn arfogi staff ysgolion i gefnogi'r disgyblion sydd yn cael mwy o anhawster gyda rhifedd. Gydag un athrawes yn llai na'r llynedd o fewn y Tîm, mae'r athrawon ADP wedi ymdrechu i roi hyfforddiant torfol i ddalgylchoedd i uwch-sgilio staff er mwyn cefnogi'r disgyblion yn fewnol.



ADY Penodol

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd i gael mynediad i addysg.

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Mae 100% o'r defnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth. Nododd un ysgol fod adnoddau, cyngor a thargedau gwyb wedi'u rhannu gan y Tîm, ond ei bod hi'n anodd gweithredu'r targedau oherwydd diffyg staffio. Mae cymhorthydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol (ADP) yn cefnogi'n wythnosol mewn ysgolion lle mae angen, ond nid yw hyn bob amser yn addas. Rydym yn gweld bod toriadau staffio mewn rhai ysgolion yn cael ei nodi fel rheswm pam nad yw disgyblion yn cael eu targedu'n rheolaidd. Rydym hefyd yn annog staff ysgol i gysgodi staff ADP er mwyn gallu modelu pan ddaw cefnogaeth gan athrawon / staff arbenigol i ben.

Corfforol, Meddygol & Synhwyrdd

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifan sydd a chyflwr meddygol/corfforol/synhwyrdd i gael mynediad i addysg.

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Derbyniwyd 6 ymateb i'r holiadur dros y cyfnod diwethaf, a gwelwyd fod 100% o ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn.

Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol fod y Gwasanaeth yn gefnogol iawn o'r lleoliadau gan roi arweiniad a hyfforddiant perthnasol i'r staff. Nodwyd fod athrawon arbenigol yn cydweithio yn arbennig o dda gyda staff ysgolion wrth gynllunio y ffordd ymlaen a pharatoi ar gyfer y disgyblion.

Corfforol, Meddygol & Synhwyrdd

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifan sydd a chyflwr meddygol/corfforol/synhwyrdd i gael mynediad i addysg.

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd




Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n derbyn mewnbwn rheolaidd y tymor hwn, ond bu gostyngiad o 3% yn y nifer sydd wedi llwyddo i wneud cynnydd.

Mae nifer wedi gwneud cynnydd da mewn sgiliau teipio, gan lwyddo i leoli llythrennau'n annibynnol gyda chyflymder, a chywirdeb teipio hefyd yn datblygu'n dda. Er gwaethaf hyn, ni welwyd cynnydd mewn ychydig o ddisgyblion am nifer o wahanol resymau gan gynnwys aros am apwyntiadau gan y gwasanaeth iechyd (disgyblion clyw); bu cyfnod o arholiadau mewnol mewn rhai ysgolion ac mae'r diffyg presenoldeb wedi cyfrannu'n sylweddol at y diffyg cynnydd mewn sgiliau gan nifer o ddisgyblion. Mae'r athrawon arbenigol wedi cael cyfarfodydd gyda rhai rhieni a'r ysgolion i geisio trafod a datrys y presenoldeb isel yr unigolion hyn.

ADY Blynnyddoedd Cynnar

Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALL mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

Mesurydd: % yr achosion yn cyd fynd a'r amserlen statudol




Yn ystod y cyfnod diwethaf, derbyniwyd 33 o gyfeiriadau, o'i gymharu â'r 22 a dderbyniwyd yn yr un cyfnod y llynedd. Cwblhawyd 29 o ymholiadau, gan roi 25 o Gynlluniau Datblygu Unigol ar waith, gyda chyfartaledd o 8.6 wythnos - cynnydd o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac adolygu strwythur y Tîm er mwyn ymateb i'r cynnydd.

ADY Blynyddoedd Cynnar

Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr All mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd



Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae'r rhan fwyaf o blant (92%) sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yn erbyn eu targedau o fewn y CDU. Mae hyn yn cadarnhau bod y Gwasanaeth yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i gefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar er mwyn darparu darpariaeth ychwanegol gyson ac o ansawdd da.

Ar gyfer yr ychydig blant nad ydynt wedi gwneud y cynnydd disgwyledig, mae'r gefnogaeth ychwanegol ganlynol wedi'i chymeradwyo:


- I. Mae Swyddog Rhiantu wedi dechrau gweithio gyda'r teulu.
- II. Mae Athrawes Arbenigol yn darparu sesiynau wythnosol i gefnogi'r plentyn.
- III. Mae Athrawes Arbenigol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i fodelu darpariaeth ddysgu effeithiol ar gyfer y gweithiwr allweddol.



ADY Blynyddoedd Cynnar

Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALL mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Derbyniwyd 9 ymateb yn y cyfnod diwethaf, gyda phob un yn fodlon neu fodlon iawn gyda'r gefnogaeth derbyniwyd gan y Tîm. Nodir sylwadau megis:


'*** has been more than helpful. She cares and after two years of fighting and worry...*** has brought us a feeling of positivity to an exhausted mum. We just want what's best for **** and know she can achieve.'

'*** has been great, very professional but also very approachable on a personal level if I ever needed advice or clarification with anything.'

Cyfathrebu & Rhyngweithio

Pwrpas: Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu fel y gallant ffynnu yn addysgol a chymdeithasol.

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Derbyniwyd dau ymateb yn ystod y cyfnod yma, ac o'r rheini, nodwyd eu bod yn ddiolchgar iawn ac yn hapus gyda'r Gwasanaeth a'r cyngor y maent yn ei dderbyn gan y Tîm.

Cyfathrebu & Rhyngweithio

Pwrpas: Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu fel y gallant ffynnu yn addysgol a chymdeithasol.

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd




Mae 87% o blant a phobl ifanc sy'n derbyn mewnbwn yn gwneud cynnydd. Mae'r prif resymau am ddiffyg cynnydd yn parhau i fod yn

- Presenoldeb y disgybl yn isel
- Dwyster anghenion y disgybl
- Cysondeb staffio yn yr ysgol

Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi'r timau ADYaCH, Ysgolion a'r cyhoedd ar gyfer darparu mewnbwn ADY a Ch

Mesurydd: % o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos




Nifer Panel = 306
Nifer Fforwm = 224
Cyfanswm = 530
Mae pob cais Panel a Fforwm wedi'i weinyddu ar yr CDU o fewn yr amser

Seicoleg

Pwrpas: Defnyddio gwybodaeth ac ymyrraethau seiliedig ar Seioleg i hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â pha mor ddefnyddiol yw cael trafodaethau gyda Seicolegwyr yn y cyfarfodydd cynllunio. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol hefyd ynglŷn â phroffesiynoldeb y Tîm.

Seicoleg

Pwrpas: Defnyddio gwybodaeth ac ymyrraethau seiliedig ar Seioleg i hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd




Mae 72% wedi gwneud "peth cynnydd" neu "gynnydd da" yn dilyn mewnbwn gan y Gwasanaeth. Roedd dros 55% o'r achosion yn profi anawsterau ymddygiadol neu emosiynol ac felly efallai y bydd cyfnod gweithredu hirach cyn y gwelir cynnydd. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan yr ysgolion gan gynnwys "Cawsom lawer o syniadau a strategaethau da iawn o gyflwyno'r achos ac er nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud hyd yn hyn nid yw hyn oherwydd ymdrechion a threialu'r cynigion ond oherwydd y sefyllfa adref sy'n parhau i fod yn heriol i'r plentyn."

Cwnsela

Pwrpas: Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion.

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Derbyniwyd 122 o ymatebion gyda'r mwyafrif helaeth yn fodlon iawn efo'r Gwasanaeth. Yn ychwanegol, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn.

Cwnsela

Pwrpas: Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion.

Mesurydd: Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth




O ran yr ysgolion Uwchradd, mae'r amser aros yn eithaf derbynol. Fodd bynnag, mae ein rhestr aros yn yr ysgolion Cynradd wedi cynyddu'n sylweddol yn y wythnosau diwethaf. Bydd hyn yn sicr yn cael effaith ar y ffigwr yma erbyn ein hadroddiad nesaf.

Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas.

Mesurydd: Nifer o ddyddiau gwaharddiadau penodol Cynradd



Bu cynnydd yn nifer y dyddiau o waharddiadau cyfnod penodol. Ers 01/12/24, mae 132 diwrnod wedi'u colli oherwydd gwaharddiadau ar gyfer 59 o achosion.


Gyda chynnydd mewn gwaharddiadau yn y cyfnod Cynradd, mae'r gwaith o adolygu'r gefnogaeth ganolog yn mynd rhagddo i ymateb i'r heriau sy'n dod i'r amlwg.



Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas.

Mesurydd: Nifer o ddyddiau gwaharddiadau penodol Uwchradd



Bu cynnydd yn nifer y dyddiau o waharddiadau cyfnod penodol. Ers 01/12/24, mae 757 diwrnod wedi'u colli oherwydd gwaharddiadau ar gyfer 295 o achosion. Mae tair ysgol wedi gwahardd yn drwm, gyda dros 100 diwrnod yr un.


Nid yw dwy ysgol wedi adrodd data ar gyfer y chwarter diwethaf. Mae'r Awdurdod Addysg yn monitro'r gwaharddiadau yn fisol, er mwyn adnabod patrymau ac unigolion sy'n derbyn gwaharddiadau yn rheolaidd. Mae'r Tîm Cynhwysiad yn cefnogi a chynnig argymhellion.

Mae pob ysgol Uwchradd yng Ngwynedd yn derbyn cyllideb ddatganoledig ar gyfer sicrhau cefnogaeth i ddisgyblion gydag anghenion ymddygiadol a/neu emosiynol.

Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas.

Mesurydd: Nifer o waharddiadau parhaol Cynradd




Mae un ysgol wedi gwahardd disgybl yn barhaol. Roedd yr ysgol yn flaenorol wedi cynnig ystod o ymyrraethau i'r plentyn mewn ymgais i'w gefnogi ond roedd y digwyddiad olaf yn ymosodiad difrifol a niwed i offer yr ysgol. Mae'r disgybl bellach wedi ei gofrestru mewn ysgol arall ac mae'n cael ei gefnogi gan y tîm ymyrraeth gynnar. Mae'n bosib i ysgolion gyfeirio am gefnogaeth mewn achosion o anawsterau ymddygiadol, ac mae Tîm ar gael i gynghori ar strategaethau i gynnal ymddygiad da.

Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas.

Mesurydd: Nifer o waharddiadau parhaol Uwchradd




Mae 10 gwaharddiad parhaol, gan chwe ysgol, wedi ei weithredu dros y cyfnod adrodd yma. Mae tri phenderfyniad wedi cael ei wrthdroi; dau gan banel disgyblu'r ysgol ac un mewn gwrandawriad annibynnol. Mae cyfanswm o 33 gwaharddiad wedi ei weithredu ers mis Medi 2024, gyda 27% o'r rhain yn dod o un ysgol.

Rhoddwyd sylw manwl i'r mater hwn, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Prosiect, gweithio ar strategaeth newydd ac ailystyried y ddarpariaeth, sy'n cynnwys Canolfan Gyfeirio Disgyblion benodol ar gyfer y disgyblion mwyaf heriol, cynyddu'r tîm cynnal ymddygiad a chreu pecynnau cefnogaeth ychwanegol. Mae hyn ar ben dyraniad cyllid cynhwysiad sylweddol i'r Uwchradd.

Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Mesurydd: Nifer o ddysgwyr Addysg Ddewisol Gartref




Mae 269 o blant yn hysbys i ni fel rhai sy'n derbyn Addysg Ddewisol Gartref ac o'r ffigwr yma, mae 101 wedi dadgofrestru neu wedi dod i'n sylw ers mis Medi 2024. O'r plant sydd ar y gofrestr, roedd 85% wedi cofrestru mewn ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod, a'r gweddill unai wedi'u haddysgu y tu allan i'r Sir neu wedi'u cofrestru ers oed statudol addysg.

Mae mwy o ddisgyblion blwyddyn 11 ar y gofrestr o'i gymharu â'r blynyddoedd eraill.

Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Mesurydd: % presenoldeb disgyblion Cynradd




Mae mwyafrif yr ysgolion Cynradd yn 90% neu'n uwch (mae pum ysgol o dan y ganran yma). Rydym yn falch o adrodd bod canran presenoldeb ein hysgolion Cynradd ar gynnydd. Mae Swyddogion Lles yr ysgol yn cefnogi gydag achosion anodd.



Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Mesurydd: % presenoldeb disgyblion Uwchradd



Mae canrannau presenoldeb Uwchradd yn parhau i fod yn bryder, gyda phump ysgol yn ein categori coch, sef ysgolion o dan 88%. Mae sylw ychwanegol wedi ei roi i'r ysgolion yma, gan gynnwys cyfarfodydd gyda'r Penaethiaid i drafod ymhellach.


Mae ymweliadau i'r ysgolion wedi digwydd er mwyn cynnig arweiniad ar y camau sydd angen iddynt eu dilyn i gefnogi'r daith i wella presenoldeb. Mae Swyddogion Lles yr ysgolion ar gael i gefnogi gyda'r disgyblion sy'n dod i'r amlwg fel rhai lle mae risg i'w presenoldeb ddisgyn.

Mae presenoldeb yr Awdurdod yn 91.1%, sydd yn gyfartal â Chymru (adroddiad Mawrth 2025). Mae cyfartaledd disgyblion PYD yn isel ar draws yr Awdurdod gyda'r ganran Uwchradd yn 81.2%.

Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Pwrpas: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu galluogi i gael mynediad i addysg a chymuned ddwy-ieithog Cymraeg a Saesneg

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Mae dwy ysgol wedi ymateb - un yn nodi pa mor werthfawr yw'r Gwasanaeth pan fydd ysgolion yn derbyn disgyblion sy'n cyrraedd 'heb iaith' (Saesneg/Cymraeg) a'r llall yn nodi eu bod yn 'hapus iawn' gyda'r Gwasanaeth y mae'r ysgol yn ei dderbyn.

Saesneg fel laith Ychwanegol

Pwrpas: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu galluogi i gael mynediad i addysg a chymuned ddwy-ieithog Cymraeg a Saesneg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd




Yn ystod y tymor yma, mae nifer o ddisgyblion wedi elwa o ail dymor o gefnogaeth gan y Gwasanaeth ac felly wedi gwneud cynnydd cadarnhaol. Mae ychydig o ddisgyblion yn newydd i'r Gwasanaeth ac un lle mae pryder wedi'i nodi ynghylch presenoldeb ac rydym wedi trosglwyddo'r wybodaeth yma i'r Swyddog Lles perthnasol. Mae'r ysgolion yn adrodd yn gadarnhaol iawn am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda disgyblion SIY ar draws Gwynedd a Môn.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: Nifer o unigolion sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed




Rhagfyr-1237
Ionawr- 1104
Chwefror-1201
Mawrth-1349

Mae'r ffigyrau rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Mawrth 2025 yn galonogol iawn. Mae'r ffigyrau yn ychydig yn well na'r disgwyl, ac yn uwch na'r misoedd cyfatebol yn 2023. Rydym wedi gweld cynnydd yn ein darpariaeth yn yr ysgolion a phrosiectau sydd yn pontio yn y gymuned dros y cyfnod yma, ynghyd â cynnydd yn y gweithwyr rhan amser sy'n helpu i redeg ein gwaith.

Gwasanaeth leuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: Nifer o unigolion sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol leuenctid




Rhagfyr-619
Ionawr- 901
Chwefror-1135
Mawrth-1217

Mae'r cynnydd parhaus yn nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar y Gwasanaeth Cymunedol leuenctid yn dystiolaeth glir o'i berthnasedd a'i effaith gadarnhaol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod pobl ifanc yn gweld gwerth yn y cyfleoedd a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig. Mae'r ffigwr yma yn adlewyrchu'r cyfranogiad o ddarpariaeth clybiau cymunedol sydd yn cael ei ariannu gan y cynghorau tref, prosiectau cymunedol a thripiâu/ alldeithiau sydd wedi cael ei drefnu gan y Gwasanaeth leuenctid. Mae'r ffigwr yn is na yr arfer ym mis Rhagfyr gan fod saib yn y ddarpariaeth dros gyfnod y Nadolig.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed




Mae cyfanswm y llwythi achos wedi cynyddu ac mae hyn yn adlewyrchiad o'r angen parhaus am y gefnogaeth yr ydym yn ei darparu, yn ogystal â'r lleihad mewn gwasanaethau tebyg sydd ar gael yn y sir i bobl ifanc 18-25 oed. Rydym yn disgwyl i'r ffigwr yma godi ychydig eto yn y misoedd nesaf er mwyn gallu diwallu anghenion y bobl ifanc sydd heb ymgysylltu eto ers gadael yr ysgol.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: Nifer o achrediadau mae'r pobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)




Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn Ganolfan Gydnabyddedig Agored Cymru ar gyfer Gwobr Dug Caeredin. Rydym yn gallu cynnig dros 6,000 o unedau a 400 o gymwysterau achrededig, sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Mae'r achrediadau yma wedi'u cwblhau yn yr ysgolion gan y Gweithwyr Cymorth Ieuenctid.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: % o'r bobl ifanc ble mae eu lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth




Mae'r ffigwr yma wedi parhau yn gyson uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf sydd yn adlewyrchu un o brif flaenoriaethau'r Gwasanaeth i wella lles pobl ifanc Gwynedd. Mae adborth yn cael ei gasglu gan y bobl ifanc ar ddiwedd pob sesiwn yn yr ysgolion a'r gymuned. Yr her i'r dyfodol fydd i barhau gyda'r safonau yma gyda'r heriau i lesiant pobl ifanc. Rydym fel Gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio egwyddorion y 5 ffordd at les i gynllunio ein darpariaeth ac yn sicrhau bod llais y bobl ifanc yn ganolog yn ein cynlluniau.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir




Mae'r ffigwr yma wedi parhau yn gyson uchel dros y ddwy flynedd diwethaf, sydd yn adlewyrchiad o'r adborth positif yr ydym yn ei dderbyn gan y bobl ifanc ar ôl iddynt fynychu ein sesiynau. Yr her i'r dyfodol fydd i barhau i gyrraedd y safonau yma ac ymateb i rai o'r sylwadau yr ydym yn eu derbyn i ddatblygu'r Gwasanaeth ymhellach. I gyfoethogi'r data yma, rydym yn casglu dyfyniadau, astudiaethau achos ac yn cynnal fforymau llais pobl ifanc i gael y darlun cyfan.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: % o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.




Mae'r ffigurau hyn wedi bod yn uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n flaenoriaeth gennym i barhau i ymgysylltu â phobl ifanc i gymryd rhan yn ein darpariaeth. Cesglir adborth gan y bobl ifanc ar ddiwedd pob sesiwn yn yr ysgolion a'r gymuned. Mae'r broses o werthuso ein Gwasanaeth yn barhaus, lle rydym yn derbyn adborth gan bobl ifanc er mwyn gallu addasu ac ymateb i'w hanghenion. Bydd y Gwasanaeth yn rhannu holiadur yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i dargedu'r unigolion nad ydynt yn ymgysylltu â'n darpariaeth er mwyn derbyn adborth gwerthfawr.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)




Mae'r ganran wedi gostwng ychydig o gymharu â ffigwr y chwarter diwethaf. Mae'r patrwm yma wedi amlygu ei hun dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn y cyfnod Nadolig ac yng nghanol y gaeaf lle mae ymchwil wedi dangos ei fod yn amser heriol, yn enwedig i bobl ifanc. Mae'r mesur llesiant yma yn cael ei gasglu drwy raglen WEMWEBS. Mae'r rhaglen yma yn ein galluogi i fonitro lles meddyliol y boblogaeth gyffredinol a gwerthuso prosiectau, rhaglenni a pholisïau sy'n anelu at wella lles meddyliol.

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol.



Mae'r ffigwr yma wedi aros yn eithaf cyson ers y chwarter diwethaf. Mae'r cynlluniau personol yma wedi eu cynllunio ar y cyd gyda'r bobl ifanc sydd yn cynnwys eu nodau tymor byr a hir sy'n ganolog i'w pecyn cefnogaeth. Gall y ffigwr yma amrywio o fis i fis gan nad yw siwrnai'r bobl ifanc bregus yr un peth ac weithiau mae angen goresgyn heriau annisgwyl fel rhan o'u cefnogaeth. Mae'r ffigwr o 74% yn gyfartaledd o ffigwr ynghlwm â'r data o ran y bobl ifanc yn cyrraedd eu nodau tymor byr a'r nodau hir dymor.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ag Economi
DYDDIAD	19 Mehefin 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi a Chymuned
RHESWM DROS GRAFFU	Cyfle i Graffu Perfformiad Gwasanaethau'r Adran 2024/25
AWDUR	Sioned E Williams
AELOD CABINET	Cyng. R Medwyn Hughes

1. Pam fod angen ei graffu?

- 1.1 Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, fel yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir a Chyd-destun

- 2.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraif gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.
- 2.2 Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

3. Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

- 3.1 Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd pedwar prosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 mae'r Adran Economi a Chymuned yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae tri o'r prosiectau hyn yn adran Gwynedd Lewyrchus o'r Cynllun, sydd yn anelu i gryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng. Ond mae'r cyfrifoldeb i arwain ffrwd gwaith o fewn prosiect 'Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau' yn rhaglen Gwynedd Ofalgar wedi trosglwyddo i'r Adran ers dechrau Ionawr 2025.
- 3.2 O'r wybodaeth, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y prosiectau hyn dros y misoedd diwethaf. Y prif risg sy'n gyffredin i'r pedwar cynllun yma ydi fod ansicrwydd am ddyfodol y cyllidebau sydd wedi ariannu'r gwaith ers 2023. Cyfeirir yma yn bennaf at gyllideb Rhaglen ARFOR, Cronfa Ffyniant Bro (Levelling-Up Fund) a'r Gronfa Ffyniant Cyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF).
- 3.3 Hoffwn dynnu sylw yn benodol at y materion canlynol:

Prosiect Blaenoriaeth: Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy

- 3.4 Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Economi Ymweld Cynaliadwy ar 14 Chwefror 2025 lle daeth dros 100 o fynychwyr o wahanol fusnesau, sefydliadau a chymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri i drafod y camau nesaf i weithredu ein cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y mynychwyr. Bydd y Bartneriaeth Economi Ymweld yn adlewyrchu ar y cyfraniadau a brwdfrydedd partneriaid i sicrhau fod budd clir i gymunedau wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26.
- 3.5 Wrth adlewyrchu ar y ffaith fod 109 o sefydliadau diwylliannol Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth drwy'r Prosiect Diwylliesiant dros y flwyddyn ddiwethaf a gydag ansicrwydd am gyllid tu hwnt i 2025/26 i gefnogi'r sector, cynhaliwyd digwyddiad Diwylliant Gwynedd ar 18 Chwefror 2025 i ddathlu cyfraniad pwysig y sector i les trigolion Gwynedd. Mynychodd dros 70 o bartneriaid a chytunwyd fod angen cyd-ddatblygu gweledigaeth ac egwyddorion i gefnogi'r sector yn y dyfodol.
- 3.6 Hoffwn dynnu eich sylw hefyd fod amserlen buddsoddi Cronfa Ffyniant Bro (Levelling Up Fund - LUF) Llywodraeth Prydain wedi newid, gyda chyfle i wneud achos i ymestyn gwariant y gronfa hyd at ddiwedd 2027 a chyflawni rhai deilliannau erbyn diwedd 2029. Bydd hyn yn effeithio ar amserlen buddsoddi partneriaid yn y prosiect Llewyrch o'r Llechi a byddwn yn adolygu rhai cytundebau gyda phartneriaid yn y cymunedau dros yr wythnos nesaf. Dwi'n falch o ddweud fod rhai agweddau o'r cynllun bellach wedi cael eu cwblhau, ac roedd yn bleser ymweld yn ddiweddar â Neuadd Ogwen, sydd wedi derbyn £648,972.65 o grant drwy brosiect Llewyrch o'r Llechi Cyngor Gwynedd ar gyfer uwchraddio cyfleusterau, ac i gael clywed am y buddion uniongyrchol i'r gymuned o'r buddsoddiad.

Prosiect Blaenoriaeth: Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi

- 3.7 Mae'r prosiect wedi cyflawni holl gerrig milltir a gytunwyd ar gyfer y chwarter diwethaf, ond mae cryn ymdrech gan y gwasanaeth ar hyn o bryd er mwyn cwblhau gwariant ar wahanol grantiau a chefnogi partneriaid i oresgyn rhwystrau er mwyn cyflawni deilliannau a chyflwyno hawliadau llawn.

Prosiect Blaenoriaeth: Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

- 3.8 Dros y chwarter diwethaf mae gwaith sylweddol wedi digwydd gan y Gwasanaeth i gwblhau gwariant ar brosiectau rhaglen ARFOR Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Ffyniant Cyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF) Llywodraeth Prydain. Mae'r rhaglenni hyn wedi cynnwys cronfeydd i gefnogi busnesau a mentrau cymunedol i ffynnu a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith. Hyd yma, mae 573 o fentrau wedi derbyn cymorth drwy SPF ac ARFOR ac mae 184 wedi eu cefnogi i ddychwelyd i waith.
- 3.9 Tra bod adroddiad gwerthuso rhaglen ARFOR yn dangos buddion clir i fusnesau a chymunedau; yn hyrwyddo defnydd a gwelededd y Gymraeg ac yn amlygu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc o fewn rhanbarth ARFOR, mae dyfodol y rhaglen yn parhau i fod yn ansicr heb unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'w ariannu eto yn 2025/26.

- 3.10 Hoffwn dynnu eich sylw fod Llywodraeth Prydain bellach wedi cadarnhau trefniadau er mwyn ymestyn SPF am flwyddyn arall, ond fod 49% yn llai o arian ar gael i Wynedd a siroedd Gogledd Cymru. Cynhaliwyd digwyddiad 12 Fawrth ym Mhorthmadog i ddathlu'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni gydag arian SPF hyd yma. Ar ddiwedd y rhaglen byddwn yn cynhyrchu llyfryn i'w rannu er mwyn amlygu gwerth y gwahanol brosiectau ar draws Gwynedd, ond efallai fod y fideo yma <https://youtu.be/IP1wKeMwnIE> yn rhoi rhagflas i chi o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni. Er ein bod yn parhau i werthuso effaith prosiectau yn rhaglen 2022/25, mae'r gwaith o adnabod blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 eisoes wedi cychwyn.
- 3.11 Fe nodwch o'r atodiad fod gwaith cytundebol ar gyfer datblygu 10 uned busnes newydd ym Minffordd yn agos i gael ei gwblhau, gyda'r bwriad o gychwyn y gwaith adeiladu ail chwarter 2025/26. Yn ogystal, fe nodwch fod amserlen paratoi'r Strategaeth Economaidd newydd wedi llithro, a hynny yn sgil penderfyniad Llywodraeth Prydain i gynnig arian SPF am flwyddyn ychwanegol i Awdurdodau Lleol.

Prosiect Blaenoriaeth: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

- 3.12 Er bod prif gerrig milltir y prosiect hwn wedi eu cyflawni, dwi'n awyddus i adolygu ein trefniadau i gefnogi'r hybiau er mwyn creu model fyddai yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol. Byddwn yn trafod cyfleoedd gyda partneriaid dros y flwyddyn nesaf.

4. Gwaith dydd i ddydd yr Adran

- 4.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn Atodiad 2 ac yn cael ei graffu yn rheolaidd. Hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Cabinet i'r materion canlynol:

Gwasanaeth Adnoddau Hamdden – Byw'n Iach, Parciau Gwledig Padarn a Glynllifon

- 4.2 Mae'r gwaith buddsoddi grant ym Mharc Padarn a Glynllifon yn parhau. Mae heriau amlwg i gasglu data boddhad cwsmer yn sgil y gwaith buddsoddi ar safle, ond mae'n gadarnhaol gweld fod boddhad cwsmeriaid yn gwella yn sgil y gwaith.
- 4.3 Gwelir fod nifer ymweliadau i'r canolfannau hamdden wedi bod 16,230 yn uwch dros y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â 2023/4. Er hyn, fe nodwch fod hyn 176,611 o ymweliadau yn llai na 2019/20. Mae Cwmni Byw'n Iach wedi gwneud dipyn o waith i ddadansoddi pam nad ydi wedi cyrraedd yr un lefel a cyn COVID, ac er fod ansawdd cyfleusterau yn ffactor sydd yn effeithio ar brofiad cwsmeriaid, y prif reswm am y gwahaniaeth yn nifer yr ymweliadau ydi lleihad sylweddol yn nifer ymweliadau ysgolion i'r canolfannau.
- 4.4 Dwi'n bryderus fod nifer disgyblion Gwynedd sydd yn cael gwersi nofio yn ein canolfannau yn parhau i ostwng. Cyn Covid roedd 85% o blant CA2 oedd yn derbyn gwersi nofio ym mhyllau Byw'n Iach yn cyrraedd safon y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer sgiliau nofio sylfaenol. Erbyn diwedd Haf 2024, ddim ond 54% o holl blant CA2 gallwn fod yn sicr sydd yn medru nofio. Roedd 30% o'r rhai oedd wedi cael eu hasesu

wedi methu gan nad oeddent wedi cael digon o sesiynau, ac roedd 16% heb dderbyn asesiad gan nad oedd ysgolion wedi dod a disgyblion i wersi.

- 4.5 Y pryder ydi mai rhai o'r ysgolion efo'r lefelau uchaf o ddifreintedd yn y sir sydd a'r lefelau isaf o sgiliau nofio. Nid ydi'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys nofio'n benodol, felly mae dibyniaeth lwyr ar ysgolion unigol i flaenoriaethu o fewn y maes iechyd a llesiant. Mae'r sefyllfa gyllidol wedi arwain nifer fawr o ysgolion i gwtogi ar y ddarpariaeth gyda chostau trafnidiaeth yn aml yn cael ei adrodd fel rhwystr penodol.
- 4.6 Mewn ymateb, dwi wedi cytuno gyda'r Aelod Cabinet Addysg i rannu manylion am gyfraddau nofio ysgolion gyda chyrff Llywodraethol ysgolion Gwynedd gan ofyn iddynt roi ystyriaeth bellach i'r risgiau a'r anghyfartaledd ar draws y sir.

Gwasanaethau Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria Caernarfon.

- 4.7 Fe nodwch o'r Atodiad fod 71% o ymatebwyr arolwg boddhad cwsmer traethau o'r farn fod eu profiad yn 'dda iawn' neu 'dda'. Mae'r adborth dderbynnir o'r arolygon yma yn ddefnyddiol iawn i alluogi'r gwasanaeth ymateb gyda Adrannau eraill o'r Cyngor.
- 4.8 Cynyddodd nifer cwsmeriaid gyda chytundeb angori 6.5% yn ein harbyrau yn 2024/25, sef cynnydd o 250 i 266 (dim yn cynnwys Hafan Pwllheli a Doc Caernarfon). Fe nodwch hefyd fod angorfeydd Hafan Pwllheli wedi bod 95% yn llawn yn 2024/25, gyda 77% o'r angorfeydd yn yr harbwr allanol yn llawn dros yr un cyfnod. Mae'n galonogol iawn gweld fod rhan fwyaf o gwsmeriaid ein harbyrau Hafan Pwllheli a Doc Caernarfon yn awyddus i barhau efo cytundeb yn 2025/26. Ond o'r rhai sydd wedi datgan eu bwriad i ganslo eu cytundeb, prif resymau sydd wedi cael eu nodi ganddynt ydi'r cynnydd mewn costau hwylio; tywydd; neu oedran perchennog y cwch. Ond cyfeirir hefyd at amgylchedd yr Hafan ac ym Mhwllheli, gan gynnwys y sialens carthu. Er fod cynllun carthu mewn lle ac yn cael ei weithredu, mae stormydd nerthol y gaeaf wedi creu heriau newydd o ran amllder y carthu a'r gallu i waredu'r holl waddod o fewn y rheoliadau amgylcheddol.

Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd, Celfyddydau a Llyfrgelloedd

- 4.9 Fe nodwch fod 91% o ddefnyddwyr Gwasanaeth Archifau yn 'fodlon iawn' gyda'r gwasanaeth, 3% yn fodlon, 2% o ddefnyddwyr yn nodi nad oeddent yn fodlon nac anfodlon, a 4% nad oeddent yn fodlon. Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn, ond o'r rheiny nad oedd yn fodlon derbyniwyd sylwadau am yr oriau agor. Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Gwladol yn sgil toriadau nôl yn 2016.
- 4.10 Roedd 95% o ddefnyddwyr Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau wedi mwynhau eu profiadau, gyda sylwadau cadarnhaol iawn yn dilyn y gwaith ail-ddehongli yn Amgueddfa Lloyd George. Serch hynny, mae'r galw am y caffï yn Storiell yn parhau. Mae gwahanol opsiynau darparu wedi cael eu hystyried dros y misoedd diwethaf gan gynnwys partneru gyda Prifysgol Bangor, Grwp Llandrillo Menai a Gwasanaeth Oedolion Cyngor Gwynedd. Gan nad ydi'r opsiynau hyn bellach yn

bosib, mae'r gwasanaeth yn y broses o fynd allan i wahodd datganiadau o ddiddordeb gan fentrau lleol i weithio gyda'r Cyngor i ddarparu'r caffi.

- 4.11 Fe nodwch fod arolwg bodlonrwydd cwsmer Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi dangos lefelau uchel o fodlonrwydd. Mae sawl gohebiaeth wedi dod i fy sylw yn darlunio effaith mae'r gwasanaeth Llyfrgell yn ei gael ar drigolion Gwynedd, sydd llawer ehangach na benthyg llyfr. Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn brysur ond llwyddiannus i'r tîm yn Neuadd Dwyfor hefyd. Mae'r gyfradd bodlonrwydd yn parhau yn eithaf uchel, gyda 95% o gwsmeriaid ar gyfartaledd yn canmol y cyfleusterau, staff a'r gofal cwsmer. Yn dilyn cyflwyno rhaglen llawn digwyddiadau mae nifer ymweliadau wedi cynyddu. Mae cryn dipyn o arbrofi wedi bod dros y flwyddyn mewn ymdrech i gynyddu'r gwerthiant o fwyd a diod.

Gwasanaethau Economi ac Adfywio

- 4.12 Mae'r gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Chefnogi Cymunedau wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y flwyddyn diwethaf ar weithredu'r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn ddibynnol ar arian grant ac mae pob pecyn cymorth ddarperir i bartneriaid, cymunedau a mentrau yn cael eu monitro a gwerthuso yn unol â thelerau'r arianwyr.

5. Ymgynghori

- 5.1 Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran 14 Mai 2025, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2

Gwynedd Lewyrchus: Cryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma (10 Mawrth 2025)	Ydi’r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o’i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Economi a Chymuned	Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	1 Byddwn wedi sefydlu strwythur i weithredu Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035 ac wedi targedu adnoddau i hyrwyddo’r amcanion newydd. 2 Byddwn wedi cynnal uwch-gynhadledd Economi Ymweld Cynaliadwy 3 Byddwn wedi adolygu ein trefniadau i gefnogi digwyddiadau yng Ngwynedd. 4 Byddwn wedi agor, hyrwyddo a monitro defnydd 4 Aros-fan ar draws Gwynedd ac wedi gwerthuso’r cynllun peilot	1. Pob elfen o’r strwythur yn weithredol ac adnoddau wedi eu derbyn o gronfa trawsffurfio’r Cyngor ac SPF i hyrwyddo’r amcanion newydd. 2. Digwyddiad llwyddiannus gyda dros 100 o fynychwyr wedi ei gynnal ar 14 Chwefror 2025. Ymateb cadarnhaol iawn i’r digwyddiad. 3. Trefniadau wedi eu hadolygu fel rhan o ddatblygu cronfa cefnogi digwyddiadau SPF. 4. 4 lleoliad wedi agor, defnydd yn cael ei fonitro. Adroddiad gwerthuso i’w gyflwyno i’r Cabinet yn ystod 2025.	1. Ydi 2. Ydi 3. Ydi 4. Ydi

		5 Byddwn wedi cefnogi cymunedau a busnesau Gwynedd i hyrwyddo a dathlu diwylliant yn lleol drwy'r prosiect 'Diwylliesiant'. 6 Byddwn wedi cytuno ar gynlluniau newydd i ddarparu gwasanaethau yn Storiel, Amgueddfa Lloyd George a Neuadd Dwyfor, a chydweithio gyda partneriaid yn y sector ddiwylliannol i adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol. 7 Byddwn wedi cefnogi cymunedau Gwynedd i fanteisio ar ddynodiad treftadaeth byd y	Nifer taliadau fel a ganlyn ers Mehefin 2024 (Y Glyn) eraill yn fwy diweddar yn agor: Caernarfon: 137 Criccieth: 391 Pwllheli: 153 Llanberis: 1,005 5. 109 o sefydliadau / busnesau wedi eu cefnogi trwy fuddsoddiad o £715,553 o gronfa Diwylliesiant ar gyfer digwyddiadau, diwylliant a byw'n iach. Rhain wedi denu buddsoddiad ychwanegol o £5.8m i'r Sir. Llauer o weithgaredd wedi digwydd trwy Storiel, Byw'n iach, Archifau, Llyfrgelloedd a Pharc Glynllifon. 6. Trafodaethau'n parhau ar gyfer Storiel, Amgueddfa Lloyd George a Neuadd Dwyfor. Targed incwm Neuadd Dwyfor wedi ei gytuno - £20,000 am y 2 flynedd nesaf. Cynhaliwyd digwyddiad Diwylliant Gwynedd ar 18 Chwefror i ddathlu'r sector ac adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol. Mynychodd dros 70 o bobl a chytunwyd bod angen datblygu gweledigaeth ac egwyddorion diwylliant i Wynedd.	5. Ydi 6. Ydi
--	--	--	---	-----------------------------

		diwydiant llechi gan sicrhau arian Loteri Treftadaeth i brosiectau LleCHI LleNI, ac arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Ffyniant Bro, yn cynnwys gwaith: ○ Ogwen – contractwyr ar safle Yr Hen Bost, uwchraddio'r llwybr cysylltiol ar waith, agoriad swyddogol Neuadd Ogwen ○ Dinorwig – contractwyr ar safle Yr Amgueddfa Lechi a Pharc Padarn ○ Blaenau Ffestiniog – cwblhau llwybr cysylltiol, uwchraddio Aelwyd yr Urdd wedi ei gwblhau, contractwyr ar safle Church St ○ Celf Cyhoeddus – wedi ei osod mewn 6 tref ○ Gwelliannau Canol Tref – cynlluniau wedi eu cwblhau mewn 6 tref ○ Arwyddo a dehongli – wedi ei osod mewn 6 tref	7. Prosiectau Llewyrch o'r Llechi a LleCHI LleNI ar waith ac yn cyflawni'n llwyddiannus er rhai heriau. • Contractwyr ar safle Hen Bost Mawrth '25. Dad-orchuddio plac Neuadd Ogwen 7 Mawrth 25. Peth gwaith y llwybr wedi cyflawni – eraill ar gyfer 2025. • Contractwyr ar safle A-Inclein Gwaith gwacau'r Amgueddfa wedi cwblhau. Contractwyr ar safle ar gyfer Canolfan Groeso Parc Padarn Mawrth 2025. Amgueddfa yn penodi contractwr 12-03-25. • Llwybr ac Aelwyd yn cwblhau. Cychwyn ar Church St. Mis Ebrill / Mai. • Celf Blaenau, Porthmadog, Penygroes wedi eu cwblhau. Tywyn i'w gwblhau cyn diwedd Mawrth a'r lleoliadau eraill yn ystod 2025 / 2026. • Cynlluniau ar waith ym Mhorthmadog, Tywyn a Phenygroes. Cwblhau cyn diwedd Mawrth 2025.	7. Ydi – er fod cyfnod cyflawni wedi ei ymestyn hyd 2027 a 2029 ar gyfer 2 brosiect.
--	--	--	---	---

		○ Cadwraeth – nifer o strwythurau hanesyddol wedi derbyn buddsoddiad	● Comisiwn wedi ei wobrwyo i YGC i reoli a gweithredu. 3 tref SPF i'w cwblhau cyn diwedd Mawrth '25. ● Gwaith yn weithredol ar Ysbyty Chwarel Penrhyn.	
Economi a Chymuned	Adfywio cymunedau a chanol trefi	1 Byddwn wedi cyhoeddi Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol ac wedi cadarnhau trefniadau i'w cyd-lynu a gweithredu i'r dyfodol. 2 Byddwn wedi cefnogi a galluogi partneriaid i weithredu pecyn o brosiectau adfywio ar draws cymunedau Gwynedd drwy weinyddu'r Gronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau, gwerth £1.8m, yn effeithiol. 3 Byddwn yn cwblhau Cynllun Creu Lleoedd Porthmadog, Pwllheli, Bala, Dolgellau ac yn diweddarau cynlluniau trefi Ardaloedd Llechi 4 Byddwn wedi buddsoddi £1.8m o arian grant Cronfa Ffyniant Gyffredin i uwchraddio canol trefi Gwynedd 5 Byddwn yn denu buddsoddiad ychwanegol i adfywio canol trefi Gwynedd drwy dargedu Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru	1. Mae Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal wedi eu cyhoeddi ar safle we'r Cyngor, ac adolygiad wedi ei gynnal o drefniadau cyd-lynu lleol. 2. Mae'r Gronfa Allweddol wedi ei weinyddu yn llwyddiannus gan gynnig grantiau ar gyfer ystod o brosiectau adfywio lleol. 3. Mae Cynlluniau Creu Lleoedd wedi eu cwblhau ar gyfer Porthmadog, Pwllheli, Bala, a Dolgellau. 4. Mae'r Cynllun Canol Tref yn weithredol, a bydd yr holl wariant yn cael ei gwblhau cyn diwedd Mawrth. 5. Prosiectau yn derbyn grant Trawsnewid Trefi 2024/5 yn cynnwys Parc y Coleg, Bangor; eiddo gwag Galeri Cyf; Menter Twr Pwllheli;	1. Ydi 2. Ydi 3.Ydi 4.Ydi 5.Ydi

		6 Byddwn wedi dod a mwy o adeiladau gwag i ddefnydd drwy'r Rhaglen Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd	Canolfan Bro Tegid, Bala; a Chanolfan Iechyd a Lles Bangor. 6. Mae Grwp Eiddo Gwag y Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn casglu data am eiddo gwag yn dod yn ôl i ddefnydd	6 Ydi
Economi a Chymuned	Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	1 Byddwn wedi darparu rhaglen o gymorth i gefnogi busnesau a mentrau cymdeithasol drwy raglen ARFOR a Chronfa Ffyniant Gyffredin ac wedi gwerthuso effaith y buddsoddiad ar economi Gwynedd. 2 Byddwn wedi cynnal diwrnod i ddathlu a hyrwyddo llwyddiant busnesau a mentrau Gwynedd ac wedi cynnal ymgyrch i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol 3 Byddwn wedi cychwyn adeiladu 10 uned busnes newydd yn Minffordd	1 573 o fusnesau wedi derbyn cymorth gan y Cyngor hyd yma yn ystod ail flwyddyn y Cynllun, yn cynnwys cymorth wedi ei ariannu gan y rhaglenni SPF ac ARFOR. Gwerthusiadau o'r gwaith wedi ei gomisiynu. 2 Cynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd mis Hydref gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i fusnesau yn Nolgellau, Pwllheli a Bangor. Mae uchafbwyntiau'r digwyddiadau i weld ar ffrydiau X a LinkedIn. Ymgyrch y cyfryngau cymdeithasol y Cyngor i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol wedi cyrraedd at 50,000 o gyfrifon eraill. 3 Hawliau i'r adeiladu wedi ei sicrhau drwy'r broses gynllunio ynghyd â ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r cynllun ar ffurf tir ac arian. Tendrau yn fyw ar gyfer yr adeiladu ond amserlen	1 Ydi 2 Ydi 3 Bydd gwaith adeiladu yn cychwyn dechrau 2025/26 erbyn

		4 Byddwn wedi cydweithio gyda partneriaid ar draws Gogledd Cymru i sicrhau budd i Wynedd o Gais Twf Gogledd Cymru 5 Byddwn wedi cytuno ar Gynllun Economi Gwynedd newydd ar gyfer cyfnod 2025-2028 ac wedi paratoi ceisiadau am adnoddau i weithredu ei blaenoriaethau.	wedi ei ymestyn. 4 Rydym yn parhau i gefnogi cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sydd yn cynnig y budd mwyaf i Wynedd yn y Rhaglen Ddigidol, Rhaglen Ynni, Rhaglen Twristiaeth Bwyd Amaeth a'r Rhaglen Tir ac Eiddo: • Cynllun Parc Bryn Cegin wedi ei gymeradwyo a trefniadau mewn lle i gychwyn gweithredu ar safle. • Manylion Cynllun Twristiaeth Antur Gyfrifol yn cael ei ddatblygu. • Prosiect Hwb Arloesi Glynllifon yn cael ei ailgynllunio. • Ni fydd cynllun Trawsfynydd yn cael ei ddatblygu ar ei ffurf presennol, ond mae ystyriaeth i addasu'r cais er mwyn gwarchod buddsoddiad i'r safle. 5 Ymgynghori sylweddol gyda ystod o rhanddeiliaid wedi ei gynnal i gyrchu arweiniad a blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun. Blwyddyn ychwanegol yn gofyn dargyfeirio adnoddau am y tro. Sgwrs adeiladol gyda aelodau'r	hyn 4 Rhannol – mae ansicrwydd am fuddsoddiadau sylweddol yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn anodd i gadarnhau'r budd i Wynedd. 5 Amserlen yn llithro i 2025/26 mewn ymatebi estyniad yr SPF
--	--	---	--	---

		6 Byddwn wedi darparu cymorth i drigolion Gwynedd ddychwelyd i waith ac i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da 7 Bydd ein cynllun SPF i atal diweithdra a chefnogi pobl i gyflawni eu potensial wedi ei gwblhau a'i werthuso	Pwyllgor Craffu – cais i ddychwelyd gyda dogfen drafft. 6 184 wedi eu cefnogi ddychwelyd i waith eleni a 232 wedi derbyn help i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da (hyd yma) 7 Cynllun SPF presennol ar waith ac yn dod i ben 31 Mawrth. Gwerthusiad wedi ei gomisiynu.	6 Ydi 7 Ydi

Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Trawsadrannol	Cefnogi Llesiant Pobl	1. Sefydlu 2 Hwb Cefnogi Pobl mewn 2 ardal newydd. 2. Trefnu hyfforddiant i weithwyr a gwirfoddolwyr yr Hybiau ar gefnogi unigolion. 3. Penodi swyddi Hyrwyddwyr Lles a cynnal digwyddiadau costau byw, sesiynau galw heibio amrywiol. 4. Cydweithio gyda partner gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth rhifedd a cyllidebu i drigolion. 5. Cwblhau'r Prosiect Cynhwysiad Digidol i roi help ymarferol i ddysgu pobl i fynd ar-lein a dosbarthu cyfarpar TG. 6. Cynnal Cynllun Bwyd i gynnwys sefydlu cronfa grant ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo gan grwpiau cymunedol; cyrsiau coginio yn y gymuned ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, a chreu gerddi a rhandiroedd cymunedol.	1. Trafodaethau wedi ei gynnal yn Bro Peris (Menter Fachwen); a cydlynnydd dros dro wedi ei gomisiynu yn ardal Porthmadog. 2. Hyfforddiant Lles Cymru wedi ei comisiynu. 3. Mae swyddi Hyrwyddwyr Lles wedi eu penodi 4. Mae cydweithio agos gyda CAB er mwyn cynghori a darparu gwasanaeth allgymorth yn yr hybiau. 5. Mae cydweithio agos gyda Ability Net i gynnig mentora a cefnogaeth i unigolion gyda systemau digidol. 6. Cronfa Gyfalaf a Refeniw wedi ei sefydlu er mwyn cefnogi prosiectau bwydo yn y cymunedau. Cydweithio gyda BCUHB i ddarparu cyrsiau coginio	Yn rhannol Ydi Ydi Ydi Ydi Ydi

			yn yr hybiau. Cronfa Rhandiroedd wedi ei chlustnodi yn gyfan gwbl i greu rhandiroedd newydd neu datblygu rhandiroedd presennol.	
--	--	--	--	--



 gwynedd.llyw.cymru

 [CyngorGwyneddCouncil](https://www.facebook.com/CyngorGwyneddCouncil)

 [CyngorGwynedd](https://twitter.com/CyngorGwynedd)

 [cyngorgwyneddcouncil](https://www.instagram.com/cyngorgwyneddcouncil)

Adroddiad Perfformiad Adran Economi a Chymuned

Adran Economi a Chymuned - Gwasanaeth Adnoddau Hamdden

Pennaeth: Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

Trosolwg o berfformiad:

Parc Glynllifon: Cyfartaledd boddhad cwsmer ar gyfer Glynllifon yn ystod 2024/25 yn 85.4% (Parciau 84.9%).

Mae boddhad cwsmer ar gyfer Parc Glynllifon yn ystod 2024/25 wedi disgyn 0.6% o 86% i 85.4%. Er y gostyngiad, nid yw'n ostyngiad sylweddol ac nid ydi'r sylwadau dderbyniwyd o reidrwydd yn adlewyrchu'r gwasanaeth ddarperir gan y gwasanaeth ee mae cyfeiriadau at y caffi sydd ddim yn cael ei redeg gan Cyngor Gwynedd.

Yn ystod 2024/25 mae dipyn o waith wedi ei wneud er mwyn gwella profiad ymwelwyr i'r dyfodol:


Tal Mynediad – Bellach mae trefniadau newydd o ran cael mynediad i'r Parc. Mae giatiau ger y siop yn cael eu cloi yn ystod oriau agor y siop ac yn cael eu hail agor pan fydd y siop ar gau. Hynny yn golygu fod pawb sy'n ymweld a'r Parc yn gorfod mynd drwy'r siop. Yn dilyn y trefniadau newydd mae rhai ymwelwyr wedi bod yn mynd drwy y siop yn arddangos tocynnau sydd wedi dod i ben ers rhai blynnyddoedd. Gobeithio felly fydd y Parc yn cynhyrchu mwy o incwm.

Astudiaeth Dichonoldeb – gyda arian SPF paratowyd astudiaeth ar gyfer gwella'r Parc i'r dyfodol, oedd yn cynnwys creu caffi newydd, yn ogystal cynhyrchu ynni hydro yn y Felin unwaith eto. Mae'r cynlluniau wedi adnabod gwelliannau o fewn yr unedau crefft, creu ystafell gyfarfod newydd, gwelliannau pellach i'r trefniadau mynediad ac i lwybrau'r Parc.

Gwefan a Cyfryngau cymdeithasol – Mae gwefan newydd ar gyfer y Parc wedi ei chreu www.parcglynllifon.cymru. Wedi penodi cwmni i redeg y dudalen Facebook fel fod modd i drigolion lleol ac ymwelwyr ddeall yn well be sy'n digwydd o fewn y Parc.

Gronfa Treftadaeth Loteri – gan ddefnyddio'r cynlluniau o'r astudiaethau dichonoldeb SPF, mae datganiad o ddiddordeb llwyddiannus wedi ei gyflwyno am £2.6m i'r Loteri er mwyn creu'r gwelliannau. Bydd cais llawn yn cael ei gyflwyno yn fuan yn 2025/26.

Gŵyl Fydd a Crefft – Wedi cynorthwyo siop Adra i gynnal y digwyddiad mis Tachwedd ac fe wnaeth 4,500 ymweld a'r Wyl dros y penwythnos.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned - Gwasanaeth Adnoddau Hamdden

Pennaeth: Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

Trosolwg o berfformiad:

Parc Padarn: Cyfartaledd boddhad cwsmer ar gyfer Parc Padarn ar gyfer 2024/25 yn 86.7% (Parciau 84.9%).

Mae boddhad cwsmer ar gyfer Parc Padarn yn ystod 2024/25 wedi cynyddu 9.7% o 77% i 86.7% Credir fod cynnydd yn y sgôr wedi buddsoddiadau sylweddol yn 2023/24 yn ardal Y Glyn ble mae'r maes parcio swyddogol yn ei le bellach a safle ArosFan ar gyfer cartrefi modur.

Yn ystod 2024/25 mae dipyn o waith wedi ei wneud i wella a diogelu strwythurau yn y Parc er mwyn gwella profiad ymwelwyr i'r dyfodol:

Buddsoddiad Rhaglen Llewyrch o'r Llechi (LUF) – Wedi apwyntio penseiri a derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer strwythurau oedd yn rhan o'r prosiect. Wedi apwyntio James Cyf i adeiladu'r Bloc Croeso newydd a'r gwaith tirlunio o'i amgylch - gwaith wedi cychwyn ers 13/01/2025. Wedi apwyntio contractwr i adfer Inclein A ac mae rhan helaeth o'r gwaith wedi ei gwblhau bellach. Pecyn tendr ar gyfer y Fire Queen a Hafod Owen wedi ei baratoi. Deifwyr y safle wedi derbyn caniatâd gan y Parc i adfer strwythurau o fewn Chwarel Vivian.

Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi galluogi'r gwasanaeth i osod cysgodfa beics newydd yn Y Glyn ac archebu pwyntiau gwefru er mwyn annog mwy o deithio gwyrdd. Mae byrddau picnic newydd hefyd wedi eu archebu a'r llwybr pren Cae'r Ddol wedi ei newid gyda llwybr graean hunan-rhwymol.


Buddsoddiad Rhaglen Pethau Pwysig – Bu cais am £300,000 o gymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus i ail wynebu'r maes parcio, gosod EV, man gwefru beics, paneli solar a gwaith dehongli/arwyddion.

Gwefan a Cyfryngau cymdeithasol – Gwefan newydd ar gyfer y parc wedi ei gwblhau ac yn fyw mis Tachwedd www.parcpadarn.cymru Wedi sefydlu tudalen Facebook swyddogol ar gyfer y Parc fel bod modd i bobl ddeall yn well be sy'n digwydd o fewn y Parc.

Chwyn Ymledol – Wedi derbyn trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru i daclo'r chwyn ymledol ac wedi penodi contractwyr arbenigol i ymgymryd â'r gwaith.

Amgueddfa Lechi – Wedi bod yn cynorthwyo Amgueddfa Cenedlaethol Cymru gyda'u prosiect ail-ddatblygu gan gynnwys croesawu staff yr Amgueddfa i Ysbyty'r Chwarel fel un o'u safleoedd amgueddfa deithiol.

Digwyddiadau – Wedi derbyn arian SPF er mwyn rhoi cysylltiad trydanol i'r maes digwyddiadau er mwyn sicrhau fod y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn Llanberis yn fwy gwyrdd. Wedi croesawu 8 digwyddiad mawr i'r Parc dros y flwyddyn diwethaf. Dim cwynion wedi eu derbyn yn lleol am y digwyddiadau fu'n cael eu cynnal.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Adnoddau Hamdden

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Cefnogi Cwmni Byw'n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Byw'n Iach

Trosolwg o berfformiad: Cyfartaledd boddhad cwsmer ar gyfer Byw'n Iach ar gyfer 2024/25 yn 83.51%

Mae boddhad cwsmer ar gyfer Byw'n Iach yn ystod 2024/25 wedi disgyn 3.86% o 87.37% i 83.51%

Prif ffactor wnaeth dynnu'r sgôr boddhad y Cwmni i lawr llynedd oedd cyflwr yr offer ac isadeiledd. Mae trefniadau mewn lle i dargedu adnoddau er mwyn buddsoddi mewn rhai o'r cyfleusterau yn 2025/26.

Yn ystod 2024/25 mae dipyn o waith wedi ei wneud i wella isadeiledd ddylai wella profiad defnyddwyr i'r dyfodol, megis:

Cae 3G Caernarfon – Gwaith wedi cwblhau a'r cae pêl-droed wedi agor.


Chwaraeon Cymru - Cronfa Cydweithio Cyrtiau – Wedi ail wynebu cyrtiau tennis mewnol Canolfan Tennis Arfon. Wedi gosod cwrt Padel newydd (Cwrt cyhoeddus cyntaf yng Ngogledd Cymru). Arian yn weddill i ail wynebu cyrtiau tennis allanol a gosod llif oleuadau newydd yn fuan yn 2025/26.

Cymru Football Foundation – Wedi trosi'r MUGA i fod yn gae 2G 7v7 yn Glan Wnion, Dolgellau. Yn Glaslyn mae'r contractwyr wedi penodi i greu cae 3G 7v7 yn lle'r hen cae 5 pob ochr ac uwchraddio cyrtiau i ddefnydd Ysgol Eifion Wyn a'r gymuned (cyfuniad o gyllid CFF, Chwaraeon Cymru a grant Ysgolion Cymunedol Llywodraeth Cymru).

Grant Llywodraeth Cymru - Mae gwaith adeiladu gofod ffitrwydd wedi cwblhau a offer system 'Biocircuit' gan Technogym wedi cael eu gosod.

Cronfa Gylchol – Arian grant wedi ei dderbyn i osod system UV i lanhau'r dwr ym Mhwll Arfon. Gobeithio cychwyn y gwaith yn fuan.

Ffideo atodol o adroddiad y cwmni ar gyfer 2024/25 - [Adroddiad Blynyddol Byw'n Iach 2024/25](#)



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Adnoddau Hamdden




Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Cefnogi Cwmni Byw'n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd

Dangosydd Perfformiad: Cyfanswm Nifer Ymweliadau Byw'n Iach

Trosolwg o berfformiad:



- Cyfanswm nifer ymweliadau i'r canolfannau wedi cynyddu 16,230 o'i gymharu â 2023/24. Er hynny, mae'r ffigwr 176,611 yn llai na'r nifer oedd yn ymweld cyn COVID. Un o'r prif resymau am hynny yw'r lleihad yn nifer ymweliadau ysgolion i'r canolfannau.
- Cyn COVID mi oedd aelodaeth DU (Debyd Uniongyrchol) ffitrwydd ar ei lefel uchaf erioed. Yn sgil COVID fe ddaru nifer sylweddol o aelodau ganslo eu cytundeb DU. Mae'r cwmni wedi rhoid dipyn o ymdrech i ddenu aelodau newydd ac ar diwedd 2024/25 mi roedd aelodau DU 83 yn fwy i'w gymharu â 2023/24 ac 18 yn well na'r flwyddyn cyn COVID.
- Mae cynnydd yn y nifer ymweliadau wedi golygu fod sefyllfa ariannol y cwmni yn parhau i wella. Gorwariant y cwmni ar gyfer 2024/24 yn £276,000; £31,035 yn well na 2023/24. Mae lleihad yn nifer ymweliadau gan ysgolion yn gyfraniad sylweddol i'r gorwariant gyda incwm ysgolion i lawr £78,743.98

6010000

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

Dangosydd Perfformiad: Cyfanswm cwsmeriaid angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Cynyddodd nifer y cwsmeriaid gyda chytundeb angori 6.5% yn ein harbyrau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 250 i 266. Mae rhai cwsmeriaid wedi dychwelyd ar ôl diwedd cyfyngiadau Covid, yn ogystal â rhai perchnogion cychod pŵer yn penderfynu cymryd angorfa yn lle lansio ac adfer yn ddyddiol, sydd wedi cyfrannu at gadw nifer angorfeydd yn ein harbyrau yn sefydlog.

Mae'r sianeli mordwyo yn y tri harbwr yn hynod ddeinamig ac yn newid eu cwrs yn gyson, sydd yn golygu fod llai o lefydd addas i leoli angorfeydd.

Cafwyd difrod i gychod a strwythurau yn ein harbyrau yn dilyn y tywydd eithafol yn ystod misoedd y gaeaf, ond yn ffodus iawn ni chafodd neb ei anafu ac nid oedd unrhyw lygredd.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

Dangosydd Perfformiad: Boddhad Cwsmer Harbyrau Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Nododd **84%** fod eu profiad o'r harbwr yn 'Dda Iawn' neu 'Dda', gyda llawer yn nodi bod cyfleusterau'n ardderchog, bod cymhorthion mordwyo yn eu safleoedd priodol a bod swyddogion yr harbyrau yn broffesiynol, gwybodus, cyfeillgar a chymwynasgar iawn.

Roedd y prif bryderon yn ymwneud â siltio'r o'r sianeli mordwyol, gyda rhai perchnogion cychod yn mynegi anawsterau wrth fynd i mewn ac allan o'r harbwr oherwydd dyfnderoedd bas. Mynegwyd pryderon hefyd gan nifer am y swyddfa harbwr dros dro yn Aberdyfi, gyda rhai yn adrodd bod y strwythur yn annymunol ac yn amhriodol ar gyfer yr ardal.

Diogelwch: Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn gyda holl ofynion y Cod Diogelwch Morol yn dilyn adolygiadau gan yr awdurdodau perthnasol. Derbyniwyd adroddiad o gydymffurfiaeth lawn hefyd yn dilyn archwiliad blynyddol o'r holl gymhorthion mordwyo gan Tŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai, yn ystod Hydref 2024. Yn ogystal, cynhaliwyd gwiriad cydymffurfio RDCO (Registered dealers in controlled oil) gan HMRC a chadarnhawyd fod y gwasanaeth yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol fel deliwr cofrestredig.

Gwelliannau: Mae £30k wedi'i fuddsoddi yn adnewyddu cadwyni angorfeydd harbwr Porthmadog er sicrhau diogelwch cychod. Mae'r un swm hefyd wedi'i fuddsoddi yn datblygu a gwella lloc allanol yr harbwr er mwyn darparu safle mwy ymarferol a diogel. Uwchraddiwyd system TCC harbwr Abermaw i wella diogelwch a chwblhawyd gwelliannau i Ffordd y Compawnd.

Swyddfa Harbwr: O ganlyniad i ddirywiad strwythurol i swyddfa'r harbwr yn Aberdyfi, symudodd swyddogion yr harbwr i swyddfa dros dro sydd wedi bod fater dadleuol yn lleol.

Llongdrylliad: Datryswyd mater cynhennus trwy waredu cwch o harbwr Bermu a oedd mewn cyflwr peryglus ac yn peri risg i forwyr.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gyflwyno mesurau fyddai yn gwella mwyniant a diogelwch defnyddwyr ein traethau

Dangosydd Perfformiad: Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:

Roedd **71%** o'r farn bod eu profiad o ymweld â'r traethau yn 'Dda Iawn' neu 'Dda'. Y prif sylwadau oedd bod y traethau'n hardd, yn lân ac yn ddiogel. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn meddwl fod Wardeniaid Traeth yn gwneud gwaith gwych o reoli'r traethau, yn aml o dan amgylchiadau anodd. Derbyniwyd nifer o sylwadau negyddol am ansawdd a chyflwr toiledau cyhoeddus, biniau sbwriel yn gorlifo, cŵn afreolus, baw ci ar lwybrau, yn ogystal badau pŵer sy'n mordwyo yn angysur. Roedd rhai hefyd yn feirniadol iawn fod ffioedd parcio yn cael eu codi yn Dinas Dinlle lansio yn ormodol.



Swyddi: Penodwyd Swyddog Traeth parhaol ym Mhorthmadog a Meirionnydd ar ddechrau blwydyn ariannol 2024/25 i wella diogelwch ar draethau prysur. Mae'r niferoedd sydd yn ymgeisio am swyddi tymhorol wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac er ein hymdrechion ni lwyddwyd i benodi nifer digonol o swyddogion tymhorol yn 2024 sy'n uchafu risg o fethu a chyflawni gwasanaeth.

Gwelliannau: Cymeradwywyd £300K o gyllid cyfalaf o gronfa Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru, i wella cyfleusterau ac isadeiledd ar yr arfordir, sy'n cynnwys gwelliannau i brif fynedfa traeth Morfa Bychan a mynedfeydd traeth Pwllheli.

Maes Parcio Dinas Dinlle: Yn dilyn gwerth £450k o welliannau i'r maes parcio, fe weithredwyd cyfnod arbrofol am gyfnod o 6 wythnos, rhwng canol Awst a diwedd mis Medi, trwy godi ffioedd parcio a brofodd i fod yn fater cynhennus yn lleol.

Badau Pŵer: Gwelwyd gostyngiad o 15% yn y nifer o fadau pŵer a gofrestrwyd gyda'r gwasnaeth yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, oedd yn bennaf oherwydd y tywydd anffafriol a'r wasgfa ariannol. Mae'r heddlu yn parhau i archwilio i mewn i'r digwyddiad difrifol yn ymwneud a beiciau pŵer oedd yn gyrru'n beryglus yn harbwr Aberdyfi ym mis Mai 2023 gan achosi damwain.

Tywydd Garw: Yn dilyn llanwau uchel a thywydd garw yn ystod misoedd y gaeaf cafwyd difrod sylweddol i wal promenad traeth Criccieth, llwybrau mynediad traeth Marian y De, Pwllheli a rhan o lwybr arfordirol traeth Dinas Dinlle.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Dros Dro: Sarah Hattle


Yn ôl i'r dashfwrdd

Pwrpas : Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: Canran o angorfeydd blynyddol yn Hafan a Harbwr Pwllheli

Trosolwg o Perfformiad:

Yn ystod 2024.5, roedd angorfeydd Hafan 95% yn llawn a 77% yn yr Harbwr Allanol. Ymddengys fod y sefyllfa perchnogaeth cychod a'r galw am angorfeydd yn gyfnewidiol yn sgil ffactorau megis tywydd ansefydlog, proffil oedran a nifer yn ystyried opsiynau i'r dyfodol. Dros gyfnod y gaeaf, gwelwyd sawl storm nerthol gan arwain at gynyddu'r llaid yn yr Hafan a'r harbwr. Er bod gwaith carthu'r harbwr wedi ei wneud yn 2024, mae'n ymddangos fod y stormydd wedi lefelau siltio, gyda rhai cychod mewn llaid yn ystod Gwanwyn 2025. Mae arolwg hydrograffig o'r harbwr ar waith er mwyn dangos y proffil presennol.



Mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu YGC er mwyn paratoi ceisiadau cynllunio a trwydded forol er mwyn gweithredu'r strategaeth garthu, yn cynnwys opsiynau megis ad-ennill tir a symud gwaddod tu hwnt i geg yr harbwr. Nid oes unrhyw gapasiti ar hyn o bryd i ddelio gyda gwaddod, ac felly mae adnabod datrysiad yn gwbl hanfodol i sicrhau dyfodol yr Hafan a'r harbwr.

Yn ystod 2024/5, datblygwyd fframwaith ddatblygu ar gyfer yr Hafan ac ardal yr harbwr, sydd yn adnabod ffrydiau gwaith i'r dyfodol. Mae bwriad adeiladu ar y gwaith yma gan ddatblygu cynllun buddsoddi. Ar 11fed o Fehefin 2024, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer cyfnod 2024-2034. Bwriedir clustnodi hyd at £5.4m gan Gyngor Gwynedd tuag at gostau carthu ac adnewyddu isadeiledd o fewn yr harbwr. Yn ychwanegol, mae £260,000 wedi ei glustnodi ar gyfer gwneud gwelliannau i ardal Cei'r Gogledd yn ystod 2024/25. Yn ddiweddar, cwblhawyd Cynllun Creu Lle ar gyfer canol tref Pwllheli – gan amlygu cyfleoedd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng canol y dref a'r harbwr

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Dros Dro: Sarah Hattle


Pwrpas: Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmeriaid

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Gwasanaeth yn trefnu arolwg blynyddol gan ofyn am farn ac adborth gan gwsmeriaid yr Hafan. Mae sylwadau cyffredinol yn cynnwys cyfeiriad at ddiffyg safleoedd bwyta ac yfed ar safle, a'r angen am welliant i'r cynnig swyddfeydd, cawodydd, mannau parcio ayyb.

Mae'r arolwg nesaf yn mis Mai, ac yn cael ei gynnal gan Cymdeithas Deilydd Angorfeydd Pwllheli. Mae gwaith gwella gweledol yn yr Hafan yn cario mlaen, gyda arian cronfeydd yn galluogi i fan-newidiadau gael eu cyflwyno tra mae elfennau grant fel SPF wedi gweld uwchraddio ar hyd Cei Gogledd, gyda grant Natur wedi mynd i gwella safle yr Hen Ynys.



Mae Cyllid a Tollau EF (HMRC) wedi agor achos gwiriad cydymffurfio ar holl harbyrau sydd yn gwerthu disl coch. Mae'r harbyrau bach yn gallu ymdopi efo'r gweithdrefnau defwrddiaith, ond nid yw Hafan Pwllheli yn cyrraedd y gofyn, oherwydd fod sustem hunanwasanaeth sydd yn ei le, gyda ddim ffordd o nodi manylion cwsmer na cytundeb defnydd pwrpasol i'r disl coch. Adroddiad am penderfyniad gan y Aelod Cabinet i trosi i diesl gwyn wrthi yn edrych am cymeradwyaeth.

Mae Cynllun Morol a Physgodfeydd Cymru drwy Lywodraeth Cymru ar gael ac mae'r cais am bontŵn pysgota masnachol newydd ar gyfer yr Harbwr Allanol wedi ei gyflwyno ac yn disgwyl cymeradwyaeth. Mae grant o hyd at £100,000 ar gael. Rydym wedi ymgysylltu â'r gymuned bysgota i nodi'r anghenion a wedi gwneud cais ar y sail hon

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Doc Fictoria (Hafan a Harbwr Pwllheli)


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Dros Dro: Sarah Hattle


Pwrpas: Sicrhau gwasanaeth o ansawdd yn Doc Fictoria sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod y cyfleusterau yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Doc Fictoria

Trosolwg o berfformiad:



Mae Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon yn rheoli basin Doc Fictoria ar ran Cyngor Gwynedd drwy gytundeb hanesyddol. Mae'r Cymdeithas Deilydd Angorfeydd Doc Fictoria wedi cynnal arolwg boddhad cwsmer gyda'r aelodau yn diweddar sydd wedi gweld newid ar strwythur yr arolwg a chysoni gyda arolwg Hafan Pwllheli. Oherwydd newid yn fformat a'r cwestiynau llynedd dangosir y ddau siart arwahan. Yn gyffredinol, mae Boddhad Cwsmer wedi cynyddu o 66% i 69%. Fodd bynnag, mae sgôr negyddol am ansawdd dŵr, sef 31%,. Yn sgil pryderon fod yr Afon Seiont yn cludo gwastraff i'r Doc mae'r Gwasanaeth wedi cyfeirio'r mater i Cyfoeth Naturiol Cymru, a rhagwelir y bydd angen cynnal trafodaethau pellach.



Mae trefniadau rheoli'r Doc rhwng Cyngor Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Harbwr wedi bod mewn grym ers dros 25 mlynedd. Ystyrir fod angen adolygu'r trefniadau bellach ac ystyried gwelliannau i'r dyfodol. Bwriedir gwneud gwaith pellach er mwyn adolygu'r trefniadau yn ystod 2025/6.

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Archifau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Lynn Francis

Pwrpas : Gwarchod Archifau'r Sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau fel bod modd i bawb ddarganfod, dysgu a deall mwy am eu hunain a'u bro.

Dangosydd Perfformiad: % defnyddwyr sy'n fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth

Trosolwg o Berfformiad:

Mesurir bodlonrwydd ein defnyddwyr drwy ofyn eu barn yn rheolaidd fel modd i adnabod sut y gallwn wella unrhyw agwedd o'r Gwasanaeth.

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 cwblhaodd 936 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer. Ar gyfartaledd roedd 91% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth, 3% yn fodlon, 2% o ddefnyddwyr yn nodi nad oeddent yn fodlon nac anfodlon, a 4% nad oeddent yn fodlon.

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn gadarnhaol, megis:

"Yn hynod o ddiolchgar am y cymorth. Pawb yn fodlon rhoi amser i egluro"

"We could not have had a better service"


O'r rheiny nad oedd yn fodlon roedd mwyafrif o'r sylwadau yn nodi eu hanfodlonrwydd gyda'r oriau agor :

"Mi fyddwn yn fwy bodlon pe byddai'r oriau agor yn bump diwrnod"

"Not open long enough – more days please"

Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Wladol yn sgil torladau nôl yn 2016.

CANRAN O DDEFNYDDWYR SY'N FODLON IAWN
GYDA'R GWASANAETH



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas

Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Oriolau: Hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiel ym Mangor.

Dangosydd Perfformiad: Nifer sy'n ymweld ac yn ymgysylltu ddigidol â'r Amgueddfeydd a'r Oriolau

Trosolwg o berfformiad:

- Amgueddfa Lloyd George - nifer am y flwyddyn yn isel oherwydd fod yr Amgueddfa wedi cau Medi 2024 tan Ebrill 2025 er mwyn creu arddangosfeydd newydd gyda grant SPF.
- Storiel - niferoedd misol yn gallu amrywio yn sgil digwyddiadau arbennig. Bu Storiel ar gau am gyfnod yn Ionawr 2025 yn sgil gwaith cyfalaf fel rhan o brosiect CELF (oriel gelf gyfoes). Fel arfer mae'r rhif misol rhwng 2000-3200 ond yn Ionawr nid oedd ond 771 ymweliad.
- Mae Uwch Gymhorthydd Profiad Ymwelwyr dros dro wedi hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu llogi a gweithgareddau yn ogystal a chyfraniad y Swyddog Dysgu ac Ymgysylltu dros dro gyda grant SPF ac wedi ddenu defnyddwyr newydd. Angen adnabod ffordd ymlaen tymor hir gyda'r swyddi yma.
- Cynlluniau SPF Storiel wedi denu tua 1,712 a chynllun Cyfuno Storiel (grant Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau o angen) gyda 1,880 wedi cymryd rhan.
- Cyfanswm cronnus ymweliadau yn unig hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025 yn 29,768
- Cyfanswm Cronnus ymweliadau ac ymgysylltu'n ddigidol yn 708,400 yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol fel tripadvisor, instragram a google. Ar hyn o bryd nid yw TG yn gallu darparu faint sydd wedi bod ar ein wefan felly amcan sydd wedi ei gynnwys ar sail ffigyrau angenorol.



Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas

Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Oriolau: Hyrwyddo dealltwriaeth o’n hetifeddiaeth a’n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiol ym Mangor

Dangosydd Perfformiad : % Boddhad cwsmer Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Oriolau

Trosolwg o berfformiad:

Adborth yn cynnwys rhai ar lein fel Tripadvisor; google, cyfryngau cymdeithasol, cwynion; adborth i staff ayyb.

Adborth Amgueddfa Lloyd George - Pan ar agor roedd yr adborth yn un positif o ran staff a phrofiad ymwelydd. Mae adroddiad gwerthuso cynllun SPF i greu arddangosfa newydd yn cynnwys adborth pellach sydd wedi cyfrannu at y gwelliannau presennol ac at syniadau ar gyfer y dyfodol e.e. gormod o waith darllen; gwella sut cyflwynir y testun, angen gwella'r siop; canmol staff; "hoffi gweld y lle ar ôl i chi ail neud o". Gwaith wedi arwain at greu partneriaeth efo Senedd Ieuenctid Cymru i gael hwb yn yr amgueddfa.

Adborth Storiol - Mae'r sylwadau yn parhau i fod yn bositif i'r safle, staff, arddangosfeydd a'r gweithgareddau.


"I hope people make more time to visit this vital public resource "

"fi a'r plant wrth ein boddau - gweithdy gwych " (gweithgaredd teulu)

"Appreciate the effort in preserving and exhibiting the unique collections/items. Friendly staff"

" Customer service is top of the line"

Sylwadau eraill e.e. angen gwella cynnig y caffi (mynd i dendr yn fuan); ffaith safle ar gau a dim neges clir ar y gwefan (hyn wedi ei godi gyda TG). Strategaeth Datblygu Cynulleidfa a Marchnata sy'n cael ei ddatblygu gydag adborth pwysig e.e. angen gwella cyfathrebu a marchnata; diffyg gwelededd ac arwyddion clir; cefnogaeth iddi a mwynhad o'r cynnwys. Grŵp Cydraddoldeb y Cyngor – adrodd ei bod yn safle gyda mynediad ffisegol da iawn. Mae rhaglen waith bellach yn ei le i wella'r ardal tu allan ac mae modd tacluso ymhellach gan i'r cynllun cyfalaf CELF ddod i ben. Hyn yn cynnwys cynllun cynnal a chadw tiroedd a phlannu.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas

Pwrpas: Hyrwyddo'r celfyddydau i bawb fel cyfrwng i wella lles trigolion Gwynedd

Dangosydd Perfformiad : % o Gyfranogwyr yn cael budd drwy brosiect Celfyddydau Cymunedol

Trosolwg o berfformiad:

- 48 prosiect wedi ei gyflawni i gefnogi pobol a phlant i gael mynediad, mwynhau a phrofi'r celfyddydau, cynnwys maes iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd. Darperir cefnogaeth a chyfleoedd i ystod eang o artistiaid, grwpiau cymunedol a sefydliadau drwy'r sir.
- Galw am grantiau yn parhau. Grantiau Cymunedol i grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gefnogi cyfleoedd celfyddydol i bawb – 10; grantiau Noson Allan – 14; Cronfa Sbarduno-17; Cronfa Pontio -12 . Cefnogir gweithgareddau drwy Wynedd o Aberdyfi, Caernarfon, Tal y Llyn, Bala, Ynys Enlli, Y Bermo, Bangor, Tywyn, Llanllechid ayyb. Hefyd wedi bod yn rhan o ddyrannu Cronfa SPF Diwylliant i 25 sefydliad ar draws Gwynedd.
- Prosiectau yn cynnwys e.e. Llwybrau Celf i blant yn Aberdyfi, Llanbedrog a Bangor; Crefft er Lles i oedolion. Cydweithir gydag nifer fel Gwasanaeth Ieuenctid, Cell B, Canolfan Gerdd William Mathias, Theatr Derek Williams, peilot "Celf ar Brescripsiwn" gyda grant Cyngor Celfyddydau gyda Cwmni Fran Wen a Phrifysgol Bangor.
- % Budd yn parhau'n dda e.e. Grantiau Cymunedol 100%; prosiectau Celfyddydau Cymunedol 99%; Noson Allan 99%; Cronfa Sbarduno 96.5%; Cronfa Pontio 85.40% ayyb. Cyfartaledd 97%
- Enghraifft o adborth - "lot gwell na pêl-droed medda fo "; 100% ar y dechrau nid oedd fy mhlant yn gwybod Cymraeg" (Criw Celf Bach 7-11 oed); " yr unig her ydy'r ymateb i'r galw cynyddol ar gyfer y prosiect a sicrhau cyllid gweithgareddau o un flwyddyn i'r llall" (Cwmni Fran Wen); "mewn ardal difreintiedig fel Bethesda braint i mi yw gallu cynnig cyfleoedd arbennig i'r genhedlaeth ifanc. Credaf fod gan pawb o bob cefndir yr hawl i ddilyn ei freuddwyd ac i gael profiadau a fydd yn eu ysbrydoli." (Neuadd Ogwen)



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.


Dangosydd Perfformiad: Nifer Benthyciadau Llyfrgelloedd Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:

Oherwydd trosglwyddo i system LMS newydd nid yw ffigyrau benthycwyr a benthycwyr gweithredol ar gyfer Mis Rhagfyr /Ionawr/Chwefror/Mawrth wedi eu dilysu. Mae perfformiad 8 mis cyntaf 2024/25 yn weddol sefydlog ac o'u cymharu a ffigyrau cyfatebol 23/24, gan ddangos y tueddiadau isod.

- Mae tueddiadau benthycwyr llyfrau yn gostwng yn raddol – 70,294 yn 8 mis cyntaf 24/25 o'u cymharu a 76,526 yn ystod yr un cyfnod yn 23/24.
- Fodd bynnag, mae nifer y benthycwyr gweithredol, hynny yw y bobl sy'n defnyddio ein llyfrgelloedd wedi aros yn sefydlog a chynyddu yn yr un cyfnod – 18712 yn 24/25 o'u cymharu a 18429 yn 23/24.
- Mae benthyciadau digidol yn parhau i gynyddu fis ar ôl mis gyda 151,601 o fenthyciadau digidol yn ystod 2024/25
- Bu i ni gynnal rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ar gyfer Oedolion, Pobol ifanc a Phlant yn 2024/25. Bu i 17,399 fynychu y digwyddiadau yma.
- Mae'r ymgyrch Croeso Cynnes yn weithredol ymhob un o Lyfrgelloedd Gwynedd gyda cyfle i ymuno mewn gweithgareddau fel chwarae Chess, gwneud jig-so a Chôr dementia. Mae sesiwn Chess pnawn Iau Llyfrgell Caernarfon yn tyfu o nerth i nerth, gyda phlant, pobl ifanc a phobl hŷn yn cyd chwarae yn rheolaidd. Darparwyd 4549 o baneidiau yn ystod 2024/25
- Rydym yn parhau i ddosbarthu cardiau SIM a thalebau data i unigolion sy'n wynebu argyfwng drwy'r cynllun Databank Cenedlaethol.
- Mae ein sesiynau Cymorth Digidol 1:1 yn parhau yn sefydlog Cynhalwyd 265 sesiwn yn 2024/25. Rydym yn dechrau trafodaeth i fedru cydgordio ein darpariaeth gyda darpariaethau ehangach cefnogi pobl y cyngor.
- Bu newidiadau i'r strwythur staffio yn 2024/25 gyda tim rheoli newydd mewn lle. Rydym hefyd wedi darwelo â'r tîm Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion yn dilyn penderfyniad Adran Addysg i ddirwyn y gwasanaeth i ben.
- Bu i ni uwchraddio ein system Llyfrgelloedd (LMS) Rhagfyr 2024. Mae'r tim LMS Cymru a arweinir gan Gyngor Gwynedd yn gweithio ar lansio ap newydd a chatalog llyfrau Cymru Gyfan. Bydd system creu adroddiadau manwl wedi ei safoni yn Genedlaethol yn weithredol yn 2025/26.

LLYFRGELLOEDD: BENTHYCIADAU



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas: Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.

Dangosydd Perfformiad: % Bodlonrwydd Cwsmer

Trosolwg o berfformiad:


Rydym wedi cynnal pedwar arolwg yn ystod 24/25, gan ddangos lefelau bodlonrwydd o 100%, 98%, 98% a 100%

Mae'r ohebiaeth hwn yn darlunio effaith mae'r gwasanaeth Llyfrgell yn ei gael ar drigolion Gwynedd, gan ganolbwyntio ar y Gwasanaeth a dderbyniodd y cwsmer gan Staff Llyfrgell Tywyn.

'I spoke to you yesterday whilst in the library,about the valued resources it provides to the community.Not just in the local area but far afield also.Value for money,it must be one of the best services provided by Gwynedd Council.The building is certainly used to it's full potential.The staff on site,all put 100% effort into providing the best possible service to their clients.Besides the normal library services,which are well used.The amount of local activities that take place in that building,are impressive to say the least.They range from Writing Groups,Chess groups Mother and baby groups.Numerous other groups too many to mention.The place is always busy.Just as important now that Winter is descending on us.It also becomes a warm hub for vulnerable people to meet and keep safe and warm.A work place is only has good as it's workforce,here you have some of the best.I look forward to a long and enjoyable future with my local library.Thank you for the chat yesterday.'

Rhai sylwadau eraill gan ddefnyddwyr sy'n dangos pa mor bwysig yw'r Llyfrgell i bobl Gwynedd:

- 'It is a quiet space where I can go to do my uni work. Staff helpful and supportive'.
- 'Brai cael cymdeithasu efo cyd ddysgwyr Cymraeg'



Yn ôl i'r dashfwrdd

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Diolch i arian Arfor mae disg oleuo newydd wedi ei osod. Hefyd mae Projector 4k newydd wedi ei osod. Rydym wedi adnabod y bydd angen ymrwymiad pellach I uwchraddio offer technegol yn y blynyddoedd i ddod. Bydd rhain yn sicrhau cynladwyedd Neuadd Dwyfor fel cychfan Diwylliannol i drigolion Gwynedd am y blynyddoedd i ddod.

Adran Economi a Chymuned : Neuadd Dwyfor, Pwllheli

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : *Darparu lle cymdeithasol sy'n ysbrydoli, addysgu a chefnogi lles pobl Gwynedd trwy'r celfyddydau a diwylliant.*

Dangosydd Perfformiad: Gwerthiant Tocynnau ac Incwm Neuadd Dwyfor

Trosolwg o Berfformiad:

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur ond llwyddiannus i'r tim yn Neuadd Dwyfor. Gwelwyd cynnydd yn y nifer o docynnau a werthwyd o'i gymharu a 2023/24 ac yn sgil hyn cynnydd yn ein incwm - (gwerthiant tocynnau a bwyd a diod)

Un o'n blaenoriaethau oedd gwella amrywiaeth y rhaglen drwy gynnig mwy o ddigwyddiadau cerddorol byw, yn ychwanegol i'r cynnig ffilmiau a sioeau theatr arferol. O ganlyniad, mae Cowbois Rhos Botwnnog, Al Lewis, Celt, Bwncath, Band Pres Llareggub wedi cynnal nosweithiau llwyddiannus yn Neuadd Dwyfor eleni, gyda'r brand Gigs Town Hôl yn mynd o nerth i nerth.



Oherwydd tywydd anffafriol Haf 2024 gwelwyd cynnydd yn ein gwerthiant tocynnau sinema yn ystod Gwyliau Haf 2024.

Cafwyd nosweithiau llwyddiannus, Comedi Cymraeg a Noson Wreslo Cymreig, dros 1 penwythnos a 600 yn ymweld â'r Neuadd. Arbrawf arall llwyddiannus yw'r clwb ffilm misol ar nosweithiau Llun, gyda byrddau a seddi yn cael eu gosod o flaen y sgrin a mynychwyr yn cael eu hannog i ddod a tec-awe gyda hwy i fwynhau y ffilm gyda diod o'r bar. Yn ystod y nosweithau yma rydym wedi gweld cynnydd yn ein gwerthiant o fwyd a diod

Mae'r datblygiadau hyn wedi derbyn adborth gadarnhaol gan y cyhoedd. Mae'r Cyngerdd Welsh of the West End Mai 2025 yn profi yn hynod o boblogaidd gyda gwerthiant tocynnau uchel

Mae'r syniadau hyn i gyd yn fodd i adnewyddu Neuadd Dwyfor ac apelio at gynulleidfaoedd hen a newydd.

Bu'n ni werthu 20,877 o docynnau yn ystod 2024/25 gan greu incwm o £191,265.52 (gwerthiant tocynnau a Bwyd a Diod)



Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones

Pwrpas: Cefnogi economi ymweld gynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant


Dangosydd Perfformiad: % Digwyddiadau yn Fodlon Iawn gyda'r gefnogaeth / gwasanaeth a ddarparwyd gan y Cyngor

Trosolwg o Berfformiad:

Mae eleni wedi bod yn gyfnod prysur iawn o ran cefnogi digwyddiadau. Proseswyd 77 ymholiad a bu i'r gwasanaeth gyd-gordio bod 26 Digwyddiadau sirol yn cyflwyno eu materion diogelwch i'r grŵp ymgynghorol diogelwch digwyddiadau sirol (SAG). Bu i 33 digwyddiad dderbyn cymorth ariannol o £77 mil trwy gronfa Cefnogi Digwyddiadau SPF Diwylliesiant. 12 digwyddiad yn fwy na 2023/24.

Mae adolygiad ôl ddigwyddiad gyda'r trefnwyr digwyddiadau yn dangos fod 100% yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth rhyngadrannol ddarparwyd gan y Cyngor. Yr adroddiadau ddaeth i law yn cyfrifo gwerth o oddeutu £4,069,561 o fudd i'r economi leol. 154,928 wedi mynychu'r digwyddiadau gyda 22,150 wedi cymryd rhan. 330 cwmni o Wynedd wedi cael busnes o'r digwyddiadau. Oddeutu 144 o swyddi wedi eu cefnogi o'i cynnal. Proseswyd ymholiadau parthed digwyddiadau yn ninas Bangor i ddathlu'r 1500, Carnifal Porthmadog, Sinema Lan y Mor yn Abermaw a Ras rhedeg fell Prydain ymysg eraill.

Yn sgil rhai pryderon ynghylch diogelwch mewn rhai digwyddiadau cynhaliwyd dau sesiwn hyfforddiant IOSH ar faterion Rheoli risg a Iechyd a Diogelwch mewn digwyddiadau a hyfforddiant ar strategaethau rheoli yfed alcohol mewn digwyddiadau (ar y cyd gyda'r gwasanaeth Trwyddedu'r Cyngor ar Heddlu). Bu i 31 trefnydd a rheolwr safle fynychu'r cyrsiau. Mae'r adborth gan y rhai wnaeth eistedd y cwrs a mynychu'r hyfforddiant wedi bod yn ddarnhaol iawn.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones

Pwrpas: Cefnogi economi ymweld gynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant

Dangosydd Perfformiad: Canran o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol

Trosolwg o Berfformiad:

Bu i 1,506 o drigolion y sir ymateb i'r arolwg ar lein ar wefan y Cyngor i ganfod barn trigolion am effaith twristiaeth ar eu ardal hwy o Wynedd. Roedd yr arolwg yn fyw rhwng Medi – Tachwedd 2024 a gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi yn gyffredinol os oeddynt yn credu bod twristiaeth yn cael effaith bositif, negyddol neu niwtral ar eu cymuned hwy. Cyfrifwyd ymateb o 74 % cadarnhaol a 12% fwy o ganlyniad negyddol na chadarnhaol.

Y meysydd dylanwad cadarnhaol ydoedd (mewn gwyrdd yn y tabl)


- Yr economi lleol +85%
- Cyflogaeth + 83%
- Yr edrychiad ar ymdeimlad ar y cyfan + 70%
- Gweithgareddau hamdden 67%
- Bywiogrwydd y gymuned / y sector treftadaeth 64%

Pwyntiau llai cadarnhaol ydoedd: (mewn coch yn y tabl)

- Glendid y mannau cyhoeddus –32%
- Yr amgylchedd a natur -25%
- Y Gymraeg a diwylliant Cymreig -22%
- Yr seilwaith -20%

I'r rhai nododd fod canlyniadau negyddol yn deillio o dwristiaeth yn eu hardal roedd cyfle iddynt nodi pa broblemau oedd yn codi ac i ba raddau roeddynt yn broblem. Materion traffig oedd y prif broblem nodwyd gyda 64.5%, gyda materion parcio yn ail agos gyda 61.2%

Roedd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddent eisiau denu mwy, llai neu yr un faint o ymwelwyr i'w hardal. Denu mwy o ymwelwyr trwy'r flwyddyn oedd y farn mwyaf poblogaidd ar gyfer pob categori o ymwelwyr, gyda'r uchaf yn 73.8% ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol a'r isaf yn 51.1% ar gyfer ymwelwyr undydd. Sylfaenwyd yr ymchwil ar fodelau ymchwil rhyngwladol i'r maes barn trigolion ar dwristiaeth ac ymchwil peilot gan Croeso Cymru yn 2023 y bu i Wynedd gymryd rhan ynddo.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones

Pwrpas : Cefnogi economi ymweld gynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant .

Dangosydd Perfformiad: Cynnydd mewn busnesau a mentrau yn llwyddo i dderbyn achrediad/ Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35

Trosolwg o Berfformiad:

23 wedi arwyddo i fyny yn 2024/25. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r data gael ei gasglu ac felly nid yn bosib adrodd ar y canran cynnydd tro hwn.

Yr Achrediad **/Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35** yn rhan o becyn i wreiddio'r egwyddorion twristiaeth Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 ar y cyd gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd yn cynnwys:

- Modiwl Egwyddorion twristiaeth cynaliadwy** Gwynedd ac Eryri o'r newydd ar Platfform Cynllun Llysgennad Gwynedd a Eryri
- Cod ymarfer da i'r rhai sydd yn ymweld ar ardal - **Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri 35**[Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri | Eryri](#)
- Achrediad / **Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 2035**

Mae 7 egwyddor mae angen i'r busnes arwyddo i fyny iddo cyn gall busnes wneud cais i arwyddo i fyny i'r addewid:

- Cefnogi yn lleol
- Dathlu traddodiadau a diwylliant lleol
- Hyrwyddo teithio cynaliadwy
- Lleihau effeithiau amgylcheddol eich busnes
- Gwarchodwch eich cymunedau lleol
- Annog Diogelwch ein mynyddoedd ac arfordir
- Arwain ar ddiwylliant positif o gyfathrebu digidol

Trwy ymrwymo i'r Addewid hwn, bydd y busnes yn chwarae rhan bwysig wrth warchod harddwch naturiol a phwysigrwydd diwylliannol Gwynedd ac Eryri – ac yn cyfrannu at economi ymwelwyr cynaliadwy.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones

Pwrpas : Cefnogi economi ymweld gynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant .

Dangosydd Perfformiad: Nifer yr unigolion wedi cofrestru ar gynllun Llysgennad Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:


420 o unigolion neu busnes wedi cofrestru ar Gynllun Llysgennad Gwynedd.

Erbyn Mawrth 2025:


- 123 Llysgennad wedi cyrraedd lefel Aur, (cwblhau naw modiwl)
- 142 lefel Arian (cwblhau 6 modiwl)
- 227 wedi cwblhau'r 3 modiwl mandodol i gyrraedd lefel Efydd.

Mae'r modiwlau Llysgennad Gwynedd ar gael ar y safle dysgu mewnol y Cyngor ac yn agored i staff yr Awdurdod gwblhau. Mae argaeledd y cynllun wedi ei amlygu yn y bwletin busnes, ac yn y sesiynnau rhwydweithio busnes ac yn Cynhadledd Gwynedd ac Eryri 35. Gyda chymorth SPF cynhaliwyd digwyddiad cefnogi busnes yn yr Ysgwrn ar y cyd gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i Lysgenhadon Gwynedd ac Eryri. Cyfle i'r Llysgenhadon rwydweithio a dysgu am hanes y gofod a'r cyswllt gyda Hedd Wyn, y dynodiad awyr dywyll ar egwyddorion twristiaeth cynaliadwy.

Mae Cynllun Llysgennad Gwynedd yn rhoi cyfle i unigolion, myfyrwyr, cynrychiolwyr cymunedol a busnesau ddysgu a gwella eu gwybodaeth am rinweddau unigryw y sir i egluro beth sydd yn gwneud y sir yn un arbennig. Mae 10 modiwl ar gael i'w cwblhau ar platfform Llysgennad Cymru yn benodol ar Wynedd gan gynnwys un ar dwristiaeth cynaliadwy. Ar ol cwblhau 3 modiwl ceir tystysgrif efydd, cwblhau 6 modiwl ceir tystysgrif arian ac ol cwblhau 9 modiwl ceir tystysgrif Aur ynghyd a nwyddau i'w arddangos yn y busnes yn cydnabod yr ymdrech a'i ymroddiad i'r cynllun.



NIFER YR UNIGOLION WEDI COFRESTRU AR GYNLLUN LLYSGENNAD GWYNEDD



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwellu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI EU CEFNOGI I ARBED ARIAN A/NEU CYNYDDU EU INCWM

Mae'r dangosydd yn cyfeirio at nifer o fusnesau yn derbyn a) cymorth ariannol, neu; b) cymorth ymarferol / hyfforddiant gan un o gynlluniau'r Cyngor

Trosolwg o Berfformiad:


Cyfanswm o 176 o fusnesau wedi derbyn cymorth yn 2024/25 drwy gynlluniau cefnogi busnes dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Ariannwyd y cynlluniau yn bennaf gan SPF, Rhaglen ARFOR a'r NDA.

Roedd y gweithgaredd ar ei anterth hyd at yr hydref ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y data.

Roedd y cymorth yn gyfuniad o help ariannol ar ffurf grant i alluogi busnesau i fuddsoddi er mwyn lleihau costau neu manteisio ar gyfleoedd newydd a help ymarferol drwy law cynlluniau yn helpu busnesau adolygu eu gweithgareddau a chynllunio i'r dyfodol (Ailwefru) a cymorth i fusnesau lleol wneud gwell defnydd o dechnoleg a'r cyfryngau digidol (Dyfodol Digidol).

Mae enghreifftiau o rhai busnesau sydd wedi derbyn cymorth ariannol ar [wefan y Cyngor](#).

Bwriedir denu adnoddau pellach i barhau gyda elfennau o'r gwaith yn ystod 2025/26 ond mae argaeledd cyllid yn fwy ansicr i'r dyfodol.



Yn ôl i'r
dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwellu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMGYSYLLTU

Mae'r dangosydd yn cyfeirio at nifer o fusnesau yn derbyn a) derbyn ein bwletin gwybodaeth, b) yn dod i gyswllt unigol, neu; c) yn mynychu un o'n digwyddiadau

Trosolwg o Berfformiad:


Ar gyfartaledd mae 4,332 o fusnesau wedi ymgysylltu â tîm y Cyngor sy'n cefnogi ein busnesau yn fisol yn ystod 2024/25.

Mae'r nifer o fusnesau yn derbyn ein bwletin gwybodaeth yn lled sefydlog (tua 4,300) er fod trosiant cyson.

Tu hwnt i'r bwletin, mae rhaglen barhaus o ddigwyddiadau ac ymweliadau i fusnesau yn gael eu hymgymryd gan y tîm.

Cynhaliwyd wythnos o weithgareddau busnes ledled y sir yn Hydref 2024. Dyma'r wythnos yn arwain at gynnydd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn y nifer yn ymgysylltu.

Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm wedi ymestyn eu harlwy i feysydd newydd yn cynnwys [Facebook](#) a [YouTube](#) yn ogystal â [Twitter](#) (X) a [Linkedin](#).



Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwellu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMRWYMO I DALU CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL I'W GWEITHWYR AC I DDEFNYDDIO Mwy O GYMRAEG

Mae'r dangosydd yn cyfeirio at nifer o fusnesau yn ymrwymo i symud i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr wrth iddynt dderbyn cynnig o gymorth ariannol.




Trosolwg o Berfformiad:

Mae'n ofynnol i unrhyw fusnes yn derbyn cymorth ariannol gan y Cyngor ymrwymo a) i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr ac b) i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

Mae 54 o fusnesau wedi ymrwymo i dalu cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr ac i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth dderbyn cynnig o gymorth ariannol gan y Cyngor yn ystod 2024/25.

Cyllidwyd y cymorth ariannol sydd wedi ei ddarparu gan yr SPF a'r rhaglen ARFOR. Bwriedir targedu arian pellach ar gyfer 2025/26.

Mae monitro canlyniad ymrwymiad y busnesau wedi cychwyn ers yr hydref. Mae 34 o fusnesau yn adrodd eu bod bellach yn talu'r cyflog uwch i'w gweithwyr a 36 yn adrodd eu bod yn defnyddio mwy o Gymraeg.



Yn talu cyflog byw gwirioneddol

Yn defnyddio mwy o
Gymraeg

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwellu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI EU CEFNOGI I WAITH

Mae'r dangosydd yn cyfeirio at y nifer o unigolion sydd wedi llwyddo i sicrhau gwaith yn dilyn derbyn cefnogaeth gan ein tîm Gwaith Gwynedd. (Y nifer ar ffurf siart bar yw'r canlyniad fesul mis; mae'r llinell yn nodi canlyniad cronnus y flwyddyn).


Trosolwg o Berfformiad:

Mae'n tîm Gwaith Gwynedd yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd wedi bod allan o waith am gyfnod hir am resymau megis salwch neu anabledd. Mae'r unigolion angen cymorth dwys i'w cynorthwyo i fod yn barod am waith. Llywodraeth Cymru sydd yn talu am gost y gwaith.

Mae 221 o bobl wedi cael swydd yn 2024/25 wedi iddynt dderbyn help Gwaith Gwynedd. Roedd hyn yn gynydd o draean ar canlyniad 2023/24 a hyn er gwaetha torri traean o'r arian sy'n cael ei dderbyn.

Mae cynllun SPF wedi lleihau'r bwlch yn y tymor byr i gynnal y gwasanaeth. Mae dymuniad i barhau hyn yn 2025/26 ond mae risg y bydd llai o help ar gael i bobl Gwynedd o 2026/27 ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dull o weithio yn y maes. Mae Adran DWP Llywodraeth y DG hefyd yn newid eu ffordd o weithio ac yn edrych i ddatganoli arian i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.



Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI CYNYYDDU EU GALLU I ENNILL CYFLOG DA

Mae'r dangosydd yn cyfeirio at y nifer o unigolion sydd wedi a) sicrhau sgiliau fydd yn arwain at swydd yn talu'n well, neu b) oresgyn rhwystr i gynyddu eu horiau gwaith, yn dilyn derbyn cefnogaeth gan ein tîm Gwaith Gwynedd. (Y nifer ar ffurf siart bar yw'r canlyniad fesul mis; mae'r llinell yn nodi canlyniad cronrus y flwyddyn).

Trosolwg o Berfformiad:


Mae trigolion sy'n gweithio llai na'r hyn allent yn nodwedd o'r farchnad llafur yn y sir. Mae hefyd llawer o drigolion sydd ddim yn ennill cyflog sy'n ddigon i gyfarch eu anghenion.

Mewn ymateb, mae tîm Gwaith Gwynedd y Cyngor wedi datblygu darpariaeth newydd i gefnogi pobl lleol i gynyddu eu hincwm.

Gan ddefnyddio arian SPF ac NDA mae ystod o help wedi bod ar gael yn 2024/25 i bobl ennyn y sgiliau i gael swydd sy'n talu'n well neu i gynyddu eu horiau.

Yn ystod 2024/25 dyma 251 o bobl Gwynedd yn derbyn help ac wedi cynyddu eu gallu i ennill cyflog da o ganlyniad. wedi help yn barod ac bydd ymdrech ar werthuso a dysgu gwersi o'r darpariaeth i hysbysu ein gwaith i'r dyfodol.

Mae'r ymateb i'r darpariaeth wedi bod yn gadarnhaol ac mae'n gwneud gwahaniaeth i fywydau bobl. Rydym yn targedu arian i barhau'r gwaith yn 2025/26.



Yn ôl i'r
dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Eysyllt Rhys Jones


Pwrpas: Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

Mesurydd Perfformiad: Buddsoddiad mewn Rhaglenni Adfywio Canol Trefi

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am dargedu cefnogaeth ariannol o ffynonellau ariannu amrywiol (gan gynnwys Llywodraeth Prydain, Llywodraeth Cymru, y loteri ac eraill). Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddod a swyddogion/partneriaid allweddol at eu gilydd i ddatblygu cynlluniau. Mae'r mesurydd yma yn seiliedig ar y llythyrau cynnig a dderbynnir gan ffrwd cyllido sydd yn golygu fod modd symud o wedd datblygol i wedd gweithredu a'r gallu gan y Gwasanaeth i ddilyn camau Rheoli Prosiect yn ffurfiol. Mae'r symiau a gaiff eu sicrhau yn flynyddol yn amrywio ac yn ddibynnol ar gyllidwyr a rhaglenni adfywio cyrff allanol.

Yn ôl i'r dashfwrdd



- Yn 2024/25, mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi llwyddo:
- Cwblhau a chyhoeddi Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer 6 tref o fewn y Sir, Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau ac Y Bala.
 - Diogelu cyllid drwy amryw o gronfeydd er mwyn datblygu a gweithredu cynlluniau adfywio sydd yn ymateb i gynlluniau Creu Lleoedd. Y cronfeydd yma yn cynnwys Trawsnewid Trefi, Pethau Pwysig, Cronfa Treftadaeth y Loteri a Cadw.
 - Parhau i weithredu cynllun Llewyrch o'r Llechi gan fonitro cynnydd cynlluniau partneriaid allanol tra yn gweithredu cyfres o ymyraethau canol trefi.
 - Cwblhau gweithredu a chau cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm a Diwylliesiant gan sicrhau ymrwymiad llawn i'r cyllid er budd cymunedau Gwynedd ac uchafu ar yr allbynnau a chanlyniadau a ragwelwyd.
 - Sicrhau defnydd llawn o gyllid Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi drwy gefnogi y gwaith o uwchraddio Gwesty'r Tŵr, Pwllheli; Canolfan Bro Tegid, Y Bala; ac Adeilad Mona, Caernarfon.

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Yn ôl i'r dashfwrdd


Rheolwr Cyfrifol: Esyllt Rhys Jones

Pwrpas: Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

Mesurydd Perfformiad: Uwchraddio ac Adnewyddu Adeiladau Gwag

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am osod yr isadeiledd er mwyn symbylu twf economaidd ac adfywio canol trefi Gwynedd. Mae uwchraddio a dod ac adeiladau gwag, rhai yn adeiladau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir o amser, yn ôl i ddefnydd yn gosod yr isadeiledd ar gyfer adfywio a thwf economaidd.



Yn 2024/25 mae'r Gwasanaeth wedi canolbwyntio ar ddod ac adeiladau gwag yn ol i ddefnydd drwy:

- Gydlynu'r Grŵp Eiddo Gwag trawsadrannol, adnabod ymyraethau a chefnogaeth, a symud ymlaen i ymateb i'r Cynllun Gweithredu;
- Cynllun Peilot Eiddo Gwag Bangor wedi ei ddatblygu i adnabod a thargedu eiddo gwag yng nghanol y ddinas a chydweithio gyda perchnogion i adnabod rhwystrau a chyfleon.
- Cefnogaeth i 10 eiddo mewn canol trefi i ddod yn ôl i ddefnydd yn cynnwys eiddo a dderbyniodd cefnogaeth ariannol drwy Trawsnewid Trefi, Cronfa Ffyniant Gyffredin, Arfor a Benthyciadau Canol Trefi
- Trefniadau gorfodaeth mewn lle gyda amryw eiddo er mwyn symud yr agenda yn ei blaen.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cefnogi cynlluniau i adnewyddu adeiladau oedd yn wag. Mae 26 adeilad yng nghanol trefi Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth ariannol i'w hadnewyddu a gwella eu delwedd yn sgil cefnogaeth Cyngor Gwynedd drwy gefnogaeth Trawsnewid Trefi, Cronfa Ffyniant Gyffredin, a Chynllun Llewyrch o'r Llechi.

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Lindsey Ellis

Pwrpas : Cefnogi Grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau.

Dangosydd Perfformiad: Nifer y grwpiau sydd wedi cael cyngor neu gefnogaeth


Trosolwg o Berfformiad:

Mae 24/25 wedi bod yn flwyddyn o gefnogi grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned a thref i fanteisio'n llawn ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, SPF, i wireddu prosiectau, cynlluniau a gweithgareddau yn eu cymunedau. Tuag at ddiwedd y flwyddyn mae gwaith paratoi prosiectau i allu manteisio yn llawn ar yr ariannu blwyddyn bontio er mwyn gallu cefnogi prosiectau a grwpiau newydd.

Mae gwaith Fframwaith Adfywio 'Ardal Ni' wedi gwneud cynnydd yn y flwyddyn ac erbyn hyn mae yna 13 cynllun gweithredu lleol sydd yn fyw. Mae'r tim Cefnogi Cymunedau wedi cynnal cyfarfodydd Ardal Ni mewn ardaloedd ac mae'r trefniadau rhwydweithio lleol yn symud ymlaen mewn 9 ardal.

Mae Cist Gwynedd, y porth grantiau cymunedol, wedi dyrannu gwerth £1,675.312.34 o grantiau. Cyfuniad o grantiau Cronfa Ffyniant Gyffredin, arian o Llywodraeth Cymru a Cronfa Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd.

Yn Ionawr 2025, trosglwyddwyd ffrwd gwaith Cefnogi Pobl i'r Gwasanaeth. Mae hyn yn ddatblygiad sydd yn dod ar ddau faes gwaith at ei gilydd fydd yn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael yn ein cymunedau i allu creu cymunedau sy'n wydn a chynaliadwy.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Lindsey Ellis

Pwrpas: Cefnogi Grwpiau Lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau

Dangosydd Perfformiad: Nifer o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu

Llwyddiannau 24/25

Menter Rabar

Llwyddwyd i sicrhau defnydd cymunedol ar gyfer hen adeilad Ysgol Abersoch, bu i'r Gwasanaeth roi cefnogaeth ddwys i'r gwaith sydd wedi sicrhau dyfodol yr adeilad.

Neuadd Trawsfynydd

Cefnogaeth y tim wedi sicrhau £200,000 i uwchraddio a diogelu Neuadd Trawsfynydd i'r dyfodol.

'Diolch yn fawr iawn i ti- mae ein dyled yn fawr i ti fel Pwyllgor am dy gefnogaeth hael a diflinio. Yn sicr, heb hwnnw fyddwn ni heb dderbyn yr arian.'


Canolfan Bro Tegid Y Bala

Diogelu'r adeilad i'r dyfodol er mwyn gallu cartrefu gweithgareddau Cefnogi Pobl yn y dref. Denu buddsoddiad o £250,000.

'Heb y cymorth gennych, fydden ni ddim wedi gwybod lle i ddechrau – diolch o galon'

Hybiau Cymunedol

Hwylyso a chefnogi i sefydlu 2 hwb cymunedol newydd - Peris a Tywyn



Yn ôl i'r dashfwrdd

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	19 Mehefin 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid
RHESWM DROS GRAFFU	Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran
AWDUR	Dewi Morgan, Pennaeth yr Adran Gyllid
AELOD CABINET	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Cyllid, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Cyllid. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran am y cyfnod i ddiwedd Mawrth 2025.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2025, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill y llynedd. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio a chefnogi perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

3 Rhesymeg a chyfiawnhad

3.1 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae'r Adran Gyllid yn arwain ar ddau o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, sef:

- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2024-2025, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y pump blaenoriaeth ar gyfer y llynedd yn Atodiad 1.

Mae'r angen i ddarganfod a gweithredu arbedion ariannol ar draws y Cyngor yn parhau os am barhau i osod cyllideb gytbwys yn y dyfodol ac i gadw cynnydd blynyddol Treth Cyngor i lefel rhesymol. Rwyf yn fodlon fod gwaith yr Adran Gyllid yn y maes hwn yn effeithiol, ond mae heriau yn parhau i sicrhau gweithrediad llwyddiannus ym mhob rhan o'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Digidol yn cynnwys nifer o brosiectau er mwyn gwella gweithrediad y Cyngor ac i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Mae mwyafrif y prosiectau hyn yn rhai sydd i'w gweithredu dros sawl blwyddyn ariannol felly nid oedd yn ddisgwyliedig i'r rhan fwyaf ohonynt fod wedi eu gweithredu yn llawn erbyn diwedd 2024/25 ac ar y cyfan rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar y prosiectau hyn.

3.2 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Mae Atodiad 2 yn cynnwys y mesurau perfformiad ar gyfer gwasanaethau ar draws yr Adran. Mae'r adroddiad manwl yn Atodiad 2 yn cynnwys data ar y cyfnod diweddaraf, ynghyd â chyd-destun ac esboniad pellach sy'n darparu rhagor o fanylion am berfformiad yr holl feysydd yn ystod 2024-25.

Fe welir yn Atodiad 2 bod 25 mesur sydd yn adlewyrchiad o wasanaethau/cyfrifoldeb yr Adran (mae'r teils glas yn arddangos data rheolaethol yn hytrach na mesurau perfformiad).

Mae'r mesurau yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad ac mae 19 o'r mesurau (76%) yn ymddangos yn wyrdd, sy'n gadarnhad o'r gwaith da a nodir yn erbyn perfformiad y gwasanaethau. Mae tri mesur (12%) wedi eu cofnodi yn ambr ac yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r trafodaethau sydd ynghlwm a'r broses herio. Mae tri (12%) mesur pellach wedi ei gofnodi yn y coch, sy'n destun pryder. Mae'r Adran yn diweddarau'r mesurau yn rheolaidd gan adolygu os oes angen cyflwyno mesur o'r newydd er adlewyrchu unrhyw newid o fewn unrhyw wasanaeth. Tynnir sylw at y mesurau coch ac ambr isod.

Gwasanaeth Incwm (un mesur coch)

Mae balans gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis oed fel ar ddiwedd Ebrill 2025 yn £1,921,273. Yn ôl yr arfer y ddau gategori gyda'r symiau uchaf yw £620,136 yn berthnasol i'r Bwrdd lechyd ac anfonebau a godwyd ar unigolion am eu gofal sef £688,645. Mae'r Adran Oedolion yn parhau mewn trafodaethau gyda'r Bwrdd lechyd ac felly gobeithir y bydd dyled y Bwrdd yn gostwng o ganlyniad i hyn.

Mae'r adolygiad cynhwysfawr o sefyllfa'r hen ddyledion ynghyd â phrosesau gweithredu yr Uned yn parhau gyda chefnogaeth Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd. Mae'r gwaith wedi adnabod rhai meysydd ble gellir lliflinio agweddau gweithredu yr Uned, e.e. awtomeiddio prosesau a'r nod yw sefydlu trefniadau mwy effeithiol i leihau'r ôl-ddyledion. Mae tipyn o ffordd i fynd gyda'r gwaith yma ond rwyf yn hyderus bydd canlyniadau positif i'r gwaith yma.

Gwasanaeth Trethi (dau fesur coch)

Maes arall sy'n destun adolygiad Ffordd Gwynedd cynhwysfawr yw'r Gwasanaeth Trethi, a dyma'r gwasanaeth lle mae'r ddau fesur coch arall lle mae pryder am y perfformiad. Mae'r cyfraddau casglu ar gyfer Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig yn is nag y maent wedi bod yn hanesyddol ac mewn cymhariaeth ag awdurdodau lleol eraill Cymru.

Erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 92.9%, i lawr o'r gyfradd o 94.4% yn 2023/24 ac hefyd y gyfradd isaf yng Nghymru yn 2024/25. Rwyf yn derbyn nad yw hyn yn sefyllfa yr ydym am fod ynddo ac roedd yr angen i newid ein trefniadau eisoes wedi ei adnabod, mae adolygiad ar y gweill a camau yn cael eu rhoi yn eu lle i gryfhau ein trefniadau adennill.

Dylid nodi fod gostyngiad yn y gyfradd gasglu hefyd yn rhannol oherwydd bod nifer uchel o unedau gwyliau hunan ddarpar nad oedd yn cyrraedd y meini prawf o 182 diwrnod ar gyfer Trethi Busnes wedi trosglwyddo yn ôl i Treth Cyngor. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn dychwelyd yn ystod yr ail hanner o'r flwyddyn a hefyd wedi eu hôl-ddyddio i Ebrill 2023, gyda canran uchel o'r dyledion yma yn parhau heb eu talu ar ddiwedd Mawrth 2025.

Yn yr un modd, erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd casgliad Ardrethi Annomestig (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 90.7% o'i gymharu â 94.8% ar gyfer 2023/24. Mae adolygiad ar y gweill yn y maes yma hefyd a gallaf gadarnhau fod camau pendant wedi cael eu rhoi yn eu lle er mwyn gwella'r perfformiad ar gyfer y dyfodol, ac i gasglu ôl-ddyledion, fel canlyniad i gamau sy'n cael eu rhoi mewn lle i gryfhau ein trefniadau adennill.

Gwasanaeth Archwilio Mewnol (un mesur ambr)

Roedd 36 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2024/2025. Cafodd 33 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025, sy'n cynrychioli 91.67% o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad drafft neu terfynol neu femorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95% a felly mae'r perfformiad hwn wedi ei cael ei nodi fel un "ambr". Rwyf yn ymwybodol fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi profi heriau staffio yn ystod y flwyddyn.

Dylwn nodi hefyd fod monitro perfformiad Archwilio Mewnol hefyd yn rhan greiddiol o rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gwasanaeth Taliadau (dau fesur ambr)

Yn 2024/25, proseswyd anfonebau lleol i'w talu mewn 20.7 diwrnod ar gyfartaledd, tra bod yr anfonebau nad ydynt yn lleol wedi cymryd 25 diwrnod. O fewn y dyddiau yma, mae'r Uned Taliadau wedi cymryd 4 diwrnod i brosesu'r anfonebau, sydd yn welliant o'r 6.5 diwrnod ar gyfartaledd yn 2023/24 a blynnyddoedd blaenorol. Mae'r teils yn dangos yn ambr gan fod y gwasanaeth yn credu fod lle i wella ymhellach.

4. Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Cyhoeddwyd adroddiad "ISA260" – **Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon** – gan Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2024. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o'r Datganiad o'r Cyfrifon 2023-24. Cyhoeddwyd barn diamod ar y cyfrifon ac nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion.

Cyhoeddwyd adroddiad **Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd** yn Hydref 2024. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Ionawr 2025 ar y cyd ag adroddiad 'Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol' sef asesiad Archwilio Cymru o'r sefyllfa genedlaethol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad: *"Gwelsom gyfyngiadau yn ymagwedd strategol y Cyngor i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor weithredu strategaeth ariannol hirdymor sy'n cefnogi ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol tymor canolig ac yn llywio ei drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau."*

Cymeradwyodd y Pwyllgor ymateb y rheolwyr, oedd yn cynnwys ystyried adroddiad pellach oedd wedi cael ei gomisiynu gan CIPFA ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Mae'r adroddiad ddrafft wedi cael ei dderbyn ac mae swyddogion yr Adran Gyllid yn gweithio trwy'r adroddiad ar hyn o bryd.

5. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Gyllid ar 19 Mai 2025, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a rheolwyr gwasanaeth yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2 – Diweddariad Mai 2025

Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma Mai 2025	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Cyllid	Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol	1. Monitro fod yr arbedion a thoriadau gwerth £5.6m ar gyfer 2024/25, a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn 07/03/24, ynghyd â unrhyw arbedion sydd eto ar ôl i'w gwireddu yn cael eu blaenoriaethu gan yr Adrannau i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/document/s/40348/Eitem%209%20-%20Atodiad%203%20-%20Arbedion.pdf?LLL=1	Y sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25 yw bod arbedion gwerth £43 miliwn wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 93% o'r £46.6m gofynnol dros y cyfnod. Mae gwerth £5.6 miliwn o gyfanswm yr arbedion yn berthnasol i arbedion y flwyddyn ariannol 2024/25. Serch hyn, mae nifer o gynlluniau arbed ar draws y Cyngor heb eu gwireddu.	Ydi – yr arbedion wedi eu monitro ond y targed llawn heb ei gyflawni.

		2. Monitro fod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.	Yn ystod y flwyddyn ariannol yma rydym wedi adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Hydref 2024 ac i'r Cabinet 15 Hydref 2024 ar sefyllfa'r arbedion fel rhan o'r adolygiad ariannol a gyflawnwyd diwedd Awst. Ymhellach, adroddwyd ar y sefyllfa yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 16 Ionawr 2025 ac i'r Cabinet 21 Ionawr 2025.	Ydi
		3. Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Cyllid i gyfarfod yn chwarterol i adolygu statws gwireddu holl arbedion a thoriadau y Cyngor ac i ystyried y cynlluniau sydd wedi llithro er mwyn cynnal asesiad gwrthrychol o pa mor realistig yw'r disgwyliad iddynt gael eu gwireddu.	Bu i ni hefyd adrodd i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn.	Ydi
		4. Adrodd i Gabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 10 Hydref 2024 a 16 Ionawr 2025 ar statws gwireddu holl gynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor.	Mae hyn wedi digwydd.	Ydi
		5. Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau ar gynlluniau arbedion a thoriadau 2025/26, gan edrych ar ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau. Mae gwireddu gwerth dros £39 miliwn o arbedion ers 2015 [hyd at 2023/24] yn golygu fod cyfleon am arbedion effeithlonrwydd eisoes wedi eu cyflawni.	Yn dilyn sefydlu y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ariannol Tymor Canolig, fel rhan o waith i'r Bwrdd, mae'r Adran Gyllid eisoes wedi darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer arbedion a thoriadau 2025/26. Mae gwybodaeth am yr arbedion yn rhan o adroddiad Cyllideb 2025/26 sydd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 06/02/2025 ac i Gabinet 11/02/2025. Mae wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn 06/03/2025.	Ydi

Cyllid	Cynllun Digidol	Gweithgaredd raglennwyd ar gyfer 2024/2025: Mae'r cynlluniau isod unai yn hunan-gyllidol oddi ar yr adnoddau sydd gan y Cyngor yn barod, neu wedi derbyn cefnogaeth lawn i'w rhoi ar waith yn ystod y ddwy flynedd nesaf: • Blaenoriaethu prosiectau o Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-2028 ar sail dynodiad y gefnogaeth ariannol – Ch1 2024/25 • Paratoi adnoddau parhaol ac achlysurol i roi prosiectau'r cynllun ar waith Ch1 a Ch2 • Adnodd seibrddiogelwch (parhaol) – Ch2 • Adnoddau Microsoft365 (achlysurol) - Ch1 • Prentisiaid gradd gwyddor data (cytundeb 3 mlynedd) – Ch1 • Hyfforddai Trawsnewid Digidol (cytundeb 3 mlynedd) – Ch1 • Swyddog teleffoni (parhaol) – Ch2 • Adnodd ymchwil (cytundeb 2 flynedd) - Ch2 Dyma'r prosiectau a roddir ar waith yn 2024/25:	Mae rhestr fer wedi ei phennu ar gyfer Hyfforddai Trawsnewid Digidol eto eleni, gyda'r gobaith y bydd modd penodi eleni ar ôl methiant y llynedd i lenwi'r swydd. Mae'r swydd teleffoni parhaol wedi ei ddal yn ôl tra bo'r broses arfarnu yn mynd rhagddo, ond mae bellach wedi ei gwblhau a'r broses i gyflwyno newid i'r sefydliad yn yr arfaeth. Mae cymal cyntaf ar gyfer adnodd ymchwil wedi ei gwblhau, gan benodi adnodd i gynorthwyo gyda'r prosiect teleffoni.	Na
		GWEI2 – cefnogi gweledigaeth y rhaglen “Gweithio i'r dyfodol” ▪ Caffael offer cyffredin ar gyfer desgiau mynd a dod ▪ Newidiadau bosib i'r rhwydwaith ardal eang i gyfarch newid i gragen y swyddfa CC3 – ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor ▪ Cytuno ar ddyluniad ▪ Datblygu a profi'r newidiadau ▪ Cyflwyno'r dyluniad newydd yn fyw	Mae'r uned ddatblygu wedi cwblhau system i neilltuo desgiau mynd a dod a wedi cydweithio â'r Gwasanaeth Eiddo i ymgorffori dyluniadau newydd ein swyddfeydd i'r system a parhau mae cefnogaeth isadeiledd i hwyluso symud pwyntiau rhwydwaith a phwyntiau cyswllt di-wifr. Dyluniad newydd wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd Digidol ac adborth wedi ei rannu ynghyd ac argymhellion i sefydlu fersiwn “Beta” o'r wefan i brofi datblygiadau newydd gyda'r cyhoedd.	Ydi Na

		CC2 – gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor ▪ Ymchwilio i ddatrysiadau sydd ar gael ▪ Creu manyleb anghenion ▪ Caffael datrysiad ▪ Mudo'r ddarpariaeth bresennol i'r ddarpariaeth newydd ▪ Hyfforddi GSB1 – cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaeth a rheolaidd GSB2 – digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu ▪ Creu tîm dan arweinyddiaeth Cyllid ▪ Adnabod y drefn gyfredol ▪ Dylunio trefn newydd ▪ Comisiynu gwaith datblygu	Mae'r prosiect yma yn symud yn ei flaen ar garlam, ond mae cryn ffordd i fynd. • Oddeutu 800 bellach yn fyw ar y system newydd • Darpariaeth y Ganolfan Gyswilt wedi trosglwyddo i'r system newydd ac yn fyw • Clwstwr peilot o ysgolion a lleoliadau y tu allan i'r prif swyddfeydd wedi eu cwblhau • Rhaglen gynhwysfawr wedi ei pharatoi ar gyfer cwblhau'r ddarpariaeth • Cisco wedi cwblhau datblygiad y Gymraeg ar gyfer y cynnyrch a hwn bellach yn fyw yn fyd-eang. • Cyfrifiadur gyda prosesyddion GPU wedi ei baratoi gan y tîm cefnogol a'i gyflwyno ar gyfer y tîm datblygu – defnyddio DA ar gyfer gwella profiad a canlyniadau chwilio ar y wefan gorfforaethol yw'r prosiect cyntaf ar gyfer y ddarpariaeth hwn • Datblygiad CoPilot yn parhau ar gyfer dehongli, categorieiddio, ffeilio a tracio ymholiadau ysgolion • Is-grŵp digidol (gweinyddiaeth) wedi cynnig 4 prosiect DA pellach • Bydd datblygiadau parhaus yn y maes hwn, ac yn weithgaredd parhaus, heb-derfyn drwy gydol cyfnod y Cynllun Digidol Mae'r prosiect yma yn cael ei ddal yn ôl am gyfnod tan bod allbwn prosiect GSB5 ar gael. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail penderfyniadau a geisir o'r wybodaeth a rennir o'r adroddiad.	Na Ydi Na
--	--	---	--	--------------------------------

		GSB8 – hwyluso cydweithio â phartneriaid ▪ Agenda parhaus na fydd â therfyn amser	Mae hwn yn weithgaredd parhaus gyda'r isod yn ddatblygiadau o nôd: • Cydweithio â GwE i ddod â'r corff i ben (cwblhau diwedd Mai) • Cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru ar sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforedig (wedi cwblhau) • Gwerthu system asedau i awdurdod cyfagos (wedi cwblhau) • Cydweithio â phartneriaid ar draws y gogledd ar sefydlu cynhadledd gofal yn Venue Cymru ar 5ed Mawrth 2025 (wedi cwblhau)	Ydi
		GSB5 – adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad (Cam 1) ▪ Paratoi manyleb o anghenion ▪ Caffael ymgynghorwyr i baratoi adolygiad ▪ Ymgymryd â'r adolygiad ▪ Dehongli'r canlyniadau a cyflwyno'r darganfyddiadau ▪ Paratoi'r camau nesaf	Comisiynwyd Socitm Advisory fel ymgynghorwyr i lunio adroddiad ar ein opsiynau ar gyfer systemau rheoli'r sefydliad, gyda'r gwaith bellach wedi ei gwblhau.	Ydi

		GSB5 – adolygiad o systemau rheoli’r sefydliad (Cam 2) ▪ Gweithredu ar argymhellion adroddiad Socitm Consulting ▪ Caffael system Cyflogau/Adnoddau Dynol Newydd	Comisiynwyd Socitm Advisory fel ymgynghorwyr i lunio adroddiad ar ein opsiynau ar gyfer systemau rheoli’r sefydliad, gyda’r gwaith bellach wedi ei gwblhau. • Papur wedi ei baratoi ar gyfer arweiniad gan y Tîm Arweinyddiaeth ar gyfer ○ Cyfyngu cymal cyntaf y prosiect i ganolbwyntio ar ddarpariaeth Cyflogau/Adnoddau Dynol ○ Cadw’r prosiect yn fyw fel bo modd ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys ein systemau ariannol fel ail gam • Cyngor ac arweiniad caffael allanol wedi ei gomisiynu fel bo modd mynd i’r farchnad ar fyrder gan bod y system gyflogau gyfredol yn dirwyn i ben yn Rhagfyr 2026 a mae datrysiad amgen yn angenrheidiol i barhau i dalu cyflogau • Disgwyl symud i sefyllfa caffael am system newydd yn ystod Awst/Medi.	Na
--	--	--	---	----

		GWYD2 – parhad gwasanaeth ▪ Creu swydd ddisgrifiad a chyflogi swyddog diogelwch newydd ▪ Sefydlu cynllun ymateb i ddigwyddiad ▪ Profi'r cynllun ymateb i ddigwyddiad ▪ Creu adroddiad blynyddol ar wytnwch ein gwasanaethau	Mae penodiad wedi ei wneud ar gyfer swyddog cadernid seibr newydd Mae trafodaethau ar sefyllfa llywodraethu seibr oddi fewn y Cyngor yn mynd rhagddo, gyda cydnabyddiaeth nad rhywbeth i'r Gwasanaeth TG yn unig yw diogelwch seibr a bod perchnogaeth Cyngor gyfan iddo. Mae pedwar maes penodol i'w cyfarch: • Amddiffyn rhag ymosodiad seibr • Ymateb i ymosodiad seibr • Byw yn ystod ymosodiad seibr • Adfer wedi ymosodiad seibr Bydd dau grŵp penodol yn cael ei sefydlu i gyfarch yr uchod: • Grŵp Gwytnwch a Seibr Gadernid (atebol i'r Bwrdd Trawsnewid Digidol) • Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad Seibr (atebol i'r Grŵp Strategol Argyfwng)	Na
--	--	--	--	----

	GSB7 – gwneud y defnydd gorau o’r llwyfan Microsoft365 ▪ Paratoi swydd ddisgrifiadau a chyflogi adnoddau ar gyfer ▪ Ymchwilio ffwythiannau a gwahanol flasau o Microsoft365 ▪ Effaith o ddefnydd y pecynnau o safbwynt technegol a llywodraethu gwybodaeth ▪ Gweinyddu’n defnydd o’r llwyfan gan leihau byrdwn costau’r llwyfan ▪ Rhoi’r tîm estynedig ar waith i ddefnyddio’r llwyfan i’w lawn botensial ▪ Dadansoddi effaith yr ymarferiad ▪ Paratoi achos busnes ar gyfer cefnogaeth barhaol GWYD1 – uwchraddio llinellau analog i ddigidol ▪ Blaenoriaethu’r adnodd canolog i gario ymlaen gyda gwaith sydd wedi ei gyflawni’n barod (Cam 1) i adnabod cysylltiadau analog sydd angen eu uwchraddio ▪ Symud y prosiect i Cam 2, gan adnabod pa gysylltiadau sydd angen parhau a trefnu i ddiffodd y cysylltiadau nad oes eu hangen ▪ Adnabod technoleg amgen ar gyfer y gwasanaethau sydd angen parhau ▪ Cydweithio a’r adrannau fel eu bod yn perchnogi’r tasgau a cost o fudo i’r darpariaeth newydd GWYD3 – uwchraddio darpariaeth darlledu yn siambrau’r Cyngor ▪ Gwelliannau i ddarpariaeth darlledu gweledol yn Siambr Dafydd Orwig a Hywel Dda	Mae gwasanaeth swyddog llywodraethu gwybodaeth wedi ei sefydlu i edrych yn benodol ar oblygiadau sefydlu rhai o ffwythiannau’r amgylchedd Microsoft365. Yn dechnegol, gellir rhyddhau popeth sydd wedi ei gynnwys oddi fewn ein trwyddedau, ond mae angen pwyllo gyn gwneud hynny, gan asesu ardrawiad newidiadau neu gyflwyno darpariaeth newydd. Mae darn o waith penodol wedi ei raglennu gyda Microsoft ar gyfer asesu ein amgylchedd ar gyfer addasrwydd i gyflwyno darpariaeth deallusrwydd artiffisial Copilot yn eang yn y Cyngor. Mae pryder bod gwendidau hawliau gwybodaeth yn fygythiad sylweddol ar gyfer cyflwyno’r dechnoleg. Mae adnodd rhan-amser wedi ei phenodi i yrru’r prosiect yn ei flaen ac yn cydweithio’n agos gyda’r Rheolwr Systemau Isadeiledd a Gwasanaeth Busnes y Gwasanaeth TG. Mae’r dasg yma yn gwneud cynnydd gyda nifer o linellau wedi eu dileu. Er hyn, mae nifer o linellau’n parhau a mae cyswllt wedi eu hadnabod ym mhob adran i hwyluso’r dasg o adnabod statws darpariaeth y cyswllt. Mae hwn wedi llithro a mae darparwr newydd wedi eu gwahodd i gynghori ar newidiadau ar gychwyn Ch4, gyda cyfarfod cychwynnol wedi ei drefnu ar gyfer Chwefror 21ain. Derbyniwyd adborth ganddynt yn ddiweddar ar gyfer darpariaeth mewn ystafell gyfarfod newydd, ond rydym dal i ddisgwyl am arweiniad ar gyfer y siambrau.	Na Na Na
--	--	--	-------------------------------

		GD2 – siarter data - Is-grŵp data i greu siarter data GD4 – llwyfan adrodd ar ddata - Dehongli'r anghenion - Adolygu'r opsiynau sydd ar gael - Caffael datrysiaid fel peilot - Mesur effaith y peilot a paratoi achos busnes ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth GD6 – adrodd ar berfformiad - Is-grŵp data i gydweithio â'r Tîm Rheoli Corfforaethol i greu argymhellion i wella adroddiadau adrodd ar berfformiad GSB6 – rhyngrwyd y pethau - Paratoi achos busnes i'r Bwrdd Hinsawdd ar gyfer adnoddau ychwanegol - Ymchwilio achosion defnydd o sut gall rhyngrwyd y pethau gynorthwyo ymdrechion Cyngor Gwynedd i leihau aralliadau - Cyflwyno datrysiaid ar sail leihau ein defnydd o drydan a gwresogi'n swyddfeydd	Gweithdai dan arweiniad cwmni Basis yn parhau ar gyfer llunio Siarter Data Cyngor Gwynedd. - Y tîm data corfforaethol wedi mynychu sesiynau 1:1 gyda cwmni Microsoft i rannu gwybodaeth am lwyfan adrodd PowerBI ac isadeiledd llwyfannu data Microsoft Fabric ar gyfer Ch3 - Achos busnes yn cael ei baratoi ar sail lledaenu defnydd PowerBI Mae'r prosiect yma ar waith yn barod ac yn cael ei arwain gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol. - Mae sawl prosiect bychan yn mynd rhagddo a derbyniwyd gwobr am ein gwaith arloesol drwy ddefnydd synhwyrwyr LoRaWAN yn y maes llifogydd Cyhoeddwyd bod achos busnes ar gyfer creu rhwydwaith LoRaWAN rhanbarthol yng ngogledd Cymru ar gyfer wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r isadeiledd yma yn greiddiol fel bod datblygiadau rhyngrwyd y pethau ffynnu a swyddogion o'r Cyngor yn flaenllaw yn eu cefnogaeth i'r achos busnes - Mae cais wedi ei wneud am arian o'r gronfa ffyniant i baratoi ystod o achosion busnes ar gyfer defnydd o synhwyrwyr rhyngrwyd y pethau i wella gwasanaethau'r Cyngor. Bwriedir defnyddio'r arian i gyflogi swyddog dros dro i gyd-weithio a thimau datblygu a rhwydwaith y Cyngor i adnabod cyfleon.	Ydi Na Ydi Na
--	--	--	---	---

		GWEI4 – hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol ▪ Paratoi achos busnes ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion ▪ Prentisiaid gwyddor data ▪ Hyfforddai Trawsnewid Digidol ▪ Paratoi rhaglenni i ymweld â'r ysgolion i hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol	• Penodwyd dau brentis gradd mewn gwyddor data yng Ngorffennaf a'r ddau aelod newydd wedi setlo'n dda fel rhan o'r tîm datblygu • Bu'r prentisiaid peirianeg meddalwedd cyfredol yn hyrwyddo gyrfau digidol gyda'r Cyngor mewn diwrnodiau recriwtio agored • Aflwyddiannus oedd ein ymdrechion i benodi Hyfforddai Trawsnewid Digidol y llynedd, a rydym wrthi eto eleni ac yn falch o nodi bod ymgeiswyr cryf ar y rhestr fer.	Na
--	--	--	---	----

Adroddiad Perfformiad Mesurau Adran Gyllid

Cyfnod:

- **Blwyddyn ariannol 2024/25 neu**
- **Ebrill 2025**

(fel bo'n briodol)

Gwasanaeth Cyflogau
Achosion wedi arwain at
addasiadau pellach yn y cyflog

Chwefror: 24
Mawrth: 16
Ebrill: 24

Gwasanaeth Cyflogau

Gwybodaeth statudol ar amser

100%

TG (i gyd) 2024/25

Nifer ceisiadau wedi cofnodi
gan TG yn ei gyfanrwydd

17,652

TG (i gyd) 2024/25

Nifer o alwadau wedi ei
ddiwallu

17,701

TG (i gyd) 2024/25

Nifer o alwadau wedi ei
ddiwallu oddi fewn **Wythnos**
am y flwyddyn cyfan 24/25

84%

TG (i gyd) 2024/25

Nifer o alwadau wedi ei
ddiwallu oddi fewn **1 diwrnod**
am y flwyddyn cyfan 24/25

66%

TG (Desg gymorth)

Nifer o alwadau wedi ei
ddiwallu oddifewn 1 diwrnod
am y flwyddyn cyfan 24/25

76%

Ebyst corfforaethol

Nifer o ebyst wedi ei yrru a
derbyn (allanol) am y flwyddyn
24/25

>10,000,000

TG (i gyd) 2024/25

Bodlonrwydd: Canran hapus
neu hapus iawn. *Awgrymu
holiadur i POB defnyddiwr TG.*

100%

TG (Isadeiledd)

Nifer digwyddiadau seibr

0

TG (Isadeiledd)

Nifer toriad gwasanaeth difrifol

0

TG (Isadeiledd)

Argaeledd Rhwydwaith Craidd

100% (Ebrill)

TG (Datblygu)

Nifer datganwyd bodlonrwydd

100%

TG (Datblygu)

Galwadau o fethiant (gwiriadau)

8% ↓ 3%

TG (Gwasanaeth Dysgu Digidol)

Bodlonrwydd
Gwasanaeth



Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Hawliadau atebolrwydd heb eu
hamddiffyn yn llwyddiannus
(Uned Yswiriant)

0

Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Hawliadau atebolrwydd heb eu
hamddiffyn yn llwyddiannus
(Yswiriwr)

0

Gwasanaeth Incwm

Gwerth dyledion
amrywiol > 6 mis oed

£1,921,273

Gwasanaeth Pensiynau

Parhau i gyfrifo a thalu buddion
ymddeol yn brydlon



Gwasanaeth Pensiynau

Fy Mhensiwn Ar-lein –
cynnydd mewn aelodaeth ac
ymweliadau



Gwasanaeth Buddsoddi a
Rheolaeth Trysorlys

Cronfa Bensiwn – gwerth
asedau wedi cynyddu i

£3.2bn

Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth
Trysorlys

Cronfa Bensiwn -
dychweliadau'r
rheolwyr yn uwch na'r
meincnod

0.0%

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cynllun blynyddol wedi ei gwblhau (2024/25)

91.67%

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cynghorau cymuned wedi derbyn archwiliad

78

Gwasanaeth Budd-daliadau

Diwrnodau i brosesu cais budd-dal

19.39

Gwasanaeth Budd-daliadau

Diwrnodiau i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau

3.24

Gwasanaeth Trethi

Cyfradd casglu Treth Cyngor y flwyddyn gyfredol

92.9%

Gwasanaeth Trethi

Cyfradd casglu Ardrethi Annomestig y flwyddyn gyfredol

90.7%

Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg

Sefyllfa diwedd y flwyddyn 2024/25 yr adrannau wedi ei derfynu



Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg

Cyllideb 2025/26 –Gwaith wedi ei gwblhau



Gwasanaeth Taliadau

Nifer o ddyddiau cyfartalog i brosesu anfonebau lleol i'w talu

21

Gwasanaeth Taliadau

Nifer o ddyddiau cyfartalog i brosesu anfonebau nad ydynt yn lleol i'w talu

25

Gwasanaeth Cyflogau

Rheolwr Gwasanaeth – Martin Morris

Pwrpas gwasanaeth: I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEF (HMRC).

Trosolwg o berfformiad:


Holl waith cysoni ac adrodd diwedd flwyddyn i pwrpasau CThEF wedi ei gwblhau yn amserol.

Swyddfa CThEF yn parhau i honni bod gwallau yn ein cofnodion ers mis Mai 2024. Er ein bod wedi ail-cysoni'r ffigyrau sawl gwaith yn ystod y flwyddyn, cywiro unrhyw cofnodion anghywir, ac amlygu iddynt lle mae'r gwallau yn eu cofnodion nhw mae hyn yn parhau i greu gwaith ychwanegol wrth i ni ceisio ei datrys.

Oddeutu 116 o eitemau wedi eu derbyn fel rhan o cyflogresi Chwefror ond yn perthyn i cyfnodau gynharach, gyda 80 o eitemau tebyg wedi eu derbyn fel rhan o cyflogresi Mawrth a 87 wedi eu derbyn fel rhan o cyflogres Ebrill.

Parhau i ceisio datrys y problem hefo'r taliadau i ddarparwr y cynllun cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol.

Cyflogres newydd wedi ei chreu ar gyfer cyn-weithwyr Bwrdd Uchelgais Y Gogledd, gyda'r cwbl o'r swyddogion wedi eu trosglwyddo ers cyntaf o Ebrill.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth TG – Cefnogol – Rheolwr Gwasanaeth – Bryn Goodman Jones

Pwrpas gwasanaeth: Cydweithio a'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb i anghenion busnes.

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Trosolwg o Berfformiad: 2024/25 (GRAPH GYDA MISOEDD UNIGOL)


Galwadau Ffôn i'r Ddesg Gymorth. Ystadegau 12 mis ddim ar gael oherwydd mudo i system newydd

Galwadau ffôn wedi ei dderbyn: **N/A**

Canran wedi eu ateb: **N/A**

Ceisiadau am gymorth Technegol

- Cyfanswm ceisiadau TG wedi cofnodi: **17,652**
- Cyfanswm ceisiadau TG *agor a cau* yn y cyfnod: **16,843**
- Ceisiadau wedi cwblhau (TG i gyd): **17,701**
 - Wedi ei gwblhau oddi fewn **1 wythnos**: **14,940 (84%)**
 - O'r uchod wedi ei gwblhau mewn **24 awr**: **11,767 (67%)**
- Ceisiadau wedi cwblhau (*Desg Gymorth yn unig*) **10,829**
 - Wedi ei gwblhau oddi fewn **1 wythnos**: **9893 (97%)**
 - O'r uchod wedi ei gwblhau mewn **24 awr**: **8147 (76%)**
- Cyfanswm ceisiadau TG ar e-byst (*heb ffonio*): **9694 (57%)**
 - Nifer o newidiadau technegol isadeiledd wedi eu greu: 820
 - Nifer o Newidiadau technegol isadeiledd wedi cwblhau: 818



Tud. 186 Blwyddyn heriol I'r uned desg gymorth – colli swydd fel arbedion a ceisio parhau gyda'r safon a oriau cyfredol. Hyn ein taro yn enwedig gan fod diwedd oes Windows 10 yn agosáu (EOL Hydref '25) a 3000 o ddyfeisiadau angen eu diweddaru, uwchraddio'r RAM a/neu adnewyddu o flaen llaw.

Nifer fawr o becynnau newydd angen eu diogelu, rheoli a cyflwyno i'n defnyddwyr yn enwedig o'r stâc 365. Defnyddwyr eisiau mwy yn enwedig o safbwynt cyd weithio gyda'u gilydd a tu hwnt i systemau'r Cyngor. Hyn yn creu gwaith dylunioi, profi ac yn enwedig diogelu.

Gwasanaeth TG - Isadeiledd

Rheolwr Gwasanaeth – Gwyn Jones

Pwrpas gwasanaeth: Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.

Trosolwg o Berfformiad:

Ystadegau'r cyfnod

Ystadegau cofnodir drwy'r Ddesg Gymorth. Wrth i alwad gael ei gau, mae pob defnyddiwr sydd wedi logio'r alwad yna yn cael y cynnig i adael adborth. Mae Newidiadau (cymhleth) yn gofnod mewnol o newidiadau gall effeithio system/gweinyddwr/rhwydwaith, ac felly sawl defnyddiwr. Rhan amlaf, cofnod gan ein defnyddwyr mewnol yw rhain a ddim yn cynnwys adborth.

	Wedi'w Logio	Wedi'w Gau	Yn Parhau	Adborth	
				Nifer	Cyfartaledd
Galwadau	458	423	68	16*	5 (allan o 5)
Newidiadau	99	106	24		

* nifer wedi ymateb yn 3.78%

** Methiant yn systemau yn Storm Darragh penwythnos 7/12/2024 yn effeithio'r ystadegau ar gyfer 24/25

Ystadegau Diogelwch

	<u>Ymosodiadau wedi eu blocio</u>	<u>Ebyst Gelyniaethus wedi eu blocio</u>	<u>Rhybuddion GwrthFirws wedi eu blocio</u>	<u>Cofnodion CymruSOC</u>
Mawrth 2025	48680	60229	23	7
Ebrill 2025	101950	71560	26	4

*Mae'r SOC wedi agor 912 “digwyddiad” yn ystod mis Ebrill. Mae 812 o'r rheini yn rhai oedd wedi eu dyblygu. O'r 100 sydd ar ôl, roedd 96 wedi eu adnabod yn “false positive”, yn gadel 4 oedd angen ymchwil

Prosiectau (I'w Nodi):

- Prawf/Awdit o ddiogelwch Systemau Mewnol wedi ei gwblhau (ar gyfer achrediad PSN). Gwaith yn cael ei ddyrannu ar gyfer datrys neud gwella'r risgiau.
 - Cydweithrediad yn gallu bod yn rwystredig yma
- Asesiad CAF (NCSC Cyber Assessment Framework) wedi ei wneud yn fewnol. Y canlyniadau yn destun trafodaeth cyfredol.
- Caffael meddalwedd Gwrth-Firws (adnewyddu efo'r cynnyrch presennol yn opsiwn)
- Prosiectau'r Cynllun Digidol:
 - Caffael System Ffôn Newydd (CC2).
 - System galwadau Galw Gwynedd wedi ei drosglwyddo i'r system ffôn newydd ar 07/05/2025
 - 492 o ddefnyddwyr wedi derbyn ffôn meddal newydd
 - Llinellau Analog (GWYD1). Adroddiad cynhwysfawr o linellau ffôn, gyda'r niferoedd yma wedi ei ddyrannu i adrannau i adnabod defnydd ymhellach
 - 76 allan o 420 o linellau wedi ei ganslo neu ei uwchraddio i dechnoleg sydd yn cael ei gefnogi (arbedion hyd at ~£40k yn flynyddol hyd yma)
- Diweddariadau parhaol (meddalwedd) I'r isadeiledd cyfan, heb effeithio'r defnyddwyr. e.e. Caledwedd Rhithwir (VxRail) yn cael ei uwchraddio Mai 15-16 (tua 30 awr i'w gwblhau)
- System taliadau (Paygate - BACS) yn symud i'r Cwmwl

Argaeledd	Mawrth 2025	Ebrill 2025	Cyfartaledd 2024-25
Rhwydwaith Craidd	100%	100%	** 99.88%
Systemau Critigol	100%	100%	** 99.92%

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Gwasanaeth TG - Datblygu

Yn ôl i'r dashfwrdd

Rheolwyr Gwasanaeth – Elfyn Evans, Rhodri Fretwell

Pwrpas gwasanaeth: Cydweithio â'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb i anghenion busnes.

Datblygu - prosiectau sydd yn galluogi gwasanaethau'r Cyngor i weithredu yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â rhoi budd uniongyrchol i bobol Gwynedd.

Cwblhawyd	Derbyniwyd	Ar waith	Aros am sylw
7	5	42	37

Adborth bodlonrwydd - Drwy adlewyrchu ar brosiectau a gwrando ar yr adborth gan ein cwsmeriaid, rydym yn parhau i ddysgu a gwella.

'A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned datblygu?'

Hapus	Hapus ond lle i wella	Dim yn hapus
3	0	0

Cyfleoedd i wella - Dim i'w nodi yn y cyfnod yma


Cynnal a chadw – ymateb i alwadau am gymorth gan ein cwsmeriaid / cynnal a chadw ein systemau

- **Galwadau o werth (92%):** gwelliannau i systemau, yn ogystal â rhoi cymorth technegol / arbenigol i ddefnyddwyr.
- **Galwadau o fethiant (8%):** cwsmeriaid yn cael trafferthion cyflawni yr hyn maent angen ei wneud neu adrodd diffygion mewn system.
- **11 o'r galwadau a gwblhawyd yn y cyfnod wedi derbyn adborth 5* (Chwefror i Mai)**
- **301 ceisiadau ir Ddesg Gymorth yn ystod cyfnod 25/26**

Prosiectau o ddiddordeb

- System Monitro, Gwerthuso a Dysgu Gwasanaeth Ieuenctid
- Cyngor Conwy – Asedau Fflyd
- Cofrestr Risg Corfforaethol
- Integreiddio system Bartec
- Deallusrwydd artiffisial - chwilio deallus ar y wefan / polisïau'r Cyngor / cyfieithu
- Datblygu system Iechyd a Diogelwch newydd

Galwadau Desg Gymorth - Cynnal a Chadw




Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol

Rheolwr Gwasanaeth: Gwenan Pritchard

Pwrpas: Arwain, cefnogi a chydweithio â'n ysgolion i gynnal addysgu digidol o'r ansawdd uchaf a sicrhau'r cyfleon gorau i ddisgyblion Gwynedd.

Galwadau

Mis	Agor ar ddechrau y cyfnod	Logio	Datrys	Agor ar ddiwedd cyfnod
Mawrth	500	643	717	426
Ebrill	426	315	437	304



Dyfeisiadau ydym yn eu cefnogi

Dyfeisiadau	
Windows Athrawon	1622
Windows Disgyblion Uwchradd	6208
Chromebooks	6041
Ipads (ar draws sectorau)	2611
Offer Hanesyddol / gweinyddwyr (oddeutu)	600
Cyfanswm	17082

Prosiect	Cynnydd	Wedi Cwblhau
Trosglwyddo ysgolion i fod yn gweithredu drwy Hwb yn unig - Gwaredu ar hen ddyfeisiadau a hen systemau Cynnal (e.e gweinyddwyr, hen PC's / gliniaduron - Gwaith yn cael ei arbed yn y cwmwl - Athrawon a disgyblion yn gweithio ar ddyfeisiadau addas gyda gosodiadau diogelwch addas - Datrysiaid argraffu rheoledig canolog wedi ei osod i fyny - Disgyblion uwchradd â'r gallu i fynd a'u dyfais gartref - Ffordd o gysylltu dyfeisiadau â'r rhwydwaith wedi newid er mwyn cryfhau diogelwch rhwydwaith - Cydymffurfio gyda Safonau Digidol Cenedlaethol Hwb Mae hwn wedi bod yn brosiect anferth gyda'r gwaith wedi cychwyn pan sefydlwyd y gwasanaeth. Erbyn hyn, rydym wedi cyrraedd pwynt lle mae ysgolion yn symud oddi wrth yr hen systemau a mudo drosodd i'r weledigaeth yn y Strategaeth Digidol Addysg o ddefnydd Hwb yn unig.	15 Ysgol Gynradd 3 Ysgol Uwchradd	18 ysgol (20%)
System MIS (Rheolaeth Ysgolion) Bydd cytundeb y system bresennol yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2026. Rydym wedi sefydlu trefn prosiect i gaffael cynnyrch o ansawdd a'r gwerth gorau am arian ac erbyn hyn mae'r pecyn tendr wedi ei gyflwyno i'r farchnad. Rydym yn disgwyl ceisiadau ddod i fewn cyn diwedd y mis.	-	-
Symud oddiwrth cynnyrch Anti Virus WithSecure i Defender for EndPoint	7830	93%
Mudo dyfeisiadau o Windows 10 i Windows 11	7382	94%

Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Rheolwr Gwasanaeth – Gwyn Varney

Pwrpas gwasanaeth: Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau.

Trosolwg o berfformiad:


Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn heriol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Cynnydd mewn amrediad gwaith fel mae risgiau y Cyngor yn newid (e.e. Ysgol newydd Bontnewydd, cynlluniau rheoli carbon, paneli solar, cerbydau trydan a pwyntiau gwefru)
- Trefnu yswiriant i'r CBC
- Cymhlethdod hawliadau yn cynyddu, yn ogystal a diffyg eglurder o ran ymatebion gan wasanaethau eraill yn golygu gwaith pellach ei angen gan yr Uned Yswiriant er mwyn gallu gwneud penderfyniad dilys ar atebolrwydd. Mae derbyn un math o adroddiadau penodol gan wasanaeth arall wedi bod yn cymryd llawer gormod o amser, a mae'r Uned wedi gorfod rheoli hyn o ran cyfathrebu gyda'r yswiriwr dan sylw ac aelodau o'r cyhoedd fel yn briodol
- Yr hyn sydd ei angen fel gwybodaeth gan ein broceriaid ac ein hyswirwyr wedi cynyddu, sy'n golygu rhagor o waith tyrchu ac holi gan yr Uned Yswiriant
- Dirywiad mewn perfformiad un yswiriwr yn mynd a lot o sylw ac amser yr Uned i'w godi a'i ddilyn fyny


Er gwaethaf yr heriau yma, mae modd cyfeirio at sawl llwyddiant hefyd, megis:

- Datblygiad parhaus y Swyddog Yswiriant Cynorthwyol, sydd bellach yn rhan annatod o'r tîm a gallu yr Uned i weithredu
- Teimlad fod yr Uned yn parhau i gwrdd â'r gofynion ohono, er y cynnydd mewn gofyn
- Llwyddiant o ran adnewyddu yswiriant - unrhyw gynnydd mewn cyfraddau yn fychain
- Parhau i gynnal perthnasau gyda cyfranddalwyr allanol er bod newid mewn staff yn rhai o'r cyrff yma

Nifer o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
Heb eu Hamddiffyn yn Llwyddiannus



Nifer Hawliadau Newydd a Nifer Hawliadau Wedi Cau Fesul Mis



Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Incwm

Rheolwr Gwasanaeth – Stephen Williams

Pwrpas gwasanaeth: Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra’n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu’n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr.

Trosolwg o berfformiad:

Perfformiad yr Uned Incwm ar gyfer mis Ebrill 2025

- Gwerth dyledion amrywiol > 6 mis oed.

Mae’r cyfanswm wedi cynyddu ychydig ers y cyfarfod adrodd perfformiad blaenorol ar yr 17eg o Chwefror 2025. Mae’r balans fel ar ddiwedd Ebrill 2025 yn £1,921,273 sef cynydd o £7,196.00. Yn ôl yr arfer y ddau gategori gyda’r symiau uchaf yw £620,136 yn berthnasol i’r Bwrdd Iechyd (dim newid ers y cyfarfod diwethaf) ac anfonebau a godwyd ar unigolion am eu gofal sef £688,645. Os yn eithrio dyledion y Bwrdd Iechyd mae’r cyfanswm yn gostwng i £1,301,137. Mae’r gwasanaeth Oedolion yn parhau mewn trafodaethau gyda’r Bwrdd ac felly gobeithir y bydd dyled y Bwrdd yn gostwng o ganlyniad i hyn. Gwasanaeth arall gyda balans uchel yw Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda gwerth £199,139 o ddyledion sydd yn cynnwys dyledion mewn perthynas a damweiniau ffyrdd. Mae’r gwasanaeth bellach wedi tanysgrifio i wasanaeth olrhain y “Motor Insurers Bureau” er mwyn sefydlu os oes gorchudd yswiriant a’i pheidio mewn lle a gobeithir y bydd hyn ynghyd a mewnbwn arbenigol yn lleihau’r math yma o ddyledion ac yn golygu y byddent yn cael eu talu yn gynt.

Yn ôl yr arfer bwriedir targedu y dyledion hynny sydd ddim yn perthyn i’r Bwrdd Iechyd i geisio lleihau’r ffigwr.

- Cyfradd casglu dyledion o fewn y mis.

Mae’r perfformiad ar gyfer y misoedd yn dilyn y cyfarfod perfformiad diwethaf fel a ganlyn :-

- Chwefror 2025 76.48%
- Mawrth 2025 45.50%
- Ebrill 2025 39.21%
- Mae’r cyfraddau casglu uchod yn is na’r arfer gan fod anfonebau gyda gwerth sylweddol wedi eu codi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol e.e. 5 anfoneb gwerth £3.854m i Betsi Cadwaladr a 5 anfoneb gwerth £2.603m ar gynghorau eraill yn cynnwys un i Ynys Môn gwerth £2.1m. Pe byddai’r anfonebau yma wedi eu talu yna fe fyddai cyfradd casglu Mawrth 2025 yn 89.13% ac Ebrill yn 62.47%.
- Mae’r adolygiad cynhwysfawr o sefyllfa’r hen ddyledion ynghyd a phrosesau gweithredu yr Uned yn parhau ac mae meysydd ble gellir lliflinio agweddau gweithredu yr Uned wedi eu hadnabod, e.e. awtomeiddio prosesau a’r nod yw sefydlu trefniadau mwy effeithiol i leihau’r ôl-ddyledion. Cynhelir yr adolygiad ar y cyd gyda Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd.

Yn anffodus mae cwynion gan gwsmeriaid parthed y sustem derbyn taliadau drwy gerdyn “Call-Secure” yn parhau a daeth cwyn swyddogol drwy law “Comisiynydd Pobl Hyn Cymru” yn ddiweddar. Roedd cwsmer wedi cysylltu a hwy yn datgan ei fod yn cael ei eithrio yn ddigidol” oherwydd fod ei gyflyrau meddygol megis nam ar ei olwg a chlyw yn golygu na allai dalu ei dreth cyngor oherwydd trafferthion yn defnyddio “Call Secure”. Mae cyfarfodydd gyda’r Tîm Llesiant ac Ymgynghorydd Cydraddoldeb y Cyngor eisoes wedi cymryd lle i geisio ffordd ymlaen ac un agwedd o hyn oedd cysylltu gyda chyflenwyr y sustem. Fe wnaethon ddatgelu fod “Call-Secure” yn un o’i sustemau mwyaf poblogaidd ac yn gyffredinol doeddent ddim yn ymwybodol fod problemau sylfaenol gyda’r sustem. Fodd bynnag fe wnaethon awgrymu efallai y byddai uwchraddio i “Call Secure Plus” yn ateb ac rydym yn aros am ddyfynbris cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. Mae’r system wedi ei chyflwyno gan ei fod yn angenrheidiol i brosesau derbyn arian y Cyngor gydymffurfio a gofynion P.C.I.D.S.S. a’r newid mwyaf yw’r angen i’r cwsmer fewnbynnu manod ei gerdyn i’w ffôn yn hytrach nag eu dyfynnu i’r aelod o staff.

Yn ôl i’r
dashfwrdd

Gwasanaeth Incwm

Rheolwr Gwasanaeth – Stephen Williams



Gwasanaeth Pensiynau

Rheolwr Gwasanaeth – Meirion Jones


Pwrpas y gwasanaeth: Gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.

Trosolwg o berfformiad:

Mesurau	Chwefror 2025	Mawrth 2025	Ebrill 2025	Cyfartaledd 2024/25
Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif.	0.81	1.07	1.08	0.88 (2618 achos)
Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth.	0.84	0.67	1.13	0.74 (1001 achos)
Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun.	3.34	2.64	4.00	4.02 (419 achos)


Fy Mhensiwn Ar-lein:

Mae'r system 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol. Ers uwchraddio'r system yn Ebrill 2024 mae'n rhaid i bob aelod ail gofrestru ar gyfer y safle newydd. Gwelir o'r graff fod oeddeutu 8,300 wedi cofrestru ar y system yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym wedi cael adborth positif iawn i'r safle newydd, gydag aelodau yn mwynhau'r ychwanegiadau newydd i'r system e.e. datganiad fideo personol a chynllunydd ymddeol.



Arolwg Boddhad Aelodau:

Mae Arolwg Boddhad Aelodau yn cael ei anfon ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau er mwyn i'r aelodau roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd a'u barn am y gwasanaeth a ddarperir gan staff y gwasanaeth. Dyma grynodedb 2024/25 (76 wedi cymryd rhan yn yr arolwg):



Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Rheolwr Gwasanaeth – Delyth Wyn Jones-Thomas

- Pwrpas y gwasanaeth:** Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol; Buddsoddi llif arian y Cyngor yn ddiogel, gyda llog derbyniol; Rheoli benthyciadau hir-dymor.
- Trosolwg o berfformiad:**
- Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Mae newidiadau ar y gweill i drefniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol Cymru a Lloegr, ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydweithio gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru er mwyn cyfarch y datblygiadau yma. Disgwylir y bydd Cymru yn aros fel un pŵl ond bydd gwaith y bydd y pŵl yn cyflawni ar ein rhan yn dipyn fwy cymhleth. Rydym yn rhan o grwpiau gwaith gwahanol a fydd yn edrych ar sut i siapio pŵl y dyfodol.
- Rydym wedi cynnal gweithdy gyda aelodau'r Pwyllgor Pensiynau i drafod dyheadau'r Gronfa i gyrraedd sero net. Mi fydd y gwaith yma yn datblygu dros y flwyddyn nesaf ac yn cyd-fynd gyda'r prisiad teirblynyddol i weld beth sydd yn bosib.



Perfformiad Chwarterol (diwedd Rhagfyr 2024)

Ceir perfformiad chwarterol yn hafal i'r meincnod. Dychwelodd y Gronfa 2.8% dros y chwarter gyda asedau y gronfa yn cynyddu £132 miliwn i £3.2 biliwn.

Perfformiodd y Gronfa'n gryf ymhob categori ased gyda buddsoddiadau ecwiti byd-eang yn perfformio'n dda iawn.

Rheolaeth Trysorlys y Cyngor – Mae nifer o ddangosyddion yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a mae'r perfformiad 2024/25 isod:

Dangosydd	wedi cydymffurfio
Meincnod Ymrwymadau	✓
Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau	✓
Datguddiad Hylifedd	✓
Datguddiad Diogelwch	✓
Cyfradd Llog cyfartalog	5.07%

Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rheolwr Gwasanaeth – Luned F Jones

Pwrpas gwasanaeth: Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol, annibynnol yn seiliedig ar risg, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Trosolwg o berfformiad:

Roedd 36 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2024/2025. Cafodd 33 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025, sy'n cynrychioli 91.67% o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad drafft neu terfynol neu femorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

Yn ôl yr arfer, mae'r Gwasanaeth yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol i oddeutu 80 o gynghorau tref a chymuned. Yn ystod 2024/25 hyd 31 Mawrth, mae 114.5 diwrnod wedi eu treulio ar y gwaith yma, ac mae 78 o'r archwiliadau wedi eu cwblhau.

Mae diffinio, mesur a chyfathrebu gwerth ychwanegol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn her ganolog i'r proffesiwn ac i'w randdeiliaid. Mae hyn yn allweddol oherwydd ni ellir priodoli'n gyfan gwbwl gwerth Archwilio Mewnol drwy nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd, nifer camau gweithredu ayb. Mae'n hanfodol bwysig edrych ar y llun yn gyflawn, drwy ystyried yr amrywiol wasanaethau a ddarperir gan Archwilio Mewnol megis gwaith ymgynghorol, darparu cyngor a chynnal archwiliadau arbennig.

Gwasanaeth Budd-daliadau

Rheolwr Gwasanaeth – Dylan Griffith

Pwrpas gwasanaeth: Yw i brosesu ceisiadau Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, Budd-daliadau Addysg, sef Cinio am Ddim a Grant Datblygu Disgyblion, Taliadau Tai Dewisol yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor ac i sicrhau fod plant Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Trosolwg o berfformiad Ionawr : Mae cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd ar gyfer mis Ebrill yn **19.39** diwrnod sy'n dangos gwellhad bychain pan yn cymharu efo'r un cyfnod yn 2024/25, sef **19.77**.

Proseswyd **190** o geisiadau newydd ym mis Ebrill.

Ar gyfartaledd, mae'r amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau yn ystod mis Ebrill yn **3.24** diwrnod.

Mae hyn yn dangos dirywiad bychain hefyd pan yn ei gymharu yn erbyn yr un cyfnod yn 2024/25, sef **3.15**.

Proseswyd **1,686** asesiad newid mewn amgylchiadau yn ystod mis Ebrill.

Dyma'r niferoedd o geisiadau newydd dderbyniwyd yn uniongyrchol gan y cwsmer yn y cyfnod adrodd yma : Ebrill – **190**

Dyma'r nifer o newid mewn amgylchiadau dderbyniwyd yn uniongyrchol gan y cwsmer yn y cyfnod adrodd yma : Ebrill – **101**

Yn ogystal i'r uchod derbyniwyd y data canlynol drwy drefniadau rhannu gwybodaeth electroneg efo'r Adran Waith a Phensiynau :



ATLAS (Automated Transfer to Local Authority Systems) : Ebrill – **1,718**

UCDS (Universal Credit Data Share) : Ebrill – **7,379**

VEP (Verify Earnings and Pensions) : Ebrill – **29**

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Tud. 196



Gwasanaeth Budd-daliadau

Rheolwr Gwasanaeth – Dylan Griffith

Perfformiad Blwyddyn 2024/25

Budd-daliadau

Pwrpas y Gwasanaeth Budd-dal yw i brosesu ceisiadau Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, Budd-daliadau Addysg, sef Cinio am Ddim a Grant Datblygu Disgyblion, Taliadau Tai Dewisol yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor ac i sicrhau fod plant Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Roedd y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor newydd yn 2024/25 yn **17.68** diwrnod, o'i gymharu â **19.39** diwrnod yn 2023/24, sy'n welliant yn y mesur yma. Gwelwyd dirywiad bychain, llai na diwrnod, ym mherfformiad y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor gan ei fod yn **3.83** diwrnod yn 2024/25, a **3.00** diwrnod yn 2023/24.

Proseswyd **2,238** o geisiadau newydd am Fudd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor yn 2024/25 i'w gymharu efo **1,816** yn 2023/24 yn ogystal â phrosesu **24,830** o hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau ein cwsmeriaid yn 2024/25 i'w gymharu efo **23,910** yn 2023/24.

Yn ogystal i'r uchod derbyniwyd y data canlynol i'w prosesu drwy drefniadau rhannu gwybodaeth electroneg efo'r Adran Waith a Phensiynau :

ATLAS (Automated Transfer to Local Authority Systems) : **27,582** (27,687 yn 2023/24)

UCDS (Universal Credit Data Share) : **65,586** (53,982 yn 2023/24)

VEP (Verify Earnings and Pensions) : **430** (282 yn 2023/24)

Mae'r gwasanaeth hefyd yn gwirio ceisiadau ar gyfer y DWP, drwy gynllun Housing Benefit Accuracy Award (HBAA), er mwyn sicrhau nad oes camgymeriadau neu dwyll yn y llwyth gwaith.

Yn ystod 2024/25 proseswyd y gwiriadau canlynol :

Full Claim Reviews (FCR) : **575** (689 yn 2023/24)

Housing Benefit Data Matching (HBMS) : **68** (84 yn 2023/24)

Self Employed Reviews (SER) : **9** (23 yn 2023/24)

Hefyd, mae'r gwasanaeth Budd-daliadau wedi cynorthwyo **1,411** o deuluoedd gyda gwerth ariannol o **£662,891.28** o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP), sy'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau wedi prosesu grant gwisg ysgol / grant hanfodion ysgol gyda gwerth ariannol o **£301,725** i **2,200** o blant, ac wedi asesu hawl cinio am ddim i **3,350** o blant Gwynedd.

Yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifir uchod, mae rôl yr Aseswyr Budd-dal wrth adnabod anghenion trigolion tu hwnt i'w hawliadau budd-dal wedi cryfhau'r cyswllt gyda'r prosiect Cefnogi Pobl sy'n cael ei gynnal ar draws y Cyngor. Trwy'r gwaith yma, mae trefniadau mewn lle sy'n caniatáu i'r Aseswyr Budd-dal gyfeirio'r ceiswyr budd-dal at gymorth pellach sydd ar gael gan y Cyngor.

Gwasanaeth Trethi


Rheolwr Gwasanaeth – E Bleddyn Jones

Pwrpas gwasanaeth: Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion.

Trosolwg o berfformiad:

Treth Cyngor

Erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 92.9%, i lawr o'r gyfradd o 94.4% yn 2023/24 ac hefyd y gyfradd isaf yng Nghymru yn 2024/25. Roedd hyn eisoes wedi ei adnabod, ac mae adolygiad ar y gweill a camau yn cael eu rhoi mewn lle i gryfhau ein trefniadau adennill. Roedd hyn hefyd yn rhannol oherwydd bod nifer uchel o unedau hunan gynhaliol nad oedd yn cyrraedd y meini prawf o 182 diwrnod ar gyfer Trethi Busnes wedi trosglwyddo yn ôl i Treth Cyngor. Gyda y rhan fwyaf o rhain yn dychwelyd yn ystod yr ail hanner o'r flwyddyn ac hefyd wedi eu hôl-ddyddio i Ebrill 2023, roedd canran uchel o'r dyledion yma yn parhau heb eu talu ar ddiwedd Mawrth 2025.




Mae system rota wedi ei roi mewn lle ers 19 Chwefror 2025, a gellir gweld o'r tabl yma bod cynnydd yn y nifer galwadau â atebwyd ac hefyd lleihad yn y 'cyfartaledd amser ateb' y galwadau yma ers i'r rota gael ei weithredu. Yn ystod yr un cyfnod hefyd, mae nifer ebyst wedi lleihau o 3,500 i 2,600 a hynny dros gyfnod prysuraf y flwyddyn. Mae hyn yn galonogol iawn a byddem yn parhau i weithio ar hyn dros y misoedd nesaf.

Galwadau ffôn yr Uned Trethi			
Cyfnod	Nifer Galwadau	Nifer Atebwyd	Cyfartaledd amser ateb
19/08/24 – 18/11/24	12,029	8,732	8:53 (munudau)
19/11/24 – 18/02/25	11,849	8,239	9:44 (munudau)
19/02/25 – 13/05/25	11,600	10,713	4:15 (munudau)

Gwasanaeth Trethi

Ardrethi Annomestig

Erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd casgliad Ardrethi Annomestig (h.y. casgliad o fewn blwyddyn) yn 90.7% o'i gymharu â 94.8% ar gyfer 2023/24. Mae adolygiad ar y gweill a camau yn cael eu rhoi mewn lle i gryfhau ein trefniadau adennill. Bydd nodiadau atgoffa yn mynd allan yn ystod wythnos yn cychwyn 19 Mai 2025 a hynny i'r cwmnïau lle roedd balansau yn ddyledus ar 31 Mawrth 2025, gyda nodiadau atgoffa ar gyfer biliau 2025/26 yn cychwyn ym mis Gorffennaf. Bydd y cwmnïau na fydd wedi talu o fewn yr amserlen yn derbyn gwysion ar gyfer llys ym mis Medi a fydd wedyn yn ein galluogi i drosglwyddo'r achosion i'r Asiantaeth Gasglu.



Ardaloedd Gwella Busnes

Yn ystod y cyfnod yma hefyd, mae dipyn o waith wedi ei wneud gyda'r Ardaloedd Gwella Busnes, gyda'r drefn adennill wedi ei rhoi mewn lle ar gyfer HWB Caernarfon.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg

Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Ffion Madog Evans

Pwrpas y gwasanaeth: Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon.

Trosolwg o Berfformiad:

- Y gwaith manwl o gau cyfrifon yr adrannau ar ddiwedd y flwyddyn wedi digwydd ac adroddiadau wedi eu cwblhau ar y sefyllfa diwedd y flwyddyn gyda'r adroddiadau ar yr ochr referniw a chyfalaf i'w cyflwyno i'r Cabinet 13/05/25 ac yna i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 22/05/25. Y gwaith manwl o gwblhau y Datganiadau o'r Cyfrifon sydd i gydymffurfio efo'r holl ofynion technegol wrthi yn cael ei gwblhau gan y Cyfrifwyr.
- Wrth gau y cyfrifon, gwnaethpwyd gwaith manwl i gynaeafu gwerth £1.7 miliwn o gronfeydd a dad-ymrwymo £375k o'r Gronfa Trawsffurfio, fel bod yr arian ar gael i gyllido bidiau un tro 2026/27.
- Cyfarfodydd cychwynnol rheolaidd efo Archwilio Cymru i drafod archwiliad o gyfrifon 2024/25 eisoes yn digwydd.
- Y gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi ei chwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn 6/3/25. Llyfrau Cyllideb yr Aelodau a'r Swyddogion wedi eu cwblhau a'u cylchredeg.
- Gwaith manwl gan y Cyfrifwyr ar y bidiau un-tro 2025/26, adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet 11/03/25.
- Mewnbwn y Cyfrifwyr i'r gwaith trylwyr o derfynu GwE wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf ac yn parhau.

Yn ôl i'r dashfwrdd


Gwasanaeth Taliadau

Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Ffion M Evans; Rheolwr Gwasanaeth – Rhodri Shorney

Pwrpas gwasanaeth: Talu credydwy'r y Cyngor yn gywir ac yn amserol

Trosolwg o Berfformiad:

- Yn 2024/25, proseswyd anfonebau lleol i'w talu mewn 20.7 diwrnod ar gyfartaledd, tra bod yr anfonebau nad ydynt yn lleol wedi cymryd 25 diwrnod, o fewn y dyddiau yma, yr Uned Taliadau wedi cymryd 4 diwrnod i brosesu'r anfonebau, sydd yn welliant o'r 6.5 diwrnod ar gyfartaledd yn 23/24 a chynt. Mae'r Uned Taliadau yn cynnwys 7 aelod o staff.
- 86% o anfonebau lleol wedi eu talu o fewn 30 diwrnod, gyda'r gyfradd ar gyfer talu yr anfonebau nad ydynt yn lleol yn 80%.
- Dros 99.4% o daliadau wedi eu talu trwy BACS gyda dim ond 1 taliad sic yn ystod mis Ebrill, sydd yn leihad sylweddol. Yr ymgyrch i symud mwy i BACS yn parhau fel ein bod yn gallu symud i ffwrdd yn llwyr o dalu efo sieciau.
- Gwaith wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf i geisio moderneiddio a gwella effeithlonrwydd a hybu mwy o adrannau i yrru gwybodaeth yn electroneg er mwyn lleihau dyblygiad, fydd yn ei dro yn golygu y bydd modd prosesu yr anfonebau penodol hynny yn gynt.



Yn ôl i'r
dashfwrdd

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	Mehefin 19, 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol
RHESWM DROS GRAFFU	Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol
AWDUR	Ian Jones – Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol
AELOD CABINET	Y Cyngorydd Llio Elenid Owen

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet dros Adran Gwasanaethau Corfforaethol, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2024-25. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar chwe phrosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 2023 - 2028, sef:

1. Cadw'r Budd yn Lleol
2. Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd
3. Cynllunio'r Gweithlu
4. Sicrhau Tegwch i Bawb
5. Merched Mewn Arweinyddiaeth
6. Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2024-25, ac mae Atodiad 1 yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y chwe blaenoriaeth

Sylwer bod llithriad yng nghynnydd prosiect 'Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch', hynny oherwydd gwaith datblygol pellach sydd angen ei wneud gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yng nghyswllt datblygu'r system iechyd a diogelwch. Rydym yn ffyddiog fod y prosiect hwn ar y trywydd cywir a bydd y gwaith yn cael ei gyflawni'n llawn.

Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Mae Atodiad 2 yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau'r Adran. Mae'n cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, cyd-destun a sylwadau yn esbonio perfformiad yr holl feysydd yn ystod 2024-25.

Mae gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol nifer o wahanol wasanaethau a meysydd cyfrifoldeb amrywiol. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

Adroddiadau Archwiliwyr Allanol (os yn berthnasol)

Yn sgil pryder a fynegwyd o ran perfformiad y Cyngor o ran y gyfradd ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, comisiynwyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gynnal archwiliad i drefniadau'r Cyngor. Roedd hyn yn weithred wirfoddol ar ran y Cyngor er mwyn darganfod os oedd diffygion yn ei drefniadau a bod y rhain yn arwain at oedi neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda gofynion y Ddeddf. Cynhaliwyd yr archwiliad mis Ebrill, 2025 a chyhoeddwyd yr adroddiad drafft ddechrau mis Mai, 2025.

Barn yr Archwiliwr yw bod gan y Cyngor drefniadau 'rhesymol' o ran ymateb i ofynion y Ddeddf. Yn sgil derbyn yr adroddiad, bydd rhaglen waith manwl yn cael ei llunio er mwyn mynd i'r afael a'r argymhellion cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eisoes wedi derbyn copi o'r adroddiad ac wedi ei drafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2025.

3. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Pennaeth Cynorthwyol, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol

Atodiad 3: Fersiwn hygyrch – sylwadau mesuryddion perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2

Gwynedd Lewyrchus: Cryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi’r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o’i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Cadw’r Budd yn Lleol	1.Cynnal cyfarfodydd herio perfformiad rheolaeth categori gan adnabod y blaen raglen Caffael ac adrodd ar fesuryddion caffael (ble mae’n briodol): - Gwerth Cymdeithasol - Gwerth am arian - Gwariant lleol gyda busnesau lleol - Mesur amgylcheddol ac ymdrechion lleihau carbon	13.1.25 Rydym wedi cynnal dau gyfarfod herio perfformiad rheolaeth categori yn ystod mis Mai a mis Rhagfyr 2024. Mae hyn wedi bod yn gyfle i adolygu cynlluniau caffael y timau a deall sut maent wedi ceisio ennill gwerth cymdeithasol, gwerth am arian, cefnogi’r farchnad a cheisio lleihau effaith llygru amgylcheddol. Nodwyd hefyd blaen raglenni gwaith y timau a’r rhwystrau. Ebrill 2025: Bydd cyfarfodydd Herio Perfformiad yn parhau yn ystod 2025, gyda’r cyntaf wedi’i drefnu ar gyfer mis Mai 2025.	Ydi – angen parhau gyda’r cyfarfodydd yn ystod 2025.

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi’r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o’i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
	2.Cynnal asesiad o’r cyfleon posib yn sgil gweithredu’r Ddeddf Caffael newydd.	13.1.25 Ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yw na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu cael gwared ar y rheol i gynghorau lleol beidio â phenodi cwmnïau lleol yn uniongyrchol. (Rhan 17 o’r Ddeddf Llywodraeth Lleol 1988). Ebrill 2025: Mae ein rheolau gweithdrefn contractau wedi cael eu hadolygu a’u cymeradwyo yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ar y 6 ^{ed} o Fawrth 2025.	Nac ydi
	3.Datblygu Cynllun Cyfathrebu o ran y nod o Gadw’r Budd yn Lleol.	13.1.25 Mae safleoedd allanol a’r fewnrwyd yn cael eu diweddarau gyda’r bwriad o godi ymwybyddiaeth o’r rheoliadau newydd, technegau caffael a’r nod o gadw’r budd yn lleol maes o law. Ebrill 2025: Mae yna hefyd strategaeth caffael wedi cael ei drafftio, gyda’r bwriad o’i chyflwyno i’r Cabinet yn ystod chwarter cyntaf 2025. Bydd y strategaeth yn ein galluogi ni i gyfleu gweledigaeth caffael y Cyngor.	Ydi

Gwynedd Gymraeg: Sicrhau bod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

Adran a Prosiect Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i erbyn diwedd y flwyddyn chwblhau ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd	1. Cwrdd â'r penaethiaid adran i nodi beth yw cyfraniad a cherrig milltir yr amrywiol adrannau o ran y Strategaeth Iaith.	13.1.25 Cwblhawyd. Ebrill 2025: Cwblhawyd y gwaith.	Ydi
	2. Datblygu Rhaglen Waith Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033	13.1.25 Gwaith yn parhau ar brosiectau amrywiol gan gynnwys Cyfathrebu Clir ac Y Gymraeg mewn busnes. Ebrill 2025: Mae rhaglen waith fras yn ei lle gyda'r bwriad o'i haddasu fel bo'r angen.	Ydi
	3. Cwblhau gwerthusiad o gynllun prosiect 2 flynedd cyntaf 'enwau llefydd' a sefydlu rhaglen prosiect 24/25 *	13.1.25 Cwblhawyd. Ebrill 2025: Cwblhawyd gwerthusiad o raglen waith 2 flynedd cyntaf y prosiect a sefydlwyd rhaglen waith ar gyfer 24/25.	Ydi

	4.Gweithredu Rhaglen waith enwau lleoedd 2024/25	13.1.25 Bu'r Swyddog Prosiect yn ymweld â dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd i gyflwyno Map Enwau Lleoedd y Cyngor a thrafod enwau lleoedd yn gyffredinol. Ar gais Cymdeithas Ddinesig Caernarfon, bu'n cyngori ar arwyddion hen enwau'r dref gyda'r bwriad o osod placiau mewn gwahanol leoliadau. Ymatebwyd i gais Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor oedd eisiau gwybodaeth ar gyfer byrddau dehongli yn Eglwys Llanddeiniolen. Gwnaed ceisiadau ffurfiol i'r Adran Priffyrdd fabwysiadu rhai enwau lleol ar strydoedd fel enwau statudol. Fel rhan o'r gyfres Yr Enw a'r Hanes, cyhoeddwyd dwy erthygl ar y fewnrwyd. Hefyd, bu'r Swyddog Prosiect yn rhoi cyngor ar enwau eiddo i Reolaeth Adeiladu ac aelod o'r cyhoedd oedd â chwyn am newid enw eiddo hanesyddol, a bu'n cyngori'r Adran Priffyrdd ar arwyddion yn ogystal. Ebrill 2025:	Ydi

		Cynhaliwyd nifer o weithgareddau er mwyn hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg gan gynnwys gweithdai enwau lleoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, cymryd rhan mewn podlediad, cynhyrchu ap enwau lleoedd i staff ei ddefnyddio ac erthyglau amrywiol am enwau lleoedd yng Ngwynedd. Rhoddwyd trefniadau ar waith i beilota arwyddion enwau strydoedd mewn 3 categori gwahanol yn Nhrefor, gosod arwyddion gwahanol newydd mewn mannau eraill (newydd a choll) a mabwysiadu enwau strydoedd Cymraeg (e.e. Allt Goch, Allt Rocar a Lôn Groes). Cynorthwywyd mudiadau lleol fel Cyngor Dinesig Caernarfon a Hwb Caernarfon gyda eu hymdrechion i ddefnyddio a hyrwyddo enwau Cymraeg.	
	5.Datblygu Prosiect 15 ymhellach er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc	13.1.25 Penderfynwyd comisiynu cwmni allanol i ymgymryd â gwaith Prosiect 15. Crëwyd briff prosiect ac mae'n barod i'w roi ar system caffael Gwerthu i Gymru yn y flwyddyn newydd. Bydd y cytundeb yn ariannu cynnal y gwaith creadigol am flwyddyn a chreu adroddiad am opsiynau dyfodol y prosiect er mwyn ei	Ydi

		ddatblygu yn ôl anghenion y gynulleidfa. Ebrill 2025: Parhawyd i ddatblygu'r prosiect a chreu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Comisiynwyd cwmni i greu cynnwys a gweithgareddau ar gyfer 2025/2026 yn ogystal â chreu adroddiad am opsiynau ar gyfer y dyfodol.	
	6.Rhoi Cymorth i Fenter Iaith Gwynedd sefydlu yn fenter iaith gynaliadwy a fydd yn cefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Gwynedd	13.1.25 Mae'r cytundebau trosglwyddo bellach wedi eu harwyddo sy'n golygu y bydd modd symud ymlaen i ymgynghori gyda staff a chynnal proses TUPE yn y flwyddyn newydd. Hyderir y gellir cadw at yr amserlen wreiddiol ac y bydd staff wedi trosglwyddo i'r fenter iaith annibynnol erbyn 1 Ebrill, 2025. Ebrill 2025: Rhoddwyd cymorth i Fenter Iaith Gwynedd sefydlu yn fenter iaith gynaliadwy a fydd yn hybu'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Gwynedd. Llwyddwyd i gadw at yr amserlen a chwblhau'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol gan gynnwys trosglwyddo staff i'r endid annibynnol erbyn 1 Ebrill 2025.	Ydi

	7.Cynnal a Datblygu Fforwm Iaith Gwynedd	13.1.25 Mae is-grŵp pobl ifanc y fforwm yn trefnu ymgynghoriad er mwyn casglu ymateb pobl ifanc ynglŷn â'u hagwedd at y Gymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg. Mi fydd holiadur a grwpiau ffocws yn cael eu rhannu ym mis Ionawr gyda'r canlyniadau yn cael eu rhannu gyda'r is-grŵp. Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf y fforwm llawn ganol mis Ionawr. Ebrill 2025: Cynhaliwyd cyfarfodydd Fforwm Iaith Gwynedd yn ystod y flwyddyn gan ymweld â sefydliadau ac ardaloedd gwahanol gan gynnwys Tŷ Gwyrddfai (Adra), Prifysgol Bangor a Chanolfan Glanllyn (Yr Urdd). Sefydlwyd is-grŵp pobl ifanc er mwyn casglu barn ynglŷn â'u hagwedd at y Gymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg er mwyn deall yn well beth ellir ei wneud er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg ganddynt. Trafodwyd nifer o bynciau sydd â chyswllt â'r Gymraeg gan gynnwys adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg.	Ydi
	8.Ymchwilio i ddewis defnydd iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio ein gwasanaethau a deall mwy am agweddau pobl at y Gymraeg.	13.1.25 Mae'r cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddau brosiect ymchwil yn parhau. Mae'r cyntaf yn edrych ar agwedd pobl at y Gymraeg a'r defnydd	Ydi

		ohoni drwy holiaduron ar-lein a'r gwaith dadansoddi canlyniadau yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'r ail brosiect yn canolbwyntio ar ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Gyngor Gwynedd neu ar ran Cyngor Gwynedd. Arsylwyd defnydd iaith y cyhoedd mewn derbynfeydd 'Siop Gwynedd', llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden mewn tri lleoliad daearyddol gwahanol yng Ngwynedd sef Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Casglwyd hefyd ddata am ddewis iaith pobl wrth gysylltu â chanolfan Galw Gwynedd, sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen i ymdrin gyda galwadau ffôn gan drigolion ar draws y sir. Cafwyd sampl data o dros 3200. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau yn digwydd ar hyn o bryd a'r gobaith yw llunio argymhellion i'w cynnwys yn rhaglen waith strategaeth iaith Gwynedd er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg. Ebrill 2025: Bu cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddau brosiect ymchwil. Roedd y cyntaf yn edrych ar agwedd pobl at y Gymraeg a'r defnydd ohoni drwy holiaduron ar-lein. Bwriad yr ail	
--	--	---	--

		ymchwil oedd arsylwi defnydd iaith cwsmeriaid wrth ddefnyddio gwasanaethau Cyngor Gwynedd mewn derbynfeydd Siop Gwynedd, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau yn ogystal â'r Ganolfan Alwadau. Darganfuwyd o'r sampl bod y mwyafrif yn defnyddio Cymraeg yn y llyfrgelloedd a'r canolfannau hamdden ond yn fwy tebygol o ddefnyddio Saesneg os yn defnyddio gwasanaeth mwy ffurfiol fel y ganolfan alwadau.	
--	--	---	--

Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio’n dda ac yn effeithiol

Adran a Prosiect Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi’r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o’i erbyn diwedd y flwyddyn chwblhau ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Adran Gwasanaethau Corfforaethol <i>Hefyd</i> Trawsadrannol Prosiect: Cynllunio’r Gweithlu	1.Creu 'matrices' o swyddi allweddol, wedi eu hasesu ar sail risg i barhad gwasanaethau allweddol y Cyngor (i gynnwys swyddi yn y meysydd gofalu ac addysg), gyda chynlluniau gweithredu wedi eu gosod ar gyfer ymateb i feysydd allweddol.	13.1.25 Mae oedi wedi bod gyda datblygu'r gwaith hwn ymhellach dros gyfnod yr Hydref o ganlyniad yn bennaf i sefyllfa staffio'r tîm, ond mae llawer o hynny wedi ei ddatrys bellach ac rydym wrthi yn rhaglennu'r gwaith ar gyfer y cyfnod lonawr i ddiwedd Mawrth 2025. Ebrill 2025: Mae'r ymarferiad wedi dechrau o fewn adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac YGC, Gwasanaethau Corfforaethol, Economi a Chymuned, Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae pob adran mewn sefyllfa wahanol o ran cynnydd gyda'r gwaith, gyda rhai yn cynnal yr ymarferiad ar draws holl wasanaethau'r adran, tra bod eraill wedi dewis canolbwyntio ar	Nac ydi

		wasanaeth unigol yn unig yn y lle cyntaf. Bydd y garreg filltir hon yn trosglwyddo i gerrig milltir 2025/26, a bydd y grŵp prosiect o'r newydd yn y maes hwn yn ganolog i wthio'r agenda cynllunio'r gweithlu ymysg adrannau'r Cyngor dros y 12 mis sydd i ddod a thu hwnt.	
	2.Cynnal ymarferiad Ffordd Gwynedd ar yr holl broses o ddenu staff i weithlu'r Cyngor, er mwyn parhau i wella'r broses ar gyfer pawb sydd yn ymwneud â hi, ond yn arbennig felly ymgeiswyr am swyddi.	13.1.25 Mae'r garreg filltir hon yn cael ei chyfuno â 3 a 7 isod fel un ffrwd gwaith. Rydym wrthi'n dod ag union sgôp y gwaith at ei gilydd ac yna byddwn yn cynnull grwp o swyddogion o wahanol wasanaethau sydd â mewnbwn i'r rhan hwn o'r gwaith, gan gynnwys o safbwynt cydraddoldeb, adnoddau dynol, cyfathrebu a Ffordd Gwynedd, er mwyn adolygu, datblygu a hwyluso sut mae ymgeiswyr am swyddi yn ein cyrraedd a'r profiad mae nhw yn ei gael o geisio am swyddi â'r Cyngor. Ebrill 2025: Mae'r garreg filltir hon yn trosglwyddo i 2025/26. Mae'r cylch gorchwyl sydd wedi ei lunio yn eang, ac mae cynllun gwaith manwl yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar brofiad yr ymgeisydd wrth ymwneud â'r prosesau recriwtio a phenodi, ac yn edrych i wella'r prosesau hynny. Mae	Nac ydi - mae sgôp y gwaith yn eang ac mae'r garreg filltir yn mynd trosodd i 2025/26.

		cynllun gwaith eglur yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd pwyslais sylweddol ar sicrhau bod y prosesau yn hygyrch a defnyddiol i bawb; dyna'r rheswm pam bod y garreg filltir hon yn cael ei chyfuno â charreg filltir rhif 3 isod.	
	3.Cynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar ein trefniadau recriwtio a phenodi, er mwyn gwella pa mor gynhwysol ydi'r broses.	13.1.25 Gweler carreg filltir 2 uchod. Ebrill 2025: Gweler carreg filltir 2 uchod.	Gweler carreg filltir 2 uchod.
	4.Sefydlu cynllun profiadau gwaith, fel ffrwd arall i geisio denu pobl i mewn i weithlu'r Cyngor.	13.1.25 Trefniadau sylfaenol ar waith i gefnogi unigolion sydd yn dod at y Cyngor am brofiad gwaith. Ebrill 2025: Trefniadau yn eu lle gydag unigolion yn cysylltu i fynegi diddordeb.	Ydi
	5.Creu a sefydlu dangosfwrdd sydd yn darparu gwybodaeth ar hyfforddiant mandadol staff.	13.1.25 Wedi cwblhau Ebrill 2025: Wedi cwblhau.	Ydi

	6.Sefydlu cynllun hyfforddi gweithlu penodol ar gyfer categori staff cyffredinol, i gydweddu a chefnogi cynlluniau sydd eisoes ar waith ar gyfer rheolwyr ac arweinyddiaeth y Cyngor yn ehangach.	13.1.25 Fframwaith newydd wedi ei chreu a'i chyflwyno i'r tîm rheoli. Ebrill 2025: Gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant yn barhaus.	
	7.Adolygu pwrpas y ddogfen Manylion Person, gyda golwg ar wella sut rydym yn cyfleu beth ydi'r meini prawf ar gyfer swyddi a sut i fesur ar gyfer y meini prawf hynny.	13.1.25 Mae'r garreg filltir hon yn cael ei chyfuno â 2 a 3 uchod. Ebrill 2025: Mae'r garreg filltir hon yn cael ei chyfuno â 2 a 3 uchod.	Gweler carreg filltir 2 uchod.
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Sicrhau tegwch i bawb	Mabwysiadwyd cynllun cydraddoldeb newydd y Cyngor ar gyfer 2024 - 2028 ym mis Mawrth 2024. Mae'r gwaith i ddatblygu cerrig milltir manwl ar y cyd ag Adrannau penodol yn parhau, rhestrir isod rhai o'r camau gweithredu ar gyfer 2024/25. 1.Sefydlu fforwm / fforymau staff ar faterion cydraddoldeb.	13.1.25 Gwahoddiad i staff ddangos diddordeb mewn ffurfio fforwm ar faterion cydraddoldeb mewn cyflogaeth - gwahoddiad i'w yrru allan w/c 13/1/25. Ebrill 2025: Wedi cwblhau. Fforwm wedi ei sefydlu, gydag oddeutu 13 aelod staff yn aelodau, gyda'r cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal i gytuno ar gylch gorchwyl.	Ydi
	2.Cyrraedd Lefel 2 cynllun Hyderus o Ran Anabledd.	13.1.25 Cynnydd wedi ei wneud ar baratoi cais ar gyfer yr achrediad. Yn derbyn cyngor	Ydi

		gan swyddog sydd yn cefnogi'r cynllun yma yn Nghymru. Ebrill 2025: Wedi ei gwblhau ac wedi ennill yr achrediad Lefel 2.	
	3.Adnabod bylchau yn yr wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau gofal ac yna cymryd camau i lenwi'r bylchau hynny.	13.1.25 Adroddwyd yn flaenorol fod y gwaith hwn wedi ei oedi, yn sgil y ffaith fod system newydd i gofnodi manylion defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei datblygu, a'i bod felly yn gwneud synnwyr i aros am ddyfodiad y system newydd yn hytrach nag addasu'r system bresennol i hwyluso'r gwaith. Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r datblygiad ar hyn o bryd ydi Rhagfyr 2025. Ebrill 2025: Dim i'w adrodd - gweler diweddariad 13.1.25	Nac ydi
	4.Parhau gyda datblygu a chyflwyno'r fframwaith hyfforddiant, i roi'r adnoddau a'r hyder i'n staff.	13.1.25 Cwrs LHDTTC+ a hyfforddiant i reolwyr ar waith a thrafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng y swyddogion cydraddoldeb a'r Uned Dysgu a	Nac ydi

		Datblygu ynghylch blaenoriaethau eraill. Ebrill 2025: Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar faterion Awtistiaeth yn ei le. Hyfforddiant i aelodau etholedig ar 'Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth yn ei le'.	
	5.Codi ymwybyddiaeth staff o'r drefn newydd ar gynnal asesiad effaith cydraddoldeb.	13.1.25 Mae'r drefn newydd wedi ei seilio ar waith swyddogion cydraddoldeb mudiadau cyhoeddus gogledd Cymru yn sgil mewnbwn gan swyddfeydd y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r teclyn, sydd wedi cael ei addasu ar gyfer defnydd lleol, yn weithredol. Ymhellach, bydd fersiwn newydd o'r dudalen we cydraddoldeb yn fyw erbyn 31/1/25 a fydd yn cynnwys linc cliriach, yn ogystal â threfniadau yn eu lle i fynychu timau rheoli i godi ymwybyddiaeth. Ebrill 2025: Canllawiau / arweiniad yn cael eu paratoi.	Nac ydi - gwaith parhaus.
	6. Gwneud ein gwefan yn fwy hygyrch. Yn ystod tri mis cyntaf y cynllun hwn, byddwn yn ogystal yn datblygu cerrig milltir manwl ar gyfer y meysydd canlynol:	13.1.25 Mae elfennau o'r camau hyn dan arweiniad adrannau eraill o fewn y	Ydi

	a) Gwasanaethau - sicrhau cydraddoldeb yn ein gwaith dydd i ddydd. b) Gwella cydraddoldeb o fewn y maes addysg.	Cyngor, ac mae cerrig milltir manwl wedi eu gosod ar gyfer y rhaglenni gwaith i gyd. Ebrill 2025: Gweler diweddariad Ionawr 2025.	
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Merched Mewn Arweinyddiaeth	1.Parhau i gynnal a datblygu y gweithgareddau sy'n ffurfio sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial, Sgyrsiau dros Baned;	13.1.25 Sgyrsiau dros baned - Cyfres Gaeaf o'r cyfrwng poblogaidd "Sgyrsiau dros Baned" wedi ei threfnu gyda siaradwyr mewnol wedi eu cadarnhau. Sgwrs gyda Sioned Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned wedi ei chynnal ar y 19.11.24. Ffion Edwards Ellis, Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad fydd yn arwain y sgwrs nesaf ar y 14.1.25. Bwriad i fod yn targedu siaradwyr o fwy o amrediad o swyddi i gynnwys Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm hefyd gyda'r bwriad o dargedu merched ifanc i gymryd y cam cyntaf. Bydd sylw'n cael ei roi i hynny wrth drefnu cyfres y Gwanwyn. Rhaglen Ddatblygol - Pumed gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol ar ei chanol gyda 12 merch deilwng o amrywiaeth o adrannau'r Cyngor wedi eu dewis i fod yn rhan o'r gyfres. Parhau i gadw llygad ar ffigyrau canlyniadau y rhaglen hon.	Ydi

		Ar hyn o bryd, mae 45% o ferched sydd wedi mynychu y 4 cohort cyntaf wedi symud ymlaen i swyddi eraill ers mynychu'r rhaglen. Ebrill 2025: Sgyrsiau dros baned wrthi yn cael eu trefnu am y flwyddyn i ddod.	
	2.Parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o faterion 'rhagfarn heb wybod' a hunan ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr a staff;	13.1.25 Sesiynau hyfforddiant 'Rhagfarn Heb Wybod' wedi eu trefnu ar gyfer misoedd y Gaeaf a'r Gwanwyn gan Wwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad. Ebrill 2025: Cyrsiau bellach wedi eu hadfer ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	Ydi
	3.Cynnal digwyddiadau/ymyraethau i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion;	13.1.25 Wedi mynychu cyfres yr Hydref o'r 'Rhwydwaith Rheolwyr' i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect. Rhai dynion wedi cysylltu i holi am fwy o wybodaeth yn dilyn hynny. Gwaith ar y gweill i greu fideo ar gyfer 'Sesiwn Byw gyda'r Prif Weithredwr' er mwyn codi ymwybyddiaeth bellach o waith y prosiect.	Ydi

		Bwriad i gynnal ‘Sgwrs Dros Baned’ penodol ar gyfer dynion gyda siaradwyr o Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC yn egluro’r hyn maent wedi ei wneud i newid diwylliant o fewn yr Adran. Ebrill 2025: Fideo wedi ei chynhyrchu ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched a’i rhannu ar y fewnwyd.	
	4.Parhau i adeiladu ar y sylfaen ystadegol sydd eisoes wedi ei sefydlu er pwrpas mesur llwyddiant y prosiect;	13.1.25 Data ar gynnydd ac effaith y prosiect yn cael ei ddiweddarau yn gyson, ar hyn o bryd, mae’r ffigwr ar gyfer merched sydd mewn swyddi rheolaethol yn 41% sydd yn gynnydd o 11% ers sefydlu’r prosiect. Mae yna wahaniaethau rhwng Adrannau, a gwahaniaethau hefyd rhwng haenau swyddi. Data hefyd yn cael ei gasglu ar effeithiolrwydd ymyraethau fel y rhaglen ddatblygol. Ebrill 2025: Data wedi ei ddiweddarau ddechrau 2025 a bydd yn parhau i gael ei wneud yn gyson.	Ydi

	5.Parhau â'r gwaith o ddarganfod beth mae Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ei wneud i annog merched i ymgeisio am swyddi uwch er mwyn adnabod a rhannu arfer dda, a theilwro ymyraethau yn ôl gofyn Adrannau ble fo angen;	13.1.25 Gwaith yn parhau i gwblhau sgysiau â phob Pennaeth Adran Ebrill 2025: Gwaith yn parhau i gwblhau sgysiau â phob Pennaeth Adran a bwriad i gynnal digwyddiadau Adrannol mewn rhai Adrannau.	Ydi
	6.Parhau i roi sylw i gyfansoddiad pwyllgorau a grwpiau i sicrhau bod cydbwysedd o ran cynrychiolaeth fenywaidd a gwrywaidd;	13.1.25 Carreg filltir wedi ei chyrraedd - Canllawiau'r Cyngor wedi eu diweddarau gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol i fod yn ymateb i'r angen i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng dynion a merched ar baneli cyflogaeth boed hynny yn baneli penodi/apêl cyflogaeth/ medrusrwydd ayb. Ebrill 2025: Gweler uchod.	Ydi
	7.Defnyddio rhwydweithiau megis 'Rhwydwaith Rheolwyr', 'Sesiwn Byw gyda'r Prif Weithredwr' er mwyn codi ymwybyddiaeth pellach o waith y prosiect;	13.1.25 <i>Gweler sylw carreg filltir rhif 3.</i> Ebrill 2025: Cais wedi ei wneud am slot yn Sesiwn Byw nesaf y Prif Weithredwr.	Ydi

	8.Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn ail frandio.	13.1.25 Sgwrs wedi ei chynnal gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ynglŷn ag ail frandio posib. Ebrill 2025: Brand newydd wedi ei lansio ar gyfer y prosiect.	Ydi
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch	1.Cyflwyno system TG newydd lechydd a Diogelwch ar draws y Cyngor.	13.1.25 Mae cyfarfodydd cynnydd yn parhau gyda'r adran TG. Mae dangosfwrdd y system wedi'i greu, ac mae'r wybodaeth o'r hen system wedi'i throsglwyddo'n llwyddiannus. Mae datblygiadau parhaus yn digwydd o ran cynnwys y wybodaeth fydd yn cael ei chyflwyno i'r rheolwyr drwy'r dangosfwrdd. Cynhelir cyfarfod ar ddydd Mercher, 8^{fed} Ionawr, i drafod y datblygiadau hyn, ac mae adborth wedi'i dderbyn gan y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant. Mae gwaith mapio ar ail ran y system, sy'n cynnwys y gofrestr risg, asesiadau risg, archwiliadau a swyddogaethau eraill wedi'i gwblhau ac wedi'i gyflwyno i'r Adran TG.	Nac ydi


		Yn ogystal, mae gwaith wedi'i wneud gan TG ar system gofnodi ceisiadau gwasanaeth. Yn dilyn y penderfyniad i leihau'r defnydd o'r system 'Top Desk,' mae'r ceisiadau hyn bellach wedi'u hintegreiddio i'r system newydd. Er bod y gwaith wedi llithro ychydig o'r cynllun gwreiddiol, mae'r cynnydd ers y cyfarfod diwethaf yn argoeli'n dda. Ebrill 2025: Mae gwaith yn parhau gyda'r Tîm TG ar y system. Mae'r system gefn bellach wedi'i chwblhau, ac mae gwaith profi cychwynnol ar y ffurflenni adrodd wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaethau penodol wedi'u dewis ar gyfer cynnal y peilot unwaith y bydd y profion ar y ffurflenni wedi'u cwblhau. Mae angen sefydlu dangosfwrdd i reolwyr ar yr Hunan Wasanaeth. Mae'r system gofnodi ceisiadau am wasanaethau bellach yn fyw ac yn cael ei defnyddio'n weithredol. Y cam nesaf fydd datblygu adroddiadau i'w cyflwyno i'r Fforymau.	
	2.Cyflwyno cynllun gweithredu manwl drafft i Dîm Rheoli'r Cyngor ar sut i gyrraedd model integredig o reoli iechyd a diogelwch	13.1.25 Mae'r holiadur wedi ei anfon at bob rheolwr yn y Cyngor drwy Fforwm	Nac ydi

		lechyd a Diogelwch Corfforaethol ac ymatebion wedi eu derbyn. Mae cyflwyniadau ac eglurhad wedi'u darparu i rai timau. Mae 26 rheolwr wedi llenwi'r holiadur yn llawn, gyda nifer o rai eraill wedi'i gwblhau'n rhannol. Bydd neges yn cael ei hanfon at gynrychiolwyr y Fforwm lechyd a Diogelwch Corfforaethol ynghylch y sefyllfa uchod cyn diwedd yr wythnos. Ebrill 2025: Mae'r Holiadur Modelau Diogelwch ar gyfer y modelau Embryonig a Gweithredol wedi'i anfon at bob rheolwr gwasanaeth. Mae'r data a gasglwyd yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd ar gyfer pob adran. Bydd cyflwyniad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn digwydd ym mis Mehefin, lle bydd y canfyddiadau a'r rhaglen waith yn cael eu rhannu, gan gynnwys trafodaethau ar welliannau gyda phob adran unigol.	
	3.Adolygu trefn gyfathrebu ac adnoddau i gynorthwyo'r Rheolwyr a'r Penaethiaid Cynorthwyol ar draws y Cyngor.	13.1.25 Mae gwybodaeth wedi dechrau cael ei chasglu er mwyn datblygu dangosfwrdd ar gyfer y Penaethiaid. Mae trafodaethau wedi digwydd	Nac ydi

		gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth. Ebrill 2025: Mae rhywfaint o waith cychwynnol wedi'i gynnal, ond mae'r camau pellach yn dibynnu ar ddatblygiadau cysylltiedig megis ceisiadau gwasanaeth a'r system lechyd a Diogelwch. Mae'n hanfodol bod y systemau hyn yn weithredol er mwyn sicrhau mynediad at yr wybodaeth graidd angenrheidiol i allu cwblhau'r gwaith hwn yn effeithiol.	
--	--	--	--

Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol

Switch to English



CA01 - % o wariant referiw
caffael gyda chyflenwyr lleol

59.0%

Caffael

CC04 - Cyfartaledd ateb Canolfan
Gyswllt (eiliadau)

65

Cyswllt Cwsmer a Chofrestru

CC05c - Nifer dyddiau cyfartalog
i benderfynu ar gymhwysedd
unigolyn, am Fathodyn Glas

1.99

Cyswllt Cwsmer a Chofrestru

CE01 - % cytundeb cyflogaeth
wedi eu cyflwyno cyn neu erbyn
dyddiad cychwyn y gweithiwr

68.0%

Cefnogol

CE09 - % staff sydd heb
adnewyddu DBS yn amserol

0.8%

Cefnogol

CY01 - Nifer ar gyfartaledd o
eitemau newyddion a / neu
adroddiadau yn y wasg sy'n dei...

4.8

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

CY02 - % unigolion wedi nodi
sgôr o 5 allan o 5 i wefan y
Cyngor

92.0%

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

DD1.1 - I ba raddau mae'r
hyfforddiant yn eich helpu i
gyflawni eich rôl? Sgor allan o 10

9.4

Dysgu a Datblygu

DI1 - % taflenni penderfyniad
wedi eu cyhoeddi yn
ddwyieithog o fewn 5 diwrnod ...

92.0%

Democratiaeth a Iaith

ID1 - % RIDDORS gafodd eu
hadrodd o fewn 10 diwrnod

35.0%

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

ID2 - % unigolion oedd wedi cael
eu cyfeirio at lechyd
Galwedigaethol oedd wedi cael...

22.0%

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

ID3 - % o reolwyr wedi cwblhau
cwsr IOSH Rheoli'n Ddiogel

72.0%

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

ID4 - % o weithwyr sydd wedi
dychwelyd i'r gwaith yn dilyn
ffysio

93.0%

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

YG1 - Nifer digwyddiadau
gwybodaeth

3

Ymchwil a Gwybodaeth

YG2 - % ceisiadau rhyddid
gwybodaeth atebwyd o fewn 20
dydd gwaith

75.8%

Ymchwil a Gwybodaeth

YG3 - % ceisiadau diogelu data
atebwyd o fewn yr amserlen

82.5%

Ymchwil a Gwybodaeth

AD01 - Nifer o ddyddiau salwch
staff y pen yn y Cyngor ar
gyfartaledd

12.94

Ymgynghorol Adnoddau Dynol

AD04 - Nifer dyddiau cyfartalog i
gwblhau arfarniad swydd

35.0

Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Pwrpas

Galluogi'r Cyngor i anelu at werth am arian, cadw'r budd yn lleol a gwella safon caffael y Cyngor

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch

Risgiau Oren

Risgiau Melyn

Risgiau Gwyrdd


Cliciwch yma i weld y risgiau

8

CA01 - Cyflenwyr Lleol (Chwarterol)

Canran o wariant refeniw caffael gyda chyflenwyr lleol

Blwyddyn 2023-2024 2024-2025



Sylw

Chwarter 4

Gwariant Refeniw yn Unig

Mae y canran lleol wedi cynyddu 1% i 59% o gymharu a'r flwyddyn ariannol diwethaf. Nid oes categori o wariant penodol yn gyfrifol am y cynnydd. Mae'n ynghlwm a cynnydd neu ostyngiad bychan ar draws nifer o gategorïau Mi welsom gynnydd yng ngwariant gofal cartref, tai a chefnogaeth a trafndiaeth lle mae'r ddarpariaeth yn lleol a gostyngiad bychan yng ngwariant ar ofal preswyl plant lle mae cyfran sylweddol ohono yn cael ei ddarparu tu allan i Wynedd.

Refeniw a Chyfalaf

Fe welsom ostyngiad o 1% i 55% o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae hyn yn bennaf ynghlwm a chynnydd o £2.3m yng ngwariant y Cyngor gyda chwmni prosesu gwastraff o du allan y Sir. Roedd y cynnydd yma ynghlwm a phrynu 15 cerbyd graeanu a 4 cerbyd ailgylchu.

Crynhoad Blynnyddol 2024/25

Refeniw yn unig -

O gyfanswm gwariant refeniw o £178.7m, mae'r Cyngor wedi gwario £105.5m gyda busnesau lleol o Wynedd yn ystod 2024/25.

Gwariant Cyfalaf a Refeniw -


O gyfanswm gwariant cyfalaf a refeniw o £212m, mae'r Cyngor wedi gwario £116m gyda busnesau lleol o Wynedd yn ystod 2024/25.

Mae'r prif feysydd ble mae gwariant yn gadael y Sir yn parhau i fod yn gynlluniau Adeiladwaith Arbenigol, Systemau TG a Gofal Preswyl i Oedolion a Phlant. Gyda pryniant mewn meysydd fel Gofal Cartref, Tai a Chefnogaeth, Cludiant Ysgolion, Hurio Offer ac Ailgylchu yn cael ei ddarparu gan gwmnïau lleol.

CA02 - Hunan-asesiad Caffael (Blynnyddol)

Datblygu'r maes Caffael (Sgor 0-5)

Blwyddyn 2023-2024 2024-2025



Sylw

Diweddariad ar ein ymdrechion i wella'r sgôr hyd at ddiwedd Mawrth 2025

Ers y cyfnod adrodd diwethaf rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer y rheoliadau caffael newydd sydd mewn grym ers Chwefror 2025. O ganlyniad mae ein rheolau gweithdrefn contractau wedi cael ei ddiweddarau a'i gymeradwy yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ar y 6ed o Fawrth. Mae yna gryn waith wedi digwydd i geisio diweddarau ein trefniadau yn sgil y newidiadau yn ogystal â chofrestru a deall systemau newydd. Mae'r gwaith o adolygu ein polisiau caffael wedi cychwyn, gyda'r trefniadau o gyflwyno'r drafft terfynol o'r strategaeth caffael newydd mewn lle.

Crynhoad Blynnyddol 2024/25

Rydym hefyd wedi dadansoddi ymateb 2024/25 i'r holiadur ar mae'r sgôr wedi gwella ar y cyfan.

Mae'r gwelliant sylweddol yn sgil gosod trefniadau adrodd ar berfformiad y Timau Rheolaeth Categori sydd yn ymgymryd a'r gwaith caffael ein prif gontractau.

Mae'r holiadur hefyd wedi amlygu meysydd gwella a byddwn yn canolbwyntio ar y rhain yn ystod 2025/26. Mae rhain yn bennaf:

- Diffinio'r rôl a dyletswyddau swyddogion sydd yn ymwneud a rheolaeth categori
- Diweddarau ein strategaeth a pholisi caffael
- Creu deunyddiau dysgu a hyfforddiant
- Diweddarau ein templedi a systemau caffael



Yn ôl

Ymlaen




Tud. 229




Pwrpas
Darparu gwasanaeth gweinyddol, hyblyg a chywir, er mwyn rhyddhau amser staff y Cyngor iddynt wasanaethu pobl Gwynedd

Switch to English

Risgiau Cyfredol




CE01 - Cytundebau Cyflogaeth



Sylw

Mae trefniadau penodi rhai Adrannau yn golygu nad yw'r wybodaeth yn cyrraedd y Gwasanaeth Cefnogol yn amserol i weinyddu cytundeb. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Cefnogol flaenoriaethu gwaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y Gwasanaeth Cyflogau yn amserol er mwyn gallu talu cyflog.


CE02 - Bodlonrwydd Ymgeiswyr Swyddi (Chwarterol)



Sylw

Mae 96% o'r adborth yn nodi nad oed angen gwelliant i'r system. Mae sylw yn cael ei roi i'r ymgeiswyr hynny sydd wedi rhoi sylwadau yn nodi gwelliannau i'r system wrth ymgeisio am swydd drwy'r system ar lein.


CE03 - Bodlonrwydd Gwasanaethau'r Cyngor (Chwarterol)



Sylw

Amlen wedi mynd ar goll wedi arwain at oedriad mewn prosesu dogfennau. Sefyllfa staffio wedi arwain at oedriad mewn argraffu cardiau adnabod.


CE04 - Tîm Cyllid a Gweinyddol - Amserlenni



Sylw

Proseswyd yr amserlenni (a dderbyniwyd) i dalu cyflogau i staff erbyn dyddiad cau y Gyflogres perthnasol


CE05 - Tîm Cyllid a Gweinyddol - Profion Llygaid



Sylw

Proseswyd y ceisiadau ad-daliadau am brawf llygaid gan staff o fewn y terfyn amser


CE06 - Tîm Cyllid a Gweinyddol - Benthyciad Car



Sylw

Proseswyd y ceisiadau Benthyciadau Ceir gan staff o fewn y terfyn amser o 10 diwrnod gwaith


CE08 - Tîm Cyllid a Gweinyddol - HS11



Sylw

Mae sefyllfa staffio y Gwasanaeth yn golygu nad yw'n bosib mewnbynnu y ffurflenni damweiniau i gyd yn amserol. Mae gwaith blaenoriaethu wedi ei wneud er mwyn sicrhau fod y rhai sydd eu hangen wedi eu mewnbynnu ac wedi cael eu hadrodd. Dros y misoedd nesaf bydd system electroneg yn cael ei rhyddhau fydd yn galluogi Adrannau i fewnbynnu yn syth ar lein. Golygai hyn na fydd angen cwblhau ffurflen bapur a ni fydd gofyn i'r Gwasanaeth Cefnogol fewnbynnu'r wybodaeth.


CE09 - DBS



Sylw

Mae staff yn absennol o'r gwaith am wahanol resymau yn golygu nad ydynt yn gallu cwblhau ffurflen yn amserol.

CE10 - Gwasanaeth Cyflogau (Chwarterol)



Sylw

Ceisiadau i'r Gwasanaeth Cyflogau am daliadau brys o ganlyniad fod y Gwasanaeth Cefnogol wedi derbyn y wybodaeth yn hwyr. Sylw yn cael ei roi i atgoffa Rheolwr bod angen anfon yr wybodaeth yn amserol i brosesu cyflog i staff.

CE99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw
Mae Gwasanaeth Cyflogau ac Adnoddau Dynol yr Adran Addysg wedi trosglwyddo i'r Gwasanaeth Cefnogol yn ystod y flwyddyn diwethaf. Ynghyd a hynny mae staff y Gwasanaeth i gyd wedi symud i un ystafell sydd wedi arwain at gydwethio da.

Bu i'r Gwasanaeth Cefnogol ymuno gyda Taith Deithiol Llesiant i hyrwyddo Hunanwasanaeth Staff yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn cynnal sesiynau treialu mae sesiynau hyfforddiant ar y system Hunanwasanaeth Staff wedi eu trefnu ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm, roedd sesiwn mis Awst yn llwyddiannus iawn gyda'r mynychwyr yn gweld gwerth i'r sesiwn. Mae'r Modiwl Salwch bellach yn 'fyw' ar y system Hunanwasanaeth Staff a hynny ers mis Mehefin. Mae hyn yn galluogi Rheolwyr i fewnbynnu absenoldeb salwch yr aelod staff yn syth i'r system sy'n golygu nad oes angen i'r Gwasanaeth Cefnogol fewnbynnu'r wybodaeth. Mae gwaith yn parhau i drosglwyddo trefniadau talu cyflogau staff Cartrefi Preswyl o amserlenni papur i fod yn defnyddio'r modiwlau sydd yn y System Hunanwasanaeth Staff. Mae diolchiadau a canmoliaeth wedi ei dderbyn gan Reolwyr yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant am y gwaith yma. Mae elfen o'r modiwl Recriwtio a Penodi sydd yn y System Hunanwasanaeth Staff yn y broses o gael ei brofi.

Mynychodd aelodau staff y Gwasanaeth Ffair Swyddi yn ystod mis Hydref i hyrwyddo swyddi gwag y Cyngor.

Pwrpas


Galluogi'r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal sgwrs ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor.
Galluogi'r cyhoedd i hunanwasanaethu ar wefan Cyngor Gwynedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.

Switch to English

Risgiau Cyfredol



CY01 - Eitemau newyddion a/neu adroddiadau yn y wasg



Sylw

Yn ystod 2024-25, cyhoeddwyd 89 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a wnaeth arwain at 469 o eitemau newyddion, sef sgôr gyfartalog am y flwyddyn o 5.3. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol a'r sgôr a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2023-24), sef 5.1.


Dros yr un cyfnod, fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd ddelio gyda 510 o ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau.

Roedd rhai o'r materion y bu i'r gwasanaeth ddelio a hwy dros y flwyddyn yn eithriad i'r arferol, gan gynnwys:

- y sylw sydd wedi deillio o euogfarn a charcharu Neil Foden, mabwysiadu'r Cynllun Ymateb i droseddau Foden a sefydlu'r Bwrdd Prosiect i symud y gwaith o ymchwilio i'r hyn aeth o'i le a'r gwersi i'w dysgu;
- y mesurau mae'r Cyngor wedi eu cyflwyno i reoli ail-gartrefi a sicrhau mwy o dai fforddiadwy, gan gynnwys cyfarwyddyd Erthygl 4;
- newid yn arweinyddiaeth y Cyngor.

Yn ychwanegol, fe wnaeth sawl mater arall gymryd cyfran sylweddol o amser ac adnoddau'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys pleidlais y Cyngor ar y gyfundrefn Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, cyflwyno ardaloedd 20mya, yr Etholiad Cyffredinol ac Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

CY02 - Sgôr y wefan



Sylw

Nifer ymweliadau â'r wefan am y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 2,790,297

Cyfanswm wnaeth lenwi'r holiadur bodlonrwydd yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 1,796
Nifer wnaeth roi sgôr o 5 allan o 5 yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 1,619
Cyfartaledd y nifer wnaeth roi sgôr o 5 allan o 5 yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 90%


Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 roedd 177 o ymatebwyr wedi rhoi sgôr o 4 neu lai a hynny am y rhesymau canlynol:

- Roedd 45 cwyn am y wefan a oedd o fewn rheolaeth y Gwasanaeth Cyfathrebu i'w datrys, e.e.
- Cysylltau wedi torri. Mae rhain yn cael eu cywiro wrth i'r cwynion ddod i mewn.
 - Roedd rhai pobl methu â chanfod gwybodaeth wrth ddefnyddio'r system chwilio ar y wefan. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu wedi comisiynu Technoleg Gwybodaeth i ddatblygu system chwilio newydd sy'n defnyddio deallusrwydd artifisial er mwyn arddangos canlyniadau gwell. Mae'r system newydd wrthi'n cael ei phrofi ar hyn o bryd.
 - Cafwyd cwynion oherwydd problemau gyda'r system sy'n rhoi gwybod am ysgolion wedi cau pan gawsom gyfnod o dywydd garw. Gan fod hon yn system fewnol wedi'i datblygu gan Technoleg Gwybodaeth, gofynnwyd iddynt ymchwilio i berfformiad y system. Er mwyn datrys y broblem, maent bellach wedi ail-ddatblygu'r system gan ddefnyddio technoleg mwy diweddar.

Roedd gweddill y cwynion, 132 ohonynt, y tu allan i reolaeth y Gwasanaeth Cyfathrebu ac felly wedi cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaethau perthnasol er gweithrediad, gyda'r cynnig o gefnogaeth i ddatrys y broblem os oeddem yn gallu bod o gymorth, e.e.

- Cwynion am systemau ar-lein sydd ar gael ar y wefan, ond sy'n cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw'n uniongyrchol gan wasanaethau eraill yn y Cyngor, e.e. y system Ceisiadau Cynllunio, a'r system Llyfrgelloedd newydd.
- Cwynion am ddiffyg gwybodaeth neu ddim digon o wybodaeth am rai gwasanaethau / prosiectau ar y wefan.
- Cwynion cyffredinol am ansawdd gwasanaethau'r Cyngor, e.e. pobl yn methu cael ateb pan yn ffonio, problemau casglu gwastraff.

CY05 - Ceisiadau Gwasanaeth



Sylw

Cyflwynwyd 261,549 cais am wasanaeth yn 2024-25 sef 4,472 cais yn fwy nac yn 2023-24.

Gwelodd rhai gwasanaethau leihad bychan yn y ceisiadau a gyflwynwyd, e.e. mynediad ysgol 298 yn llai na'r flwyddyn flaenorol a Newid Cyfeiriad Treth Cyngor 202 yn llai. Roedd un gwasanaeth - Methu Casgliad Gwastraff / Ailgylchu - wedi gweld lleihad sylweddol - 4,335 cais yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Gwelodd nifer o wasanaethau gynydd bychan yn nifer y ceisiadau, e.e. cais am gasgliad gwastraff gardd 716 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a Cais i dderbyn bil Treth Cyngor yn electronig 316 yn fwy. Roedd un gwasanaeth - Archebu slot Canolfan Ailgylchu - wedi gweld cynnydd sylweddol eto eleni - 7,559 cais yn fwy na 2023-24.

Yn ystod 2024-25 cyflwynwyd ffurflenni hunanwasanaeth ar-lein newydd, e.e. cais am gymorth gan Dîm Iechyd Meddwl Cyngor Gwynedd (derbyniwyd 74 cais ers Mai 2024); cais am wasanaeth Teleofal (derbyniwyd 100 cais ers Gorffennaf 2024); cais i weld gwybodaeth sydd gan y Cyngor amdanoch fel unigolyn (derbyniwyd 14 cais ers Tachwedd 2024).

CY99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw

Ymgysylltu Cyhoeddus:
Penodwyd aelod newydd o staff i arwain ar waith ymgysylltu'r Cyngor ym mis Mehefin 2024. Ers hynny, mae'r swyddog wedi bod yn adolygu ein trefniadau ymgysylltu ac yn ymchwilio i arfer da yn y maes. Ers ei phenodiad hefyd, mae'r Swyddog wedi cynorthwyo sawl gwasanaeth ar draws y Cyngor i gynnal ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau, e.e. Ymgynghoriad Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, Ymgynghoriad Gorchmynion Cŵn, ymgysylltu ynghylch trefniadau newydd maes parcio Dinas Dinlle a Strategaeth Ariannol y Cyngor ac yn fywaf diweddar cynnal Arolwg Gwynedd 2025 oedd yn ceisio barn y cyhoedd am holl wasanaethau'r Cyngor.

Gwefan y Cyngor:
- Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau ar gyfer Dyfeisiau Symudol) (Rhif 2) 2018 ddaeth i rym yn 2021, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i geisio gwella safon hygyrchedd gwefan gorfforaethol y Cyngor. Er mwyn cyflymu'r broses, penodwyd Swyddog Cynnwys y Wefan (dros dro) ym mis Ionawr eleni, sydd wedi bod yn canolbwyntio ers hynny ar gywiro problemau hygyrchedd ar y wefan a datblygu canllawiau i staff ar gyfer paratoi gwybodaeth i'w gynnwys ar y wefan mewn fformat hygyrch.
- Mae llawer o wybodaeth newydd wedi'i gynnwys ar y wefan yn ystod y flwyddyn, e.e. fideos BSL am brif wasanaethau'r Cyngor, gwybodaeth Gwynedd Oed Gyfeillgar, gwybodaeth Hinsawdd a Natur, gwybodaeth Awtistiaeth, gwybodaeth Help i fyw'n annibynnol.

Dylunio Digidol:
- cynhyrchwyd cyfres o ffilmiau fideo byr i amlygu gwahanol elfennau o waith y Cyngor gan gynnwys Llewyrch o'r Llechi, Merched mewn Arweinyddiaeth, Cyfleoedd i Bobl Anabl, Digartrefedd ac Ysgol Trefertnyr;
- cynhyrchwyd a lansiwyd cyfres o bodlediadau "Mam, Dad a Magu" sydd ar gael ar lwyfannau megis Spotify;
- cynhyrchwyd logo a brand newydd ar gyfer cynllun "Merched mewn Arweinyddiaeth", llyfryn digidol Cynllun Yfory a phecn brandio ar gyfer Academi Gofal Gwynedd.

Ymateb i Argyfwng:
Gweithredwyd cynlluniau cyfathrebu mewn ymateb i Storm Bert (Tachwedd), Storm Darragh (Rhagfyr) a Storm Eowyn (Ionawr)

Gwefannau Cymdeithasol:
Lansiwyd cyfrif Bluesky newydd ar gyfer y Cyngor ac ymgych i'w hyrwyddo.

Cyfathrebu Mewnol:
Cynhyrchwyd a cyhoeddwyd tri rhifyn o gylchgrawn staff "Gair o Gyngor" a cryfhawyd y trefniadau ar gyfer dathlu llwyddiannau staff.

Pwrpas

Cefnogi trefniadau democratiaeth y Cyngor a hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus
Cyfieithu - Darparu gwasanaeth cyfieithu safonol i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion Gwynedd
Democratiaeth - Darparu cefnogaeth o safon i Gynghorwyr Gwynedd
laith a Chraffu - Hyrwyddo a hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd y sir ac arwain ar drefniadau craffu Gwynedd

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch


Risgiau Oren

Risgiau Melyn7

Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

DI1 - Taflenni Penderfyniad



Sylw

Cyhoeddwyd 13 taflen penderfyniad ym mis Mawrth, gydag un ohonynt wedi ei gyhoeddi ar y 6ed diwrnod. Dros y flwyddyn mae 6 taflen penderfyniad wedi eu cyhoeddi ar y 6ed diwrnod yn sgil amrywiol broblemau ee problem gyda'r system Modern.gov a'r wifi, swyddogion ddim yn ymateb a newidiadau staffio.

DI2 - Bodlonrwydd Aelodau (Blynyddol)

Sylw

Anfonwyd holiadur bodlonrwydd i'r Aelodau ar 2 Rhagfyr gan ofyn am ymateb erbyn 16 Rhagfyr. Erbyn 17 Rhagfyr roedd 36 o ymatebion wedi eu derbyn, ffigwr ychydig yn uwch na llynedd. Roedd 26 o'r aelodau wedi nodi fod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Tîm Democratiaeth yn Dda iawn gyda 9 yn nodi fod y gwasanaeth yn Dda ac 1 wedi nodi Derbyniol. Nid oedd sylwadau pellach wedi eu nodi gan yr aelod oedd wedi dewis yr opsiwn Derbyniol.

Derbyniwyd sylwadau positif megis bod y Tîm bob amser yn barod i helpu gydag unrhyw ymholiad ac yn gyfeillgar iawn, yn ymateb yn sydyn ac yn weithgar.

O ran y cwestiwn am unrhyw ddatblygiadau i gefnogi aelodau ymhellach yn eu rôl gwnaethpwyd sylw am yr awydd i dderbyn copïau papur o Raglenni gan un aelod a sylw arall am roi mwy o wybodaeth i aelodau cyn iddyn nhw ddarllen amdano yn y papurau newydd.

Dyma enghraifft o un sylw pellach gafodd ei roi: “yr holl staff democratiaeth bob amser pen arall y ffôn ac yn ymateb i ebyst yn ddiymdroi. Trefniadau cyfarfodydd Zoom a Teams gan y tim yn hynod effeithiol. Trefniadau TG a chyfieithu yn rhwydd hefyd. Diolch yn fawr eto leni.”

DI3 - Gwasanaeth Cyfieithu

Sylw

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i'r tîm Cyfieithu unwaith eto, gyda chynnydd yn y galw am y gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn benodol. Mae'r tîm wedi cyfieithu bron i 400,000 o eiriau bob mis, ar gyfartaledd, ynghyd â chyfieithu ar y pryd mewn bron i 60 o gyfarfodydd bob mis, ar gyfartaledd. Fel tîm, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i gyrff allanol yn ogystal, sy'n dod ag incwm i'r Cyngor. Mae'r tîm wedi cofleidio technoleg newydd yn ystod y flwyddyn yn ogystal. Mae cyfieithu peirianyddol bellach yn rhan o feddalwedd y tîm, CyfieithuCymru. Er gwaetha'r ffaith bod hyn yn newid sylweddol i'n ffordd o weithio, mae'r feddalwedd yn hwyluso'n gwaith yn fawr. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn treialu'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ar lwyfan Teams yn sgil datblygiadau gan Microsoft, a hynny'n llwyddiannus. Mae nifer o gyfarfodydd anffurfiol bellach wedi trosglwyddo o Zoom i Teams gyda chyfieithu ar y pryd yn gweithio'n dda. Mae cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Pwyllgor sy'n cael eu cynnal yn hybrid yn gweithio'n dda, fodd bynnag un rhwystr parhaus yr ydym wedi'i wynebu ydi nad yw'n bosib cynnig y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd hybrid anffurfiol yn ystafelloedd cyfarfod y Cyngor gan nad yw safon y sain yn ddigon da. Mae'r gwasanaeth TG yn edrych i mewn i hyn ac yn gobeithio gallu dod o hyd i ddatrysiad boddhaol i wella'r sain yn yr ystafelloedd hyn. Mae'r tîm wedi derbyn adborth ffafriol iawn gan ein cwsmeriaid o fewn y Cyngor a'r tu allan, a dyma ddetholiad o'r sylwadau diweddaraf i ni eu derbyn:

"Gwerthfawrogi'n fawr iawn yr holl waith caled er mwyn cyfieithu'r Llawlyfr Ysgol ac yn ddiolchgar iawn i chi am gadw templed y cyfieithiad yr un fath yn union â'r Gymraeg. Diolch o galon."
"Dim ond nodyn o ddiolch i chi'ch dwy am y cyfieithu heddiw, mi oedd o'n help mawr i ni. Gobeithio bod bob peth wedi mynd yn iawn i chi gyda'r trefniadau."
"Diolch gymaint am dy gymorth Dydd Gwener efo'r linc a heddiw i ti a dy dim yn ystod y Cwest. Gobeithio aeth bob dim yn iawn. Fe ddywedodd y tyst bod y cyfieithu wedi gweithio'n wych! Diolch eto"
"Diolch yn fawr i'r person ddaru gyfieithu y dogfennau y rhif prosiect isod i mi, rili gwerthfawrogi!"
"Diolch am y cyfieithiad cyflym ar gyfer cael hysbysebu."
"Thank you for all your help – can you tell the translator she was fantastic."
"Gwaith wedi ei wneud yn sydyn ac yn dda-a minnau wedi llenwi yr holiadur. Diolch i'ch tîm Bethan."
"Ymddiheuriadau ond mi wnaethon anghofio diolch i'r cyfieithydd ar ddiwedd y cyfarfod. Ar ôl i Elin adael mi wnaeth y cadeirydd diolch yn fawr iddi a gofyn iddynt basio mlaen. Mi roedd canmoliaeth dros safon y cyfieithu gan aelod arall hefyd."

DI4 - Gwasanaeth Craffu ac Iaith

Sylw

Gweithredwyd ar argymhellion Archwilio Cymru er mwyn gwella gweithrediad pwyllgorau craffu. Am y tro cyntaf cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal i drafod maes penodol sef tai cymdeithasol ac iechyd. Gwahoddwyd swyddogion o'r cyrff perthnasol i'r pwyllgor er mwyn ateb cwestiynau aelodau. Cychwynwyd ar y gwaith o gynnal ymchwiliad craffu i drefniadau diogelu ysgolion.

Rhoddwyd cefnogaeth i sefydlu menter iaith annibynnol a fydd yn arwain y gwaith o hybu defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd. Cydweithwyd gyda nifer o bartneriaid er mwyn cynyddu defnydd o'r Gyrraeg ar draws gwasanaethau'r Cyngor, trwy Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a parhawyd i gydlynu a datblygu Fforwm Iaith Gwynedd.

DI5 - Gwasanaeth Democratiaeth

Sylw

Mae'r prif ffocws eto eleni wedi bod ar barhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchel er gwaethaf newidiadau i'r tîm yn y cefndir. Mae pob pwyllgor wedi ei gynnal yn amserol a llwyddiannus, yn ogystal â nifer o gyfarfodydd ychwanegol megis cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn ym mis Hydref, cyfarfodydd ychwanegol o is-bwyllgor trwyddedu a phaneli gwaharddiad ysgolion. Mae pob pwyllgor oedd i'w we-ddarlledu wedi digwydd yn llwyddiannus, a'r ffigyrau gwyllo yn parhau yn gymharol uchel. Llwyddwyd i oresgyn unrhyw broblemau technegol oedd yn codi yn y siamrau.

Gwelwyd cynnydd yn y gwaith o gefnogi Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ystod 2024/25, gan sefydlu a chefnogi cyfarfodydd yr is-bwyllgor Trafnidiaeth a'r is-bwyllgor Cynllunio yn ychwanegol i gefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r is-bwyllgor Economi. Mae gan y gwasanaeth hefyd fewnbwn i'r gwaith datblygol ar gyfer sefydlu'r uchod, yn ogystal a gwaith pellach wrth ddatblygu trefniadau craffu'r CBC, trefniadau datblygu is-bwyllgorau pellach a gweddarlledu i'r dyfodol.

Mae'r holiadur i Aelodau wedi dangos cefnogaeth frwd i'r gwasanaeth, gyda nifer o aelodau yn diolch am y cymorth maent wedi ei dderbyn gan y tîm. Croesawyd aelod newydd yn ystod y flwyddyn, a ffarwelwyd â dwy aelod dros yr un cyfnod. Yn ogystal, croesawyd plant a phobl ifanc i'r siambr ar dri achlysur gwahanol dros y flwyddyn er mwyn ceisio annog eu diddordeb a'u dealltwriaeth mewn llywodraeth leol. Bydd adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yn manylu ar yr holl gefnogaeth a roddwyd i Aelodau Gwynedd, aelodau awdurdodau eraill ac i'r cyhoedd dros y flwyddyn a fun.

Pwrrpas

Galluogi arweinyddion i fod yn fedrus yn y maes trwy roi arweiniad cymwys, hwyluso a gwerthuso system reoli iechyd, diogelwch a llesiant effeithiol

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch

Risgiau Oren

Risgiau Melyn


Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

ID1 - Canran RIDDORS (Chwarterol)

Canran RIDDORS gafodd eu hadrodd o fewn 10 diwrnod

Blwyddyn ● 2024-2025




Sylw

Yn ystod chwarter 4, cafodd 17 digwyddiad eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd 6 wedi eu hadrodd o fewn 10 diwrnod gyda'r gweddill yn hwyr. O 'r rhai oedd yn hwyr roedd 4 yn golygu gorfod casglu gwybodaeth ychwanegol.

ID2 - Cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol

Canran o unigolion oedd wedi cael eu cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol oedd wedi cael eu gweld o fewn 10 diwrnod gwaith

Blwyddyn ● 2024-2025



Sylw

Derbyniwyd 105 cyfeiriad ar gyfer Mawrth. 46% o rheiny wedi ei cyfeirio oherwydd straen a 32% oherwydd problemau cyhyrsgerbydol. Nifer o gyfeiriadau yn benodol o'r Adran Addysg y tro yma - 40%. Ar gyfer cyfeiriadau mis Mawrth, roedd (70 cyfeiriad) 66% angen derbyn ymgynghoriad llawn, a cafodd (16 unigolyn) 22% o rheiny eu gweld o fewn 10 diwrnod gwaith.

Nid yw pob cyfeiriad yn golygu bod angen ymgynghoriad. Rydym yn brysbennu a chysylltu hefo pob unigolyn yn dilyn derbyn cyfeiriad er mwyn penderfynu'r ffordd ymlaen boed os ydi hynny yn ymgynghoriad brys, cyfeiriad at gwnsela, ffisio, neu awgrymu i Reolwr gynnal asesiad risg straen ynghyd a cynllun gweithredu llesiant. Mewn rhai achosion nid yw ymgynghoriad yn syth yn addas ac mae angen dal yn ol am gyfnod.


Rydym wedi colli aelod staff yn ystod mis Rhagfyr ac mae rhestrau aros am apwyntiad yn cynyddu. Mae'r Ymgynghorydd newydd wrthi cael ei hyfforddi. Bydd angen cyfnod o hyfforddiant cyn y bydd yn gallu cynnal clinigau ei hun.

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, derbyniwyd cyfanswm o 1051 o gyfeiriadau i'r Uned Iechyd Galwedigaethol. Oherwydd y trosiant sylweddol o staff yn ystod y cyfnod hwn, bu angen hyfforddi gweithwyr newydd, gan arwain at gyfnodau lle nad oedd y capasiti llawn ar gael i gwrdd â'r galw. Nid oedd pob unigolyn o fewn y ffigwr uchod angen ymgynghoriad llawn, gan fod yr Uned yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a dulliau cymorth, megis cwnsela, ffisiotherapi, cyfeirio at asiantaethau eraill, a chynghori rheolwyr ar gynnal asesiadau risg fel cam cychwynnol. Serch hynny, er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y trosiant staff uchel, llwyddwyd i gynnig apwyntiadau i 154 o unigolion o fewn 10 diwrnod gwaith.

ID3 - Hyfforddiant Rheoli'n Ddiogel (Chwarterol)

Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel

Blwyddyn ● 2024-2025




Sylw

Mae hyn yn gynydd o 15% (roedd y ffigwr yn 57% diwedd 2023-24) Mae 85 rheolwr/arweinydd tîm/pennaeth ysgol (18%) yn ychwanegol wedi cofrestru ar gyfer cwrs yn 2025 a 2026.

ID4 - Triniaeth Ffisio (Chwarterol)

Canran o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn ffysio

Blwyddyn ● 2024-2025



Sylw


Ar ddechrau'r pedwerydd chwarter roedd 39% o staff a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth Ffisio ar absenoldeb salwch, 11% ar ddyletswyddau wedi'u haddasu a 50% ar ddyletswyddau arferol. Ar ôl gorffen eu triniaeth, ar ddiwedd y chwarter, roedd y 39% o absenoldeb salwch wedi gostwng i 7%, roedd y nifer ar ddyletswyddau wedi'u haddasu wedi cynyddu o 11% i 32% ac roedd y nifer o staff ar ddyletswyddau arferol wedi cynyddu o 50% i 61%. Felly roedd 93% o weithwyr mewn gwaith ar ddiwedd y chwarter.

Nod y Gwasanaeth Ffisio yw darparu triniaeth gynnar ac effeithiol i gyflawni lefelau cyflym a llwyddiannus o welliannau. Mae'r mwyafrif o gyfeiriadau mae'r gwasanaeth ffysio yn ei dderbyn yn y categori aciwt sef unigolyn y profi symptomau am hyd at 6 wythnos neu lai. Mae nifer y cyfeiriadau ar gyfer cyflyrau cronig wedi gostwng y chwarter hwn, o'i gymharu â chwarteri blaenorol. Mae hynny oherwydd penderfyniad a wnaethpwyd yn dilyn trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Ffisio, yr Ymgynghorwyr Iechyd Galwedigaethol a'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol i gyfeirio unigolion sydd â chyflwr cronig, sef unigolyn sydd yn profi symptomau am 12 wythnos a drosodd, at wasanaethau eraill megis meddyg teulu fyddai'n eu cyfeirio at wasanaeth NERS National Exercise by Referral Scheme), neu Arbenigwyr Cyhyrsgerbydol Ysbyty sydd a'r gallu i ymateb i'w cyflwr cronig a chynnig darpariaeth ehangach.

ID5 - Cwnsela (Chwarterol)

Canran o weithwyr sydd yn cael mwy na 4 sesiwn cwnsela

Blwyddyn ● 2024-2025



Sylw

Cyfanswm Cyfeiriadau - Yn ystod Chwarter 4, cafodd 121 o gyfeiriadau eu gwneud i'r Gwasanaeth Cwnsela.

Cais am Sesiynau Ychwanegol - Cyflwynodd y Gwasanaeth Cwnsela gais am sesiynau ychwanegol ar gyfer 88 unigolion yn ystod chwarter 4. Golygai hyn fod cynnydd o 34% i gymharu a chwarter 3.

Cyfanswm y flwyddyn: Cyfeiriwyd 455 o unigolion i'r Gwasanaeth Cwnsela, 237 o'r rhai hynny angen sesiynau ychwanegol tu hwnt i'r 4 sydd yn cael ei ariannu yn gorfforaethol.

Mae'r data yma yn dangos canran uchel o gefnogaeth gan reolwyr i sesiynau ychwanegol, gan awgrymu y gweler gwerth yn y Gwasanaeth Cwnsela a'i allu i gynorthwyo llesiant staff. Byddwn yn parhau i fonitro ac asesu'r broses i sicrhau'r defnydd gorau o'r gwasanaeth. Mae'n bosib y byddwn efallai mewn sefyllfa i drafod cynyddu'r ddarpariaeth o 4 i 6 sesiwn cwnsela yn y dyfodol.

Pwrpas

Helpu pob aelod o staff i reoli gwybodaeth a chadw at ddeddfau gwybodaeth. Datblygu gallu'r Cyngor a'i bartneriaid i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau i bobl Gwynedd.

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch

Risgiau Oren

1

Risgiau Melyn

2


Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

YG1 - Digwyddiadau Gwybodaeth

Nifer digwyddiadau gwybodaeth wedi eu hadrodd i'r Swyddog Diogelu Data

Blwyddyn ● 2023-2024 ● 2024-2025



Sylw


Bu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y digwyddiadau a adroddwyd (41 yn 2024/25, o'i gymharu â 51 yn 2023/24), ac yn y nifer o'r rhain oedd ddigon difrifol i'w hadrodd ymlaen i'r Comisiynydd Gwybodaeth (2 yn 2024/25, o'i gymharu â 3 yn 2023/24).

O fewn hyn, y categori digwyddiadau lle cafwyd y gostyngiad mwyaf oedd 'Data e-bostiwyd at y derbynnydd anghywir' (7 llai na'r flwyddyn flaenorol). Rydym wedi parhau â'r gwaith o hyfforddi swyddogion a chodi'u hymwybddiaeth o'r maes yma, a hefyd bu rhai newidiadau i'r system e-bost i geisio gwneud camgymeriadau'n llai tebygol. Rydym hefyd yn adolygu'r achosion sydd wedi digwydd ac yn gweithio gydag adrannau i leihau'r risg bod yr un peth yn digwydd eto.

YG2 - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (Chwarterol)

Canran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith

Blwyddyn ● 2023-2024 ● 2024-2025



Sylw


Perfformiad ychydig is na 2023/24 ond yn parhau o fewn y math o amrediad welwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae dashfwrdd yn cael ei ddatblygu fydd yn rhoi gwell, a chyflymach, gwybodaeth am amser ymateb i geisiadau fel y gellir adnabod a datrys problemau yn gynt. Yn ogystal, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal archwiliad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod mis Ebrill, a gobeithir y bydd hyn yn arwain at argymhellion ymarferol ar gyfer cynyddu'r canran atebir o fewn yr amser targed.

YG3 - Ceisiadau Diogelu Data (Chwarterol)

Canran Ceisiadau Diogelu Data atebwyd o fewn yr amserlen

Blwyddyn ● 2023-2024 ● 2024-2025



Sylw

Cafwyd 57 cais yn ystod y flwyddyn, gyda 47 o'r rhain yn cael eu hateb o fewn yr amserlen; hyn yn gyfran rhywfaint uwch na'r flwyddyn flaenorol (81.4%).

Roedd mwyafrif y ceisiadau (38 o'r 57) yn ymwneud â'r maes gofal ac roedd mwyafrif y rhai atebwyd yn hwyr (7 o'r 10) hefyd yn y maes hwnnw, ond o ystyried maint a chymhlethdod rhai o'r ceisiadau yma a'r adnodd bychan sydd yna i'w hateb yn yr adrannau mae cynnal perfformiad ar y lefel yma yn ganmoladwy.

YG4 - Prosiectau Ymchwil a Gwybodaeth

Sylw

O edrych ar y flwyddyn gyfan, dyma'r prif uchafbwyntiau yn ychwanegol i'r hyn sydd ym mesurau meintiol y Gwasanaeth:

Darparu sesiynau hyfforddi: Diogelu Data 511 o staff (yn cynnwys staff cartrefi preswyl); iGwynedd 101 o staff; Gweithdai Gwybodaeth i 98 o reolwyr.

Datblygu dulliau'r Cyngor ar gyfer dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys cyhoeddi dashfyrrdau newydd ar Ddigwyddiadau Gwybodaeth, Risgiau Corfforaethol, Dynodiadau Iaith, Hyfforddiant Mandadol, Prisiau Tai yng Ngwynedd a Gwybodaeth am ardaloedd lleol.

Cwblhau prosiect i symud neu ddileu'r holl ffeiliau oedd yn y lleoliad 'Archif' ar serfers y Cyngor.

Fel rhan o'r prosiect Llechen Lân (gofal pobl hŷn yng Ngwynedd) gwnaed gwaith sylweddol ar fodelu newidiadau demograffig ac anghenion gofal i'r dyfodol - cyrhaeddodd y gwaith yma restr fer o 4 ar draws Prydain yng ngwobrau LARIA ar gyfer gwaith ymchwil lleol.

Datblygu proses newydd ddiogel a llai llafurus, ar gyfer rhannu ffeiliau iGwynedd gyda sefydliadau eraill.

Dadansoddi data treth gyngor, a chynnal ymchwil i holi deilyddion tai oedd gynt yn ail gartrefi, er mwyn cynhyrchu adroddiad ymchwil ar effaith y premiwm treth gyngor yng Ngwynedd.


Datblygu trefn newydd, mwy effeithlon i bobl allu gwneud cais Diogelu Data (cael gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor amdanynt eu hunain) ar-lein.

Trefn newydd o fwletinau fel y gall y Pennaeth Adran fel SIRO (Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth) y Cyngor dynnu sylw gweddill y Cyngor at faterion allweddol sydd angen eu sylw.

YG6 - Galwadau Cymorth iGwynedd

Nifer galwadau cymorth iGwynedd â gwblhawyd

Blwyddyn ● 2024-2025




Sylw

Data rheolaethol yw hyn yn fwy na mesur perfformiad mewn gwirionedd, ond mae'n rhoi syniad o'r galw ar y rhan o'r Gwasanaeth sy'n cefnogi iGwynedd. Cafwyd cyfnod o alw neilltuol uchel tua canol y flwyddyn o ganlyniad i'r gwaith ar gau y ffolder Archif.

YG7 - Gwaith y Tîm Ymchwil

Nifer prosiectau, tasgau ac ymholiadau y bu'r Tîm Ymchwil yn gweithio arnynt yn ystod y mis

Blwyddyn ● 2024-2025



Sylw

Data rheolaethol yw hwn yn fwy na mesur perfformiad mewn gwirionedd, ond mae'n rhoi syniad bras o lwyth gwaith y tîm. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn bu'r tîm cyfan yn cydweithio â gwasanaethau eraill o'r Cyngor ac ymgynghorydd allanol ar brosiect i gyflawni gwelliannau yn y ffordd mae'r Cyngor yn dadansoddi, defnyddio a chyflwyno data. Bu hwn yn brosiect sylweddol sydd yn naturiol wedi golygu llai o gapasiti ar gyfer gwneud prosiectau eraill yn y cyfnod yma.

Pwrpas

Cefnogi rheolwyr a staff i fod yn fodlon a chynhyrchiol yn eu gwaith, trwy roi cyngor ac arweiniad ar faterion cyflogaeth a chydraddoldeb a hyrwyddo arferion da yn y ddau faes. Arwain y gwaith o ddatblygu'r amodau gwaith lleol, a sicrhau fod materion cydraddoldeb yn ganolog i waith ein holl wasanaethau.

Switch to English


Risgiau Cyfredol



Cliciwch yma i weld y risgiau

AD01 - Dyddiau Salwch

Nifer o ddyddiau salwch staff y pen yn y Cyngor ar gyfartaledd



Sylw


Rydym wedi bod yn ymwybodol ers misoedd bellach fod lefelau absenoldebau salwch y Cyngor ar gynnydd. Gall hynny, yn rhannol, fod yn sgil gwell cofnodi yn dilyn cyflwyno system gofnodi gyfrifiadurol newydd ar ddechrau'r flwyddyn. Wedi dweud hynny, mae'r patrwm o gynnydd yn y lefelau yn un cyson ers sawl blwyddyn bellach, ac o ystyried yr amcangyfrif cost llynedd oedd yn deillio o absenoldebau salwch, heb son wrth gwrs am y pryder ynghylch iechyd a lles staff a'r pryder posib am wytnwch gwasanaethau, yna mae angen sefydlu cynllun pendant yn ystod 2025/26 i ymateb. Dyma'r camau cychwynol:

- Mae'r sefyllfa wedi ei huchafu i lefel uchel yn y gofrestr risg corfforaethol erbyn hyn.
- Bydd eitem yn dadansoddi lefelau salwch y Cyngor ac yn gosod allan gamau gweithredu yn cael ei chyflwyno yn nghyfarfod y tim rheoli unai fis Mehefin neu Gorffennaf.
- Ystyrir fod adnabod adnodd penodol i weithio'n llawn amser ar y cynllun ymateb yn angenrheidiol ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau fod y pwyslais priodol yn cael ei roi ar y sefyllfa.
- O adnabod adnodd penodol fel swyddog prosiect, bydd y pwyslais ar fuddsoddi amser gyda rheolwyr ac arweinyddion timau i ddilyn prosesau a chynnal sgysiau gyda staff yn amserol ac effeithiol. Dengys ymchwil yn y maes adnoddau dynol fod cynnal sgysiau amserol ac effeithiol gyda staff, a dilyn prosesau'n gywir a chyson, yn arwain at ostyngiad mewn lefelau salwch dros amser.

Mae yna lawer o waith da yn digwydd eisoes gan adrannau a nifer o wasanaethau cefnogol yn y maes hwn, ond mae'r sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd yn gofyn am ymyrraeth benodol i ychwanegu at hynny.

AD02 - Pwyllgor Apel Cyflogaeth (Blynyddol)

Nifer penderfyniadau apeliadau sy'n cefnogi penderfyniad y cyflogwr (achosion cyflogaeth sydd yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Apel Cyflogaeth)




Sylw

Mae'r mesur hwn yn dangos faint o benderfyniadau mae'r pwyllgor apelau cyflogaeth yn eu cymryd sydd yn newid penderfyniad gwreiddiol swyddogion y Cyngor mewn perthynas ag achosion cyflogaeth. Gall gwaith y Pwyllgor hwn arwain at amlygu pryderon am benderfyniadau neu batrymau o ddigwyddiadau ac achosion o fewn y Cyngor yn gyffredinol neu adrannau penodol. Yn ystod 2024/25, bu i'r pwyllgor ymdin â tri achos, gyda dau o'r penderfyniadau hynny yn gyson â phenderfyniad gwreiddiol swyddogion y Cyngor. Caniatawyd un apêl, gan addasu penderfyniad gwreiddiol y cyflogwr.

AD03a - Disgyblaeth

Nifer dyddiau gymerwyd i gwblhau achosion disgyblu staff




Sylw

Yn ystod 2024/25 bu 117 achos disgyblu o'r newydd, ac ar hyn o bryd mae 97 o'r achosion hynny wedi eu cau. Mae'r graff yn dangos fod yna 5 o achosion dros y flwyddyn hyd yn hyn wedi mynd dros y terfyn uchaf ar gyfer cwblhau achosion. Byddwn fel tim yn y lle cyntaf yn edrych ar amgylchiadau'r achosion hyn a dod i gasgliad ynghylch a oedd yna unrhyw beth y gallwn ni ddylanwadu arno er mwyn eu datrys ynghynt. Un pryder cyffredinol ynghylch achosion disgyblu ydi'r effaith ar lesiant staff, boed yn staff sydd yn wynebu honiadau, yn staff sydd yn cynnal ymchwiliadau, neu yn dystion. Yn eithaf diweddar mae bwrdd iechyd yn ne Cymru wedi cyhoeddi astudiaeth ar y pwnc, fel sail i geisio gwella prosesau. Wedi derbyn gwybodaeth ynghylch yr astudiaeth hon dros y bythefnos ddiwethaf, credwn y byddai o fudd i ni adolygu a dod i gasgliad ynghylch a oes unrhyw welliannau y gallwn eu cynnig i'n prosesau ni yma yn Nghyngor Gwynedd. Nid yw hynny'n golygu fod modd osgoi yr angen i gynnal achosion disgyblu bob tro, ac yn anffodus gall llawer o achosion fod yn gymhleth iawn, ond credwn fod angen o leiaf herio ein hunain fel cyflogwr ynghylch sut yr ydym yn delio â sefyllfaoedd o'r math.

AD03b - Cwynion (Chwarterol)

Nifer achosion cwynion staff




Sylw

Ymdrinwyd â 15 o gwynion ffurfiol gan staff dros y flwyddyn 2024/25, gyda 6 achos yn cyrraedd yn ystod chwarter 4 y flwyddyn. Mae'r niferoedd hyn yn isel, o ystyried fod y ffigwr yn cynnwys y cwynion ffurfiol hynny sydd yn cael eu cyflwyno o fewn ein hysgolion, yn ogystal â gwasanaethau ehangach y Cyngor. Mae'r sylwadau sydd wedi eu rhoi yn yr adroddiad hwn ynghylch effaith prosesau ar lesiant staff mewn perthynas ag achosion disgyblu yn berthnasol ar gyfer prosesau cwynion hefyd, ac byddwn yn cydweithio â'r undebau llafur er mwyn gweld sut y gellir gwella prosesau yn y maes hwn lle'n bosib.

AD04 - Perfformiad cwblhau Arfarniadau Swydd

Nifer dyddiau i gwblhau arfarniad swydd




Sylw

Yn ystod 2024/25 derbyniwyd 147 o geisiadau gan reolwyr i gynnal arfarniadau cyflog swyddi, a chwblhawyd 126 o'r rheini. Mae'r amser i gwblhau arfarniadau yn parhau i amrywio, gyda'r cyfartaledd yn bron i 35 diwrnod. Wedi dweud hynny, mae'r graff yn dangos fod yna bum arfarniad a gymerodd lawer yn fwy o amser na hynny i'w datrys ac rydym fel tim eisoes wedi adolygu'r sefyllfaoedd hynny. Prif sgil effaith hynny i adrannau wrth fod yna oedi ydi eu gallu i newid swyddi / ailstrwythuro gwasanaethau, a gan ddeall pa mor bwysig yw hynny rydym fel tim yn ceisio blaenoriaethu yr arfarniadau hynny, weithiau ar draul unrhyw geisiadau i ol ddyddio addasiadau swyddi a newidiadau cyflog i staff unigol. Yn nghanol y galw ehangach sydd ar y Gwasanaeth hefyd, mae arfarniadau yn dueddol o gael y flaenoriaeth gyda'r isaf pan fo yna bwysau sylweddol ar y tim.

AD05 - Cydraddoldeb (Chwarterol)

Nifer asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi eu cwblhau o fewn y Cyngor



Sylw

Nid oes dim pellach i'w adrodd fel ffigyrau ar y mesur hwn, ac mae'r tim wedi dod i'r casgliad nad yw'r mesur, ar ei ffurf bresennol, yn cyfrannu yn effeithiol at ddeallt perfformiad yn y maes. Cytunwyd i gyflwyno mesur o'r newydd ar gyfer 2025/26 a fydd yn canolbwyntio ar gasglu barn swyddogion ar y defnydd y maent yn ei wneud ar asesiadau cydraddoldeb i wella penderfyniadau wrth ddatblygu polisiâu a chynlluniau.

AD99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth (Chwarterol)

Sylw

Wedi cyfnod o absenoldebau salwch a swyddi gwag yn sgil ymddiswyddiadau, mae'r Gwasanaeth bellach yn gweithio ar gapasiti llawn.

Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd ynghlwm â dylunio a rhedeg sawl proses benodi ar brif swyddogion, o fewn y Cyngor ac yn rhanbarthol.

Bu i'r swyddogion cydraddoldeb gynnal sesiwn hyfforddiant ar y maes cydraddoldeb i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn ddiweddar, gan dderbyn adborth ardderchog gan gynrychiolwyr y sefydliad hwnnw.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
CA01	Caffael	Canran o wariant refeniw caffael gyda chyflenwyr lleol - Chwarterol	Chwarter4	59.0%	Chwarter 4 Gwariant Refeniw yn Unig Mae y canran lleol wedi cynyddu 1% i 59% o gymharu a'r flwyddyn ariannol diwethaf. Nid oes categori o wariant penodol yn gyfrifol am y cynnydd. Mae'n ynghlwm a cynnydd neu ostyngiad bychan ar draws nifer o gategorïau Mi welsom gynnydd yng ngwariant gofal cartref, tai a chefnogaeth a trafnidiaeth lle mae'r ddarpariaeth yn lleol a gostyngiad bychan yng ngwariant ar ofal preswyl plant lle mae cyfran sylweddol ohono yn cael ei ddarparu tu allan i Wynedd. Refeniw a Chyfalaf Fe welsom ostyngiad o 1% i 55% o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae hyn yn bennaf ynghlwm a chynnydd o £2.3m yng ngwariant y Cyngor gyda chwmni prosesu gwastraff o du allan y Sir. Roedd y cynnydd yma ynghlwm a phrynu 15 cerbyd graeanu a 4 cerbyd ailgylchu. Crynhoad Blynnyddol 2024/25 Refeniw yn unig - O gyfanswm gwariant refeniw o £178.7m, mae'r Cyngor wedi gwario £105.5m gyda busnesau lleol o Wynedd yn ystod 2024/25. Gwariant Cyfalaf a Refeniw - O gyfanswm gwariant cyfalaf a refeniw o £212m, mae'r Cyngor wedi gwario £116m gyda busnesau lleol o Wynedd yn ystod 2024/25. Mae'r prif feysydd ble mae gwariant yn gadael y Sir yn parhau i fod yn gynlluniau Adeiladwaith Arbenigol, Systemau TG a Gofal Preswyl i Oedolion a Phlant. Gyda pryniant mewn meysydd fel Gofal Cartref, Tai a Chefnogaeth, Cludiant Ysgolion, Hurio Offer ac Ailgylchu yn cael ei ddarparu gan gwmnïau lleol.
CA02	Caffael	Datblygu'r Maes Caffael (Sgôr 0-5)	Chwarter4		Diweddariad ar ein ymdrechion i wella'r sgôr hyd at ddiwedd Mawrth 2025 Ers y cyfnod adrodd diwethaf rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer y rheoliadau caffael newydd sydd mewn grym ers Chwefror 2025. O ganlyniad mae ein rheolau gweithdrefn contractau wedi cael ei ddiweddarau a'i gymeradwy yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ar y 6ed o Fawrth. Mae yna gryn waith wedi digwydd i geisio diweddarau ein trefniadau yn sgîl y newidiadau yn ogystal â chofrestru a deall systemau newydd. Mae'r gwaith o adolygu ein polisiâu caffael wedi cychwyn, gyda'r trefniadau o gyflwyno'r drafft terfynol o'r strategaeth caffael newydd mewn lle. Crynhoad Blynnyddol 2024/25 Rydym hefyd wedi dadansoddi ymateb 2024/25 i'r holiadur ar mae'r sgôr wedi gwella ar y cyfan. Mae'r gwelliant sylweddol yn sgîl gosod trefniadau adrodd ar berfformiad y Timau Rheolaeth Categori sydd yn ymgymryd a'r gwaith caffael ein prif gontractau. Mae'r holiadur hefyd wedi amlygu meysydd gwella a byddwn yn canolbwyntio ar y rhain yn ystod 2025/26. Mae rhain yn bennaf: •Diffinio'r rôl a dyletswyddau swyddogion sydd yn ymwneud a rheolaeth categori •Diweddarau ein strategaeth a pholisi caffael •Creu deunyddiau dysgu a hyfforddiant •Diweddarau ein templedi a systemau caffael

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
CE01	Cefnogol	Cyflwyno cytundeb cyflogaeth (sydd yn gyfreithiol i fod wedi eu cyflwyno) cyn neu erbyn dyddiad cychwyn y gweithiwr	Mawrth	68.0%	Mae trefniadau penodi rhai Adrannau yn golygu nad yw'r wybodaeth yn cyrraedd y Gwasanaeth Cefnogol yn amserol i weinyddu cytundeb. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Cefnogol flaenoriaethu gwaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y Gwasanaeth Cyflogau yn amserol er mwyn gallu talu cyflog.
CE02	Cefnogol	Ymgeiswyr am swydd - "A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth y derbynioch gan Cefnogol?"	Chwarter4	96.0%	Mae 96% o'r adborth yn nodi nad oed angen gwelliant i'r system. Mae sylw yn cael ei roi i'r ymgeiswyr hynny sydd wedi rhoi sylwadau yn nodi gwelliannau i'r system wrth ymgeisio am swydd drwy'r system arlein.
CE03	Cefnogol	Gwasanaethau'r Cyngor - "A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth y derbynioch gan Cefnogol?"	Chwarter4	98.0%	Amlen wedi mynd ar goll wedi arwain at oediad mewn prosesu dogfennau. Sefyllfa staffio wedi arwain at oediad mewn argraffu cardiau adnabod.
CE04	Cefnogol	Tîm Cyllid a Gweinyddol - Prosesu ceisiadau gwaith o fewn y terfyn amser sydd wedi ei osod: Amserlenni	Mawrth	100.0%	Proseswyd yr amserlenni (a dderbyniwyd) i dalu cyflogau i staff erbyn dyddiad cau y Gyflogres perthnasol
CE05	Cefnogol	Tîm Cyllid a Gweinyddol - Prosesu ceisiadau gwaith o fewn y terfyn amser sydd wedi ei osod: Profion llygaid	Mawrth	100.0%	Proseswyd y ceisiadau ad-daliadau am brawf llygaid gan staff o fewn y terfyn amser
CE06	Cefnogol	Tîm Cyllid a Gweinyddol - Prosesu ceisiadau gwaith o fewn y terfyn amser sydd wedi ei osod: Benthyciad car	Mawrth	100.0%	Proseswyd y ceisiadau Benthyciadau Ceir gan staff o fewn y terfyn amser o 10 diwrnod gwaith

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
CE08	Cefnogol	Tim Cyllid a Gweinyddol - Prosesu ceisiadau gwaith o fewn y terfyn amser sydd wedi ei osod: HS11	Mawrth	98.0%	Mae sefyllfa staffio y Gwasanaeth yn golygu nad yw'n bosib mewnbynnu y ffurflenni damweiniau i gyd yn amserol. Mae gwaith blaenoriaethu wedi ei wneud er mwyn sicrhau fod y rhai sydd eu hangen wedi eu mewnbynnu ac wedi cael eu hadrodd. Dros y misoedd nesaf bydd system electroneg yn cael ei rhyddhau fydd yn galluogi Adrannau i fewnbynnu yn syth ar lein. Golygai hyn na fydd angen cwblhau ffurflen bapur a ni fydd gofyn i'r Gwasanaeth Cefnogol fewnbynnu'r wybodaeth.
CE09	Cefnogol	Canran o staff sydd heb adnewyddu DBS yn amserol	Mawrth	0.8%	Mae staff yn absennol o'r gwaith am wahanol resymau yn golygu nad ydynt yn gallu cwblhau ffurflen yn amserol.
CE10	Cefnogol	Ceisiadau i'r Gwasanaeth Cyflogau am daliadau cyflog brys o ganlyniad i gamgymeriad yng ngweinyddiaeth Cefnogol neu weinyddu hwyr gan reolwr, fel % o'r cyfanswm ceisiadau	Chwarter4	0.13%	Ceisiadau i'r Gwasanaeth Cyflogau am daliadau brys o ganlyniad fod y Gwasanaeth Cefnogol wedi derbyn y wybodaeth yn hwyr. Sylw yn cael ei roi i atgoffa Rheolwr bod angen anfon yr wybodaeth yn amserol i brosesu cyflog i staff.
CE99	Cefnogol	Gweithgaredd arall y Gwasanaeth	Mawrth		Mae Gwasanaeth Cyflogau ac Adnoddau Dynol yr Adran Addysg wedi trosglwyddo i'r Gwasanaeth Cefnogol yn ystod y flwyddyn diwethaf. Ynghyd a hynny mae staff y Gwasanaeth i gyd wedi symud i un ystafell sydd wedi arwain at gydweithio da. Bu i'r Gwasanaeth Cefnogol ymuno gyda Taith Deithiol Llesiant i hyrwyddo Hunanwasanaeth Staff yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn cynnal sesiynau treialu mae sesiynau hyfforddiant ar y system Hunanwasanaeth Staff wedi eu trefnu ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm, roedd sesiwn mis Awst yn llwyddiannus iawn gyda'r mynychwyr yn gweld gwerth i'r sesiwn. Mae'r Modiwl Salwch bellach yn 'fyw' ar y system Hunanwasanaeth Staff a hynny ers mis Mehefin. Mae hyn yn galluogi Rheolwyr i fewnbynnu absenoldeb salwch yr aelod staff yn syth i'r system sy'n golygu nad oes angen i'r Gwasanaeth Cefnogol fewnbynnu'r wybodaeth. Mae gwaith yn parhau i drosglwyddo trefniadau talu cyflogau staff Cartrefi Preswyl o amserlenni papur i fod yn defnyddio'r modiwlau sydd yn y System Hunanwasanaeth Staff. Mae diolchiadau a canmoliaeth wedi ei dderbyn gan Reolwyr yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant am y gwaith yma. Mae elfen o'r modiwl Recriwtio a Penodi sydd yn y System Hunanwasanaeth Staff yn y broses o gael ei brofi. Mynychodd aelodau staff y Gwasanaeth Ffair Swyddi yn ystod mis Hydref i hyrwyddo swyddi gwag y Cyngor.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
CY01	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Nifer ar gyfartaledd o eitemau newyddion a / neu adroddiadau yn y wasg sy'n deillio o ddatganiadau i'r wasg rhagweithiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn ystod y mis	Mawrth	4.8	Yn ystod 2024-25, cyhoeddwyd 89 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a wnaeth arwain at 469 o eitemau newyddion, sef sgôr gyfartalog am y flwyddyn o 5.3. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol a'r sgôr a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2023-24), sef 5.1. Dros yr un cyfnod, fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd ddelio gyda 510 o ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau. Roedd rhai o'r materion y bu i'r gwasanaeth ddelio a hwy dros y flwyddyn yn eithriad i'r arferol, gan gynnwys: •y sylw sydd wedi deillio o euogfarn a charcharu Neil Foden, mabwysiadu'r Cynllun Ymateb i droseddau Foden a sefydlu'r Bwrdd Prosiect i symud y gwaith o ymchwilio i'r hyn aeth o'i le a'r gwersi i'w dysgu; •y mesurau mae'r Cyngor wedi eu cyflwyno i reoli ail-gartrefi a sicrhau mwy o dai fforddiadwy, gan gynnwys cyfarwyddyd Erthygl 4; •newid yn arweinyddiaeth y Cyngor. Yn ychwanegol, fe wnaeth sawl mater arall gymryd cyfran sylweddol o amser ac adnoddau'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys pleidlais y Cyngor ar y gyfundrefn Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, cyflwyno ardaloedd 20mya, yr Etholiad Cyffredinol ac Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
CY02	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	% unigolion ddefnyddiodd y tectlyn bodlonrwydd i gynnig sgôr am y wefan wnaeth nodi sgôr o 5 allan o 5	Mawrth	92.0%	Nifer ymweliadau â'r wefan am y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 2,790,297 Cyfanswm wnaeth lenwi'r holiadur bodlonrwydd yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 1,796 Nifer wnaeth roi sgôr o 5 allan o 5 yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 1,619 Cyfartaledd y nifer wnaeth roi sgôr o 5 allan o 5 yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025): 90% Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 roedd 177 o ymatebwyr wedi rhoi sgôr o 4 neu lai a hynny am y rhesymau canlynol: Roedd 45 cwyn am y wefan a oedd o fewn rheolaeth y Gwasanaeth Cyfathrebu i'w datrys, e.e. - Cysylltau wedi torri. Mae rhain yn cael eu cywiro wrth i'r cwynion ddod i mewn. - Roedd rhai pobl methu â chanfod gwybodaeth wrth ddefnyddio'r system chwilio ar y wefan. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu wedi comisiynu Technoleg Gwybodaeth i ddatblygu system chwilio newydd sy'n defnyddio deallusrwydd artifffisial er mwyn arddangos canlyniadau gwell. Mae'r system newydd wrthi'n cael ei phrofi ar hyn o bryd. - Cafwyd cwynion oherwydd problemau gyda'r system sy'n rhoi gwybod am ysgolion wedi cau pan gawsom gyfnod o dywydd garw. Gan fod hon yn system fewnol wedi'i datblygu gan Technoleg Gwybodaeth, gofynnwyd iddynt ymchwilio i berfformiad y system. Er mwyn datrys y problem, maent bellach wedi ail-ddatblygu'r system gan ddefnyddio technoleg mwy diweddar. Roedd gweddill y cwynion, 132 ohonynt, y tu allan i reolaeth y Gwasanaeth Cyfathrebu ac felly wedi cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaethau perthnasol er gweithrediad, gyda'r cynnig o gefnogaeth i ddatrys y problem os oeddem yn gallu bod o gymorth, e.e. - Cwynion am systemau ar-lein sydd ar gael ar y wefan, ond sy'n cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw'n uniongyrchol gan wasanaethau eraill yn y Cyngor, e.e. y system Ceisiadau Cynllunio, a'r system Llyfrgelloedd newydd. - Cwynion am ddiffyg gwybodaeth neu ddim digon o wybodaeth am rai gwasanaethau / prosiectau ar y wefan. - Cwynion cyffredinol am ansawdd gwasanaethau'r Cyngor, e.e. pobl yn methu cael ateb pan yn ffonio, problemau casglu gwastraff.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
CY05	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Nifer ceisiadau gwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno ar-lein	Mawrth	25,027	Cyflwynwyd 261,549 cais am wasanaeth yn 2024-25 sef 4,472 cais yn fwy nac yn 2023-24. Gwelodd rhai gwasanaethau leihad bychan yn y ceisiadau a gyflwynwyd, e.e. mynediad ysgol 298 yn llai na'r flwyddyn flaenorol a Newid Cyfeiriad Treth Cyngor 202 yn llai. Roedd un gwasanaeth - Methu Casgliad Gwastraff / Ailgylchu - wedi gweld lleihad sylweddol - 4,335 cais yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Gwelodd nifer o wasanaethau gynydd bychan yn nifer y ceisiadau, e.e. cais am gasgliad gwastraff gardd 716 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a Cais i dderbyn bil Treth Cyngor yn electronig 316 yn fwy. Roedd un gwasanaeth - Archebu slot Canolfan Ailgylchu - wedi gweld cynnydd sylweddol eto eleni - 7,559 cais yn fwy na 2023-24. Yn ystod 2024-25 cyflwynwyd ffurflenni hunanwasanaeth ar-lein newydd, e.e. cais am gymorth gan Dîm Iechyd Meddwl Cyngor Gwynedd (derbyniwyd 74 cais ers Mai 2024); cais am wasanaeth Teleofal (derbyniwyd 100 cais ers Gorffennaf 2024); cais i weld gwybodaeth sydd gan y Cyngor amdanoch fel unigolyn (derbyniwyd 14 cais ers Tachwedd 2024).
CY99	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Gweithgaredd arall y Gwasanaeth	Mawrth		Penodwyd aelod newydd o staff i arwain ar waith ymgysylltu'r Cyngor ym mis Mehefin 2024. Ers hynny, mae'r swyddog wedi bod yn adolygu ein trefniadau ymgysylltu ac yn ymchwilio i arfer da yn y maes. Ers ei phenodiad hefyd, mae'r Swyddog wedi cynorthwyo sawl gwasanaeth ar draws y Cyngor i gynnal ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau, e.e. Ymgynghoriad Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, Ymgynghoriad Gorchmynion Cŵn, ymgysylltu ynghylch trefniadau newydd maes parcio Dinas Dinlle a Strategaeth Ariannol y Cyngor ac yn fwyaf diweddar cynnal Arolwg Gwynedd 2025 oedd yn ceisio barn y cyhoedd am holl wasanaethau'r Cyngor. Gwefan y Cyngor: - Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrrf y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau ar gyfer Dyfeisiau Symudol) (Rhif 2) 2018 ddaeth i rym yn 2021, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i geisio gwella safon hygyrchedd gwefan gorfforaethol y Cyngor. Er mwyn cyflumu'r broses, penodwyd Swyddog Cynnwys y Wefan (dros dro) ym mis Ionawr eleni, sydd wedi bod yn canolbwyntio ers hynny ar gywiro problemau hygyrchedd ar y wefan a datblygu canllawiau i staff ar gyfer paratoi gwybodaeth i'w gynnwys ar y wefan mewn fformat hygyrch. - Mae llawer o wybodaeth newydd wedi'i gynnwys ar y wefan yn ystod y flwyddyn, e.e. fideos BSL am brif wasanaethau'r Cyngor, gwybodaeth Gwynedd Oed Gyfeillgar, gwybodaeth Hinsawdd a Natur, gwybodaeth Awtistiaeth, gwybodaeth Help i fyw'n annibynnol. Dylunio Digidol: - cynhyrchwyd cyfres o ffilmiau fideo byr i amlygu gwahanol elfennau o waith y Cyngor gan gynnwys Llewyrch o'r Llechi, Merched mewn Arweinyddiaeth, Cyfleoedd i Bobl Anabl, Digartrefedd ac Ysgol Trefferthyr; - cynhyrchwyd a lansiwyd cyfres o bodlediadau “Mam, Dad a Magu” sydd ar gael ar lwyfannau megis Spotify; - cynhyrchwyd logo a brand newydd ar gyfer cynllun “Merched mewn Arweinyddiaeth”, llyfryn digidol Cynllun Yfory a phecyn brandio ar gyfer Academi Gofal Gwynedd. Ymateb i Argyfwng: Gweithredwyd cynlluniau cyfathrebu mewn ymateb i Storm Bert (Tachwedd), Storm Darragh (Rhagfyr) a Storm Eowyn (Ionawr) Gwefannau Cymdeithasol: Lansiwyd cyfrif Bluesky newydd ar gyfer y Cyngor ac ymgyrch i'w hyrwyddo. Cyfathrebu Mewnol: Cynhyrchwyd a cyhoeddwyd tri rhifyn o gylchgrawn staff "Gair o Gyngor" a cryfhawyd y trefniadau ar gyfer dathlu llwyddiannau staff.
CC03	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Nifer Galwadau atebwyd (misol)	Mawrth	10,058	Nifer galwadau dros y flwyddyn diwethaf yn parhau i fod yn is na'r blynyddoedd cynt, er hynny, dim ond gostyngiad bychan welwyd yn chwarter olaf 2024/25

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
CC03a	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Nifer Galwadau collwyd (misol)	Mawrth	529	Mae nifer o swyddi gwag wedi bodoli yn ein strwythur staffio dros y flwyddyn diwethaf ac oherwydd hyn, nid yw'r capasiti gennym i ateb pob galwad cyn i'r cwsmer roi y ffôn i lawr. Yn ychwanegol i hyn, mae toriadau ariannol ar draws Cyswllt Cwsmer yn ystod 2024/25 wedi arwain at ddirwydiad yn ein gallu i ateb pob galwad . Yr oeddem wedi rhagweld y byddai'r cynllun arbedion a thoriadau yn arwain at fwy o alwadau yn cael eu colli, ond oherwydd y nifer o swyddi gwag, arbedion a thoriadau, yn ogystal â archebion gwastraff gardd yn cychwyn yng nghanol mis Ionawr, mae'r nifer galwadau collwyd wedi bod yn uwch. Yr ydym wedi penodi i'r swyddi gwag ac yr ydym yn disgwyl gweld gwelliant yn y perfformiad yn symud ymlaen.
CC04	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Cyfartaledd ateb Canolfan Cyswllt (misol)	Mawrth	65	Mae ein perfformiad dros y flwyddyn diwethaf wedi bod yn anghyson oherwydd y nifer o swyddi gwag sydd gennym a thoriadau i'r strwythur staffio. Er bod nifer galwadau yn parhau i ostwng, mae ein lefelau staffio hefyd wedi gostwng yn golygu yn ystod cyfnodau prysur, nid ydym yn gallu ymdopi gyda chynnydd mewn galwadau a chwsmeriaid yn gorfod disgwyl yn hirach ar adegau cyn cael ateb. Yr oeddem wedi rhagweld hyn ac disgwyl gweld llithriad i oddeutu 1 munud yn ddibynol ar y lefelau staffio gyda'r gwir perfformiad dros y flwyddyn yn 1 munud 10 eiliad.
CC05c	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Nifer dyddiau i ddod i benderfyniad ar gymhwysedd unigolyn, am Fathodyn Glas	Mawrth	1.99	Dros y flwyddyn diwethaf (Ebrill 2024 i ddiwedd Mawrth 2025) ar gyfartaledd mae'n rhesymol i unigolyn ddisgwyl rhwng 1.99 a 10.7 diwrnod i ni ddod i benderfyniad ar eu cais, ar ôl i ni dderbyn cais cyflawn gan y cwsmer. Mae perfformiad wedi llithro oddeutu 3 diwrnod yn y chwarter olaf o'r flwyddyn o 1.34 a 7.95, oherwydd ôl-groniad o geisiadau yn disgwyl sylw gan y cwmni asesu annibynnol dros gyfnod y Nadolig. Mae'r cwmni wedi rhoi sylw i hyn ac mae'r nifer o ddyddiau i ddod i benderfyniad ar gais unigolyn am fathodyn glas wedi gwella dros yr wythnosau diwethaf.
CC06	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Nifer trafodion webchat	Mawrth	65	Dros y flwyddyn mae ein gallu i ateb ymholiadau sgwrs fyw wedi bod yn ddibynol ar ein lefelau staffio a nifer galwadau ffôn yn dod mewn, ond yr ydym wedi gweld cynnydd pob blwyddyn, gyda 710 o sgysiau byw yn cael eu cynnal dros y flwyddyn diwethaf.
CC09	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y gwasanaeth cofrestru	Mawrth	100.0%	Cwsmeriaid wedi adrodd eu bod yn hapus gyda'r lefel o wasanaeth maent wedi'i dderbyn, dim ond canmoliaeth sydd wedi'i adael yn yr holiaduron bodlonrwydd cwsmer.
DD1.1	Dysgu a Datblygu Sefydliad	I ba raddau mae'r hyfforddiant yn eich helpu i gyflawni eich rôl? (sgôr/10)	Mawrth	9.4	Yn dilyn sefydlu'r Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd ym mis Ionawr 2025, mae'n dda gweld bod y canlyniadau yn parhau i fod yn uchel.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
DD1.2	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Sylwadau/Adborth am raglenni datblygol	Chwarter4		Fframwaith Dysgu a Datblygu - Mae'r Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd ar waith gyda llawer o waith yn cael ei wneud i wella'r profiad i staff y Cyngor wrth fynychu hyfforddiant. Bu e-byst a rhaglen ymgysylltu yn flaenoriaeth yn ystod mis Chwefror ac mae'r gwaith hwnnw yn parhau. Mae'r cyrsiau hyfforddi yn rhedeg ac mae mwy o ymgysylltu yn digwydd gyda'r hyfforddwyr hefyd er mwyn eu cefnogi ble bynnag y bo'r angen. Er enghraifft, mae cynnydd yn y gefnogaeth MoDS i weinyddwyr ac hyfforddwyr. Mae hyfforddiant Sgiliau Digidol Sylfaenol yn rhedeg gyda llawer yn mynychu ac yn elwa o'r hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant Excel Uwch wedi ei ailwampio. Mae nifero gyrsiau eraill fel Rhagfarn heb Wybod, Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, IOSH ac i-act wedi cael eu rhedeg hefyd. Trawsnewid Digidol - Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Is-grŵp Trawsnewid Digidol. Bydd y camau cychwynnol yma yn adnabod y bylchau yn Sgiliau Digidol y gweithle ac adnabod anghenion hyfforddiant ar gyfer staff. Hyfforddiant Iaith - Mae 32 o unigolion wedi mynychu hyfforddiant iaith gyda 7 yn ychwanegol wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau sydd eto i ddechrau. Ers Ebrill 2024, mae 43 unigolyn wedi dechrau ar gwrs hyfforddiant iaith a 26 o'r unigolion sydd ddim wedi cyrraedd y dynodiadau iaith wedi derbyn hyfforddiant. Hyfforddiant Aelodau - Gwaith ar y gweill o ran sefydlu Fframwaith Hyfforddiant. Mae'r teitlau Craidd i gyd ar gael bellach fel adnodd ar-lein i Aelodau allu cyflawni yn eu amser eu hunain. Yn ogystal, mae gwybodaeth am deitlau craidd Aelodau bellach ar gael ar wefan gyhoeddus y Cyngor. Mae rhaglen ddysgu a Datblygu i Aelodau Cabinet mewn lle. Yn dilyn derbyn canlyniadau holiadur anghenion dysgu a datblygu i Aelodau, mae teitlau newydd yn derbyn sylw. Mae cynnig i gynnal sgysiau Datblygiad Personol i Aelodau Cabinet wedi ei rannu, ac yn dilyn adnabod y galw bydd y gwahoddiad yma yn cael ei estyn i weddill yr Aelodau. Bydd rhaglen ddatblygol bersonol yn cael ei lunio ar gyfer yr Aelodau Cabinet yn unol a'u anghenion. Gwaith hyrwyddo teitlau hyfforddiant yn parhau i ddigwydd trwy'r Bwletin Aelodau. Cyfleon allanol yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau yn ôl yr angen. Undeb y Dyfodol - Gwaith wedi cychwyn o fod yn ymgysylltu yn wythnosol. Mae'r broses o ddethol pwyllgor wedi cymryd lle a bydd y cyfarfod cyntaf yn digwydd ar y 28 Ebrill.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
DD1.3	Dysgu a Datblygu Sefydliad	Dysgu a Datblygu: Datblygiadau	Chwarter4		Canolfan Polisi - Mae'r Ganolfan Bolisi yn y broses/wedi cael ei huwchraddio i Fersiwn 2. Golyga hyn bod llawer o waith trosglwyddo polisiau – y gwaith wedi ei wneud yn llwyddiannus ac wedi ei gwblhau yn ystod mis Mawrth 2025. Rhwydweithio - Mae aelodau o staff y gwasanaeth yn gwneud ymdrechion i ymgynghoedd a swyddogion cynghorau eraill sydd yn gwneud swyddi cyffelyb er mwyn ehangu syniadau a chysylltiadau. Er enghraifft, mae Rhwydwaith Pencampwyr e-ddysgu Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn cael ei ddatblygu ymysg eraill. Talent a Phrentisiaethau - Nifer o hyfforddeion a phrentisiaid wedi llwyddo yn dilyn eu cyfnod yng Nghyngor Gwynedd. Fel enghreifftiau mae Gwenno Griffith, Hyfforddai Cydraddoldeb wedi bod yn llwyddiannus yn eich chais ‘Hyderus o ran Anabledd’ ar ran y Cyngor i gynyddu o lefel 1 i lefel 2, Caleb Lewis wedi derbyn swydd fel Cyfrifydd Grŵp i'r Adran Prifffyrdd, Hannah Williams wedi derbyn swydd fel Ymgynghorydd Digwyddiadau, Enlli Garton Jones, Prentis Cyllid wedi siarad ar Newyddion S4C am ei brofiad o fod yn brentis. Mae pecynnau Cefnogi Recriwtio a Phecyn Recriwtio Niwroamrwaeth wedi’u creu ar gyfer y broses recriwtio 2025. Bu i'r tîm gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Dysgu Seiliedig ar Waith Gogledd Cymru 2025. Llawlyfr Rheolwyr - Mae llawlyfr fel canllaw i Reolwyr newydd yn y broses o gael ei ddatblygu fydd o fudd mawr wrth i Reolwr ddechrau dod i adnabod beth yw anghenion y rol. Mae'r lawlyfr yn y cyfnod ymgynghorol ar hyn o bryd ac yn cael adborth positif gan pawb sydd yn cefnogi yn y gwaith hwnnw. Mesuryddion Iaith - Mae 72% (5,156 unigolyn) o Staff y Cyngor wedi cael asesiad iaith, gydag 89% (4,610 unigolyn) yn cyrraedd safon y dynodiadau iaith.
DD2	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Newid Diwylliant (gan gynnwys Cwynion/Llwyddiannau)	Chwarter4		Gwerthuso Parhaus - Mae gwaith yn parhau i gaet trefn ar yr ochr MODS i'r Gwerthuso Parhaus. Does dim amseren pendant eto i'r man newidraadau sydd angen eu gwneud gan TG fel bod y cyfan yn barod. Y gobaith yw y bydd y cyfan yn barod i'w redeg yn fuan a'n bod yn paratoi ar gyfer cefnogi Rheolwyr Llinell wrth ymgymryd â'r gwaith Gwerthuso Parhaus fel rhan o'u dyletswyddau. Arolwg Llais Staff - Yn dilyn cynnal Arolwg Llais Staff 2024, mae'r canlyniadau yn cael eu rhaeadru i'r gwahanol Adrannau gydag aelodau o'r gwasanaeth yn cyflwyno canlyniadau'r Arolwg i'r Timau Rheoli. Wal Lwyddiannau - Mae'r niferoedd o ddiolchiadau/canmoliaethau sydd wedi ein cyrraedd gan gwsmeriaid, gan staff i'w gilydd, a gan Aelodau yn galonogol iawn. Bellach mae yna 1410 o sylwadau wedi ein cyrraedd ers dechrau'r Wal yn 2015. Mae'r sylwadau ar y Wal yn cael eu diweddarau fel mae amser yn caniatáu a gellir gweld y sylwadau fesul blwyddyn ar y tudalennau perthnasol. Mae dathlu llwyddiannau fel hyn mor bwysig i godi morâl staff ac i ddangos eu bod yn cynnig Gwasanaeth da i'n cwsmeriaid. Hyfforddiant Cefnogi Staff i Ddelio efo Cwsmeriaid - Yr hyfforddiant yma wedi bod yn boblogaidd iawn ymysg staff. Maent yn ei weld yn gyfle da i rannu profiadau efo staff mewn meysydd eraill, pawb yn dysgu drwy eu gilydd. Maent yn gwerthfawrogi fod cefnogaeth ar gael iddynt ac yn cyfleu hynny yn eu hadborth.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
DD3	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Llesiant Staff (Buddiannau)	Chwarter4		Cynllun Hybu Busnesau Lleol - Mae sawl busnes newydd wedi ymuno efo'r Cynllun yn ddiweddar. Bu i rhai ymuno oherwydd cyswllt a gwahoddiad gan y Swyddog Gwella Gwasanaeth, ac eraill oherwydd eu bod wedi clywed am y Cynllun o ffynonellau gwahanol; unai drwy Fwletin yr Uned Economi neu drwy glywed gan Fusnesau eraill sydd wedi elwa o fod yn rhan o'r cynllun. Mae'r rhaglen hyrwyddo Busnes y Mis yn profi i fod yn boblogaidd iawn fel arfer. Ffigurau'r Cynllun Vectis - Erbyn hyn mae yna 3,342 o staff wedi cofrestru ar y Cynllun. Mae hyn yn gynydd o 2,108 ers Mawrth 2019. Profa hyn fod y gwaith y mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn ei wneud i hyrwyddo'r Cynllun ymysg y staff yn gweithio'n dda. Mae trefniadau ar y gweill i'r Swyddog Gwella Gwasanaeth a'r Swyddog Cyfathrebu Mewnol i ymweld a nifer o leoliadau gwaith unwaith eto i sicrhau fod staff yn gwybod am y Buddiannau ac i ni gael eu mewnbwn ar Fuddiannau a Chyfathrebu. Rydym yn aros i dderbyn Cytundeb newydd gan Terryberry sef y cwmni sydd bellach yn rhedeg y Cynllun. Y bwriad ydi cael cytundeb am 3 blynedd arall efo'r opsiwn i gael estyniad o flwyddyn ychwanegol pe byddem eisiau ar ddiwedd y cyfnod. Hyn yn ddi-gost i'r Cyngor heblaw efallai yr angen i dalu swm bychan am gardiau plastig i'r staff sydd heb smartphone i fedru cael eu cardiau yn ddigidol. Cynllun Beicio i'r Gwaith - Y cynllun yn dal i fynd yn dda gyda gwaith hyrwyddo yn cychwyn ym mis Ebrill. Cynllun Ceir Gwyrdd - Mae yna 16 o staff wedi manteisio ar y Cynllun ar hyn o bryd. Bu i 7 o'r rheini ymuno yn 2024/25.
DD4	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Nifer hyfforddiant sydd wedi rhedeg yn fisol	Mawrth	45	Mae'r cyfleoedd hyfforddiant yn mynd i fod yn cynyddu dros y cyfnod o Ionawr 2025 ymlaen ac yn gobeithio y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data yma dros y cyfnod nesaf.
DD5	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Nifer staff a chynghorwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant yn fisol	Mawrth	221	Mae gwaith yn cael ei wneud o fewn y gwasanaeth i hyrwyddo'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael a cheisio cyrraedd mwy o staff ar draws yr Adrannau.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
DD6	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Adborth o ddigwyddiadau	Mawrth		Cyhoeddwyd a chyhoeddiwyd (DSC): "Sesiwn hwyliog a hynod o berthnasol ac yn rhoi'r cyfle i unigolyn edrych arnyn nhw eu hunain, ond hefyd yr arddull / 'math' ydyn nhw a sut mae modd defnyddio'r ymwybyddiaeth yma wrth gydweithio o fewn tîm - beth sydd am wneud y cydweithio fod yn well? Sut i osgoi straen / tensiwn?" Diogelu Data: "Cafodd ei gyflwyno mewn ffordd glir a phroffesiynol. Roedd yr hyd yn berffaith, ddim yn rhy fyr na'n rhy hir. A'r cynnwys yn ddifyr. Diolch." Gofyn a gweithredu (Ask and Act): "Roedd yn bwnc dwys i'w drafod ond mi oedd yr hyfforddwy'r yn trin yn pwnc yn dda. Mi oedd enghreifftiau o wahanol gamdrin mae staff y Cyngor wedi dod ar draws yn ystod eu gwaith yn ddiddorol iawn." I-Act: "Pleserus iawn. Gadewais gyda gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd lles. Roedd fy lles personol yn well ar ddiwedd y dydd. Efallai ei deilwra i adrannau unigol yn hytrach na chwmmi o staff mawr." Peilot hyfforddiant LGBTQ+ : "Hyfforddiant defnyddiol iawn, hefo llawer o wybodaeth. Hyfforddwr wedi creu awyrgylch agored a roedd y sgwrs yn ddiddorol ac rwyf yn teimlo bod i wedi cael llawer o werth trwy adlewyrchu ar profiadau y grŵp." Ymwybyddiaeth Awtistiaeth : "Cwrs ardderchog, tiwtor da iawn, un o'r cyrsiau gorau i mi ei fynychu." Hyfforddiant Rhethreg (i'r Tîm Rheoli) : "Gwych, diddorol ac wedi ei gyflwyno yn dda gan unigolyn sydd wir yn deall arddull ysgrifennu araith." Hyfforddiant Iaith Gymraeg: "Rydw i eisiau dweud diolch mawr i ti am dy holl gefnogaeth trwy'r wythnosau, rwyf ti wedi bod yn diwtor ffantastig ac mae'r pethau rydan ni wedi dysgu wedi sticio yn fy mhen! Yr adnoddau rwyf ti wedi rhannu yn ddefnyddiol iawn hefyd i'r dyfodol."
DI1	Democratiaeth ac Iaith	% taflenni penderfyniad wedi eu cyhoeddi yn ddwyieithog o fewn 5 diwrnod gwaith	Mawrth	92.0%	Cyhoeddwyd 13 taflen penderfyniad ym mis Mawrth, gydag un ohonynt wedi ei gyhoeddi ar y 6ed diwrnod. Dros y flwyddyn mae 6 taflen penderfyniad wedi eu cyhoeddi ar y 6ed diwrnod yn sgil amrywiol broblemau ee problem gyda'r system Modern.gov a'r wifi, swyddogion ddim yn ymateb a newidiadau staffio.
DI2	Democratiaeth ac Iaith	Bodlonrwydd aelodau etholedig gyda'r gwasanaeth Democratiaeth	2024/25		Anfonwyd holiadur bodlonrwydd i'r Aelodau ar 2 Rhagfyr gan ofyn am ymateb erbyn 16 Rhagfyr. Erbyn 17 Rhagfyr roedd 36 o ymatebion wedi eu derbyn, ffigwr ychydig yn uwch na llynedd. Roedd 26 o'r aelodau wedi nodi fod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Tîm Democratiaeth yn Dda iawn gyda 9 yn nodi fod y gwasanaeth yn Dda ac 1 wedi nodi Derbyniol. Nid oedd sylwadau pellach wedi eu nodi gan yr aelod oedd wedi dewis yr opsiwn Derbyniol. Derbyniwyd sylwadau positif megis bod y Tîm bob amser yn barod i helpu gydag unrhyw ymholiad ac yn gyfeillgar iawn, yn ymateb yn sydyn ac yn weithgar. O ran y cwestiwn am unrhyw ddatblygiadau i gefnogi aelodau ymhellach yn eu rôl gwnaethpwyd sylw am yr awydd i dderbyn copiâu papur o Raglenni gan un aelod a sylw arall am roi mwy o wybodaeth i aelodau cyn iddyn nhw ddarllen amdano yn y papurau newydd. Dyma enghraifft o un sylw pellach gafodd ei roi: "yr holl staff democratiaeth bob amser pen arall y ffôn ac yn ymateb i ebyst yn ddiymdroi. Trefniadau cyfarfodydd Zoom a Teams gan y tim yn hynod effeithiol. Trefniadau TG a chyfieithu yn rhwydd hefyd. Diolch yn fawr eto leni."

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
DI3	Democratiaeth ac Iaith	Sylwadau am y gwasanaeth Cyfieithu gan gwsmeriaid	Mawrth		Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i'r tîm Cyfieithu unwaith eto, gyda chynnydd yn y galw am y gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn benodol. Mae'r tîm wedi cyfieithu bron i 400,000 o eiriau bob mis, ar gyfartaledd, ynghyd â chyfieithu ar y pryd mewn bron i 60 o gyfarfodydd bob mis, ar gyfartaledd. Fel tîm, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i gyrff allanol yn ogystal, sy'n dod ag incwm i'r Cyngor. Mae'r tîm wedi cofleidio technoleg newydd yn ystod y flwyddyn yn ogystal. Mae cyfieithu peiranyddol bellach yn rhan o feddalwedd y tîm, CyfieithuCymru. Er gwaetha'r ffaith bod hyn yn newid sylweddol i'n ffordd o weithio, mae'r feddalwedd yn hwyluso'n gwaith yn fawr. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn treialu'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ar lwyfan Teams yn sgîl datblygiadau gan Microsoft, a hynny'n llwyddiannus. Mae nifer o gyfarfodydd anffurfiol bellach wedi trosglwyddo o Zoom i Teams gyda chyfieithu ar y pryd yn gweithio'n dda. Mae cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Pwyllgor sy'n cael eu cynnal yn hybrid yn gweithio'n dda, fodd bynnag un rhwystr parhaus yr ydym wedi'i wynebu ydi nad yw'n bosib cynnig y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd hybrid anffurfiol yn ystafelloedd cyfarfod y Cyngor gan nad yw safon y sain yn ddigon da. Mae'r gwasanaeth TG yn edrych i mewn i hyn ac yn gobeithio gallu dod o hyd i ddatrysiad boddhaol i wella'r sain yn yr ystafelloedd hyn. Mae'r tîm wedi derbyn adborth ffafriol iawn gan ein cwsmeriaid o fewn y Cyngor a'r tu allan, a dyma ddetholiad o'r sylwadau diweddaraf i ni eu derbyn: "Gwerthfawrogi'n fawr iawn yr holl waith caled er mwyn cyfieithu'r Llawlyfr Ysgol ac yn ddiolchgar iawn i chi am gadw templed y cyfieithiad yr un fath yn union â'r Gymraeg. Diolch o galon." "Dim ond nodyn o ddiolch i chi'ch dwy am y cyfieithu heddiw, mi oedd o'n help mawr i ni. Gobeithio bod bob peth wedi mynd yn iawn i chi gyda'r trefniadau." "Diolch gymaint am dy gymorth Dydd Gwener efo'r linc a heddiw i ti a dy dim yn ystod y Cwest. Gobeithio aeth bob dim yn iawn. Fe ddywedodd y tyst bod y cyfieithu wedi gweithio'n wych! Diolch eto" "Diolch yn fawr i'r person ddaru gyfieithu y dogfennau y rhif prosiect isod i mi, rili gwerthfawrogi!" "Diolch am y cyfieithiad cyflym ar gyfer cael hysbysebu." "Thank you for all your help – can you tell the translator she was fantastic." "Gwaith wedi ei wneud yn sydyn ac yn dda-a minnau wedi llenwi yr holiadur. Diolch i'ch tîm Bethan." "Ymddiheuriadau ond mi wnaethon anghofio diolch i'r cyfieithydd ar ddiwedd y cyfarfod. Ar ôl i Elin adael mi wnaeth y cadeirydd diolch yn fawr iddi a gofyn iddynt basio mlaen. Mi roedd canmoliaeth dros safon y cyfieithu gan aelod arall hefyd."
DI4	Democratiaeth ac Iaith	Sylwadau am y Gwasanaeth Craffu ac Iaith	Mawrth		Gorffwrddau maes penodol ser ar cymacthau ser ar fechnyd. Gwneudwyd swyddogion o'r cymacthau ser ar fechnyd a phwyllgor er mwyn ateb cwestiynau actodau. Cychwynwyd ar y gwaith o gynnal ymchwiliad craffu i drefniadau diogelu ysgolion. Rhoddwyd cefnogaeth i sefydlu menter iaith annibynnol a fydd yn arwain y gwaith o hybu defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd. Cydweithwyd gyda nifer o bartneriaid er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau'r Cyngor, trwy Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a parhawyd i gydlynu a datblygu Fforwm Iaith Gwynedd.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
DI5	Democratiaeth ac Iaith	Sylwadau am y Gwasanaeth Democratiaeth	Mawrth		Mae'r prif ffocws eto eleni wedi bod ar barhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchel er gwaethaf newidiadau i'r tîm yn y cefndir. Mae pob pwyllgor wedi ei gynnal yn amserol a llwyddiannus, yn ogystal â nifer o gyfarfodydd ychwanegol megis cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn ym mis Hydref, cyfarfodydd ychwanegol o is-bwyllgor trwyddedu a phaneli gwaharddiad ysgolion. Mae pob pwyllgor oedd i'w we-ddarlledu wedi digwydd yn llwyddiannus, a'r ffigurau gwylio yn parhau yn gymharol uchel. Llwyddwyd i oresgyn unrhyw broblemau technegol oedd yn codi yn y siambrau. Gwelwyd cynnydd yn y gwaith o gefnogi Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ystod 2024/25, gan sefydlu a chefnogi cyfarfodydd yr is-bwyllgor Trafnidiaeth a'r is-bwyllgor Cynllunio yn ychwanegol i gefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r is-bwyllgor Economi. Mae gan y gwasanaeth hefyd fewnbwn i'r gwaith datblygol ar gyfer sefydlu'r uchod, yn ogystal a gwaith pellach wrth ddatblygu trefniadau craffu'r CBC, trefniadau datblygu is-bwyllgorau pellach a gweddarlledu i'r dyfodol. Mae'r holiadur i Aelodau wedi dangos cefnogaeth frwd i'r gwasanaeth, gyda nifer o aelodau yn diolch am y cymorth maent wedi ei dderbyn gan y tîm. Croesawyd aelod newydd yn ystod y flwyddyn, a ffarweliwyd â dwy aelod dros yr un cyfnod. Yn ogystal, croesawyd plant a phobl ifanc i'r siambr ar dri achlysur gwahanol dros y flwyddyn er mwyn ceisio annog eu diddordeb a'u dealltwriaeth mewn llywodraeth leol. Bydd adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yn manylu ar yr holl gefnogaeth a roddwyd i Aelodau Gwynedd, aelodau awdurdodau eraill ac i'r cyhoedd dros y flwyddyn a fun.
ID1	Iechyd Diogelwch a Llesiant	Canran RIDDORS gafodd eu hadrodd o fewn y 10 diwrnod	Chwarter4	35.0%	Yn ystod chwarter 4, cafodd 17 digwyddiad eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd 6 wedi eu hadrodd o fewn 10 diwrnod gyda'r gweddill yn hwyr. O'r rhai oedd yn hwyr roedd 4 yn golygu gorfod casglu gwybodaeth ychwanegol.
ID2	Iechyd Diogelwch a Llesiant	Canran o unigolion oedd wedi cael eu cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol oedd wedi cael eu gweld o fewn 10 diwrnod	Mawrth	22.0%	Derbyniwyd 105 cyfeiriad ar gyfer Mawrth. 46% o'rheiny wedi ei cyfeirio oherwydd straen a 32% oherwydd problemau cynrysgerybyddot. Nifer o gyfeiriadau yn benodol o'r Adran Addysg y tro yma - 40%. Ar gyfer cyfeiriadau mis Mawrth, roedd (70 cyfeiriad) 66% angen derbyn ymgynghoriad llawn, a cafodd (16 unigolyn) 22% o'rheiny eu gweld o fewn 10 diwrnod gwaith. Nid yw pob cyfeiriad yn golygu bod angen ymgynghoriad. Rydym yn brysbennu a chysylltu hefo pob unigolyn yn dilyn derbyn cyfeiriad er mwyn penderfynu'r ffordd ymlaen boed os ydi hynny yn ymgynghoriad brys, cyfeiriad at gwnsela, ffisio, neu awgrymu i Reolwr gynnal asesiad risg straen ynghyd a cynllun gweithredu llesiant. Mewn rhai achosion nid yw ymgynghoriad yn syth yn addas ac mae angen dal yn ol am gyfnod. Rydym wedi colli aelod staff yn ystod mis Rhagfyr ac mae rhestrau aros am apwyntiad yn cynyddu. Mae'r Ymgynghorydd newydd wrthi cael ei hyfforddi. Bydd angen cyfnod o hyfforddiant cyn y bydd yn gallu cynnal clinigau ei hun. Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, derbyniwyd cyfanswm o 1051 o gyfeiriadau i'r Uned Iechyd Galwedigaethol. Oherwydd y trosiant sylweddol o staff yn ystod y cyfnod hwn, bu angen hyfforddi gweithwyr newydd, gan arwain at gyfnodau lle nad oedd y capasiti llawn ar gael i gwrdd â'r galw. Nid oedd pob unigolyn o fewn y ffigwr uchod angen ymgynghoriad llawn, gan fod yr Uned yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a dulliau cymorth, megis cwnsela, ffisiotherapi, cyfeirio at asiantaethau eraill, a chynghori rheolwyr ar gynnal asesiadau risg fel cam cychwynnol. Serch hynny, er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y trosiant staff uchel, llwyddwyd i gynnig apwyntiadau i 154 o unigolion o fewn 10 diwrnod gwaith.
ID3	Iechyd Diogelwch a Llesiant	Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel	Chwarter4	72.0%	Mae hyn yn gynydd o 15% (roedd y ffigwr yn 57% diwedd 2023-24) Mae 85 rheolwr/arweinydd tîm/pennaeth ysgol (18%) yn ychwanegol wedi cofrestru ar gyfer cwrs yn 2025 a 2026.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
ID4	Iechyd Diogelwch a Llesiant	Canran o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn Ffysio	Chwarter4	93.0%	Ar ddechrau'r pedwerydd chwarter roedd 39% o staff a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth Ffysio ar absenoldeb salwch, 11% ar ddyletswyddau wedi'u haddasu a 50% ar ddyletswyddau arferol. Ar ôl gorffen eu triniaeth, ar ddiwedd y chwarter, roedd y 39% o absenoldeb salwch wedi gostwng i 7%, roedd y nifer ar ddyletswyddau wedi'u haddasu wedi cynyddu o 11% i 32% ac roedd y nifer o staff ar ddyletswyddau arferol wedi cynyddu o 50% i 61%. Felly roedd 93% o weithwyr mewn gwaith ar ddiwedd y chwarter. Nod y Gwasanaeth Ffysio yw darparu triniaeth gynnar ac effeithiol i gyflawni lefelau cyflym a llwyddiannus o welliannau. Mae'r mwyafrif o gyfeiriadau mae'r gwasanaeth ffysio yn ei dderbyn yn y categori aciwt sef unigolyn y profi symptomau am hyd at 6 wythnos neu lai. Mae nifer y cyfeiriadau ar gyfer cyflyrau cronig wedi gostwng y chwarter hwn, o'i gymharu â chwarteri blaenorol. Mae hynny oherwydd penderfyniad a wnaethpwyd yn dilyn trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Ffysio, yr Ymgynghorwyr Iechyd Galwedigaethol a'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol i gyfeirio unigolion sydd â chyflwr cronig, sef unigolyn sydd yn profi symptomau am 12 wythnos a drosodd, at wasanaethau eraill megis meddyg teulu fyddai'n eu cyfeirio at wasanaeth NERS National Exercise by Referral Scheme), neu Arbenigwyr Cyhyrsgerberydol Ysbyty sydd a'r gallu i ymateb i'w cyflwr cronig a chynnig darpariaeth ehangach.
ID5	Iechyd Diogelwch a Llesiant	Canran o weithwyr sydd yn cael mwy na 4 sesiwn cwnsela	Chwarter4	72.0%	Cyfanswm Cyfeiriadau - Yn ystod Chwarter 4, cafodd 121 o gyfeiriadau eu gwneud i'r Gwasanaeth Cwnsela. Cais am Sesiynau Ychwanegol - Cyflwynodd y Gwasanaeth Cwnsela gais am sesiynau ychwanegol ar gyfer 88 unigolion yn ystod chwarter 4. Golygai hyn fod cynnydd o 34% i gymharu a chwarter 3. Cyfanswm y flwyddyn: Cyfeiriwyd 455 o unigolion i'r Gwasanaeth Cwnsela, 237 o'r rhai hynny angen sesiynau ychwanegol tu hwnt i'r 4 sydd yn cael ei ariannu yn gorfforaethol. Mae'r data yma yn dangos canran uchel o gefnogaeth gan reolwyr i sesiynau ychwanegol, gan awgrymu y gweler gwerth yn y Gwasanaeth Cwnsela a'i allu i gynorthwyo llesiant staff. Byddwn yn parhau i fonitro ac asesu'r broses i sicrhau'r defnydd gorau o'r gwasanaeth. Mae'n bosib y byddwn efallai mewn sefyllfa i drafod cynyddu'r ddarpariaeth o 4 i 6 sesiwn cwnsela yn y dyfodol.
YG1	Ymchwil a Gwybodaeth	Nifer digwyddiadau gwybodaeth	Mawrth	3	Bu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y digwyddiadau a adroddwyd (41 yn 2024/25, o'i gymharu â 51 yn 2023/24), ac yn y nifer o'r rhain oedd ddigon difrifol i'w hadrodd ymlaen i'r Comisiynydd Gwybodaeth (2 yn 2024/25, o'i gymharu â 3 yn 2023/24). O fewn hyn, y categori digwyddiadau lle cafwyd y gostyngiad mwyaf oedd 'Data e-bostiwyd at y derbynnydd anghywir' (7 llai na'r flwyddyn flaenorol). Rydym wedi parhau â'r gwaith o hyfforddi swyddogion a chodi'u hymwyboddiaeth o'r maes yma, a hefyd bu rhai newidiadau i'r system e-bost i geisio gwneud camgymeriadau'n llai tebygol. Rydym hefyd yn adolygu'r achosion sydd wedi digwydd ac yn gweithio gydag adrannau i leihau'r risg bod yr un peth yn digwydd eto.
YG2	Ymchwil a Gwybodaeth	Canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith	Chwarter4	75.8%	Perfformiad ychydig is na 2023/24 ond yn parhau o fewn y math o amrediad welwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae dashfwrdd yn cael ei ddatblygu fydd yn rhoi gwell, a chyflymach, gwybodaeth am amser ymateb i geisiadau fel y gellir adnabod a datrys problemau yn gynt. Yn ogystal, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal archwiliad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod mis Ebrill, a gobeithir y bydd hyn yn arwain at argymhellion ymarferol ar gyfer cynyddu'r canran atebir o fewn yr amser targed.
YG3	Ymchwil a Gwybodaeth	Canran ceisiadau diogelu data atebwyd o fewn yr amserlen	Chwarter4	82.5%	Cafwyd 57 cais yn ystod y flwyddyn, gyda 47 o'r rhain yn cael eu hateb o fewn yr amserlen; hyn yn gyfran rhywfaint uwch na'r flwyddyn flaenorol (81.4%). Roedd mwyafrif y ceisiadau (38 o'r 57) yn ymwneud â'r maes gofal ac roedd mwyafrif y rhai atebwyd yn hwyr (7 o'r 10) hefyd yn y maes hwnnw, ond o ystyried maint a chymhlethdod rhai o'r ceisiadau yma a'r adnodd bychan sydd yna i'w hateb yn yr adrannau mae cynnal perfformiad ar y lefel yma yn ganmoladwy.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
YG4	Ymchwil a Gwybodaeth	Prosiectau Ymchwil a Gwybodaeth	Mawrth		O edrych ar y flwyddyn gyfan, dyma'r prif uchafbwyntiau yn ychwanegol i'r hyn sydd ym mesurau meintiol y Gwasanaeth: Darparu sesiynau hyfforddi: Diogelu Data 511 o staff (yn cynnwys staff cartrefi preswyl); iGwynedd 101 o staff; Gweithdai Gwybodaeth i 98 o reolwyr. Datblygu dulliau'r Cyngor ar gyfer dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys cyhoeddi dashfyrdau newydd ar Ddigwyddiadau Gwybodaeth, Risgiau Corfforaethol, Dynodiadau Iaith, Hyfforddiant Mandadol, Prisiau Tai yng Ngwynedd a Gwybodaeth am ardaloedd lleol. Cwblhau prosiect i symud neu ddileu'r holl ffeiliau oedd yn y lleoliad 'Archif' ar serfers y Cyngor. Fel rhan o'r prosiect Llechen Lân (gofal pobl hŷn yng Ngwynedd) gwnaed gwaith sylweddol ar fodelu newidiadau demograffig ac anghenion gofal i'r dyfodol - cyrhaeddodd y gwaith yma restr fer o 4 ar draws Prydain yng ngwobrau LARIA ar gyfer gwaith ymchwil lleol. Datblygu proses newydd ddiogel a llai llafurus, ar gyfer rhannu ffeiliau iGwynedd gyda sefydliadau eraill. Dadansoddi data treth gyngor, a chynnal ymchwil i holi deilyddion tai oedd gynt yn ail gartrefi, er mwyn cynhyrchu adroddiad ymchwil ar effaith y premiwm treth gyngor yng Ngwynedd. Datblygu trefn newydd, mwy effeithlon i bobl allu gwneud cais Diogelu Data (cael gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor amdanynt eu hunain) ar-lein. Trefn newydd o fwletinau fel y gall y Pennaeth Adran fel SIRO (Uwch-berchnennog Risg Gwybodaeth) y Cyngor dynnu sylw gweddill y Cyngor at faterion allweddol sydd angen eu sylw.
YG6	Ymchwil a Gwybodaeth	Nifer galwadau cymorth iGwynedd a gwblhawyd	Mawrth	80	Data rheolaethol yw hyn yn fwy na mesur perfformiad mewn gwirionedd, ond mae'n rhoi syniad o'r galw ar y rhan o'r Gwasanaeth sy'n cefnogi iGwynedd. Cafwyd cyfnod o alw neilltuol uchel tua canol y flwyddyn o ganlyniad i'r gwaith ar gau y ffolder Archif.
YG7	Ymchwil a Gwybodaeth	Nifer prosiectau, tasgau ac ymholiadau y bu'r tîm Ymchwil yn gweithio arnynt yn ystod y mis	Mawrth	12	Data rheolaethol yw hwn yn fwy na mesur perfformiad mewn gwirionedd, ond mae'n rhoi syniad bras o lwyth gwaith y tîm. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn bu'r tîm cyfan yn cydweithio â gwasanaethau eraill o'r Cyngor ac ymgynghorydd allanol ar brosiect i gyflawni gwelliannau yn y ffordd mae'r Cyngor yn dadansoddi, defnyddio a chyflwyno data. Bu hwn yn brosiect sylweddol sydd yn naturiol wedi golygu llai o gapasiti ar gyfer gwneud prosiectau eraill yn y cyfnod yma.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
AD01	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Nifer o ddyddiau salwch staff y pen yn y Cyngor ar gyfartaledd	Mawrth	12.94	Rydym wedi bod yn ymwybodol ers misoedd bellach fod lefelau absenoldebau salwch y Cyngor ar gynnydd. Gall hynny, yn rhannol, fod yn sgil gwell cofnodi yn dilyn cyflwyno system gofnodi gyfrifiadurol newydd ar ddechrau'r flwyddyn. Wedi dweud hynny, mae'r patrwm o gynnydd yn y lefelau yn un cyson ers sawl blwyddyn bellach, ac o ystyried yr amcangyfrif cost llynedd oedd yn deillio o absenoldebau salwch, heb son wrth gwrs am y pryder ynghylch iechyd a lles staff a'r pryder posib am wytnwch gwasanaethau, yna mae angen sefydlu cynllun pendant yn ystod 2025/26 i ymateb. Dyma'r camau cychwynol: 1. Mae'r sefyllfa wedi ei huchafu i lefel uchel yn y gofrestr risg corfforaethol erbyn hyn. 2. Bydd eitem yn dadansoddi lefelau salwch y Cyngor ac yn gosod allan gamau gweithredu yn cael ei chyflwyno yn nghyfarfod y tîm rheoli unai fis Mehefin neu Gorffennaf. 3. Ystyrir fod adnabod adnodd penodol i weithio'n llawn amser ar y cynllun ymateb yn angenrheidiol ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau fod y pwyslais priodol yn cael ei roi ar y sefyllfa. 4. O adnabod adnodd penodol fel swyddog prosiect, bydd y pwyslais ar fuddsoddi amser gyda rheolwyr ac arweinyddion timau i ddilyn prosesau a chynnal sgysiaau gyda staff yn amserol ac effeithiol. Dengys ymchwil yn y maes adnoddau dynol fod cynnal sgysiaau amserol ac effeithiol gyda staff, a dilyn prosesau'n gywir a chyson, yn arwain at ostyngiad mewn lefelau salwch dros amser. Mae yna lawer o waith da yn digwydd eisoes gan adrannau a nifer o wasanaethau cefnogol yn y maes hwn, ond mae'r sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd yn gofyn am ymyrraeth benodol i ychwanegu at hynny.
AD02	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Nifer penderfyniadau apeliadau sy'n cefnogi penderfyniad y cyflogwr (achosion cyflogaeth sydd yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Apel Cyflogaeth)	2024/25	3	Mae'r mesur hwn yn dangos faint o benderfyniadau mae'r pwyllgor apelau cyflogaeth yn eu cymryd sydd yn newid penderfyniad gwreiddiol swyddogion y Cyngor mewn perthynas ag achosion cyflogaeth. Gall gwaith y Pwyllgor hwn arwain at amlygu pryderon am benderfyniadau neu batrymau o ddigwyddiadau ac achosion o fewn y Cyngor yn gyffredinol neu adrannau penodol. Yn ystod 2024/25, bu i'r pwyllgor ymdin â tri achos, gyda dau o'r penderfyniadau hynny yn gyson â phenderfyniad gwreiddiol swyddogion y Cyngor. Caniatawyd un apêl, gan addasu penderfyniad gwreiddiol y cyflogwr.
AD03a	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Nifer dyddiau gymerwyd i gwblhau achosion disgyblaeth staff	Chwarter4	51.96	Yn ystod 2024/25 bu 117 achos disgyblu o'r newydd, ac ar hyn o bryd mae 97 o'r achosion hynny wedi eu cau. Mae'r graff yn dangos fod yna 5 o achosion dros y flwyddyn hyd yn hyn wedi mynd dros y terfyn uchaf ar gyfer cwblhau achosion. Byddwn fel tim yn y lle cyntaf yn edrych ar amgylchiadau'r achosion hyn a dod i gasgliad ynghylch a oedd yna unrhyw beth y gallem ni ddylanwadu arno er mwyn eu datrys ynghynt. Un pryder cyffredinol ynghylch achosion disgyblu ydi'r effaith ar lesiant staff, boed yn staff sydd yn wynebu honiadau, yn staff sydd yn cynnal ymchwiliadau, neu yn dystion. Yn eithaf diweddar mae bwrdd iechyd yn ne Cymru wedi cyhoeddi astudiaeth ar y pwnc, fel sail i geisio gwella prosesau. Wedi derbyn gwybodaeth ynghylch yr astudiaeth hon dros y bythefnos ddiwethaf, credwn y byddai o fudd i ni adolygu a dod i gasgliad ynghylch a oes unrhyw welliannau y gallwn eu cynnig i'n prosesau ni yma yn Nghyngor Gwynedd. Nid yw hynny'n golygu fod modd osgoi yr angen i gynnal achosion disgyblu bob tro, ac yn anffodus gall llawer o achosion fod yn gymhleth iawn, ond credwn fod angen o leiaf herio ein hunain fel cyflogwr ynghylch sut yr ydym yn delio â sefyllfaoedd o'r math.
AD03b	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Nifer achosion cwynion staff	Chwarter4	6	Ymdrinwyd â 15 o gwynion ffurfiol gan staff dros y flwyddyn 2024/25, gyda 6 achos yn cyrraedd yn ystod chwarter 4 y flwyddyn. Mae'r niferoedd hyn yn isel, o ystyried fod y ffigwr yn cynnwys y cwynion ffurfiol hynny sydd yn cael eu cyflwyno o fewn ein hysgolion, yn ogystal â gwasanaethau ehangach y Cyngor. Mae'r sylwadau sydd wedi eu rhoi yn yr adroddiad hwn ynghylch effaith prosesau ar lesiant staff mewn perthynas ag achosion disgyblu yn berthnasol ar gyfer prosesau cwynion hefyd, ac byddwn yn cydweithio â'r undebau llafur er mwyn gweld sut y gellir gwella prosesau yn y maes hwn lle'n bosib.

Teitl	Gwasanaeth	Enw Mesur	Cyfnod	Gwerth	Sylwad
AD04	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Nifer dyddiau i gwblhau arfarniad swydd	Chwarter4	34.96	Yn ystod 2024/25 derbyniwyd 147 o geisiadau gan reolwyr i gynnal arfarniadau cyflog swyddi, a chwblhawyd 126 o'r rheini. Mae'r amser i gwblhau arfarniadau yn parhau i amrywio, gyda'r cyfartaledd yn bron i 35 diwrnod. Wedi dweud hynny, mae'r graff yn dangos fod yna bum arfarniad a gymerodd lawer yn fwy o amser na hynny i'w datrys ac rydym fel tim eisoes wedi adolygu'r sefyllfaoedd hynny. Prif sgil effaith hynny i adrannau wrth fod yna oedi ydi eu gallu i newid swyddi / ailstrwythuro gwasanaethau, a gan ddeall pa mor bwysig yw hynny rydym fel tim yn ceisio blaenoriaethu yr arfarniadau hynny, weithiau ar draul unrhyw geisiadau i ol ddyddio addasiadau swyddi a newidiadau cyflog i staff unigol. Yn nghanol y galw ehangach sydd ar y Gwasanaeth hefyd, mae arfarniadau yn dueddol o gael y flaenoriaeth gyda'r isaf pan fo yna bwysau sylweddol ar y tim.
AD05	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Nifer asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi eu cwblhau o fewn y Cyngor	Chwarter4		Nid oes dim pellach i'w adrodd fel ffigyrau ar y mesur hwn, ac mae'r tim wedi dod i'r casgliad nad yw'r mesur, ar ei ffurf bresennol, yn cyfrannu yn effeithiol at ddeallt perfformiad yn y maes. Cytunwyd i gyflwyno mesur o'r newydd ar gyfer 2025/26 a fydd yn canolbwyntio ar gasglu barn swyddogion ar y defnydd y maent yn ei wneud ar asesiadau cydraddoldeb i wella penderfyniadau wrth ddatblygu polisiau a chynlluniau.
AD99	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Gweithgaredd arall y Gwasanaeth	Chwarter4		Wedi cyfnod o absenoldebau salwch a swyddi gwag yn sgil ymddiswyddiadau, mae'r Gwasanaeth bellach yn gweithio ar gapasiti llawn. Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd ynghlwm â dylunio a rhedeg sawl proses benodi ar brif swyddogion, o fewn y Cyngor ac yn rhanbarthol. Bu i'r swyddogion cydraddoldeb gynnal sesiwn hyfforddiant ar y maes cydraddoldeb i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn ddiweddar, gan dderbyn adborth ardderchog gan gynrychiolwyr y sefydliad hwnnw.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	19fed o Fehefin, 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Corfforaethol a Chyfreithiol
RHESWM DROS GRAFFU	Cyflwyno perfformiad y Gwasanaethau Cyfreithiol dros y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau fod Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib.
AWDUR	Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol
AELOD CABINET	Cynghorydd Llio Elenid Owen

GWASANAETH CYFREITHIOL

Nia Grisdale – Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol

Pwrpas : Darparu gwasanaeth cyfreithiol i'r Cyngor sydd yn ei alluogi i weithio yn effeithiol er budd pobl Gwynedd ”

% yn sgorio 5/5 neu Bodlon lawn gyda'r	% yn sgorio 5/5 neu Bodlon lawn gyda'r Gwasanaeth	% yn sgorio 5/5 neu Bodlon lawn gyda'r Gwasanaeth
2024 / 2025	2023 / 2024	2022/2023
96%	81%	100%

Sgôr	Canran	Ebrill	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chw	Maw	
Bodlon lawn 5	96%	6	1	*	*	*	6	6	7		9	17	14	64
Bodlon 4	4%										1	1	1	3
Gweddol Fodlon 3														
Anfodlon 2														
Anfodlon lawn 1														
Cyfanswm holiaduron wedi ei dychwelyd	27%	6	1				6	6	7	0	10	18	15	69
Nifer wedi ei yrru allan		7	2				13	21	63	35	40	56	15	252

Mae perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy geisio adborth yr Adrannau sydd yn derbyn gwasanaeth. Fe gloriannir barn yn erbyn graddfa 1-5 ar ffurf e-bost syml ac mae'r trefn fonitro wedi gwella. (5 = Bodlon lawn lawr i 1 = Hollol Anfodlon). Mae hefyd yn bosibl i adrannau ychwanegu

sylwad ynghyd a sgôr. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024 – 2025 hyd yma, mae'r sgôr yn uchel iawn yn rhagori ar 100% yn fodlon iawn neu yn fodlon gyda'r gwasanaeth. Gwelir fod y canran o fodlonrwydd llwyr wedi codi dros y misoedd diwethaf o'r flwyddyn ariannol sydd yn adborth bositif iawn. Rhaid nodi nad oes data ar gyfer 3 mis or flwyddyn oherwydd ein bod wedi symud darparwyr sustem rheoli achosion ac nad oedd yr holiaduron yn cael ei gyrru allan yn ystod y cyfnod yma.

Daethpwyd a system newydd o fod yn gofyn am adborth drwy lenwi holiadur ar e-bost i rym ers mis Mawrth 2024. Bu i broblemau technegol amharu ar y gwaith yma yn ystod cyfnodau o'r flwyddyn sydd wedi amharu ar y gwaith o gasglu data. Gwelir mai dim ond tua 14% or holiaduron sydd wedi cael ei dychwelyd sydd yn amlwg yn isel ond tros y flwyddyn mae gwaith wedi ei wneud ar hyrwyddo ac annog Cleientiaid i gwblhau ymatebion.

O ran yr ymateb sydd wedi ei dderbyn, mae'n galonogol fod nifer o sylwadau ychwanegol yn cael ei rhoi ar yr holiadur gan ymateb yn dweud:

"Hapus iawn gyda safon ac amseriad y gwasanaeth"

"Boddhaol iawn - diolch yn fawr"

"gwaith gyflym gyda dim problemau i adrodd. Hapus iawn."

"Gwasanaeth ardderchog unwaith yn rhagor"

"Gwasanaeth gwych fel arfer"

"Profiad da iawn o weithio gyda'r gwasanaeth i godi arwystl yn erbyn y grant. Braf gallu cau un cyswllt penodol o fewn y gwasanaeth"

"Profiad gwych, roedd y cyngor dderbyniais cyn rhyddhau'r cytundeb yn wych, ac wedi gweithredu ar selio'r ddogfen yn sydyn iawn. gwaith gret ac ar amser."

"Gwaith yn drylwyr ac wedi fy arwain drwy'r broses gan mai hwn oedd y tro cyntaf i mi ddelio gyda mater o'r fath. Canlyniad yr oeddwn i a'r cyhoedd wedi ei gyrraedd, oedd yn caniatáu i ni weithredu."

"Wedi ymateb i'r cais am Drwydded yn gyflym iawn a hynny yng nghanol cyfnod y Nadolig gyda gwyliau ayyb wedi eu trefnu. Y clientiaid ar yr ochr arall heb fod yn rhwydd i ddelio â nhw ond wedi delio hefo nhw yn wych a llwyddo i'w cael i lofnodi'r cytundeb."

Yn ogystal a'r holiadur ar ddiwedd pob achos, mae holiadur blynyddol wedi ei anfon i benaethiaid a swyddogion rheolaidd yr adran yn gofyn am ei barn ynglŷn ar gwasanaeth ar y cyfan. Cafodd yr holiadur ei anfon ganol Chwefror ac cafwyd tua 1/3 o ymatebion. Cafwyd atebion cadarnhaol iawn gyda phob ymateb yn dweud fod y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd yn dda neu yn dda iawn.

- Rydym yn derbyn cyngor a chymorth cyfreithiol ym materion moderneiddio addysg ac eiddo addysg, prydles ayyb
- Credu bod y cyswllt wedi gwella yn ddiweddar ac yn ymateb i'n cwestiynau yn gynt. Mae'r cyswllt yn gyfeillgar ac yn hawdd siarad gyda nhw. Mae'r arweiniad yn safonol a thrylwyr.
- Rwy'n teimlo ein bod yn derbyn gwasanaeth gwych - ymateb amserol a wastad yn gefnogol i'r gwasanaeth.
- Ardderchog, hynod gefnogol a gwerthfawr
- Dros y flwyddyn diwethaf wedi cael tipyn o gefnogaeth gan yr adran gyfreithiol a'r broses wedi bod yn hwylus iawn.
- Wedi bod yn help mawr gallu cael cyswllt gyda un cyfreithiwr ar gyfer yr holl gefnogaeth ac hyn wedi hwyluso pethau

- cefnogaeth ardderchog. ymateb prydlon a trwyadl.
- O ran awgrymiad sut i wella y gwasanaeth i'r dyfodol a beth yw'r heriau, cafwyd ymatebion i'w ystyried yn ogystal ac un cadarnhaol
- Yr her fwyaf yw eu capasiti ac mae amser weithiau rhwng ymatebion gan greu oedi, a fel mae'n digwydd mae gennym nifer o gwestiynau wedi codi y ddiwedder 'run pryd.
 - dim angen gwella
 - Bydd angen mwy o adnodd i ddelio gyda llwyth gwaith sydd i ddod gan yr adran yn y misoedd nesaf.

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn parhau i ddatblygu y Tim Cyfreithiol i greu gwytnwch o fewn y Tim

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r adran wedi bod yn rhan o Gynllun Yfory ers rhai blynnyddoedd ac wedi elwa o gyflogi hyfforddai sydd wedyn wedi symud ymlaen i gymhwyso ac yn gweithio o fewn yr adran fel cyfreithiwr. Pleser yw nodi fod yr hyfforddai sydd newydd gymhwyso fis Awst yma hefyd yn derbyn swydd o fewn yr adran gan lenwi swydd wag. (Swydd oedd ynghynt yn cael ei llenwi gan locwm)

Ymhellach, mae'r adran hefyd wedi manteisio ar y cynllun prentisiaeth ac wedi cyflogi prentis paragyfreithol cyntaf yr adran. Mae hyn y gweithio'n dda ac mae'r prentis wedi dechrau ar ei chymhwyster Paragyfreithiwr ac yn gymorth mawr i gyfreithwyr yr adran..

Mae peth newidiadau staffio wedi bod yn yr adran ond mae'r swyddi hynny wedi cael ymateb cadarnhad i hysbysebion swyddi sydd yn ddatblygiad positif iawn. Yn flaenorol roedd peth ddibyniaeth ar locwm oherwydd nad oedd ymateb gadarnhaol ar gyfer swyddi. Nid yw cyflogi locwm yn ddewis cyntaf oherwydd yr ansefydlogrwydd i gleientiaid yn ogystal a'u costau uchel. Bydd peth anwytho pellach yn digwydd dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd gweithlu sefydlog yn darparu'r gwasanaeth i'r adrannau'r Awdurdod i'r dyfodol.

Byddwn yn edrych i gwblhau gwaith wedi ildio achrediad Lexcel ar gyfer cynnal sustemau priodoldeb a safonau proffesiynol

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r adran bellach wedi ymgorffori sustem rheoli achosion newydd ac wedi edrych i gyfarch nodweddion o'r cymhwyster Lexcel a fyddai o fudd ar gyfer yr adran. Rydym yn edrych yn benodol ar ffurf o gefnogi ein gilydd drwy adborth cyd weithwyr ar achosion drwy adolygiadau ffeil (ildwyd yr achrediad fel arbediad) Nid oes bwriad i geisio am y cymhwyster Lexcel ond yn hytrach i ddefnyddio rhai or egwyddorion i ddatblygu y ffordd o weithio ac i gryfhau sustemau.

Be ydan ni wedi bod yn ei wneud, esiamplau:

2024 - 2025

- Cefnogi Gwaith Erthygl 4, adran cynllunio, risgiau her
- Achosion amddiffyn plant – nifer fawr yn ymwneud gyda anafiadau a cheisiadau am ofal 'secure'.
- Ymdrin a chynghori ar faterion cyflogaeth gan gynnwys gerbron Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

- Cefnogi sawl prosiect Strategaeth Tai – Pryniant o oddeutu 15 tŷ newydd dros gyfnod o 12 mis yn ogystal a Chynllun grantiau prynu tro cyntaf a addasu tai gwag yn brysur
- Cefnogi y gwaith ynghlwm a datblygu safleoedd masnachol a lle fasnachol ar y cyd gyda phartneriaethau eraill
- Wedi gweithredu cytundebau grant i helpu cwmnïau a sefydliadau i brynu adeiladau a uwchraddio rhai eraill yng Nghaernarfon
- Adnewyddu prydlesi ar draws y Sir
- Wrthi yn gweithio ar 'Joint Venture' Parc Busnes Eryri ar y cyd hefo Llyw Cymru
- Ymdrin a cheisiadau DOLS o flaen y Llys Gwarchod .
- Casglu dyledion Gwasanaethau Cymdeithasol (£800k wedi dod i mewn dros 18 mis)
- Nifer o erlyniadau gan gynnwys materion amgylchedd a chynllunio, materion iechyd a diogelwch, a hefyd rhieni sy'n methu sicrhau presenoldeb eu plant mewn ysgol;
- Gorchmynion Traffig
- Paneli Apêl Addysg
- Gorchmynion wrth newid rhwydwaith hawliau cyhoeddus o fewn y sir.
- Cyngori ar Ddeddfwriaethau newydd – Deddfwriaeth Caffael 2023; Prosesau Arbennig o dan Ddeddf Iechyd Gyhoeddus;
- Memorandwm o Ddealltwriaeth Ymddiriedolwyr Amgueddfa Lloyd George

PRIODOLDEB

Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro.

Pwrpas : Cynnal hyder pobl Gwynedd yn y Cyngor drwy sicrhau a hyrwyddo priodoldeb ei weithgareddau a'r safon uchaf o ymddygiad ymhlith cynghorwyr .

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau y Cyngor o safbwynt sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddiaeth.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r gwaith yma yn barhaol ond yn benodol bwriedir cynnal cyfres o seminarau "Penderfyniadau Da" o Hydref ymlaen. Amcan y cyrsiau yw esbonio hanfodion penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus ynghyd a'r fframwaith gyfansoddiadol a rheoleiddio sydd ynglŷn a'r maes yma. Mae peilot wedi ei gynnal ac ymateb yn gadarnhaol ac mae bellach ar y fframwaith hyfforddi .

Rydym yn darparu sylwadau a barn ar bob adroddiad Cabinet a Chyngor Lawn er sicrhau priodoldeb cyfreithiol a chyfansoddiadol ynghyd a chynghori yn gyffredinol ar faterion megis y corff penderfynu cywir a materion polisi a strategol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau ynghyd a swyddogion perthnasol i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae trefniadau ar gyfer gweithredu y dyletswydd arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn lle ond amlygwyd angen i ail sefydlu ffocws ar y gwaith .

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Safonau , y Swyddog Monitro ac Arweinydd newydd y Cyngor ym Mis Ionawr. Amcan y cyfarfod oedd cyflwyno y trefniadau a chael trafodaeth ar y gofynion a chefnogaeth..

Gwahoddwyd Arweinyddion Grwpiau i gyfarfod Chwefror o'r Pwyllgor Safonau i gyfrannu at drafodaeth ynglŷn a'r dyletswydd i hyrwyddo a chefnogi gweithredu y dyletswyddau newydd. Cafwyd cyfle i ail rannu y trefniadau, y meini prawf a threfniadau adrodd. Mae hyn yn caniatáu i symud ymlaen at yr broses o adrodd ar y cyflawni ar gyfer yr Adroddiad Blyneddol.

Byddwn yn cwblhau gwaith o hyfforddi aelodau Cyngor Gwynedd mewn materion Cod Ymddygiad drwy gynnig sesiynau hyfforddiant manwl ar y Cod i aelodau sydd heb fynychu.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Cynhaliwyd cyrsiau yn Rhagfyr a Ionawr a darparwyd recordiad hefyd at ddefnydd yr aelodau sydd ar gael ar lein gyda prawf i'w gwblhau . Mae yn un o'r cyrsiau creiddiol ond mae yna dal aelodau nad ydynt wedi manteisio ar y cwrs ac mae hyn yn cael ei drafod gyda Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol unigol er tynnu sylw ac annog yr aelodau i gwblhau yr hyfforddiant.

Byddwn yn cefnogi y Pwyllgor Safonau i ddatblygu trefniadau i weithredu ei gyfrifoldebau tuag at Gynghorau Tref a Chymuned drwy gynnig sesiynau hyfforddiant.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Bu i'r Pwyllgor Safonau gynnal arolwg o'r cyd berthynas gyda Cynghorau Tref a Chymuned ac adnabod fod angen symud i gryfhau y bartneriaeth yma. I gyfarch hyn mae cwrs hyfforddiant rhithiol wedi ei baratoi ar eu cyfer a cynhaliwyd dau gwrs cychwynnol erbyn diwedd y flwyddyn gyda cynnig ar lein hefyd ar gael. Bydd y ddarpariaeth yma yn gynnig sefydlog i'r Cynghorau Tref a Chymuned wrth symud ymlaen .

Byddwn yn adolygu a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cefnogi gofynion ar y Gwasanaeth sydd yn deillio o waith rhanbarthol

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Wrth i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd symud i fod yn weithredol mae cynnydd ar draws y bwrdd mewn gofyn am adnoddau. Mae'r cyfnod cyfredol yn benodol heriol oherwydd fod nifer o elfennau o waith y CBC yn dod yn weithredol yn ystod y c chwarter cyfredol . Yn ogystal mae llywodraethau y DU a Chymru ar cyd wedi gosod cyfrifoldeb corff atebol rhanbarthol am y Parth Buddsoddi (Investment Zone) Siroedd Fflint a Wrecsam) ar y CBC. Roedd y Gwasanaeth a rôl arweiniol yn sicrhau trosglwyddiad Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r CBC. Mae hyn wedi creu llwyfan i symud i gyfundrefn CLG tymor hir a rhyddhau adnoddau i recriwtio. Mae'r adnoddau ariannol mewn lle yng nghyllideb y Cyd Bwyllgor Corfforedig a bwriedir symud ymlaen i recriwtio swydd Cyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro CBC.

Byddwn yn cwblhau y prosiect ar adolygu trefniadau pleidleisio y Cyngor erbyn 15 Tachwedd 2024.
Petai penderfyniad i symud gyfundrefn PSD byddwn yn cefnogi camau canlynol.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Adroddwyd i'r Cyngor Llawn yn Rhagfyr 2023 ble penderfynwyd symud i broses ymgynghori . Mewn cyd weithrediad a'r Gwasanaethau Corfforaethol trefnwyd a chynhaliwyd proses ymgynghori yn unol a'r Deddfwriaeth. Cynhaliwyd Cyngor Arbennig ar y 25ain o Hydref 2024 i benderfynu ar y gyfundrefn Ni lwyddodd y cynnig i gyrraedd y rhiniog statudol sef o 'leiaf 46 pleidlais o blaid symud i PSD. Fodd bynnag llwyddwyd i sefydlu a chynnal proses oedd yn cyfarch y gofynion statudol a chyfreithiol.

Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r Cyfansoddiad erbyn 31 Rhagfyr 2024 yn ystod y ddau er sicrhau ei fod yn parhau yn gyfredol ac yn addas i bwrpas.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Adolygwyd y Cyfansoddiad yn ystod y Flwyddyn drwy daflenni penderfyniad a phenderfyniadau Cyngor Llawn.

Cwblhawyd y gwaith gan y Tim Cyfreithiol ar adolygu trefniadau dirprwyo o fewn Adran Amgylchedd. Golygai hyn adolygu rhestr sylweddol o ddeddfau, eu diweddarau a byd taflen benderfyniad Arweinydd yn cael ei baratoi.

Adolygwyd y rheoliadau dirprwyedig o amgylch Is Bwyllgorau Trwyddedu er rhesymoli y trefniadau a nifer o wrandawiadau.

Paratowyd Rheolau Gweithdrefn Cytundebau drafft yn ymateb i ofynion newydd yn deillio Ddeddf Caffael 2023

Cyflwynwyd y Rheolau Contractau newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am eu sylwadau a barn yn dilyn newidiadau yn y gyfundrefn statudol yn deillio o Ddeddf Caffael 2023 . Mabwysiadwyd y newidiadau gan y Cyngor ym Mawrth 2024.

Rhaid cydnabod fod y gwaith yma yn lled barhaol ac yn ymateb i ofynion sydd yn newid hefyd.

Be yda ni wedi bod yn ei wneud, esiamplau:

- Cynghori ar bob adroddiad Cabinet a Cyngor
- Cefnogi a chynghori ar faterion cyfansoddiadol sydd yn codi yn ôl yr angen
- Rhoi arweiniad priodoldeb ar faterion Tim Arweinyddiaeth
- Adolygu y Cyfansoddiad yn benodol swyddogaethau Cyngor Llawn ac Asesiad Perfformiad Panel
- Cyfrannu at waith llywodraethant Cronfa Ffyniant Gyffredin a Ffyniant Bro
- Cynghori ar faterion Ysgol Uwchradd benodol
- Bwrdd Uchelgais -cynghori ddod a OBC ac FBC prosiectau i benderfyniad
- Ymateb i gynnydd mewn cyflymder dod a prosiectau ymlaen yn sgil adolygiad o waith y Swyddfa Portffolio

- Trefnu gwaith cytundebol o amgylch y trosglwyddiad or' CBC
- Arwain ar y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Craffu rhanbarthol ar gyfer y CBC
- CBC – cynghori ar lywodraethant sefydlu Cyfansoddiad newydd ar gyfer y corff –Dechrau gwaith ar baratoi at drosglwyddiad BUE i CJC
- GwE – Dirprwy Swyddog Monitro yn cynrychioli SM yn GwE
- Moderneiddio Addysg - cynghori ar y prosiectau amrywiol

ETHOLIADAU A CHOFRESTRU ETHOLIADOL

Siôn Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

Pwrpas : Sicrhau fod gan bobl Gwynedd y cyfle i bleidleisio'n hwylus, a bod eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd y maent yn ei fwriadu.

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn gweithio i gefnogi'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn benodol yn cyfarch:

Cynnal Etholiadau

Beth sydd wedi ei gyflawni ?

Cynhaliwyd dau etholiad yn ystod yn flwyddyn:

Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd – 2il o Fai 2024

Gweithredwyd y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022 am y tro cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i gyflwyno dogfen adnabod ffotograffig wrth bleidleisio mewn gorsaf, anghenion newydd a phroses newydd ar-lein ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost a rheolau i gyfyngu ar y modd y gellir cyflwyno pleidleisiau post drwy law.

Etholiad Cyffredinol y DU – 4ydd o Orffennaf 2024

Galwyd yr etholiad ar fyr-rybudd (22-05-24). Roedd newidiadau Deddf 2022 yn berthnasol i'r etholiad hwn ond roedd rhaid hefyd sefydlu trefniadau traws-ffiniol newydd gyda chynghorau Conwy a Dinbych fel canlyniad i'r etholaethau newydd.

Paratoi ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2026

Bydd yr etholiad yn cael ei gynnal ar sail etholaethau newydd a chan ddefnyddio system bleidleisio newydd. Bydd yr etholaeth newydd 'Gwynedd Maldwyn' yn gyfuniad o etholaethau seneddol y DU Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn a Glyndŵr, ac yn cynnwys rhannau o ardaloedd pedwar awdurdod lleol. Rydym yn disgwyl mai Prif Weithredwr Gwynedd fydd yn cael ei benodi fel y Swyddog Canlyniadau a bydd

goblygiadau sylweddol i'r gwasanaeth yn sgil maint daearyddol yr etholaeth, nifer y pleidleiswyr a'r trefniadau traws-ffiniol angenrheidiol. Mae'r gwaith cynllunio wedi cychwyn yn ogystal ag archwiliad o'n hadnoddau. Bydd angen sefydlu trefniadau traws-ffiniol pellach mewn perthynas â'r rhan hynny o Wynedd fydd yn etholaeth 'Bangor Conwy Môn'.

Cynnal Adolygiad Mannau Pleidleisio.

Beth sydd wedi i gyflawni ?

Tra bod adolygu mannau pleidleisio yn broses barhaus a phob etholiad yn rhoi'r cyfle i asesu addasrwydd gorsafoedd , mae'n ofynnol cynnal adolygiad statudol bob pum mlynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf rhwng mis Medi a Tachwedd 2024 a chyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2024, a gymeradwyodd canlyniad yr adolygiad.

Cynnal Arolwg Cymunedol Statudol

Byddwn yn cynnal proses Arolwg Cymunedol Statudol gan edrych ar ffiniau rhai cymunedau penodol a'r trefniadau etholiadol (wardiau a chynghorwyr) o fewn y cymunedau ar draws y sir.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Yn dilyn gwaith cychwynnol o gasglu a chlориannu gwybodaeth ac ymgysylltu cymeradwywyd y bwriad a'r cylch gorchwyl i gynnal adolygiad cymunedol ac adolygiad o drefniadau etholiadol yn gyfochrog. Ers hynny cynhaliwyd y camau statudol canlynol:

- Tachwedd/Rhagfyr 2024 – Cyfnod ymgynghori cyntaf ar y cylch gorchwyl
- Mawrth 2025 - Cymeradwyo cynigion drafft
- Mawrth – Mai 2025 - Cyfnod ymgynghori ar y cynigion drafft

Y camau nesaf

Bwriedir Cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2025 Bydd rhaid i unrhyw newidiadau i ffiniau cymunedau dderbyn cymeradwyaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd a'r grym i wneud y gorchymyn angenrheidiol. Bydd y newidiadau yn dod rym yn 2027 mewn pryd ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf.

Cynllun Peilot Cofrestru Awtomatig Llywodraeth Cymru

Rydym wedi gwirfoddoli i fod yn un o'r pedwar awdurdod ar draws Cymru sy'n rhan o'r cynllun. Mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 wedi cyflwyno system cofrestru etholiadol heb gais ('cofrestru awtomatig') ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a Senedd Cymru, ond rhaid i'r drefn gael ei threialu cyn gall ddod i rym ar gyfer Cymru gyfan er mwyn asesu'r goblygiadau ymarferol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru etholwyr heb dderbyn cais, lle bydd ganddynt fanylion digonol . Bydd unigolyn cymwys yn derbyn hysbysiad ac yn cael cyfle i wrthwynebu i'r cofrestriad o fewn 60 diwrnod.

Beth sydd wedi ei gyflawni ?

Mae dwy brif ffrwd i'r gwaith.

1. Y broses graidd o gasglu a pharu data i adnabod unigolion a'u cofrestru.

2. Adnabod ac ymgysylltu ag unigolion na fydd y broses paru data yn debygol o'u hadnabod, a'u hannog a'u helpu i gofrestru. **Mae cwmni 'Small Axe' yn arwain ar y gwaith yma ar ein rhan.** Maent yn adnabod ardaloedd a grwpiau lle mae'r 'bwlch cofrestru' fwyaf ac yn gweithio gyda'r grwpiau a mudiadau perthnasol yn y gymuned i ddatblygu adnoddau a dulliau i gyrraedd y bobl yma. Byddant hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol gydag unigolion a'u cynorthwyo i gofrestru. Dim ond Gwynedd sy'n gwneud yr agwedd hon.

Amserlen

Cyfnod y peilot yn yw rhwng Ionawr a Rhagfyr 2025 gyda'r gweithgareddau cofrestru ac ymgysylltu yn digwydd rhwng Mehefin a Medi. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn mynd ati i gloriannu cynaniadau'r peilot.

CRWNER

Sion Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

Cefndir

Mae Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Gwynedd a Môn. Ariannir y gwasanaeth ar y cyd gan y ddau awdurdod, ond Gwynedd sy'n cymryd y rôl arweiniol fel yr 'awdurdod perthnasol' statudol. Mae hyn gosod dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau adnoddau digonol i'r gwasanaeth. Y Cyngor sy'n penodi ac yn talu'r Uwch Grwner a'r Crwneriaid Cynorthwyol. Yr Uwch Grwner sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ei hun. Mae heddlu Gogledd Cymru yn darparu 'Swyddogion Crwner' sy'n cysylltu gyda theuluoedd, yr heddlu, tystion, meddygon, staff ysbyty ayyb ar ei rhan.

Kate Robertson yw'r Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol yw Sarah Riley. Rydym yn cyflogi un aelod o staff llawn amser fel cymhorthydd personol i'r Crwner gyda chefnogaeth ychwanegol yn dod o'r Uned Weinyddol a'r Uned Etholiadau.

Byddwn yn parhau i ddarparu a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Crwner

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Rydym wedi parhau i weithio i gryfhau'r gefnogaeth weinyddol, drwy edrych ar brosesau penodol a datblygu profiad a sgiliau o fewn yr Uned Weinyddol. Rydym hefyd wedi bod yn adolygu'r trefniadau gyda'r trefnwyr angladdau sy'n gweithio ar ran y Crwner gan gynnwys cynnal cyfarfod i roi cyfle iddynt i godi unrhyw faterion gyda'r Crwner, yr Heddlu (sy'n gyfrifol am alw'r ymgymerywyr allan i farwolaethau) a'r awdurdod.

Er bod cytuno ar gyflog yn fater i bob Uwch Grwner a'u (h)awdurdod yn unigol, yn ymarferol mae hyn wedi bod yn digwydd drwy Gyd-bwyllgor Negodi i Grwneriaid, lle cynrychiolir ochr yr awdurdodau lleol ac

ochr y crwneriaid, sydd wedi cytuno ar fodel a graddfa tâl ar gyfer Cymru a Lloegr ac ar y cynnydd tâl blynyddol. Ym mis Mawrth eleni cyhoeddwyd fod ochr y crwneriaid wedi tynnu yn ôl o'r Cyd-bwyllgor am eu bod o'r farn nad yw bellach yn ddull priodol o osod eu cyflogau. Bydd angen felly gweithio i benderfynu ar y ffordd ymlaen i sefydlu trefniadau newydd.